Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru

2020-2021




**llyw.cymru**

## Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Paratoir cyfrifon Llywodraeth Cymru yn unol ag Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021, ynghyd â Thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru arnynt.

Fe'u gosodir gerbron Senedd Cymru yn unol ag Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG42939, ISBN digidol 978-1-80391-367-4

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg



**Shan Morgan**
Yr Ysgrifennydd Parhaol

# Trosolwg[1]

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r cyfrifon cyfunol hyn ar ran Llywodraeth Cymru.

Maent yn cwmpasu'r hyn a fu, yn ddi-os, yn un o'r cyfnodau mwyaf cythryblus y mae Cymru, y DU a'r byd cyfan wedi ei weld erioed. Bu ymdrin ag effaith bellgyrhaeddol pandemig byd-eang COVID-19, ynghyd ag ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn her ar raddfa nad oes yr un ohonom wedi'i gweld o'r blaen. Bu'n gyfnod digynsail, anghyfarwydd, ansicr ac, i ormod o bobl yng Nghymru, yn un trychinebus.

Mae ein hymateb i'r pandemig wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael â phedwar niwed: COVID-19 ei hun, y gostyngiad mewn gweithgarwch nad yw'n ymwneud â COVID-19, GIG a system gofal cymdeithasol a allai gael eu gorlethu o bosibl, a'r effeithiau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Mae hyn wedi cyffwrdd â bron bob agwedd ar ein gwaith, o recriwtio staff meddygol ychwanegol a phrynu cyfarpar diogelu personol i gau ysgolion a'u hailagor yn ddiogel ac amrywiaeth o becynnau cymorth economaidd.

Ym mis Hydref 2020, comisiynais ymarferiad Cloriannu a Gwersi a Ddysgwyd cyflym ar draws Llywodraeth Cymru er mwyn ystyried ymateb cyffredinol y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru yn ystod cyfnod cyntaf y pandemig. Mae'n bleser mawr gennyf ddweud iddo nodi llawer o bethau cadarnhaol, gan gynnwys cydweithio traws-grŵp cadarn rhwng cydweithwyr gweithredol, cyfathrebu a pholisi, hyblygrwydd a gwydnwch y staff wrth ymateb i ofynion newidiol y pandemig, a'r lefel fwyaf erioed o ddeialog ac ymgysylltu yn y sector cyhoeddus.

Er bod y brechlyn wedi cynnig llygedyn o obaith, mae tipyn o ffordd i fynd o hyd cyn y gallwn deimlo'n hyderus bod ein cymunedau yng Nghymru yn ddiogel rhag y feirws a mwy o ffordd eto nes y bydd modd mynd i'r afael ag effeithiau ehangach y pandemig ar iechyd, yr economi a diwylliant yn llawn.

Un o'r heriau anoddaf a wynebwyd gennym yn ystod y pandemig fu'r angen i ymaddasu'n gyflym i'r blaenoriaethau mwyaf allweddol. Mae'r grwpiau wedi gwneud gwaith aruthrol i symud pobl i'r meysydd hynny lle y bu eu hangen fwyaf. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r holl reolwyr a staff hynny a ymatebodd mor hyblyg i gyfres o bwysau na welwyd ei thebyg o'r blaen.

1 Shan Morgan oedd yr Ysgrifennydd Parhaol tan 31 Hydref 2021

Mae'r ymadawiad â'r UE wedi parhau i effeithio ar rychwant eang o'n gwaith. Daeth y cyfnod pontio i ben ac ymrwymodd Llywodraeth y DU i gytundeb â'r UE ynglŷn â'n perthynas yn y dyfodol. Rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i ymbaratoi a diogelu buddiannau Cymru a'i phobl.

Rydym wedi gweithio gyda diwydiant, y GIG a llywodraeth leol yng Nghymru i sicrhau bod digon o gyflenwadau o nwyddau hanfodol wrth gefn yng Nghymru, gan weithio'n agos gyda llywodraeth y DU ar waith cynllunio wrth gefn a lleihau'r risg o darfu a phrinder bwyd, meddyginiaethau a nwyddau hanfodol eraill yng Nghymru. Rydym wedi parhau i ddatblygu a chyfleu ein cynlluniau ar y cyd â phartneriaid allweddol yn y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth yn ystod y cyfnod hwn o bwysau aruthrol. Rydym, wrth gwrs, yn parhau i reoli'r risgiau byw yn sgil diwedd y cyfnod pontio.

Er bod llawer o'n gwaith dros y 12 mis diwethaf wedi canolbwyntio, wrth reswm, ar COVID-19 ac ymadael â'r UE, nid ydym wedi colli golwg ar gynhwysiant. Mae effaith anghymesur COVID-19 ar ein cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn achos pryder mawr ac yn dangos na ellir byth ystyried y materion hyn ar wahân i'w gilydd.

Rwy'n hynod falch o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyflawni dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn y sefydliad. Ym mis Mawrth, lansiwyd 'Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021-2026'. Mae'n ffrwyth misoedd o ymdrech, sy'n crisialu ein hagenda uchelgeisiol i'r sefydliad yn ddull gweithredu clir a mesuradwy sy'n nodi ein cyfeiriad dros y pum mlynedd nesaf.

Yn wyneb y digwyddiadau byd-eang yn 2020 a'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, ysbrydolwyd ein rhwydweithiau amrywiaeth i gynnal eu hymchwil eu hunain i brofiadau cyflogeion o hil, rhywedd a chroestoriadedd yn y gweithle a lansiwyd yr adroddiad 'Rhedeg i Ddannedd y Gwynt'[2] sy'n canolbwyntio ar brofiadau staff o hil, rhywedd a chroestoriadedd yn y sefydliad. Manteisiwyd hefyd ar waith ar Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Cymru i ddatblygu ein polisïau a'n blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Fy nod yw bod Llywodraeth Cymru yn esiampl o sefydliad gwirioneddol wrth-hiliol.

Mae'n rhaid i amrywiaeth a chynhwysiant fod wrth graidd pwy ydym ni fel llywodraeth – sut y gallwn gynnig y polisïau a'r gwasanaethau gorau i bobl yng Nghymru os nad ydym yn cynrychioli'r boblogaeth? Dyna pam rydym wedi pennu nodau uchelgeisiol ar gyfer recriwtio ac allgymorth, sy'n ein helpu i ddatblygu gweithlu cadarn ac amrywiol i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

---

2 Adroddiad Rhedeg i Ddannedd y Gwynt
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-03/rhedeg-i-ddannedd-y-gwynt.pdf

Oherwydd y pandemig, cawsom ein gorfodi i wneud rhai newidiadau radical ar unwaith o ran sut a ble roeddem yn gweithio. Hoffwn ddiolch nid yn unig i'n staff am gyflymder a phroffesiynoldeb y trefniadau gweithio newydd hyn, ond hefyd i'w teuluoedd. Rwy'n gwerthfawrogi pa mor anodd fu hyn i rai, a hoffwn ddiolch i chi i gyd.

Rwyf wedi comisiynu gwaith ar dair strategaeth ryngysylltiedig er mwyn helpu Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Bydd Strategaeth Gweithlu'r Dyfodol, Strategaeth Gweithle'r Dyfodol a'r Strategaeth Ddigidol yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ein pobl, dylunio ein lleoedd ac yn buddsoddi mewn adnoddau a fydd yn ein cefnogi fel sefydliad amrywiol, cynhwysol ac uchel ei berfformiad sy'n esiampl o fewn gwasanaeth cyhoeddus 'Cymru'n Un'.

Wrth gwrs, er mwyn i hyn ddigwydd, bydd angen inni barhau i fuddsoddi yn ein TGCh. Mae gweithio o bell yn ystod y pandemig wedi codi disgwyliadau'r staff y bydd adnoddau digidol modern ar gael iddynt er mwyn eu helpu i wneud eu gwaith. Hefyd, rydym am gyflwyno gwasanaethau digidol integredig sy'n sicrhau effeithlonrwydd yn y ffordd rydym yn gweithio fel sefydliad.

Mae canlyniad etholiadau Senedd Cymru yn golygu bod gennym Gabinet newydd sydd â mandad clir a Rhaglen Lywodraethu newydd uchelgeisiol o'n blaenau. Bydd y flwyddyn nesaf yn un gyffrous a heriol wrth inni helpu Gweinidogion i gyflawni eu blaenoriaethau dros Gymru mewn cyd-destun cymdeithasol ac economaidd gwahanol iawn i'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl cyn y pandemig neu cyn ymadael â'r UE. Fodd bynnag, rwy'n ffyddiog y gall y sefydliad hwn ateb yr her honno, a hynny'n llwyddiannus â'i holl galon.

Hon yw'r gyfres olaf o gyfrifon blynyddol y byddaf yn eu llofnodi fel Ysgrifennydd Parhaol. Bu'n fraint enfawr arwain Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn y gwaith o gynorthwyo Gweinidogion a gwasanaethu pobl Cymru yn y rôl hon. Rwyf mor falch o'r ffordd y mae'r Gwasanaeth Sifil wedi perfformio drwy gydol fy nghyfnod fel Ysgrifennydd Parhaol ac yn enwedig yn ystod y cyfnod diweddar. Bu ymrwymiad, diwydrwydd a phroffesiynoldeb pobl ar bob lefel o'r sefydliad yn hynod. Dymunaf bob llwyddiant i'm holynydd ar gyfer y dyfodol.

**Shan Morgan**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol**

27 Hydref 2021

# Cyflwyniad gan Gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru

Diben Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru drwy gydol y flwyddyn fu parhau i roi cymorth a chyngor i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar faterion sy'n ymwneud â rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethiant, yn unol â'r egwyddorion a'r canllawiau yn Llawlyfr Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Trysorlys EM.

Yn erbyn cefndir o bandemig byd-eang, argyfwng iechyd cenedlaethol ac ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE), daeth materion ynglŷn â risg, rheolaeth fewnol a llywodraethiant yn hollbwysig mewn ffordd na welwyd ei thebyg o'r blaen o fewn cof yr oes hon o bosibl.

Er gwaethaf maint yr heriau a gododd o'r amgylchiadau hyn, mae'n bleser gennyf nodi bod swyddogion ar bob lefel wedi dangos yr ymrwymiad i weithio y tu hwnt i'r hyn y gellid bod wedi ei ddisgwyl er mwyn ymateb i'r heriau yn uniongyrchol.

At hynny, bu swyddogion yn gweithio'n ddiflino ac yn greadigol i sicrhau bod cyn lleied o darfu â phosibl ar weithrediad effeithiol Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru a Phwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg y Grwpiau. Er i adnoddau archwilio mewnol gael eu defnyddio, o anghenraid, ar fesurau i ymateb i COVID-19, serch hynny, llwyddwyd i ymgymryd â chryn dipyn o weithgarwch archwilio mewnol, ond wedi'i gwtogi, ar faterion nad oeddent yn ymwneud â COVID-19.

Yn naturiol ddigon, roedd goblygiadau uniongyrchol a byrdymor y pandemig COVID-19 yn chwarae rhan fawr yn yr asesiadau risg ehangach a oedd yn cael eu cynnal yn rheolaidd drwy'r sefydliad cyfan. Sylweddolodd uwch-arweinwyr Llywodraeth Cymru yn gynnar iawn y byddai angen i'r broses o wneud penderfyniadau'n gyflym mewn amgylchiadau mor heriol a digynsail gael eu haddasu'n briodol yn unol â'r risg. O ganlyniad, cafodd dull diwygiedig o barodrwydd i dderbyn risg mewn perthynas â materion COVID-19 ei gyfleu'n briodol ar draws y sefydliad. Roedd hyn ar ei amlycaf wrth i gymorth ariannol gael ei ddarparu i fusnesau a sefydliadau ledled Cymru.

Craffwyd ar risgiau penodol COVID-19 drwy'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a'u rheoli ac ar lefel Grŵp wrth i'r pandemig ddatblygu. Tua diwedd y flwyddyn, datblygwyd Cofrestr Risg Gorfforaeth benodol ar gyfer COVID-19 er mwyn sicrhau bod risgiau trawsbynciol lluosog drwy'r sefydliad cyfan yn cael eu rheoli. Parhaodd cofrestrau risg y Grwpiau unigol i weithredu'n effeithiol ac o dan drefniadau craffu Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg y Grwpiau.

Roedd yr ymateb i COVID-19 hefyd yn gofyn am ddefnyddio dulliau llywodraethu newydd, priodol a phenodol. Craffwyd ar y rhain gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru ac, yn wir, Fwrdd Llywodraeth Cymru.

Er i gyfarfodydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru a Phwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg y Grwpiau ym mis Ebrill 2020 gael eu canslo o ganlyniad i'r pandemig, cyfarfu Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg Llywodraeth Cymru chwe gwaith yn ystod 2020-21 a chyfarfu Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg y Grwpiau deirgwaith a chafwyd gweithgarwch craffu a thrafod o lefel a safon arbennig o dda. Yn ogystal â'r cyfarfodydd ffurfiol hyn, cynhaliwyd cyfarfodydd briffio ychwanegol rhwng Cyfarwyddwyr Cyffredinol a chadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Rheoli Risg y Grwpiau.

Mae'n bleser mawr gennyf nodi i ymgysylltu uwch-swyddogion barhau i fod yn dda iawn drwy gydol y flwyddyn er gwaethaf y pwysau enfawr ar eu llwyth gwaith a'r amser a oedd ar gael. Roedd cynrychiolwyr o Archwilio Cymru hefyd yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, gan ymgysylltu â gwaith y pwyllgor mewn ffordd adeiladol a brwdfrydig. Mae'n bleser gennym nodi hefyd i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru a Phwyllgorau Archwilio a Rheoli Risg y Grwpiau barhau i gael eu cynorthwyo gan yr ysgrifenyddiaeth a swyddogion gweithredol priodol mewn ffordd effeithiol ac ymatebol.

Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn amodol ar gyfrifon Llywodraeth Cymru y flwyddyn diwethaf ar sail gwahaniaeth barn â swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch dehongli safon gyfrifyddu IAS 37. O ganlyniad, caiff barn amodol ei rhoi'n awtomatig ar gyfrifon y flwyddyn hon hefyd. Mae dehongli a chymhwyso IAS 37 wedi achosi problem gyfrifyddu i'r sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol ac felly mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ceisio arweiniad gan y Corff Cynghori ar Adrodd Ariannol (FRAB). Ar ddyddiad yr adroddiad hwn, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ystyried arweiniad pellach y gofynnwyd amdano ac a gafwyd gan Drysorlys EM. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad nad oes angen unrhyw newidiadau yn y ffordd y mae'r sefydliad wedi cymhwyso IAS 37.

Eleni, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi amodi ei farn archwilio ar gyfrifon Llywodraeth Cymru ar sail dau fater. Mae'r cyntaf yn ymwneud â gwahaniaeth barn ynglŷn â'r driniaeth gyfrifyddu o gostau amcangyfrifedig yn deillio o'r Cyfarwyddyd Gweinidogol ar dreth pensiynau uwch-glinigwyr. Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol dylid bod wedi adlewyrchu'r costau amcangyfrifedig yn natganiadau ariannol 2020-21. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cynnwys rhwymedigaeth ddigwyddiadol ar gyfer y costau amcangyfrifedig yn nodyn deuddeg yn y datganiadau ariannol gan fwriadu gwneud darpariaeth ar gyfer y costau yn natganiadau ariannol 2021-22 er mwyn parhau i fod yn gyson â chyfrifon Cyrff y GIG yng Nghymru.

Mae'r ail yn ymwneud ag effeithiau posibl taliad a wnaed i'r cyn Ysgrifennydd Parhaol. Ym marn Archwilydd Cyffredinol Cymru nid yw wedi gallu cael gafael ar dystiolaeth archwilio ddigonol ynghylch trefniadau gweithio'r cyn Ysgrifennydd Parhaol ac elfen o'r taliad a wnaed. Mae cefndir trefniadau gweithio'r cyn Ysgrifennydd Parhaol a'r taliad a wnaed wedi'i nodi yn Natganiad Llywodraethiant yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn ar dudalennau i.

Adeg llofnodi'r cyflwyniad hwn mae'n dda nodi bod pandemig COVID-19 wedi dechrau cilio yn sylweddol, er nad yw'r bygythiad wedi diflannu'n llwyr. Mae'r cofrestrau risgiau ar draws Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro COVID-19 mewn modd cadarn ac yn wir risgiau difrifol byd-eang newydd sy'n dod i'r amlwg yn 2022.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i gynnig llongyfarchiadau gwresog ar ran y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i bawb sy'n gweithio yn GIG Cymru, neu'n ymwneud ag ef, ar ôl i'r sefydliad dderbyn Croes y Brenin Siôr yn ddiweddar gan Ei Mawrhydi y Frenhines am y gwaith a wnaed yn ystod pandemig COVID-19 – teyrnged i'r hyn y gellir ei gyflawni gyda'n gilydd mewn amgylchiadau anodd tu hwnt.

Hoffwn hefyd achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r archwilwyr, yr holl uwch-swyddogion a'r ysgrifenyddiaeth am eu cymorth o hyd i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru a Phwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg y Grwpiau wrth ymgymryd â'u gwaith.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r cyn Ysgrifennydd Parhaol am ei gweledigaeth glir a'i harweinyddiaeth gynhwysol wrth arwain Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru dros y pedair blynedd a hanner diwethaf. Mae arwain sefydliad mawr a chymhleth yn rôl anodd a heriol dan amgylchiadau arferol. Fe wnaeth yr heriau ychwanegol a gododd yn sgil pandemig byd-eang ac ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd achosi heriau lluosog a digynsail i'r sefydliad cyfan. Cafodd y rhain eu hwynebu'n gadarn gan arweinyddiaeth glir a strategol yr Ysgrifennydd Parhaol. Ar ran Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru, dymunaf bob llwyddiant iddi hi ac i'w holynydd yn y dyfodol.

**Gareth Lynn**
**Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru**

# Cynnwys


**9 Rhan Un:**

9 Yr hyn sydd yn yr Adroddiad a’r Cyfrifon: Ciplun

11 Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru

12 Y Cabinet

13 Y Gwasanaeth Sifil

15 Ymateb i COVID-19

22 Ymateb y Grwpiau i COVID-19

31 Rheoli’r Ymadawiad â’r UE

35 Dyfodol Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru

36 Adroddiad Llywodraeth Cymru

38 Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru

43 Cyflawni ein Hymrwymiad i Lesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

47 Llifau Cyllido Llywodraeth Cymru

48 Polisi Trethi Llywodraeth Cymru, Rhagolygon Cyllidol a Benthyca

49 Cyd-destun Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru

52 Gwariant COVID-19

54 Prif Feysydd Gwariant Llywodraeth Cymru

57 Gweinyddu Cyllid Grant

62 Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

66 Rheoli ein Rhaglen Ddeddfwriaethol

| | |
|---|---|
| **69** | Ein Strategaethau ar gyfer Gweithlu'r Dyfodol, Gweithle'r Dyfodol a Digidol |
| **72** | Datgarboneiddio |
| **75** | Cynaliadwyedd |
| **78** | Yr Agenda Ddigidol |
| **81** | Urddas a Pharch |
| **91** | Parchu Hawliau Dynol |
| **92** | Gweithio'n Ddwyieithog |
| **94** | Gweithio mewn Partneriaeth |
| **96** | Atal Llwgrwobrwyo a Llygredd |
| **97** | Ymdrin â Chwynion |
| **99** | **Rhan Dau:** |
| **99** | Adroddiad Atebolrwydd |
| **101** | Datganiad Llywodraethiant |
| **183** | **Rhan Tri:** |
| **183** | Y Cyfrifon |
| **224** | Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu |

# Yr hyn sydd yn yr Adroddiad a’r Cyfrifon: Ciplun

Hwn yw Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21. Mae’n rhoi darlun manwl o’n sefyllfa ariannol a sut mae wedi cael ei rheoli. Mae’n ymdrin â’n rhwymedigaethau statudol a sut rydym wedi’u cyflawni. Mae hefyd yn taflu goleuni ar y sefydliad ei hun dros y flwyddyn. Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru yw’r cyfrwng ar gyfer rhaglen gyflawni “*Ffyniant i Bawb*” ac mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.[3]

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae i’r Adroddiad dair adran.

Mae **Rhan Un** yn dechrau drwy roi trosolwg o’r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdano a’r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae’n rhoi gwybodaeth am aelodaeth y Cabinet ar gyfer y cyfnod ac am uwch-arweinwyr y sefydliad yn ystod y flwyddyn gyfrifyddu. Mae’n nodi’r adroddiadau allweddol sy’n ymdrin â gweithgareddau Llywodraeth Cymru a’r hyn a gyflawnwyd ganddi a’n Fframwaith Perfformiad.

Ceir diweddariadau ar Paratoi ar gyfer y Dyfodol sy’n cynnwys ein strategaethau ar weithlu’r dyfodol a’r gweithle a strategaeth ddigidol er mwyn paratoi ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Ceir gwybodaeth fanwl am y ffordd rydym yn cyflawni ein hymrwymiad i Lesiant Cenedlaethau’r Dyfodol sy’n cynnwys Gweinidogion Cymru, y Gwasanaeth Sifil a galluogi eraill. Ceir diweddariad ar ein rhaglen ddeddfwriaethol a sut y cafodd hon ei chydbwyso â’r angen dybryd i wneud is-ddeddfwriaeth mewn ymateb i bandemig COVID-19.

Mae’r adran ynglŷn â chyllid a gwariant yn manylu ar ein llifau cyllido a sut y telir am wasanaethau cyhoeddus ar ôl datganoli trethi. Ystyrir ein polisi ynglŷn â threth, ein rhagolygon cyllidol a’n ffiniau cyfrifyddu. Mae hefyd yn rhoi dadansoddiad o’r prif feysydd o wariant ar COVID-19, yn nodi’r prif feysydd o wariant ar gyfer y cyfnod a’r ffordd y gweinyddwyd cyllid grant.

Yn anochel, mae penodau estynedig ynglŷn â’r ffordd mae’r sefydliad wedi ymateb yn ystod y cyfnod eithriadol hwn o ran rheoli’r pandemig COVID-19 a pharatoi ar gyfer ymadael â’r UE. Mae’r adran ar COVID-19 yn rhoi trosolwg o’r ffordd rydym wedi ymateb i COVID-19 fel sefydliad, o gynorthwyo Gweinidogion hyd at weithrediadau canolfannau rheoli brys. Mae’n nodi’r hyn sydd wedi gweithio’n dda ac yn ystyried ein gwaith ar baratoi ar gyfer adferiad a lle y gallwn gael yr effaith fwyaf. Mae pob un o’n Grwpiau hefyd yn rhoi trosolwg lefel uchel o’r meysydd allweddol o waith a wnaed i gefnogi’r ymateb i’r pandemig.

3 Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2020 llyw.cymru/cyfrifon-cyfunol-blynyddol-llywodraeth-cymru-2019-2020

Mae'r gwaith ar adael yr UE wedi parhau'n brif flaenoriaeth, ac mae'r adroddiad yn manylu ar y ffordd rydym wedi rheoli'r ansicrwydd a grëwyd yn ei sgil a'r corff helaeth o waith a gwblhawyd i bontio i'r trefniadau newydd. Mae ein hymrwymiad i ddatgarboneiddio a chynaliadwyedd wedi'i gynnwys ynghyd â thargedau newydd, cyllidebau carbon a'r gwaith a wnaed i ddatblygu Cynllun Datgarboneiddio statudol nesaf Cymru.

Mae rheoli ag uniondeb a phriodoldeb yn hanfodol i'n gwerthoedd craidd o hyd. Ceir diweddariadau ar ein hymrwymiad i urddas a pharch, cefnogi hawliau dynol, gweithio'n ddwyieithog, gweithio mewn partneriaeth, mynd i'r afael â llygredd, llwgrwobrwyo a thwyll. Mae hefyd yn rhoi crynodeb o gwynion yn erbyn Llywodraeth Cymru y mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymdrin â nhw.

Mae adroddiad y flwyddyn hon yn cynnwys nifer o astudiaethau achos drwyddo draw. Cafodd y rhain eu dewis gan yr Ysgrifennydd Parhaol ac maent yn dangos sut rydym wedi ymgorffori'r pum ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Adolygiad 21 Diwrnod[4]
2. Cydweithio o ran Profi, Olrhain, Diogelu[5]
3. Y Rhaglen Frechu[6]
4. Y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu[7]
5. Mwy nag Ailgylchu[8]
6. Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol[9]
7. Gweithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol[10]

Mae **Rhan Dau** yn cynnwys yr Adroddiad Atebolrwydd. Mae'r rhan hon o'r Adroddiad a'r Cyfrifon yn rhoi gwybodaeth am dâl Gweinidogion ac uwch-staff ac yn rhoi trosolwg o alldro ariannol Llywodraeth Cymru yn erbyn y gyllideb y pleidleisiwyd arni. Yn bwysig ddigon, mae hefyd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn ei rôl fel Prif Swyddog Cyfrifyddu.

Mae'r Datganiad Llywodraethiant yn amlinellu'r rheolaethau sydd ar waith i alluogi'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a'r Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i gyflawni ei chyfrifoldebau i reoli adnoddau'r sefydliad. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o'r trefniadau llywodraethiant ar lefel swyddogion ar gyfer ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19.

Mae **Rhan Tri** yn ymwneud â'r cyfrifon eu hunain. Mae'r cyfrifon yn ddatganiad cynhwysfawr am y costau y mae Llywodraeth Cymru wedi mynd iddynt a manylion ei holl asedau a rhwymedigaethau.

---

4 Tudalen 16
5 Tudalen 19
6 Tudalen 21
7 Tudalen 34
8 Tudalen 74
9 Tudalen 89
10 Tudalen 95

# Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru

## Cipolwg ar Lywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru sy’n gweithio ym meysydd allweddol bywyd cyhoeddus megis iechyd, addysg, yr economi, amaethyddiaeth a’r amgylchedd. Fe’i crëwyd yn ffurfiol yn 2007 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, a wahanodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y ddeddfwrfa) a Llywodraeth Cynulliad Cymru (y weithrediaeth).

Ers hynny, mae Deddf Cymru 2014 wedi newid yr enw yn gyfreithiol i Lywodraeth Cymru. Yn yr un modd, o dan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael ei alw’n Senedd Cymru (y Senedd fel arfer).

Mae setliad datganoli Cymru wedi datblygu’n ddramatig ers sefydlu’r Senedd yn 1999. O dan arweiniad y Prif Weinidog, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau ac mae’n gyfrifol am gyflawni yn y meysydd a ddatganolwyd iddi, fel y’i nodwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017. Mae hyn yn golygu datblygu polisïau a’u rhoi ar waith; sefydlu a chyfarwyddo trefniadau cyflawni a llywodraethu; cynnig cyfreithiau i Gymru (Biliau’r Senedd): a gwneud is-ddeddfwriaeth, megis rheoliadau. Mae  hefyd yn cyllido Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol.

Ceir rhagor o wybodaeth am gyfrifoldebau[11] Llywodraeth Cymru ar ei gwefan.

11 Ein rôl ni llyw.cymru/ein-rol-ni

# Y Cabinet

Ar gyfer y cyfnod a gwmpaswyd gan y cyfrifon hyn, y Cabinet a’r Gweinidogion oedd:




| | |
|---|---|
| Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford | Y Prif Weinidog |
| Rebecca Evans | Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd |
| Vaughan Gething | Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Lesley Griffiths | Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig |
| Julie James | Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol |
| Jeremy Miles | Y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Pontio Ewropeaidd |
| Eluned Morgan | Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg* |
| Ken Skates | Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru |
| Kirsty Williams | Y Gweinidog Addysg |
| Hannah Blythyn | Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol |
| Jane Hutt | Y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip |
| Julie Morgan | Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Dafydd Elis-Thomas | Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth |
| Lee Waters | Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth |

*o 8 Hydref 2020; cyn hynny Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Ceir manylion y Cabinet wedi Etholiadau Senedd Cymru ar 6 Mai 2021 ar wefan Llywodraeth Cymru.[12]

12 Aelodau’r Cabinet a’r Gweinidogion llyw.cymru/aelodaur-cabinet-gweinidogion

# Y Gwasanaeth Sifil

Y Gwasanaeth Sifil yw'r weinyddiaeth amhleidiol sy'n cefnogi Prif Weinidog a Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae cryfderau craidd y Gwasanaeth Sifil, sef niwtralrwydd gwleidyddol; gweinyddu effeithlon; llywodraethiant da a rheoli arian cyhoeddus yn gadarn, yn rhoi sylfaen gadarn i gefnogi Llywodraeth Cymru.

## Y Tîm Uwch-arweinwyr

Yr Ysgrifennydd Parhaol yw pennaeth y sefydliad, a gwas sifil lefel uchaf Cymru. Mae pob aelod o'r staff yn gweithio mewn un o bum Grŵp o dan yr Ysgrifennydd Parhaol a phedwar Cyfarwyddwr cyffredinol.



**Shan Morgan[13]**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol**

- Trysorlys Cymru
- Cyllid
- Llywodraethiant a Pherfformiad
- Gwasanaethau Corfforaethol
- Digidol, Data a Thechnoleg*
- Adfer ac Ailgychwyn ar ôl COVID-19

* Yn rhan o Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gynt



**Des Clifford**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp Swyddfa'r Prif Weinidog**

- Is-adran y Cabinet
- Swyddfa'r Cabinet
- Cyfathrebu
- Y Cyfansoddiad, Cyfiawnder a'r Trefniadau Pontio Ewropeaidd
- Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach
- Yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol
- Swyddfa'r Prif Weinidog
- Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol
- Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg
- Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
- Tribiwnlysoedd Cymru

13 Shan Morgan oedd yr Ysgrifennydd Parhaol tan 31 Hydref 2021



**Reg Kilpatrick**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol Cydgysylltu Covid**

- Argyfyngau Sifil a Diogelwch Gwladol
- Gwaith Cynllunio ar Reoli'r Coronafeirws
- Adfer ac Ailgychwyn
- Diogelwch Cymunedol



**Tracey Burke**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus**

- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Cymunedau a Threchu Tlodi
- Addysg
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Tai ac Adfywio
- Llywodraeth Leol
- Is-adran y Gymraeg



**Andrew Slade**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**

- Busnes a Rhanbarthau
- Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
- Seilwaith Economaidd
- Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio
- Yr Amgylchedd a'r Môr
- Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol – Cyllid a Gweithrediadau
- Tir, Natur a Bwyd
- Swyddfa'r Prif Gynghorydd Gwyddonol
- Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
- Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
- Cyfarwyddiaeth Fasnachol a Chaffael Llywodraeth Cymru



**Andrew Goodall[14]**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru**

- Cafcass Cymru
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Cyllid
- Iechyd Meddwl, Grwpiau sy'n Agored i Niwed a Llywodraethu'r GIG
- Nyrsio
- Cynllunio, Cyflawni a Pherfformiad
- Iechyd y Boblogaeth
- Gofal Sylfaenol a Gwyddor Iechyd
- Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
- Technegol, Digidol a Thrawsnewid
- Y Gweithlu a Busnes Corfforaethol

14 Daeth Andrew Goodall yn Ysgrifennydd Parhaol ar 1 Tachwedd 2021

# Ymateb i COVID-19



Mae'r angen i ymateb i argyfwng iechyd y cyhoedd sydd wedi cael canlyniadau cymdeithasol ac economaidd pellgyrhaeddol wedi effeithio ar bron bob rhan o Lywodraeth Cymru ac mae'r sefydliad wedi cael ei brofi hyd eithaf ei allu. Rydym wedi rhoi dadansoddiadau a chyngor proffesiynol a thechnegol helaeth ac amserol i Weinidogion wrth i'r sefyllfa ddatblygu ac yng ngoleuni gwybodaeth a oedd yn datblygu'n gyflym am sefyllfa ddiweddaraf y pandemig.

Rydym wedi gweithredu ar benderfyniadau Gweinidogion ynglŷn â mesurau diogelu a ddylai fod yn gymwys ar bob cam drwy baratoi, fel arfer ar fyr rybudd, y rheoliadau angenrheidiol a'r deunydd cyfathrebu cysylltiedig i roi'r trefniadau hynny ar waith. Rydym wedi goruchwylio ac wedi cydgysylltu rhaglenni mawr o weithgarwch megis, profi, olrhain a diogelu a'r broses frechu. Wrth helpu Gweinidogion i liniaru effaith y pandemig ar feysydd megis addysg a'r sector busnes, rydym hefyd wedi gorfod ymateb yn gyflym drwy roi cyngor a chyflwyno rhaglenni grant a mesurau eraill a gyflwynwyd ar fyr rybudd.

Er mwyn ymateb yn briodol i'r pandemig, bu'n rhaid inni ystyried yn ofalus iawn, mewn ymgynghoriad â'r Gweinidogion, pa feysydd gwaith yr oedd angen eu gohirio neu eu cwtogi er mwyn rhyddhau adnoddau. Gwnaethom gyflwyno rhaglen fawr o secondiadau mewnol byrdymor er mwyn symud staff yn gyflym i'r meysydd â'r flaenoriaeth fwyaf. Cafodd y gwaith i ddelio â'r pandemig ei orchwylio a'i fonitro ar lefel swyddogion drwy strwythur llywodraethu a nodir yn fanylach yn y Datganiad Llywodraethiant. Mae gweddill yr adran hon yn rhoi mwy o fanylion am y camau gweithredu a gymerwyd yn y Ganolfan Rheoli Brys a phob un o'r Grwpiau Polisi i ymateb i'r pandemig.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd llawer o wersi eraill y dylem eu dysgu ynglŷn â'r ffordd yr ymatebwyd i'r pandemig a sut y gallwn ddefnyddio'r gwersi hynny i'r dyfodol. Er enghraifft, fel y trafodwyd mewn man arall, gwelsom y gall rhywfaint o weithio o bell, yn seiliedig ar system TG dda, fod yn fuddiol i'r sefydliad. Rydym wedi dysgu cryn dipyn am gydgynhyrchu a chydweithio effeithiol, a pha mor gyflym y gallwn ymateb i heriau annisgwyl. Ac mae gwersi i'w dysgu, maes o law, ynglŷn â'r ffordd orau o baratoi i ddelio ag argyfyngau iechyd y cyhoedd mawr yn y dyfodol.

Fel Ysgrifennydd Parhaol, mae'n bwysig fy mod yn talu teyrnged yn y cyfrifon hyn i ymdrechion gwych Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru. Mae llawer iawn o aelodau o'r staff ar bob lefel wedi gweithio'n hynod o galed am gyfnod estynedig o dan bwysau dwys. Ni allwn fod wedi gofyn am fwy.

## Astudiaeth Achos

### Adolygiad 21 Diwrnod

Mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i COVID-19, cyflwynodd Llywodraeth Cymru reoliadau a oedd yn gosod cyfyngiadau ar fusnesau, gwasanaethau a phobl er mwyn cyfyngu ar nifer yr achosion o'r feirws a'i ledaeniad.

Mae'r rheoliadau yn cael eu hadolygu bob 21 diwrnod er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod yn gymesur.

Datblygwyd y broses adolygu er mwyn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Un o swyddogaethau hollbwysig y rheoliadau yw atal niwed, yn y byrdymor a'r hirdymor, sy'n gysylltiedig â dal COVID-19 a'r niwed posibl pe bai'r GIG yn cael ei orlethu.

Mae'r broses adolygu yn ystyried y cydbwysedd cyffredinol o niwed, gan gynnwys rhai cymdeithasol, economaidd, llesiant ac eraill; cael gwared ar gyfyngiadau cyn gynted ag y bônt yn peidio â bod yn gymesur mwyach. Mae hyn yn gofyn am gydweithio agos ym mhob rhan o'r llywodraeth a chydag amrywiaeth eang o bartneriaid, gan gynnwys y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol, cynrychiolwyr sectorau, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, arweinwyr awdurdodau lleol a llawer o bartneriaid eraill.

Gan fod llawer o adrannau gwahanol yn rhan o'r broses sydd, yn eu tro, yn cynnwys eu rhanddeiliaid, bu cydweithio eang ei gwmpas er mwyn llywio penderfyniadau. Mae'r adolygiadau wedi dangos y gall cydweithio a chynnwys effeithiol ddigwydd o hyd, hyd yn oed os oes staff yn gweithio'n gyflym ac yn wynebu ansicrwydd.

# Gweithrediadau Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru: Ymateb i bandemig COVID-19




Fel y nodwyd y flwyddyn ddiwethaf, cafodd ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19 ei arwain i ddechrau gan swyddogion yn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda chymorth Tîm Cydnerthedd Llywodraeth Cymru. Wrth i'r pandemig fynd rhagddo, daeth y Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau (ECC(W)) yn weithredol ar 20 Mawrth.

Yn ystod pandemig hir a pharhaus COVID-19, mae'r Ganolfan wedi parhau i weithio gyda Grwpiau Cydgysylltu Strategol lefel leol, Grwpiau Cydgysylltu Adfer, Llywodraeth y DU a thimau polisi priodol Llywodraeth Cymru i gasglu a rhannu gwybodaeth â phartneriaid perthnasol er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r sefyllfa fel yr oedd yn datblygu. Bu hyn yn fodd i'r Gweinidogion wneud penderfyniadau amserol ar sail gwybodaeth briodol.

Mae Swyddogion Cyswllt Llywodraeth Cymru yn parhau i gysylltu â'r Grwpiau Cydgysylltu Strategol a'r Grwpiau Cydgysylltu Adfer sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau i ddarparu gwasanaeth ac sy'n atgyfnerthu cydnerthedd drwy gydweithio amlasiantaethol ar bob agwedd ar yr ymateb lleol i'r pandemig. Mae'r Grwpiau Cydgysylltu Strategol yn rhoi ymateb strategol i'r sefyllfa ar lawr gwlad, gan ddwyn ynghyd uwch-staff o blith ymatebwyr allweddol megis byrddau iechyd, awdurdodau lleol, yr heddlu, gwasanaethau tân ac ambiwlans ochr yn ochr â Swyddog Cyswllt y Grŵp Gwaith. Mae hyn yn sicrhau bod cyswllt di-dor rhwng sefydliadau partner ar y rheng flaen ac adrannau a Gweinidogion Llywodraeth Cymru; yna ymlaen at Lywodraeth y DU lle y bo'n briodol.

Wrth i'r ymateb i COVID-19 symud o'r cam ymateb i'r cam adfer, bydd Grwpiau Cydgysylltu Strategol yn cael eu disodli gan y Grwpiau Cydgysylltu Adfer, a fydd yn canolbwyntio ar adfer ac ymdrin â chanlyniadau'r pandemig yn hytrach na'r ymateb ei hun.

Fel rhan o'r ymateb i COVID-19, mae'r Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau wedi mynd drwy'r cyfnod gweithredol hwyaf erioed o'r swyddogaeth. Mae nifer o adolygiadau wedi cael eu cwblhau yn ystod y cyfnod hwnnw er mwyn nodi gwersi a gwella'r ffordd y mae'n gweithredu. Ym mis Mehefin 2020, cynhaliwyd Adolygiad Gweithredol interim ar yr ymateb amlasiantaethol i COVID-19.

Gwnaeth swyddogion o sawl adran yn Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chynrychiolwyr o Fforymau Lleol Cymru Gydnerth gymryd rhan, gan ystyried adnoddau, galluogrwydd a chynaliadwyedd y strwythurau a'r prosesau ar gyfer argyfyngau sifil drwy gydol yr ymateb, a hefyd fyfyrio ar natur unigryw, drawsbynciol ac estynedig y gwaith o ddelio â'r pandemig. Cyflwynwyd argymhellion yr adolygiad i Fwrdd Prosiect sy'n goruchwylio'r broses o weithredu ar yr argymhellion.

Mae Swyddogion Cyswllt Llywodraeth Cymru yn mynychu cyfarfodydd Grwpiau Cydgysylltu Strategol a Grwpiau Cydgysylltu Adfer er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a'r dystiolaeth fwyaf cyfredol ar gael i'r Gweinidogion i'w helpu i wneud penderfyniadau cyflym ac effeithiol. Mae Cyfarwyddwyr Cyffredinol Cydgysylltu Argyfwng COVID-19 wedi cyfarfod â Chadeiryddion y Grwpiau Cydgysylltu Strategol a'r Grwpiau Cydgysylltu Adfer a'r Pennaeth Cydnerthedd bob wythnos yn ystod y pandemig i rannu gwybodaeth, hwyluso adolygiadau gan gymheiriaid, galluogi'r aelodau i ymgynghori a chydweithio â'i gilydd a nodi materion strategol a gweithredol Llywodraeth Cymru.

Bu darparu staff ar gyfer y Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau yng nghyd-destun y pwysau eraill ar adnoddau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru yn her gorfforaethol sylweddol. Er bod y penderfyniad i geisio gwirfoddolwyr yn llwyddiannus, argymhellodd adolygiad mewnol a gomisiynwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol ddull gweithredu mwy ffurfiol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ymateb i'r argymhellion hynny a gweithredu arnynt. Roedd y Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau bob amser yn ceisio paru adnoddau ag anghenion gweithredu ac yn adolygu'r cydbwysedd hwn drwy'r amser er mwyn i aelodau o'r staff gael eu rhyddhau i adrannau polisi cyn gynted ag y bo modd, a chadw digon o adnoddau gweithredol ar yr un pryd.

## Astudiaeth Achos

### Cydweithio o ran Profi, Olrhain, Diogelu

Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru wasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu i'r boblogaeth gyfan ar 1 Mehefin. Mae wedi chwarae rhan hollbwysig yn ein hymateb i bandemig COVID-19, a weithredwyd mewn partneriaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd a phartneriaid ehangach.

Dangoswyd bod y broses o sefydlu a gweithredu'r gwasanaeth profi, olrhain, diogelu yng Nghymru wedi bod yn hynod effeithiol ac wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol o ran cadw'r boblogaeth yn ddiogel yn ystod y pandemig. Yn ystod y cyfnod o lefelau uchel o drosglwyddo a chyffredinrwydd y gaeaf hwn (y tu allan i'r cyfnod atal byr), amcangyfrifodd y Grŵp Cynghori Technegol fod y rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu wedi peri i werthoedd R ostwng o tua 1.7 i 1.3. Dangoswyd hefyd werth gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir yn lleol, gallu ein gweision cyhoeddus a'n gweithlu digidol, ac effeithlonrwydd ac arloesedd y sefydliadau dan sylw – gall pobl yng Nghymru ymfalchïo, a hynny'n gyfiawn, yn y rhaglen profi, olrhain, diogelu.

Ers mis Mawrth 2020, mae llawer o waith caled wedi cael ei wneud ar gyflymder na welwyd ei debyg o'r blaen er mwyn sefydlu gwasanaeth profi, olrhain cysylltiadau a diogelu cyfan o'r newydd. Roedd y broses o sefydlu'r gwasanaeth yn cynnwys nifer o bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, saith bwrdd iechyd, 22 o awdurdodau lleol, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (Iechyd a Gofal Digidol Cymru erbyn hyn) a Llywodraeth y DU.

Mae partneriaethau cadarn ac ethos Cymru gyfan wedi cael eu ffurfio ym mhob rhan o'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu, a gwelwyd rhanbarthau a chydweithwyr yn gwneud popeth o fewn eu gallu i helpu i ddiogelu Cymru.

# Paratoi ar gyfer Adferiad



Er bod cymaint o ffocws y gweithgarwch yn 2020-21 wedi bod ar fynd i'r afael â COVID-19 a diogelu'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf yn ein cymunedau, parhaodd Llywodraeth Cymru i gyflawni ymrwymiadau a bennwyd yn y Rhaglen Lywodraethu, gan osod y sylfeini ar gyfer adferiad sy'n gyson â gwerthoedd cyfiawnder economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Ym mis Mai 2020, estynnodd Llywodraeth Cymru wahoddiad i'r cyhoedd anfon eu syniadau ar y camau gweithredu yr oedd eu hangen i gefnogi'r broses o adfer ac ail-greu ar ôl COVID-19 i'r ymgynghoriad Cymru ein Dyfodol: dros y tri mis dilynol cafwyd ychydig dros 2,000 o ymatebion. Comisiynwyd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i ddadansoddi'r ymatebion a nodwyd chwe maes allweddol yr oedd ymatebwyr yn canolbwyntio arnynt: Cymdeithas; yr Economi; yr Amgylchedd; Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant; Ymgysylltu gwleidyddol; a Thechnoleg ddigidol.

Gan ystyried yr ymatebion i Cymru ein Dyfodol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad, Ail-greu ar ôl COVID-19: yr Heriau a'r Blaenoriaethau[15] ym mis Hydref. Mae'r adroddiad hwn yn nodi wyth maes allweddol lle y bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ymdrechion ac adnoddau at ddibenion ail-greu er mwyn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal a chreu swyddi, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, ailfywiogi canol trefi a chefnogi'r economi sylfaenol yng Nghymru.

Er mwyn helpu i gyflawni'r wyth blaenoriaeth allweddol a rhoi sbardun ar unwaith i'r amgylchedd, darparwyd pecyn cyllid gwerth £320m yn y flwyddyn ariannol 2020-21. Ynghyd â'r buddsoddiad mawr mewn busnesau a sgiliau o dan y Gronfa Cadernid Economaidd gwerth £500m, bu hwn yn fuddsoddiad sylweddol iawn yn yr ymdrechion ail-greu.

Bu hon yn gyfres eang iawn o ymyriadau o gyllid ychwanegol ar gyfer tai cymdeithasol i adnoddau digidol i helpu plant a phobl ifanc gyda'u haddysg, gan gynnwys £14m mewn mesurau i barhau i ymateb yn egnïol i'r argyfwng hinsawdd drwy ddilyn agenda ddatgarboneiddio gadarn, rheoli ein tir er budd cymunedau gwledig a chenedlaethau'r dyfodol a diogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.

15 Ail-greu ar ôl COVID-19: yr Heriau a'r Blaenoriaethau
llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2021/1/3/1610566345/ail-greu-ar-ol-y-coronafeirws-yr-heriau-ar-blaenoriaethau.pdf

## Astudiaeth Achos

### Y Rhaglen Frechu

Roedd Llywodraeth Cymru yn wynebu her unigryw o ran polisi a chyflawni – brechu'r genedl ar adeg pan oedd pwysau'r disgwyliadau'n uchel, a llygaid y cyfryngau arnom hefyd. Fe wnaethom ymateb i'r her hon drwy greu strategaethau, dulliau gweithredu logistaidd a strwythurau i alluogi'r rhaglen frechu i gael ei chyflwyno'n gyflym ac yn llwyddiannus.

Gosododd Strategaeth Frechu COVID-19 gerrig milltir a marcwyr i lywio'r gwaith cyflawni. Pennwyd y rhain yn erbyn amcanion a oedd yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol gan ystod o gyrff clinigol a gwyddonol, a data, er mwyn:

- Diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed rhag salwch difrifol a chynnal ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
- Sicrhau bod cymaint o bobl yn cael eu brechu cyn gynted â phosibl gan helpu i leddfu'r cyfyngiadau COVID-19 a osodwyd.

Mae i bob brechlyn ei nodweddion gwahanol a'i heriau gwahanol o ran cyflawni. Mae dod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o ddelio â'r rhain wedi bod yn ganolog i lwyddiant y gwaith cyflawni, y logisteg a'r broses o reoli cyflenwadau – gan sicrhau bod gan ein Gwasanaeth Iechyd y brechlyn cywir ar yr adeg iawn. Mae'r dulliau cyflawni a ddefnyddiwyd wedi cael effaith amlwg ar y rhaglen, sy'n golygu bod mwy o'n dyraniad o frechlynnau yn cael ei weinyddu'n gyflym fel bod pobl yn cael eu brechiad.

Rydym i gyd yn dal i ddysgu am COVID-19 ac mae hynny wedi golygu newidiadau i'r cyngor gwyddonol a chlinigol. Mae'r rhaglen wedi ymaddasu, wedi arloesi ac wedi cyflawni'n llwyddiannus yn gyson, yn wyneb pob her.

Mae Cymru wedi:

- Cyflawni neu ragori ar ein cerrig milltir ymestynnol ein hunain ar gyfer darparu brechiadau;
- Arwain y ffordd yn y DU, gyda dros 78% o'r boblogaeth oedolion bellach wedi'u brechu ddwywaith;
- Cael ei chydnabod fel un o'r rhaglenni brechu mwyaf llwyddiannus yn y byd.

Mae llwyddiant y rhaglen frechu yng Nghymru wedi cael sylw eang, yn enwedig y ffordd mae Cymru wedi mynd ati i weinyddu'r cyflenwad brechlynnau yn gyflym.

# Ymateb y Grwpiau i COVID-19




## Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae cyfrifoldeb cyffredinol ar y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i fynd i'r afael ag argyfyngau iechyd y cyhoedd. Pan ddaeth bygythiad COVID-19 i'r amlwg fel argyfwng mwyaf yr oes ym maes iechyd y cyhoedd, defnyddiwyd y systemau a oedd yn bodoli eisoes a phrofiad yn ogystal â chyflwyno trefniadau Cynllunio ac Ymateb newydd i ymateb yn gyflym ac yn effeithlon.

Canolbwyntiwyd yr ymateb i'r argyfwng hwn ar fynd i'r afael â phedwar niwed: niwed o ganlyniad i COVID-19 ei hun; niwed o ganlyniad i leihau gweithgarwch nad yw'n ymwneud â COVID-19; niwed o ganlyniad i orlethu'r GIG a'r system Gofal Cymdeithasol o bosibl; a niwed o ganlyniad i gamau gweithredu cymdeithasol ehangach a chyfnodau cyfyngiadau symud.

Yn unol â'r dull gweithredu hwn, cafodd y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol drafodaethau cynnar â'r Gweinidogion ynglŷn ag ailflaenoriaethu staff ac adnoddau er mwyn canolbwyntio ar ddiogelu cymunedau a'r rhai a oedd fwyaf agored i niwed, hyrwyddo llesiant a lles staff iechyd a gofal a chynllunio a chyflwyno adnoddau a gwasanaethau i ymateb i'r argyfwng.

Arweiniodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Weithredwr GIG Cymru yn ei rôl ddeuol, ochr yn ochr â'r Prif Swyddog Meddygol, y Prif Swyddog Nyrsio a thîm cyfarwyddiaeth ehangach y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yr ymateb:

- **Y cam cyntaf** (mis Ionawr i fis Ebrill 2020) oedd yr ymateb brys cychwynnol i'r don gyntaf.
- Cynigiodd **yr ail gam** (mis Mai i fis Medi 2020) gyfle i adolygu a diwygio trefniadau i baratoi ar gyfer y gaeaf ac unrhyw donnau dilynol o COVID-19.
- Yn ystod y **trydydd cam** (mis Hydref 2020 i fis Chwefror 2021) sicrhawyd yr ymateb parhaus i COVID-19 a chyflwynwyd gwasanaethau iechyd a gofal drwy gydol yr ail don dros gyfnod y gaeaf.

Ers mis Chwefror 2021, rydym wedi parhau i reoli risgiau presennol y pandemig a dechrau paratoi ar gyfer tonnau yn y dyfodol a gaeaf anodd arall o bosibl. Mae'r pwyslais o hyd ar frechu, profi a monitro lledaeniad y feirws ym mhob rhan o'r system iechyd a gofal wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio ac wrth inni ddechrau ystyried adferiad.

Nododd fframwaith parodrwydd ac ymateb COVID-19[16] a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020 strwythur Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, ar y pryd, i gydgysylltu'r Grŵp a'i randdeiliaid yn y gwaith o gynllunio ar gyfer COVID-19 ac ymateb iddo. Ers i'r Fframwaith gael ei gyhoeddi, mae natur newydd feirws COVID-19 wedi golygu bod angen i strwythurau ymateb fod yn hyblyg ac mae newidiadau wedi cael eu cyflwyno'n ymarferol. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys sefydlu is-grwpiau newydd i reoli risgiau, rhoi eglurder o ran cylch gorchwyl a chreu cysylltiadau â meysydd gwaith newydd.

Cyhoeddwyd atodiad ym mis Tachwedd 2020 er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau llywodraethu allweddol a nodi'r trefniadau cynllunio ac ymateb diweddaraf. Cafodd yr atodiad ei lywio gan y profiadau hyd yn hyn a hefyd adolygiad y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o'r ymateb i COVID-19 a gynhaliwyd yn ystod haf 2020. Drwy'r trefniadau diwygiedig sicrhawyd trefniadau llywodraethu cadarn ar gyfer ymateb y Grŵp a hefyd gydbwysedd rhwng pryderon a oedd yn ymwneud â COVID-19 a phryderon eraill roedd y Grŵp yn eu hwynebu.

Roedd strwythurau allweddol fel rhan o'r ymateb yn cynnwys:

- **Cell Cyngor Technegol** i roi cyngor gwyddonol mewnol, gan gynnwys darparu data modelu ac asesiadau risg ar gyfer cynllunio ac ymateb.
- **Grŵp Cynllunio ac Ymateb** fel dull o gydgysylltu strategol ac ymgysylltu allanol ym mhob rhan o iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae aelodaeth o'r Grŵp Cynllunio ac Ymateb yn cynnwys cynrychiolwyr strategol o blith y rhanddeiliaid, gan gynnwys y GIG, Gwasanaeth/Gofal Cymdeithasol a swyddogion arweiniol proffesiynol a pholisi mewnol. Cafodd uwch-gynllunwyr milwrol eu cynnwys yn y gell hon a fu'n rhan allweddol o'r systemau atebolrwydd, gan roi trosolwg o gamau gweithredu a chefnogi'r gwaith o reoli risg.

16 Fframwaith Parodrwydd ac Ymateb i COVID-19
gov.wales/sites/default/files/inline-documents/2021-06/nhs-covid-19-service-facing-framework.pdf

- Sefydlodd y Grŵp Cynllunio ac Ymateb nifer o **is-grwpiau** i ganolbwyntio ar flaenoriaethau penodol a'u cyflawni. Mae'r rhain wedi cynnwys Gofal Sylfaenol a Chymunedol; Gofal Eilaidd Acíwt; Gofal Cymdeithasol; y Gweithlu; Gwasanaethau Hanfodol; Gwrthfesurau; Trosglwyddiad Nosocomiaidd. Ymatebodd y grwpiau hyn i heriau sylweddol, gan gynnwys cynnydd cyflym yn nifer y gwelyau gofal critigol gweithredol, adleoli'r gweithlu a rhoi atebion digidol ar waith yn gyflym er mwyn galluogi gweithio o bell ac ymgynghori â chleifion.
- Mae Grŵp Cynllunio ac Ymateb COVID-19, a ddeilliodd o'r adolygiad yn ystod haf 2020, yn uniongyrchol atebol i **Grŵp Argyfyngau Posibl Tîm y Cyfarwyddwyr Gweithredol** o fewn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a sefydlwyd i wella a chryfhau pob agwedd ar ei ymateb i bandemig COVID-19.
- Sefydlwyd **Cell Cynllunio ac Ymateb** gydag adnoddau penodol o fewn Is-adran Cynllunio, Perfformiad a Chyflawni'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus yn ogystal ag Uned Gyflawni GIG Cymru, i weithio fel pwyntiau cyswllt rhwng y Grŵp Cynllunio ac Ymateb a'r is-grwpiau er mwyn sicrhau bod risgiau allweddol yn cael eu rheoli, bod camau gweithredu yn cael eu cymryd a bod cysondeb rhwng y gwahanol weithgareddau.

Mae'r Grŵp Cynllunio ac Ymateb wedi parhau i weithredu drwy gyfnodau COVID-19, gan gael adroddiadau gan ei is-grwpiau, ystyried asesiadau risg a gwybodaeth wyddonol, monitro parodrwydd, nodi problemau a chymryd camau gweithredu a rhoi mesurau wrth gefn ar waith at y dyfodol.

Caiff risgiau eu holrhain drwy system weithredol ar gyfer Olrhain Risgiau Systemau. Mae'r gofrestr risg hon yn storio risgiau agored a risgiau wedi'u cau er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r sefyllfa bresennol gael ei rheoli a chadw cofnod cywir o risgiau hanesyddol a chamau gweithredu at ddibenion dysgu ac archwilio. Rydym yn parhau i ddefnyddio'r system olrhain risgiau i reoli risgiau systemau a lle y bo modd i bontio i drefniadau cynllunio arferol.

# Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus



Cefnogodd y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Lywodraeth Cymru yn y gwaith o flaenoriaethu gweithgarwch cydgysylltu a chyfathrebu canolog ar COVID-19. Ar lefel polisi, gwnaethom gydgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y sector tai, gwasanaethau brys, undebau addysg a'r trydydd sector, er mwyn datblygu camau lliniaru ac adfer a nodi'r rhai a oedd fwyaf agored i niwed, fel y gellid rhoi arweiniad a chymorth priodol, wedi'u targedu lle y bo eu hangen.

Neilltuwyd tua £660m i'n Cronfa Caledi ar gyfer Awdurdodau Lleol er mwyn rhoi cymorth ariannol brys i awdurdodau lleol i gefnogi eu hymateb i'r pandemig. Cydnabu hon yr amrywiaeth eang o gostau ychwanegol yr oeddent yn eu hwynebu, yn ogystal â'r incwm a gollwyd. Drwy'r cymorth hanfodol hwn, sicrhawyd nad oedd eu hymateb i'r pandemig yn gosod baich ariannol gormodol arnynt.

Diwygiwyd setliad llywodraeth leol a setliad yr heddlu er mwyn sicrhau defnydd priodol o gyllid COVID-19 ac iddo derfyn amser a rheoli effaith y pandemig ar y cyfrif ardrethi annomestig dros fwy nag un flwyddyn ariannol. Rhoddwyd cymorth i awdurdodau reoli eu llif arian parod hefyd.

Ym maes Addysg, wrth ymateb i COVID-19 cododd heriau sylweddol. Roedd hyn yn cynnwys cau ysgolion a'u hailagor yn ddiogel; rhoi dysgu cyfunol ar waith; sefydlu darpariaeth hybiau i ddysgwyr a oedd yn agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol; darparu prydau ysgol am ddim yn ystod hanner tymor a gwyliau'r ysgol; canslo cyfres arholiadau haf 2020 a chytuno ar drefniadau cymwysterau diwygiedig ar gyfer 2020 a 2021; sefydlu rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau; a darparu swm ychwanegol o £112m dros 2020-21 a 2021-22 i gefnogi athrawon a dysgwyr yr effeithiodd y pandemig arnynt.

Roedd y sector gofal plant yn wynebu heriau tebyg. Roedd lleoliadau gofal plant yn wynebu anawsterau ariannol o ganlyniad i'r cyfnod cyfyngiadau symud. Gallai hyn fod wedi effeithio ar eu hyfywedd yn yr hirdymor a'u gallu i ailagor i ddarparu gofal plant er mwyn galluogi rhieni i ddychwelyd i'r gwaith a chefnogi adferiad economaidd.

Er mwyn cefnogi'r sector a rhieni, cyflwynwyd dau gynllun grant newydd (Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws a'r Grant Darparwyr Gofal Plant. Newidiwyd y rheolau ynglŷn â chyllid y Cynnig Gofal Plant, gan atal y Cynnig am gyfnod byr dros dro i ymgeiswyr newydd, cyn ei adfer yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Gwnaethom ailbwrpasu'r cyllid ar gyfer gwaith chwarae llwgu yn ystod y gwyliau yn rhaglen gofal plant i blant oedran ysgol sy'n agored i niwed a oedd yn cael ei rhedeg gan awdurdodau lleol.

Ar ddechrau'r pandemig, darparwyd y cyllid a'r arweiniad yr oedd eu hangen ar awdurdodau lleol i sicrhau bod unrhyw un a oedd yn cysgu allan neu mewn llety amhriodol yn cael llety dros dro priodol, ynghyd â'r cymorth yr oedd ei angen arnynt i gadw'n ddiogel. Mae ymrwymiad a gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector wedi golygu bod dros 9000 o bobl wedi cael llety dros dro dros y flwyddyn mewn ymateb i'r pandemig.

Er mwyn cefnogi'r broses o drawsnewid gwasanaethau digartrefedd yn y tymor hwy i atal digartrefedd a rhoi terfyn arno, darparwyd £50m i awdurdodau lleol ar ffurf cyllid Digartrefedd Cam 2. Darparwyd cyllid cyfalaf gwerth £40m i gefnogi'r nifer cynyddol o gartrefi dros dro a pharhaol diogel o ansawdd uchel, gyda £10m o gyllid refeniw i roi cymorth i'r rhai a gafodd lety.

Gan adeiladu ar hyn, ac i gefnogi'r cam nesaf o'n hymateb i'n nod hirdymor o roi terfyn ar ddigartrefedd, cafodd cynnydd o £40m ar gyfer y Grant Cymorth Tai ei gynnwys yn y Gyllideb, gan roi cyfanswm o £166.7m ar gyfer 2021-22.

Er mwyn canolbwyntio ar gamau gweithredu a fyddai'n ailfywiogi canol trefi ar ôl i'r rheolau ar gyfyngiadau symud gael eu llacio, sefydlwyd Grŵp Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Canol Trefi, o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog Tai ac Adfywio ar y pryd. Darparwyd cyllid o £6.125m i helpu trefi ledled Cymru i adfer ar ôl effaith y pandemig a'u helpu i wneud addasiadau yng nghanol trefi er mwyn iddynt ailagor yn ddiogel. Darparwyd swm ychwanegol o £18.4m mewn benthyciadau i awdurdodau lleol er mwyn iddynt ymgymryd â gwaith adfywio yn y tymor hwy.

Roedd sefydliadau yn y trydydd sector a'u gwirfoddolwyr ar flaen y gad o ran ein hymateb i'r pandemig, gan roi llawer o gymorth mawr ei angen i rai o'r unigolion mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Gwnaethom gefnogi'r sector yn ei ymateb drwy Gronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector, gwerth £24m. Ategwyd y gronfa hon yn ddiweddarach yn y flwyddyn gan swm ychwanegol o £8.2m er mwyn parhau i roi cymorth drwy ail don y pandemig.

Roeddem yn pryderu am effaith y cyfnod cyfyngiadau symud ar y rhai yr effeithiwyd arnynt gan drais domestig a thrais rhywiol. Buom yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y trydydd sector a'r sector cyhoeddus er mwyn sicrhau y gellid cynnig gwasanaethau diogel rhag COVID-19. Cydnabuom y byddai effaith gynyddol ar wasanaethau a dyrannwyd swm ychwanegol o £2.5m ar gyfer hyn a darparwyd cyllid o Gronfa Ymateb y Trydydd Sector hefyd.

Gwnaethom fuddsoddi swm ychwanegol o £14.9m yn ein Cronfa Cymorth Dewisol i roi cymorth i unigolion a theuluoedd ledled Cymru er mwyn helpu i liniaru rhai o'r pwysau ariannol a'r heriau yr oeddent yn eu hwynebu yn ystod y cyfnod hwn. Yn ogystal ag ymateb i nifer cynyddol o hawliadau, roeddent hefyd yn gallu llacio'r rheolau ynglŷn â nifer ac amlder y Taliadau Cymorth mewn Argyfwng yr oedd unigolyn yn gymwys i wneud cais amdanynt yn ystod y cyfnod hwn.

Er mwyn helpu unigolion ymhellach, a dileu rhwystrau i hunanynysu o ganlyniad i golli incwm, sefydlwyd cynllun taliadau cymorth i hunanynysu. Roedd hwn yn darparu taliadau o £500 i rai unigolion cymwys nad oeddent yn gallu gweithio gartref ac y gofynnwyd iddynt hunanynysu gan y gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu, neu drwy ap COVID-19 y GIG. Mae rhieni a gofalwyr ar incwm isel, sydd â phlant sy'n hunanynysu, hefyd yn gymwys i gael y cymorth ychwanegol hwn.

Datblygodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ffyrdd newydd o roi sicrwydd a hefyd gefnogi darparwyr gofal cymdeithasol a gofal plant, gan gynnwys arolygiadau a gweithgareddau monitro rhithwir. Er i AGC atal ei rhaglen arolygu arferol dros dro, parhaodd i arolygu unrhyw wasanaeth lle roedd pryderon mawr ynglŷn â diogelwch a llesiant pobl. Roedd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) hefyd ar flaen y gad o ran datblygu dulliau newydd o roi sicrwydd, a oedd yn ei galluogi i barhau â'i gwaith er gwaethaf heriau enfawr COVID-19.

## Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol



Amcanion polisi cyffredin Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol sy'n sail i'n hymateb i bandemig COVID-19 o hyd yw diogelu bywydau, cymunedau a busnesau. Rydym wedi pennu dau ganlyniad arfaethedig ar gyfer ein hymyriadau economaidd:

- Yn gyntaf, helpu busnesau i oroesi sioc gostyngiadau sydyn a sylweddol mewn refeniw o ganlyniad i'r pandemig a'r cyfyngiadau symud gorfodol yr oedd eu hangen i reoli lledaeniad y feirws;
- Yn ail, drwy wella cyfle busnesau i oroesi, diogelu swyddi'r bobl a oedd yn cael eu cyflogi.

Ers dechrau'r pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros £2bn i gefnogi busnesau gyda'r nod o'u helpu i oroesi a diogelu swyddi pobl.

Wrth ystyried yr achos dros ymyriadau gan y llywodraeth, ystyriodd swyddogion y dystiolaeth o angen a gwerth am arian yng nghyd-destun y profion allweddol i Swyddogion Cyfrifyddu.

Yn ystod y pandemig, roedd bron bum cant o staff y Grŵp yn gweithio i fynd i'r afael â materion a oedd yn gysylltiedig â COVID-19, ac roedd llawer o gydweithwyr yn gweld bod eu gwaith arferol yn newid yn gynyddol er mwyn mynd i'r afael â chanlyniadau'r pandemig. Hefyd, cynorthwywyd gwaith timau eraill yn Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol, gan gynnwys rhoi cyngor ar e.e. materion gwyddonol milfeddygol.

Roedd materion a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig yn effeithio ar Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol yn uniongyrchol, yn sgil y penderfyniad i gau ystad Cadw a materion i'w hystyried o hyd i rai o'n Cyrff Hyd Braich mawr megis Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r timau rheoli yn y sefydliadau hyn er mwyn deall effaith y refeniw a gollwyd o ganlyniad i COVID-19.

Y prif ymyriadau o ran cyllid economaidd gan y Grŵp fu'r Gronfa Cadernid Economaidd, y grantiau a oedd yn gysylltiedig ag ardrethi annomestig a oedd yn cael eu goruchwylio gan Lywodraeth Cymru ond eu talu i eiddo busnes cymwys drwy awdurdodau lleol, cronfeydd dewisol lleol a oedd hefyd yn cael eu gweinyddu drwy awdurdodau lleol a Chynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws, a oedd yn cael ei weinyddu gan Fanc Datblygu Cymru.

Yn 2020-21, gwnaeth y Gronfa Cadernid Economaidd 20,546 o daliadau grant gwerth £0.3bn i gyd. Dros yr un cyfnod, rhoddodd awdurdodau lleol 224,487 o grantiau gwerth £1.3bn a oedd yn gysylltiedig ag ardrethi annomestig. Mae pecyn cymorth sgiliau gwerth £40m yn ogystal â chynlluniau pwrpasol megis grantiau i fusnesau newydd, wedi'u sefydlu'n ddiweddar ac ymyriadau sectoraidd penodol hefyd wedi cael eu defnyddio.

Hefyd, cyflwynodd Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol becynnau ategol â ffocws, a oedd yn cynnwys y Gronfa Adferiad Diwylliannol gwerth £64m, y Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden gwerth £14m a'r Gronfa Diogelu Chwaraeon Gwylwyr gwerth £17.7m yn 2020-21.

Cefnogwyd Sefydliadau Addysg Uwch drwy gydol yr argyfwng a chyhoeddwyd swm pellach o £40m ym mis Ionawr 2021 i gefnogi myfyrwyr o Gymru.

Cydnabuwyd pwysigrwydd y sector Addysg Bellach o ran gwrthsefyll COVID-19 yn ystod dyddiau cynnar y pandemig, yn ogystal â'r hyn a fydd yn rôl hollbwysig wrth inni symud i adferiad economaidd drwy ddarparu cyllid refeniw ychwanegol o bron £90m i'r sefydliadau er mwyn mynd i'r afael â chostau cyflwyno addysg yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud a gweithredu mewn amgylchedd â mesurau cadw pellter cymdeithasol. Roedd y cyllid hwn hefyd yn cynnwys costau dal i fyny gyda dysgu ar gyfer y garfan dysgwyr 16-19.

Defnyddiwyd tua £20m o gyllid cyfalaf i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb digidol a nodwyd drwy ddysgu o bell, yn enwedig mewn ardaloedd anghysbell.Aed i'r afael â Lles Myfyrwyr hefyd wrth i gyllid gael ei ddarparu i wella darpariaeth iechyd meddwl yn ogystal â materion mwy ymarferol fel cynnal cyfleusterau ffreutur er mwyn darparu prydau bwyd poeth i fyfyrwyr o dan anfantais.

Er mwyn darpariaeth Prentisiaethau, darparwyd cyllid ychwanegol o £77m i fynd i'r afael â chostau dysgu cynyddol darparwyr yn ogystal â rhoi clustogfa ariannol i sicrhau bod amgylchedd darparwyr iach yn bodoli yng Nghymru.Darparwyd rhywfaint o'r cyllid ychwanegol hwn i gyflogwyr a oedd yn barod i ailgyflogi prentisiaid a ddiswyddwyd gan fod rhai busnesau yr effeithiwyd arnynt yn fawr wedi lleihau nifer eu staff.

Gwnaethom weithio'n agos gyda busnesau yng Nghymru er mwyn helpu Cymru i fynd i'r afael â phrinder cyfarpar diogelu personol. Cydgysylltwyd y gwaith hwn drwy'r Tîm Peirianneg Gofynion Cyfarpar Hanfodol, a arweiniwyd gan Lywodraeth Cymru a Diwydiant Cymru gyda chymorth yr Hwb Gwyddorau Bywyd a'r Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn gan

y diwydiant yng Nghymru, a oedd yn golygu, ynghyd â chaffael gan Lywodraeth y DU a chyfnewid cyfarpar diogelu personol a threfniadau caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei hun, nad oedd byth ddiffyg cyfarpar diogelu personol yng Nghymru. Mae'r enghreifftiau o hyblygrwydd diwydiant yng Nghymru yn cynnwys tua 50 o gwmnïau a oedd yn cynhyrchu feisorau, hylif diheintio dwylo, gynau, masgiau wyneb a gorchuddion wyneb.

Darparwyd £6m o gyllid gennym i gefnogi parseli bwyd i bobl yng Nghymru y bu'n rhaid iddynt warchod rhag y pandemig, gan ddefnyddio cyflenwyr o Gymru yn bennaf. Cyflwynwyd Cynllun Cymorth i Bysgodfeydd i gefnogi fflyd bysgota Cymru gan fod yn rhaid i lawer o gychod aros yn y porthladd yn ystod y pandemig.

O ran trafnidiaeth gyhoeddus, darparwyd cyllid ychwanegol sylweddol i wneud iawn am golli refeniw tocynnau a brynwyd ar y bws, a ostyngodd hyd at 90%. Rydym wedi ailwampio'r ffordd y caiff gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus eu darparu er mwyn adlewyrchu'r realiti masnachol newydd a sicrhau'r buddiannau a'r canlyniadau gorau posibl yn gyfnewid am y lefel uwch o gyllid a ddarparwyd gennym.

O fis Chwefror 2021, mae is-gwmni i Trafnidiaeth Cymru sydd newydd ddod o dan berchenogaeth gyhoeddus bellach yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd o ddydd i ddydd, sydd wedi camu i'w adwy fel perchennog pan fetho popeth arall o ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â rhedeg system trafnidiaeth gyhoeddus o dan gyfyngiadau symud. Drwy hyn, gall y llywodraeth chwarae rôl hyd yn oed yn fwy o ran darparu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru a'r gororau.

Bydd y cytundeb sy'n sail i gyllid drwy'r cynllun brys ar gyfer y sector bysiau yn sicrhau partneriaeth barhaol rhwng gweithredwyr a chyrff cyhoeddus, gan gynnig mwy o reolaeth yn gyfnewid am ein cyllid fel bod modd ailwampio rhwydwaith bysiau Cymru, cefnogi'r gwaith o reoli dulliau teithio a'r rhyngweithio rhyngddynt, gan gynnwys systemau tocynnau clyfar, rhwydwaith cyfeirio sy'n cyflawni amcanion ehangach, ac amserlennu cydgysylltiedig rhwng dulliau teithio.

Drwy gydol y cyfnod digynsail hwn, rydym wedi gweithio'n galed fel tîm a chyda chydweithwyr ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru i roi trefniadau llywodraethu a rheoli priodol, ymatebol ac ystwyth ar waith sy'n helpu i sicrhau bod gweithgareddau'r Grŵp yn cael eu goruchwylio'n briodol. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau cyflym ar wersi a nodwyd, adolygiadau o raglenni a oedd eisoes yn mynd rhagddynt, y defnydd o adolygiadau Gateway ar gyfer rhaglenni mawr, canllawiau a nodiadau atgoffa rheolaidd i arweinwyr tîm a staff, a'r defnydd o dimau her i brofi cysyniadau, dyluniad polisïau ac ymyriadau gweithredol, ynghyd â'r gwiriadau ac adolygiadau ôl-weithredol arferol. Mae'r rhain yn ategu gwaith parhaus pwysig cydweithwyr yn yr adran Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru.

Gyda hynt y pandemig, aethom ati i ddatblygu ac iteru systemau cydgysylltu canolog ein Grŵp a chyfarfodydd ein huwch dîm arwain i fodloni'r gofynion ar y pryd. Rhoddwyd pwyslais ar gyfathrebu cadarn i fyny, i lawr ac ar draws Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol er mwyn sicrhau bod cydweithwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau a chadw mewn cysylltiad agos â'n gilydd (am resymau llesiant gymaint ag am resymau sefydliadol).

Fel rhan o'n rhaglen fewnol 'Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol ar gyfer y dyfodol', rydym wedi sefydlu tîm trawsbynciol sy'n cynnwys staff o bob rhan a lefel yn y sefydliad, gan gynnwys cydweithwyr undebau llafur, gan ein helpu i ddysgu'r gwersi o weithio o bell ac, yn ei dro, i gyd-ddylunio ein Grŵp a model gweithredu Llywodraeth Cymru yn fwy cyffredin ar gyfer y dyfodol.

# Rheoli'r Ymadawiad â'r UE



Parhaodd y gwaith ar ymadawiad y DU â'r UE yn flaenoriaeth allweddol. Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi rheoli'r ansicrwydd ynglŷn â'r math o berthynas fyddai gan y DU â'r UE yn y dyfodol wrth i'r cyd-drafodaethau barhau tan ddiwrnodau olaf y cyfnod pontio a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2020.

Yn y flwyddyn newydd, cwblhawyd corff helaeth o waith i reoli'r cyfnod pontio cychwynnol i'r trefniadau newydd. Gan edrych i'r dyfodol, erys cryn dipyn o raglen waith i'w rheoli wrth i Gymru ddechrau bywyd y tu allan i'r UE a gweithredu yng nghyd-destun polisi a gwleidyddol sylweddol wahanol â'r UE a'i aelod-wladwriaethau.

Gwnaethom barhau i weithio o dan gryn ansicrwydd, gan gynllunio cyfres o ganlyniadau posibl wrth i'r cyd-drafodaethau ar berthynas y DU â'r UE yn y dyfodol fynd rhagddynt. Gan adeiladu ar y cynllun gweithredu ar gyfer dim cytundeb a gyhoeddwyd y llynedd, ar 11 Tachwedd cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Diwedd y Cyfnod Pontio gennym a oedd yn nodi'r camau gweithredu allweddol i baratoi ar gyfer nifer o ganlyniadau posibl ar ddiwedd y flwyddyn.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein cynlluniau a hysbysu partneriaid allweddol yn y sector cyhoeddus amdanynt er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i weithio mewn partneriaeth agos yn ystod cyfnod o bwysau eithafol wrth ymateb i bandemig COVID-19. Yn y diweddariad diwethaf ar ddiwedd cynllunio pontio Llywodraeth Cymru, nododd yr Archwilydd Cyffredinol: *"Er gwaethaf y pwysau ychwanegol, mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru wedi parhau i gadw trefniadau yn eu lle i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio"*.

Rydym hefyd wedi ymdopi â'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU a'r cyfnod pontio i berthynas newydd â'r UE drwy gynllunio ar gyfer y senario gwaethaf posibl. Wrth inni nesáu at ddiwedd y cyfnod pontio heb gytundeb ynglŷn â'r berthynas yn y dyfodol, gwnaethom gymryd camau mewn nifer o feysydd yng nghynllun gweithredu diwedd y cyfnod pontio.

Aethom ati i weithio gyda diwydiant, y GIG a llywodraeth leol yng Nghymru i sicrhau bod gan Gymru ddigon o gyflenwadau wrth gefn o nwyddau hanfodol, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar gynllunio wrth gefn a lleihau'r risg o darfu a phrinder bwyd, meddyginiaethau a nwyddau hanfodol eraill yng Nghymru. Gan gydnabod pwysigrwydd parodrwydd y sector preifat, gwnaethom ymgysylltu â rhanddeiliaid busnes allweddol i'w hysbysu am y prif newidiadau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnod pontio, gan gynnwys drwy ddiweddariadau rheolaidd ar Borth Cyfnod Pontio'r UE.[17]

Yn ystod mis Rhagfyr, daeth y Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau yn weithredol a hon yw ein hwb canolog ar gyfer cyfathrebu a briffio Gweinidogion Cymru, ac mae'n cysylltu'n uniongyrchol â swyddogion cyfatebol ym maes cynllunio argyfyngau sifil yn Llywodraeth y DU. Roedd ein gweithgarwch cydgysylltu brys yn gweithredu ym mhob maes lle roeddem yn wynebu risgiau mawr yn ystod y Flwyddyn Newydd, gan gynnwys COVID-19, ymadael â'r UE a phwysau'r gaeaf.

Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd goblygiadau gadael y cyfnod pontio eu monitro'n effeithiol gennym. Pan oedd angen, roedd materion yn cael eu huwchgyfeirio, gan gynnwys at Lywodraeth y DU drwy bresenoldeb rheolaidd yn Is-bwyllgor Cabinet Llywodraeth y DU.

Cytunwyd ar y berthynas rhwng y DU a'r UE ar 24 Rhagfyr 2020 drwy'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Ar ôl iddo gael ei gyhoeddi, gwnaethom gynnal ymarferiadau manwl a ddadansoddodd oblygiadau'r cytundeb ar ddinasyddion, busnesau a chymunedau yng Nghymru. Ar 12 Chwefror 2021, cyhoeddwyd ein dadansoddiad yn '*Y berthynas newydd â'r UE: beth mae'n ei olygu i Gymru*'.[18]

Ategwyd y dadansoddiad hwn gan ddogfen dechnegol a oedd yn nodi'r goblygiadau i fusnesau yng Nghymru yn fanylach. Cyhoeddwyd '*Y berthynas newydd â'r UE: beth mae'n ei olygu i Gymru*'[19] ar 11 Mawrth 2021. Ar bob cam, rydym wedi cyfathrebu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd yng Nghymru drwy raglen o weithgarwch ymgysylltu a chyfathrebu ochr yn ochr â'r diweddariadau rheolaidd i Paratoi Cymru.

Fel y nodwyd yn ein dadansoddiad, mae i'r berthynas newydd oblygiadau pellgyrhaeddol i ddinasyddion, busnesau a chymunedau yng Nghymru. Mae'r gwaith wedi parhau i sicrhau ein bod yn cymryd y camau angenrheidiol sy'n ofynnol o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys rhaglen sylweddol o weithgarwch i sefydlu Safleoedd Rheoli Ffiniau yng Nghymru fel y gellir cynnal y gwiriadau angenrheidiol ar nwyddau yn unol â Model Gweithredu Ffiniau'r DU.

17 Porth Cyfnod Pontio'r UE www.businesswales.gov.wales/eu-transition-portal/cy
18 Y berthynas newydd â'r UE – beth mae'n ei olygu i Gymru llyw.cymru/y-berthynas-newydd-ar-ue-beth-maen-ei-olygu-i-gymru
19 Beth mae'n ei olygu i fusnesau llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/beth-maen-ei-olygu-i-fusnesau-yng-nghymru.pdf

Drwy gydol y flwyddyn diwethaf, cynhaliwyd rhaglen waith, mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU, i ddiwygio cyfraith a oedd yn deillio o'r UE erbyn diwedd y cyfnod pontio, drwy ddefnyddio offerynnau statudol (OSau), bron bob un o dan Ddeddf yr UE (Ymadael). Roedd hyn yn ofynnol er mwyn sicrhau llyfr statud gweithredadwy ar yr adeg na fyddai cyfraith yr UE yn gymwys i'r DU mwyach, er mwyn rhoi sicrwydd a pharhad i ddinasyddion a busnesau. Roedd angen rhai offerynnau statudol hefyd i roi'r Cytundeb Ymadael a chytundebau cysylltiedig ar waith.

Cwblhawyd y gwaith y bernid ei fod yn angenrheidiol erbyn diwedd y cyfnod pontio, gyda Gweinidogion Cymru yn rhoi eu cydsyniad i wneud 55 o OSau eraill i'r DU ac 20 o OSau eraill i Gymru erbyn diwedd mis Rhagfyr.

Rydym hefyd wedi bod yn paratoi i reoli'r swyddogaethau sy'n dychwelyd i Gymru o ganlyniad i adael yr UE. Bydd hyn yn dod â chyfrifoldebau newydd i Lywodraeth Cymru ac yn gofyn am adnoddau a gallu ychwanegol mewn nifer o feysydd polisi amrywiol. Un gofyniad allweddol yw gweithredu polisi'n effeithiol gan bob un o lywodraethau'r DU. Mae rhaglen waith sylweddol ar waith i ddatblygu fframweithiau a chytuno arnynt. Ym mis Mawrth, cytunwyd ar bedwar maes fframwaith mewn egwyddor ac mae'r gwaith yn parhau ar y meysydd fframwaith sy'n weddill.[20]

Rydym wedi parhau â'n trefniadau gweithio trawslywodraethol a llywodraethu effeithiol o ran y gwaith ar faterion cyfnod pontio'r UE yn ystod 2020-21. Ar lefel swyddogion, mae strwythur llywodraethu newydd wedi cael ei sefydlu gyda Bwrdd Cyd-drafod a Bwrdd Gweithredu er mwyn darparu trefniadau llywodraethu cadarn ar gyfer ein holl waith hanfodol ar y cyd-drafodaethau a'r materion gweithredu. Mae'r byrddau hyn yn atebol i Fwrdd Sicrwydd newydd sy'n rhoi'r trosolwg a'r sicrwydd angenrheidiol o ran ein gwaith. Ar lefel Weinidogol, mae Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfnod Pontio'r UE a Masnach wedi parhau i weithredu dros y flwyddyn.

Er mwyn cefnogi ein trefniadau gweithio trawslywodraethol a llywodraethu cyfnod pontio'r UE yn effeithiol yn ystod 2020-21, aeth Llywodraeth Cymru i £21.8m o wariant yn 2020-21 ar gyfer costau staffio a oedd yn ymwneud â thimau Pontio'r UE, a staff ym mhob un o Grwpiau Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar weithgarwch prosiectau Pontio'r UE. Roedd y £21.8m yn cynnwys £5.9m (80 o staff) ar gyfer y tîm pontio canolog a £15.9m (177 o staff) o fewn grwpiau Llywodraeth Cymru.

20 Datganiad Ysgrifenedig am Fframweithiau Cyffredin Dros Dro
llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyhoeddi-fframweithiau-cyffredin-dros-dro

## Astudiaeth Achos

### Y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu

Mae gan y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu, a gyhoeddwyd yn 2021, rôl hollbwysig i'w chwarae o ran hyrwyddo Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Yn benodol, mae'n cyfrannu at lesiant byd-eang cadarnhaol drwy ddarparu trefniadau cyfnewid cilyddol ledled y byd gyda phwyslais penodol ar gynyddu nifer y cyfranogwyr o gefndiroedd difreintiedig.

Yn ogystal â niweidio partneriaethau rhyngwladol yn fwy cyffredinol, byddai colli mynediad at Raglen Erasmus+ o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd wedi cael effaith niweidiol ar allu dysgwyr, addysgwyr a phobl ifanc yng Nghymru i deithio fel rhan o'u hastudiaethau, ac i ddysgwyr o dramor gyfoethogi ein sefydliadau dysgu. Gwaethygwyd y niwed hwn gan effaith COVID-19, a rwystrodd bron bob cyfle i symud ar gyfer dysgu rhyngwladol.

Felly, cafodd y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu ei datblygu a'i chyhoeddi ar adeg dyngedfennol. Yn y byrdymor, rhoddodd neges ryngwladol glir, hollbwysig: bod Cymru yn parhau i fod yn wlad agored a chroesawgar i lunio partneriaethau rhyngwladol â hi. Yn yr hirdymor, bydd yn parhau i adeiladu ar y rhai sy'n datblygu partneriaethau drwy roi cyfleoedd i bob darparwr addysg yng Nghymru, a sicrhau bod ein sefydliadau dysgu yn parhau'n fywiog ac yn amrywiol yn ddiwylliannol. Gweithiodd Llywodraeth Cymru yn agos gyda Phrifysgol Caerdydd, a fydd yn gweinyddu'r rhaglen, a hefyd gydag amrywiaeth eang o randdeilaid o bob rhan o'r sector addysg – ac mae ymgysylltu o'r fath yn parhau, wrth i'r broses o ddatblygu'r rhaglen yn y dyfodol barhau i gael ei llywio drwy gydweithio.

# Dyfodol Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru



Cytunodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol a gydgynhyrchwyd â rhanddeiliaid sy'n nodi ein cynlluniau ar gyfer disodli cyllid Ewropeaidd a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020.

Wedyn, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n cyflwyno ei threfniadau ei hun ar ôl ymadael â'r UE, felly er y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i chwarae rôl arweinyddiaeth weithredol yn y gwaith o gydgysylltu gweithgarwch economaidd ledled Cymru, nid oes unrhyw drefniadau rheoli grant ar hyn o bryd yn lle'r trefniadau blaenorol.

# Adroddiadau Llywodraeth Cymru

Dim ond un o’r adroddiadau allweddol sy’n ymdrin â gwaith cyflawni a gweithgareddau Llywodraeth Cymru a’r Gwasanaeth Sifil yw’r Cyfrifon Cyfunol. Mae’r lleill yn cynnwys:

| Adroddiadau allweddol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweinidogol | | | Sefydliadol | Data Ystadegol | |
| | Proses y Gyllideb | Adroddiad Alldro | Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2020 | Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | Adroddiad Llesiant Cymru | Adroddiad Tueddiadau’r Dyfodol |
| **Deddfwriaeth** | A125 ac 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006<br>Rheolau Sefydlog 20.7 – 20.24; 20.25 – 20.37 | Amh. | Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol | Deddf Llywodraeth Cymru – a131-136 | Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol | Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol |
| **Arwain** | Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd | Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd | Y Prif Weinidog | Yr Ysgrifennydd Parhaol | Y Prif Ystadegydd | Y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip |
| **Diben** | Cynnig y cynlluniau cyllid a chytuno arnynt, a symiau’r adnoddau a’r arian parod y mae’r llywodraeth yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol (gyda symiau dros dro ar gyfer y ddwy flwyddyn ddilynol neu’r cyfryw gyfnod arall ag yr ystyria’r Gweinidog yn briodol) a diwygiadau i’r gyllideb honno yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol | Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio mewn modd agored a thryloyw, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu adroddiad ysgrifenedig i’r Pwyllgor Cyllid ar yr alldro terfynol.<br>Mae’r adroddiad yn cynnwys cymhariaeth â’r cynlluniau gwario a nodwyd yng Nghyllideb Atodol olaf y flwyddyn ac esboniad o’r amrywiadau sylweddol | Cynnydd tuag at 12 amcan llesiant Llywodraeth Cymru a’r chwe maes â blaenoriaeth sy’n cyfrannu at amcanion lluosog | Manylion ynglŷn â sut y caiff Llywodraeth Cymru ei rhedeg, gan gynnwys sut mae’n rheoli ei chyllid ac yn cyflawni ei rhwymedigaethau statudol | Cynnydd a wnaed drwy gyfraniad cyfunol pob corff cyhoeddus, sefydliad ac unigolyn tuag at y saith nod llesiant drwy ddefnyddio’r dangosyddion llesiant cenedlaethol | Mae’n amlinellu tueddiadau tebygol yn y dyfodol o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac unrhyw wybodaeth ddadansoddol arall sy’n briodol ym marn Gweinidogion Cymru |

| Adroddiadau allweddol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweinidogol | | | Sefydliadol | Data Ystadegol | |
| | Proses y Gyllideb | Adroddiad Alldro | Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2020 | Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | Adroddiad Llesiant Cymru | Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol |
| Amseru | Dim byd penodol ond cyn toriad yr haf mae'n ofynnol i'r Gweinidog Cyllid ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i gytuno ar amserlen y gyllideb | O fewn tair wythnos i gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol | Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol | Erbyn 30 Tachwedd bob blwyddyn | Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol – ond yn dibynnu ar ddata'r Arolwg Cenedlaethol ym mis Mehefin | O fewn 12 mis i etholiad – sleidiau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd |
| Amseriadau'r flwyddyn hon | Y Gyllideb Ddrafft 16 Rhagfyr 2019<br>Y Gyllideb Derfynol 25 Chwefror 2020<br>Y Gyllideb Atodol Gyntaf 27 Mai 2020<br>Yr Ail Gyllideb Atodol 20 Hydref 2020<br>Y Drydedd Gyllideb Atodol 16 Chwefror 2021 | O fewn tair wythnos i gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol | 31 Ionawr 2021 | 4 Awst 2022 | 3 Rhagfyr 2020 | Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ym mis Mawrth 2017<br>Diweddarwyd y sleidiau ym mis Ebrill 2019<br>Yr ail adroddiad wedi'i gynllunio ar gyfer mis Rhagfyr 2021 |
| Craffu | Y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgorau Pwnc | Y Pwyllgor Cyllid | Dadl yn y Cyfarfod Llawn y Prif Weinidog y Pwyllgor Craffu | Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Amh. | Amh. |

# Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru


LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

Mabwysiadwyd Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru fel y dull o fonitro perfformiad Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn 2019.

Mae'r fframwaith yn seiliedig ar y Mynegai Effeithiolrwydd Rhyngwladol ar gyfer Gwasanaethau Sifil ac fe'i mabwysiadwyd i gyd-fynd â strategaethau, blaenoriaethau ac amcanion Llywodraeth Cymru drwy ymgynghori â'r Bwrdd, uwch-reolwyr ac ymchwilwyr.

Nod Fframwaith Llywodraeth Cymru yw sbarduno gwelliannau yn effeithiolrwydd trefniadol Gwasanaeth Sifil Cymru drwy ganolbwyntio ar berfformiad gweithredol a chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol mewn perthynas â rhedeg y sefydliad. Ar hyn o bryd, mae'n cynnwys 19 o themâu sydd wedi'u rhannu'n ddau grŵp – swyddogaethau ('beth rydym yn ei wneud') a phriodoleddau ('sut rydym yn ei wneud').

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys crynodebau lefel uchel o'r fframwaith yn ei chyfrifon blynyddol.






# Cyflwyno adroddiad ar themâu sy'n ymwneud â phriodoleddau

Cyflwynir adroddiad ar berfformiad yn erbyn y fframwaith ddwywaith y flwyddyn i Fwrdd Llywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad cyntaf yn canolbwyntio'n benodol ar y themâu sy'n ymwneud â phriodoleddau ac fe'i trafodwyd gan y Bwrdd ym mis Medi 2020.

Roedd aelodau'r Bwrdd o'r farn bod ymgysylltu â'r staff a lles staff yn arbennig o bwysig i'r sefydliad ganolbwyntio arnynt. Teimlid bod y meysydd hyn yn allweddol ar adeg pan oedd y sefydliad yn ymaddasu i'r ffyrdd newydd o weithio o ganlyniad i'r pandemig. Roedd staff yn gweithio gartref yn bennaf ac roedd gweithgarwch ymgysylltu yn cael ei gynnal drwy ddulliau rhithwir ar y cyfan. Cynigiwyd y dylid parhau i adolygu'r sianeli mewnol a oedd ar gael i'r staff (megis ein Mewnrwyd ac adnoddau ymgysylltu rhithwir) fel rhan o Strategaeth newydd Gweithlu'r Dyfodol.

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r mesurau ar gyfer y themâu sy'n ymwneud â phriodoleddau (y rhai sydd fwyaf cynrychioliadol) a lywiodd y drafodaeth.

| Thema sy'n ymwneud â phriodoleddau | Mesur | Ffynhonnell | Sgôr | Cyfnod cyfeirio | Sgôr y cyfnod blaenorol |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffyrdd o Weithio a Gwerthoedd Craidd  | Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (Sgôr Pum Ffordd o Weithio) | Arolwg Pobl Llywodraeth Cymru: Cipolwg | 72% | Mawrth 2020 | Amh. |
| Bod yn agored  | Canran y ceisiadau am wybodaeth a gwblhawyd yn unol â'r terfyn amser statudol | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 90% | Blwyddyn galendr 2019 | 90% (Blwyddyn galendr 2018) |
| Galluoedd  | Canran y staff sy'n cytuno eu bod yn gallu cael gafael ar y cyfleoedd dysgu a datblygu cywir | Arolwg Pobl Llywodraeth Cymru: Cipolowg | 67% | Mawrth 2020 | 66% (Hydref 2018) |
| Cydraddoldeb a Chynhwysiant  | Canran y staff sy'n uniaethu â bod yn rhan o grŵp cydraddoldeb | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 2.6% Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol<br>5.8% Anabl<br>3.3% Cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol | Blwyddyn ariannol 2019-20 | 2.4% Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol<br>5.5% Anabl<br>2.9% Cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol<br>(Blwyddyn ariannol 2018-19) |


| Thema sy'n ymwneud â phriodoleddau | Mesur | Ffynhonnell | Sgôr | Cyfnod cyfeirio | Sgôr y cyfnod blaenorol |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymgysylltu â'r Staff  | Sgôr Mynegai Ymgysylltu â Chyflogeion | Arolwg Pobl Llywodraeth Cymru: Cipolwg | 66% | Mawrth 2020 | 64% (Hydref 2018) |
| Y Gymraeg   | Nifer y cwynion sy'n ymwneud â Safonau Darparu Gwasanaeth Cymraeg | Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg | 24 o gwynion | Blwyddyn ariannol 2019-20 | 38 o gwynion (Blwyddyn ariannol 2018-19) |
| Arloesedd  | Canran y staff sy'n cytuno bod eu tîm yn cael ei annog i gynnig ffyrdd newydd a gwell o wneud pethau | Arolwg Pobl Llywodraeth Cymru: Cipolwg | 77% | Mawrth 2020 | 77% (Hydref 2018) |



## Cyflwyno adroddiad ar themâu sy'n ymwneud â swyddogaethau

Cafodd y bwrdd yr adroddiad cyntaf ar themâu sy'n ymwneud â swyddogaethau ym mis Mehefin 2021. Yn y sesiwn honno, croesawodd y Bwrdd yr adroddiad a roddodd gryn sicrwydd ynglŷn â pherfformiad cyffredinol ym marn y Bwrdd.

Gwnaeth y Bwrdd awgrymiadau hefyd i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach, gan gynnwys y mesurau sy'n sail iddo. Nododd yr aelodau fod lle i adeiladu ar y ffynonellau a ddefnyddiwyd yn y Fframwaith, er enghraifft, drwy gynyddu faint o adborth a geisir oddi wrth randdeiliaid. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru dros amser geisio gwella ei hymdrechion i ddatblygu trefniadau rheoli rhaglenni a phrosiectau ardderchog ymhellach, gan fod hyn mor hanfodol i gyflawni. Gofynnodd yr aelodau hefyd am i'r adroddiad ar berfformiad gael ei ddosbarthu a'i ystyried ar lefelau eraill yn y sefydliad.

Mae'r tabl yn dangos y mesurau trosolwg a drafodwyd.

| Thema sy'n ymwneud â swyddogaethau | Mesur | Ffynhonnell | Sgôr | Cyfnod cyfeirio | Sgôr y cyfnod blaenorol |
|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Cyllidol ac Ariannol  | Gwahaniaeth canrannol rhwng y rhagolygon a'r ffigurau alldro ar gyfer y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi | Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru | Treth trafodiadau tir<br>-10.5%<br>Treth gwarediadau tirlenwi<br>-17% | Blwyddyn ariannol 2019-2020 | Treth trafodiadau tir -10%<br>Treth gwarediadau tirlenwi<br>+41%<br>(Blwyddyn ariannol 2018-19) |
| Cydnerthedd, Cynllunio Wrth Gefn ac Ymateb  | Cyfanswm y diwrnodau roedd Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru yn gweithredu | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 191 diwrnod | Mawrth 2020 – Mawrth 2021 | Amh. |
| Deddfwriaeth  | Biliau a gyhoeddwyd ac a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn ddeddfwriaethol | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | Cyhoeddwyd saith Bil a chyflwynwyd pum Bil yn ystod y flwyddyn ddeddfwriaethol | Gorffennaf 2019 – Gorffennaf 2020 | Cyhoeddwyd pum Bil a chyflwynwyd pedwar Bil yn ystod y flwyddyn ddeddfwriaethol<br>(Gorffennaf 2018 – Gorffennaf 2019) |
| Caffael  | Canran y gwariant dylanwadwy a enillwyd yn uniongyrchol gan fusnesau yng Nghymru, gan gynnwys BbaChau | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 43% | Blwyddyn ariannol 2019-2020 | 44%<br>(Blwyddyn ariannol 2018-19) |

| Thema sy'n ymwneud â swyddogaethau | Mesur | Ffynhonnell | Sgôr | Cyfnod cyfeirio | Sgôr y cyfnod blaenorol |
|---|---|---|---|---|---|
| Grantiau  | Nifer yr ymholiadau yr ymdriniodd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau â nhw | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 2650 o ymholiadau | Blwyddyn ariannol 2020-2021 | 1767 o ymholiadau<br>(Blwyddyn ariannol 2019-20) |
| Adnoddau Dynol a Rheoli'r Gweithlu  | Nifer yr ymgeswyr allanol i swyddi Llywodiraeth Cymru yn ôl grwpiau lleiafrifol | Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Cyflogwr | 6% Anabl<br>7% Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol<br>7% Cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol | Blwyddyn ariannol 2019-2020 | 6% Anabl<br>6% Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol<br>6% Cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol<br>(Blwyddyn ariannol 2018-19) |
| TGCh a Digidol i Swyddogion  | Canran y staff sy'n dweud eu bod wedi cael yr adnoddau angenrheidiol i wneud eu gwaith | Arolwg Pobl | 84% | Hydref 2020 | 80%<br>(Mawrth 2020) |
| Cyllid Mewnol  | Canran y taliadau a wnaed o fewn 10 diwrnod i dderbyn anfoneb | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 96% | Blwyddyn ariannol 2020-2021 | 93%<br>(Blwyddyn ariannol 2019-20) |
| Rheoli'r Gweithle a Chyfleusterau  | Cyfanswm allyriadau carbon ystad weinyddol Llywodraeth Cymru | Adroddiad ar Gyflwr yr Ystad | 3713 o dunelli | Blwyddyn ariannol 2019-2020 | 4236 o dunelli<br>(Blwyddyn ariannol 2018-19) |
| Gwasanaethau Digidol i Ddinasyddion  | Nifer y gwasanaethau digidol rhyngweithiol sydd ar gael i ddinasyddion ac sy'n cael eu datblygu | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 41 o wasanaethau | Mawrth 2021 | 28 o wasanaethau<br>(Hydref 2018) |

# Cyflawni ein Hymrwymiad i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

## Gweithio mewn Ffordd Gynaliadwy – Llywodraethu Cynaliadwy

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio gyda phobl, cymunedau a'i gilydd yn well, canolbwyntio ar atal problemau cyn iddynt godi, a mabwysiadu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig. Mae saith nod llesiant ac egwyddor datblygu cynaliadwy (pum ffordd o weithio) y Ddeddf yn rhoi fframwaith clir ynglŷn â sut y dylai'r llywodraeth weithio i roi Cymru ar lwybr mwy cynaliadwy.

Rôl gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf a chyflawni eu hamcanion llesiant, yn ogystal â'u hymdrechion i hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Nod y ddeddfwriaeth yw sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol y llywodraeth a chyrff cyhoeddus, ac felly dylai trefniadau gweithredu a llywodraethu a mecanweithiau'r Llywodraeth, a'r cyngor a'r cymorth a roddir gan y gwasanaeth sifil yng Nghymru, wella'n gyson er mwyn ymateb i'r gofynion hyn.

Fel rhan o'n tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, darparwyd papur ategol[21] gennym cyn y broses o graffu ar waith swyddogion Llywodraeth Cymru ar 1 Chwefror 2021. Canolbwyntiodd y papur ar y camau gweithredu a gymerwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol gyda'r Pwyllgor Gweithredol a swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru.

Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon *Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol:y stori hyd yma*[22] ar 17 Mawrth ac fe'i trafodwyd ar 24 Mawrth 2021. Ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip[23] at gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn nodi y byddai Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r adroddiad erbyn yr hydref[24]. Caiff ein tystiolaeth o weithredu wrth inni barhau i ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy yn Llywodraeth Cymru a helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni eu dyletswyddau o ran datblygu cynaliadwy a llesiant cenedlaethau'r dyfodol ei llywio gan ein Fframwaith Gweithredu Strategol.

---

21 Papur Ategol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus www.busnes.senedd.cymru/documents/s112194/PAC5-04-21%20P2%20-%20Llywodraeth%20Cymru.pdf

22 Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: y stori hyd yma www.senedd.cymru/media/yjubmisr/cr-ld14223-w.pdf

23 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog www.busnes.senedd.cymru/documents/s114240/Llythyr%20gan%20y%20Dirprwy%20Weinidog%20ar%20Prif%20Chwip%20-%2024%20Mawrth%202021.pdf

24 Ysgrifennodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 1 Hydref 2021 yn amgáu ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad.

## Gweinidogion Cymru

Ar 1 Chwefror 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Hadroddiad Blynyddol[25] ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ei hamcanion llesiant. Ar 19 Chwefror 2021, gwnaeth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ddatganiad ysgrifenedig *Llunio Dyfodol Cymru: Cyflawni'r Cerrig Milltir Llesiant Cenedlaethol a'r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol ac adroddiad ar ddyfodol Cymru.*[26] Mae hwn yn cynnwys map ffordd i gyflwyno'r gwaith hwn erbyn mis Rhagfyr 2021.

Ym mis Mai 2020, estynnodd Llywodraeth Cymru wahoddiad i'r cyhoedd anfon eu syniadau ar y camau gweithredu yr oedd eu hangen i gefnogi'r broses o adfer ac ail-greu ar ôl COVID-19. Cyhoeddodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ddadansoddiad o'r ymatebion hyn wedi'u trefnu o dan chwe maes thematig (cymdeithas; yr economi; yr amgylchedd; iechyd; gofal cymdeithasol a llesiant; ymgysylltu gwleidyddol; a thechnoleg ddigidol). Pwysleisiodd llawer o'r cynigion fod angen cyflawni dyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn ogystal â chlywed gan bobl o bob rhan o Gymru, aeth y Cwnsler Cyffredinol ati i gynnull chwe bord gron gydag arbenigwyr blaenllaw o Gymru a'r byd. Gwnaed datganiad ysgrifenedig[27] ar 17 Mehefin 2020, ac ar 6 Hydref 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Coronafeirws ac ail-greu: yr heriau a'r blaenoriaethau.*[28]

Er mwyn cydnabod problem gyffredin, sef symleiddio cymhlethdodau wrth i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gydweithio, cynhaliwyd adolygiad o bartneriaethau strategol ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chonffederasiwn GIG Cymru. Cyflwynwyd adroddiad ar yr[29] Adolygiad o Bartneriaethau Strategol i Gyngor Partneriaeth Cymru ym mis Mehefin 2020.

Yn 2020-21, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel rhan o Rwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant ochr yn ochr â'r Alban, Gwlad yr Iâ a Seland Newydd.

## Y Gwasanaeth Sifil

Mae Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio fel un o'r priodoleddau allweddol i sbarduno gwelliannau yn effeithiolrwydd Gwasanaeth Sifil Cymru. Roedd ein Harolwg Pobl yn 2020 yn awgrymu bod nifer cymharol uchel o bobl, yn ôl pob tebyg, wedi mabwysiadu'r pum ffordd o weithio yn barod. Yn 2021, byddwn yn ystyried y lefel fabwysiadu hon ymhellach drwy gynnal ymarferiad archwilio mewnol o Adrannau er mwyn nodi arferion da a'u rhannu.

---

25 Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2020 llyw.cymru/cyfrifon-cyfunol-blynyddol-llywodraeth-cymru-2019-2020
26 Llunio Dyfodol Cymru llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-llunio-dyfodol-cymru-cyflawnir-cerrig-milltir-llesiant-cenedlaethol
27 Datganiad Ysgrifenedig llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cymru-ein-dyfodol-ailgodi-ar-ol-covid-19
28 Coronafeirws ac Ail-greu:yr Heriau a'r Blaenoriaethau llyw.cymru/ail-greu-ar-ol-y-coronafeirws-yr-heriau-ar-blaenoriaethau
29 Adolygiad o Bartneriaethau Strategol llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/adroddiad-terfynol.pdf

Datblygwyd Fframwaith Galluogrwydd Polisi ac wrth ei wraidd y mae'r pum ffordd o weithio. Nod y fframwaith a'r rhaglen galluogrwydd polisi gysylltiedig yw ein helpu i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol, gwybodaeth ac ymddygiadau a fydd yn galluogi'r Gwasanaeth Sifil i roi cyngor o safon uchel i Weinidogion yn awr ac yn y dyfodol.

Rydym wedi ehangu ac wedi cryfhau ein rhaglen galluogrwydd a'n harlwy dysgu yn chwarter cyntaf 2021, gan lansio ein hyfforddiant ar 'llwybrau polisi' gyda'r pum ffordd o weithio yn sylfaenol i'r rhaglen ar gyfer cydweithwyr ar ddechrau eu gyrfaoedd. Bwriedir i'r rhaglen hon barhau a chaiff cyfleoedd dysgu newydd eu cyflwyno drwy gydol y flwyddyn.

## Galluogi Eraill

Ym mis Ionawr 2021, sefydlodd Llywodraeth Cymru 'Fforymau Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i Randdeiliaid'. Nod y grŵp hwn yw dwyn ynghyd amrywiaeth eang o randdeiliaid o sectorau gwahanol i gefnogi, a chynghori ar y broses genedlaethol o roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru ar waith.

Ym mis Mawrth 2021, cyflwynwyd y gyfres nesaf o ddigwyddiadau Cyfnewid Syniadau Cenedlaethau'r Dyfodol a oedd yn adeiladu ar lwyddiant y digwyddiad a gynhaliwyd yng Nghasnewydd ym mis Ionawr 2020. Yn ystod y digwyddiad cyntaf, dygwyd ynghyd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i rannu arferion ar gymhwyso'r ddyletswydd llesiant ac roedd yn cynnwys y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol. Edrychodd yr ail ddigwyddiad ar '*Llesiant cenhedlaeth y pandemig - pobl ifanc mewn oes ansicr*' ac roedd yn cynnwys y Prif Weinidog, y Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Academi Wales yw'r ganolfan ar gyfer rhagoriaeth mewn arweinyddiaeth a datblygiad ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac mae'n hyrwyddo ffordd Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru[30] o weithio drwy ei harlwy ar arwain a datblygu. Fel Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, rydym yn rhannu'r cyfrifoldeb i helpu i greu'r Gymru yr hoffem fyw ynddi yn awr ac yn y dyfodol. Mae Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru yn creu diwylliant arwain sy'n sbarduno gwelliannau i gyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Academi Wales wedi mabwysiadu saith ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac wedi'u hymgorffori yng Ngwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru sef Gweithio ar gyfer yr Hirdymor, Tyfu a Gwella Bob Amser, Cydweithio, Trin Pawb â Pharch a Rhoi Dinasyddion yn Gyntaf. Cyhoeddodd Academi Wales ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2019-20[31] sy'n tynnu sylw at gyflawniadau allweddol dros y flwyddyn, ac yn rhannu manylion ac ystadegau allweddol o'i phrif ddigwyddiadau.

Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i ddatblygu *Cymru sy'n fwy cyfartal: canllaw mapio*[32] ar gyfer cyrff cyhoeddus ynglŷn â sut y gellid cymhwyso'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a'r ddyletswydd llesiant mewn ffordd integredig. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021.

---

30 Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru www.academiwales.gov.wales/pages/one-welsh-public-service-un-gwasanaeth-cyhoeddus-cymru
31 Adroddiad Blynyddol Academi Wales ar gyfer 2019-20
www.academi-wales-team-storage.s3-eu-west-1.amazonaws.com/corporate/Adroddiad-Blynyddol-2019-2020.pdf
32 Cymru Fwy Cyfartal: Canllaw Mapio www.llyw.cymru/cymru-syn-fwy-cyfartal-canllaw-mapio

Aeth tudalen ymgyrch newydd[33] ar agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn fyw ar ddechrau 2021 sy'n cynnig un llwybr tuag at yr wybodaeth ar wefan llyw.cymru am bolisi Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a datblygu cynaliadwy. Roedd hyn yn cynnwys animeiddiad wedi'i ddiweddaru i gyfleu prif nodweddion y ddeddfwriaeth.

## Deall Cymru

Drwy gydol 2020, mae'r pandemig COVID-19 wedi cyffwrdd â phob elfen o fywyd yng Nghymru. Mae ein hystadegwyr yn Llywodraeth Cymru wedi chwarae rôl sylweddol yn yr ymateb i'r gofynion dadansoddol y mae'r pandemig wedi eu creu, gan roi darlun o weithgarwch y GIG, marwolaethau, cydraddoldeb, yr economi a chymdeithas.

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol Llesiant Cymru[34] gan y Prif Ystadegydd ym mis Rhagfyr 2020 ac mae'n rhoi diweddariad ar lesiant yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn ein helpu i asesu a ydym yn gwneud cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant cenedlaethol yn ogystal â sylwadau ynglŷn â lle y disgwyliwn weld newidiadau ers dechrau pandemig y coronafeirws (COVID-19).

Yn ystod 2020-21, dechreuodd y gwaith ar ddatblygu a pharatoi adroddiad statudol Llywodraeth Cymru ar y dyfodol.[35] Cynhaliwyd gweithdai i ddefnyddwyr gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Tachwedd i lywio'r camau cynnar, a chyflwynwyd datblygiad cychwynnol y gwaith hwn i Fforwm Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i Randdeiliaid. Yn unol â'r datganiad ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, bwriedir ei gyhoeddi erbyn mis Rhagfyr 2021.

33 Tudalen Ymgyrch www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru
34 Adroddiad Blynyddol Llesiant Cymru llyw.cymru/llesiant-cymru-2020
35 Tueddiadau'r Dyfodol, Dangosyddion Cenedlaethol a Cherrig Milltir Cenedlaethol: Cynllun Cyfunol ar gyfer 2021 www.llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-dangosyddion-cenedlaethol-a-cherrig-milltir-cenedlaethol-cynllun-cyfunol-ar-gyfer-2021-html


# Llifau Cyllido Llywodraeth Cymru

Mae Cyllideb Llywodraeth Cymru yn awdurdodi'r symiau a'r dibenion y darperir cyllid i Weinidogion Cymru ar eu cyfer er mwyn ymgymryd â gweithgarwch Llywodraeth Cymru. Mae'r ffeithlun canlynol yn defnyddio trydedd Gyllideb Atodol ar gyfer 2020-21 ac yn amcanestyn trethi eraill a gwariant o ystadegau Cyllid Sector Cyhoeddus Gwledydd a Rhanbarthau 2018-19 y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n defnyddio Rhagolwg Economaidd a Chyllidol Mawrth 2021 y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

Y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a chyfraddau Treth Incwm Cymru yw'r trethi datganoledig.Trethi lleol yw'r Dreth Gyngor a'r Ardrethi Annomestig.

## Sut y telir am wasanaethau cyhoeddus Cymru wedi datganoli trethi?

**Ffigurau ar gyfer 2020-21**



# Polisi Trethi Llywodraeth Cymru, Rhagolygon Cyllidol a Benthyca

Mae Cyllideb Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion am gyllid y llywodraeth, trethiant a dyraniadau ar lefel y Prif Grŵp Gwariant (MEG), ac yn amlinellu cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf y llywodraeth. Mae manylion am gyllidebau Llywodraeth Cymru[36] ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Ategir y Gyllideb gan Adroddiad y Prif Economegydd[37] a'r Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru[38] sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Caiff y Rhagolwg Trethi Cymreig[39] ei baratoi gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ac mae'n rhoi'r asesiad o'r fframwaith cyllidol ehangach y pennir y Gyllideb oddi mewn iddo. Mae ar gael ar wefan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Ceir rhagor o wybodaeth am ein Fframwaith Cyllidol a Threthi Datganoledig[40] ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Cronfa Hapddigwyddiadau'r DU

Yn ystod 2020-21 ac o ganlyniad uniongyrchol i bandemig COVID-19, talwyd £4.6bn o arian parod ymlaen llaw o Gronfa Hapddigwyddiadau'r DU. Mae'r Gronfa Hapddigwyddiadau yn weithdrefn safonol yn y DU i gael gafael ar arian parod i ddiwallu anghenion yn y byrdymor cyn i'r Prif Amcangyfrif a'r Amcangyfrif Atodol gael eu cymeradwyo ac fe'i had-dalwyd yn llawn yn y flwyddyn ariannol 2020-21. Mae cyfrifon statudol Swyddfa Cymru yn cofnodi'r swm a dalwyd ymlaen llaw ac a ad-dalwyd. Nid yw'n ofynnol cynnwys unrhyw drafodiadau cyfrifyddu ychwanegol yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru. Mae'r symiau yn rhan o lifau arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru.

## Benthyca gan Weinidogion Cymru

O dan adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017) rhoddwyd pwerau benthyca ychwanegol i Weinidogion Cymru yn weithredol o fis Ebrill 2018. Caiff unrhyw symiau sy'n cael eu benthyca a'u had-dalu o dan y darpariaethau hyn eu gwneud drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac felly cânt eu hadlewyrchu yn y cyfrifon hynny.


Yn 2018-19, talwyd £65m i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol. Ni chafodd unrhyw bwerau benthyca eu harfer yn 2020-21. Ar 31 Mawrth 2021, y swm sy'n weddill yw £62m.

---

36 Cyllidebau Llywodraeth Cymru llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru
37 Adroddiad y Prif Economegydd 2020 llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-12/2020-adroddiad-y-prif-economegydd.pdf
38 Adroddiad ar Bolisi Trethi 2021 llyw.cymru/adroddiad-ar-bolisi-trethi-2021
39 Rhagolwg Trethi Cymreig – Rhagfyr 2020 - Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol www.obr.uk/rhagolwg-trethi-cymreig-rhagfyr-2020/
40 Trethi Cymru llyw.cymru/trethi-cymru

# Cyd-destun Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru

Disgrifir gweithgarwch cyllidol Cymru mewn cyfres o wybodaeth am y cyfrifon statudol:



## Cyfrif Cronfa Gyfunol Cymru

Mae'r cyfrif hwn yn cael derbyniadau a gymeradwywyd drwy bleidlais gan Senedd y DU, derbyniadau Yswiriant Gwladol, trawsdaliad Cyfraddau Treth Incwm Cymru a derbyniadau Trethi Datganoledig. Telir benthyciadau gan Weinidogion Cymru i mewn i'r cyfrif hwn hefyd. Gwneir taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru i gyrff a gwmpesir gan Gynnig yng Nghyllideb Cymru neu fel Taliadau Uniongyrchol.

## Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru

Mae'r cyfrif hwn yn rhoi adroddiad ar dderbyniadau Trethi Datganoledig ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.[41]

## Cyfrifon y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gyllideb Cymru

- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru[42]
- Comisiwn y Senedd[43]
- Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru
- Swyddfa Archwilio Cymru[44]

## Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru a'r Ffin Gyfrifyddu

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrifon o dan a13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yr Ysgrifennydd Parhaol fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu dros Weinidogion Cymru sy'n gyfrifol am baratoi a llofnodi'r cyfrifon. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu'r asedau a'r rhwymedigaethau cyfun a chanlyniadau endidau o fewn ffin gyfrifyddu gyfunol Llywodraeth Cymru. Mae'r ffin gyfrifyddu yn debyg i'r cysyniad o grŵp ar gyfer cyfrifyddu corfforaethol, ond mae'n seiliedig ar feini prawf rheoli ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth am y ffin gyfrifyddu ar gael yn y Datganiadau Ariannol ac yn Nodyn 1.2 i'r cyfrifon.

Mae'r sefydliadau cyfunol yn paratoi ac yn cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol a'u cyfrifon eu hunain.

Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys Craidd Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru ei hun) ac endidau Grŵp Llywodraeth Cymru, sef:

---

41 Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon Awdurdod Cyllid Cymru llyw.cymru/adroddiadau-chyfrifon-blynyddol-awdurdod-cyllid-cymru
42 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ombwdsmon www.ombwdsmon.cymru/annual-report-accounts/
43 Comisiwn y Senedd www.busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=2850
44 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru www.audit.wales/cy/publication/adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2019-20

## Grŵp Llywodraeth Cymru

- Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Banc Datblygu Cymru
- WGC Holdco Limited
- Career Choices Dewis Gyrfa Cyf
- Trafnidiaeth Cymru
- Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP

Er bod Llywodraeth Cymru yn ariannu Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff Comisiynwyr, nid ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfrifon hyn gan nad ydynt yn dod o fewn y ffin ar gyfer cyfrifyddu cyfunol.

Yn ystod y flwyddyn, sefydlodd Trafnidiaeth Cymru ddau is-endid newydd, TFW Innovation Services Limited a Transport for Wales Rail Limited, a ddaeth yn gyfrifol am weithredu gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Nid yw'r endidau hyn wedi'u cynnwys yng nghyfrifon cyfunol 2020-21 am nad ydynt yn bodloni gofynion y ffin gyfrifyddu.


Disgwylir cael dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r ddau endid yn y flwyddyn ariannol 2021-22 a fydd yn pennu ymhellach a ddylai'r endidau hyn gael eu cyfuno yng Ngrŵp Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Mae cost cyllido gwasanaeth Cymru a'r Gororau wedi'i chynnwys yn y cyfrifon hyn fel rhan o wariant Trafnidiaeth Cymru.

# Gwariant COVID-19

Rhoddodd yr ymateb i argyfwng COVID-19 bwysau digynsail ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21. Er mwyn sicrhau bod yr adnoddau a oedd ar gael i ymateb i COVID-19 yn cael yr effaith fwyaf bosibl, crëwyd cronfa wrth gefn ar gyfer COVID-19 drwy ailddyrannu Cyllidebau Llywodraeth Cymru, trosglwyddiadau o gronfeydd wrth gefn a chyllid canlyniadol Llywodraeth y DU.


Sefydlwyd 'Siambr y Seren' gan y Prif Weinidog i oruchwylio a chydgysylltu ymateb cyllidol cyffredinol Llywodraeth Cymru i'r argyfwng. Gweithredodd y grŵp mewn rôl gynghorol i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd mewn perthynas â defnyddio'r adnoddau a oedd ar gael a ddaliwyd yn ganolog er mwyn ymateb i heriau argyfwng COVID-19 ac roedd yn cynnwys Gweinidogion, swyddogion ac aelod annibynnol, gyda chymorth swyddogion Cyllidebu Strategol. Roedd amlder y cyfarfodydd yn amrywio o gyfarfodydd dyddiol i gyfarfodydd wythnosol yn ôl yr angen.

Ers dyddiau cynnar y pandemig, roedd dull dangosfwrdd wedi'i ddatblygu gan staff Cyllidebu Strategol er mwyn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Cabinet, y Bwrdd a swyddogion cyllid ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Bu hwn yn adnodd effeithiol drwy gydol y cyfnod o ran rhoi trosolwg o ddyraniadau cyllido COVID-19 Llywodraeth Cymru. Mae'r strwythur sylfaenol yn dilyn yr amlinelliad isod:




Bu'r dangosfwrdd yn rhan annatod o gyfarfodydd wythnosol swyddogion cyllid o bob rhan o Lywodraeth Cymru gyda chyllid canolog a chyllidebu strategol a elwid yn 'Fyrddau Adar Cyllid' er mwyn sicrhau ymgysylltu a chyfleu'n rheolaidd ofynion cyllido, dyraniadau a materion ariannol ynglŷn â phandemig COVID-19 a oedd yn dod i'r golwg.

Gwariwyd arian cyhoeddus ar COVID-19 mewn nifer o ffyrdd gwahanol:




Mae'r gwariant yn cynnwys:

- Taliadau grant gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol i dderbynyddion cymwys megis busnesau a oedd yn cael arian o dan y Gronfa Cronfa Cadernid Economaidd neu grantiau i sefydliadau yn y trydydd sector;
- Taliadau grant i bartneriaid cyflawni er mwyn talu derbynyddion cymwys drwy:

  **Grantiau** – megis grantiau i'r celfyddydau drwy Gyngor Celfyddydau Cymru


  **Benthyciadau** – megis benthyciadau busnes a ddarparwyd drwy Fanc Datblygu Cymru

  **Taliadau uniongyrchol** – megis taliadau hunanynysu drwy'r awdurdodau lleol;
- Taliadau i gyflenwyr ar ôl proses gaffael, megis y ddau gyflenwr a gafodd gontract i ddosbarthu blychau bwyd i gleifion a oedd yn gwarchod;
- Cyllid ychwanegol i bartneriaid cyflawni i'w helpu i ymateb i COVID-19 neu sicrhau canlyniadau Llywodraeth Cymru megis y ffi weinyddol a dalwyd i awdurdodau lleol ar gyfer pob taliad hunanynysu a wnaed neu'r cyllid ychwanegol i Fyrddau Iechyd ddarparu gwelyau ychwanegol.

# Prif Feysydd Gwariant Llywodraeth Cymru


Mae'r ffeithluniau canlynol yn dangos 10 prif faes gwariant refeniw a chyfalaf Llywodraeth Cymru yn 2020-21. Mae'r dadansoddiad wedi'i wneud yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb, fel y'i defnyddir yn y tablau Prif Grwpiau Gwariant sy'n cyd-fynd â Chynnig y Gyllideb.

## 10 prif faes gwariant cyllideb refeniw Llywodraeth Cymru:




**Alldro Refeniw Llywodraeth Cymru: £19,910m**
**Cyfanswm y 10 Uchaf: £16,328m**
**82% o'r gyllideb refeniw**

## 10 prif faes gwariant cyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru




**Alldro Cyfalaf Llywodraeth Cymru: £2,956m**
**Cyfanswm y 10 Uchaf: £2,119m**
**72% o'r gyllideb gyfalaf**

**Mae’r canlynol yn eitemau newydd yn y 10 maes gwariant refeniw uchaf y flwyddyn hon:**

- **Datblygu Busnes**
  Mae hyn yn cynnwys cymorth COVID-19 ar ffurf grantiau busnes.

- **Cymorth Ariannol Brys**
  Mae hyn yn cynnwys cymorth i awdurdodau lleol dalu’r costau ychwanegol a’u digolledu am incwm a gollwyd wrth ymateb i’r pandemig. Y prif feysydd o gymorth i dalu costau ychwanegol yw gofal cymdeithasol (oedolion a phlant), gwaredu gwastraff, prydau ysgol am ddim, addysgu, cyfarpar diogelu personol a glanhau. Y prif feysydd o gymorth i ddigolledu am incwm a gollwyd yw parcio, rhenti, arlwyo, hamdden a diwylliant.

- **Ardrethi Annomestig – Rhyddhad Ardrethi**
  Fel rhan o’r pecyn o fesurau i gefnogi busnesau wrth iddynt ymdrin â COVID-19, cafodd pob eiddo annomestig yn y sector manwerthu, hamdden a lletygarwch â gwerth ardrethol o hyd at £500,000 100% o ryddhad. Roedd rhyddhad ardrethi pellach hefyd ar gael ar gyfer eiddo cymwys yn y sectorau hamdden a lletygarwch â gwerth ardrethol o fwy na £500,000.

**Mae’r canlynol yn eitemau newydd yn y 10 maes gwariant cyfalaf uchaf y flwyddyn hon:**

- **Cronfeydd Cyllid Busnes**
  Mae hwn yn fuddsoddiad a wnaed i roi cronfeydd i Fanc Datblygu Cymru ar gyfer buddsoddiadau ariannol yn y tymor canolig yn y sector busnes yng Nghymru.

- **Adeiladu Ffyrdd Newydd a Gwella Ffyrdd**
  Gelwid hyn yn Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol y flwyddyn diwethaf ac mae wedi cael ei ailenwi.

## Gwariant a Reolir yn Flynyddol

Mae Trysorlys EM yn cydnabod pa mor ansefydlog yw rhai rhaglenni a’u bod yn seiliedig ar alw, yn ogystal â pha mor anodd yw amcangyfrif costau dros gyfnod o amser. O ganlyniad, rheolir cyllidebau’r rhaglenni hyn yn flynyddol, a’r Trysorlys sy’n darparu’r cyllid hwn fel arfer. Gelwir y cyllidebau hyn yn Wariant a Reolir yn Flynyddol (AME). O’r cyllidebau hyn o fewn y Datganiad o Alldro Adnoddau cafodd £826.5m neu 82% yn ymwneud â Benthyciadau Myfyrwyr ei roi heb ad-daliadau yn ystod y flwyddyn.

# Gweinyddu Cyllid Grant

Mae'r cyllid grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi amrywiaeth eang o sefydliadau, busnesau a phrosiectau ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat.

Diffiniad Llywodraeth Cymru o grant yw "pob taliad nad yw'n mynd drwy broses gaffael a roddir i sefydliadau neu unigolion allanol am weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion polisi a rhwymedigaethau statudol Llywodraeth Cymru". Mae gan Lywodraeth Cymru tua 400 o gynlluniau grant gweithredol ar waith ac mae'n cyhoeddi tua 11,000 o lythyrau dyfarnu bob blwyddyn (heb gynnwys grantiau COVID-19).

Rhennir y grantiau yn ddau gategori penodol:

1. Mae grantiau heb eu neilltuo yn cynnwys y taliadau hynny a roddir i gyrff iechyd a llywodraeth leol ac maent yn cyfrif am £13.7bn o'r cyfanswm o £21.2bn a dalwyd mewn grantiau ar gyfer 2020-21.
2. Mae grantiau wedi'u neilltuo yn daliadau lle mae pethau clir i'w cyflawni a meini prawf o ran diben y grantiau ac maent yn cyfrif am y £7.5bn o'r cyllid.

## Cefndir y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi parhau i gefnogi staff ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru drwy gydol 2020-21 o ran datblygu a dosbarthu cyllid grant. Mae'r tîm yn ymgymryd â dwy swyddogaeth allweddol:

- Rhoi cyngor, arweiniad, cymorth a hyfforddiant ar bolisïau a phrosesau rheoli grantiau;
- Sefydlu, adolygu, diweddaru a chyhoeddi polisïau ynglŷn â grantiau.

Pan fo ymholiadau yn fwy cymhleth eu natur, mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn gweithio gyda thimau o bob rhan o Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cydweithwyr ym maes cymorth gwladwriaethol, gwasanaethau cyfreithiol ac archwilio mewnol.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn gweithio'n arbennig o agos gyda'r gwasanaethau cyfreithiol er mwyn diweddaru telerau ac amodau ar gyfer templed y llythyr dyfarnu grant safonol (a gorfodol) er mwyn sicrhau bod y cymalau'n dal yn gyfredol ac yn addas at y diben. Mae gwelliannau diweddar wedi cynnwys diwygio'r cymalau ar ddyblygu cyllid a hawliau yswiriant yng ngoleuni COVID-19. Mae'r cymalau hyn yn estyn yr amgylchiadau lle y gall Llywodraeth Cymru atal cyllid dros dro, ei dynnu'n ôl a'i adhawlio pe bai angen.

O ganlyniad i adael yr UE ym mis Ionawr 2020, bu'n rhaid i'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau hefyd sicrhau y gellid addasu telerau ac amodau'r llythyr dyfarnu er mwyn ystyried rheolau cymhorthdal newydd y DU, rheolau Sefydliad Masnach y Byd a'r ymrwymiadau a'r protocolau eraill a allai effeithio ar y sail gyfreithiol lle y gellid anfon llythyrau dyfarnu o hyd.

Un wers gynnar a ddysgwyd o bandemig COVID-19 yw bod angen i'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ystyried ffyrdd amgen o roi hyfforddiant yn lle'r dull ystafell ddosbarth traddodiadol. Cyn COVID-19, roedd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi dechrau rhoi hyfforddiant ystafell ddosbarth er mwyn helpu i gyflwyno ail lofnod ar gyfer llythyrau dyfarnu ond bu'n rhaid ei atal dros dro.

Mae'r tîm eisoes yn gweithio ar opsiynau ar gyfer troi'r deunydd sy'n bodoli eisoes yn hyfforddiant a wneir â chyfrifiadur ac mae'n un o'r meysydd y bydd yn eu datblygu yn y misoedd sydd i ddod. Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn parhau i ddarparu sesiynau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth pwrpasol i dimau yn Llywodraeth Cymru sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd rheoli grantiau'n dda, ac er y byddai'r rhain yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn draddodiadol, mae'r tîm bellach yn eu cyflwyno drwy ddulliau rhithwir.

## Y Panel Sicrwydd Grantiau

Cyflwynwyd y Panel Sicrwydd Grantiau ym mis Medi 2018 ac mae'n rhoi cyngor ymarferol a her i reolwyr grantiau ar gam cynnar yn natblygiad cynllun grant. Nod yw panel yw ychwanegu gwerth drwy helpu rheolwyr grantiau i liniaru risgiau posibl a sicrhau bod cynlluniau grant yn gyson â pholisïau Llywodraeth Cymru.

Daw aelodau'r panel o feysydd allweddol y busnes er mwyn cynnig her adeiladol, craffu a sicrwydd ar gyfer cynlluniau grant wedi'u neilltuo newydd/arfaethedig. Mae'r aelodau yn cynnwys swyddogion o'r gwasanaethau cyfreithiol, llywodraethu, Swyddfa'r Cabinet, archwilio mewnol, atal twyll a chaffael. Mae'r panel yn cyfarfod bob mis neu'n amlach yn ôl yr angen. Mae staff y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn cael eu cynrychioli ar y panel yn ogystal â darparu cymorth ysgrifenyddiaeth. Cafodd y panel ei adolygu i ddechrau ym mis Ionawr 2019 ychydig fisoedd ar ôl iddo gael ei roi ar waith, ac mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wrthi'n ei adolygu ymhellach i weld a oes unrhyw welliannau ychwanegol y gellir eu gwneud.

Er bod yr adolygiad yn parhau i fynd rhagddo, mae'r adborth cychwynnol yn ffafriol ac unwaith y bydd yr adolygiad wedi dod i ben, bydd y tîm yn asesu unrhyw argymhellion gyda'r nod o weithredu arnynt dros y misoedd sydd i ddod. Mae'r argymhellion hyd yma yn cynnwys diwygio canllawiau'r panel a darparu rhai manylion pellach i reolwyr grantiau cyn cyfarfodydd y panel.

## Y Tîm Diwydrwydd Dyladwy Canolog

Cyflwynwyd y Tîm Diwydrwydd Dyladwy Canolog ym mis Ebrill 2019 ac mae'n atebol i Bennaeth y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau. Mae'r tîm wedi datblygu systemau a phrosesau i'w alluogi i wneud gwiriadau diwydrwydd dyladwy a llywodraethu corfforaethol ynglŷn â sefydliadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hariannu neu'n ystyried eu hariannu ar ran rheolwyr grantiau. Y nod yw gwella cysondeb, lleihau dyblygu a rhoi mwy o gymorth i reolwyr grantiau ar gam arfarnu'r broses grantiau. Cyfrifoldeb y rheolwyr grantiau a'r timau polisi o hyd yw diwydrwydd dyladwy ar brosiectau, canlyniadau, gallu sefydliad i gyflawni'r prosiect a gwerth am arian.

Mae'r tîm yn paratoi "Prawf Iechyd Ariannol Corfforaethol" ar gyfer pob sefydliad sy'n cynnwys dadansoddiad o gyfrifon archwiliedig, cadarnhau gwybodaeth a ddelir gan Dŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau, defnyddio adnoddau atal twyll a gwybodaeth gan y Ganolfan Diwydrwydd Dyladwy. Fel arfer, mae'r mathau o faterion a nodwyd yn cynnwys sefydliadau sydd mewn anawsterau ariannol neu sy'n ansolfent, dyfarniadau'r Llys Sirol, pryderon ynglŷn â llywodraethu neu wybodaeth anffafriol am y sefydliad neu ei benaduriaid.

Pan gaiff risgiau eu nodi, mae'r tîm yn rhoi argymhellion i'r Rheolwr Grantiau ynglŷn â chamau lliniaru. Er enghraifft, argymell gwarantau trawsgwmni, taliadau'n ôl-weithredol, trefniadau monitro tynnach neu gael rhagor o wybodaeth, rhagolygon neu eglurder ynglŷn â meysydd sy'n achos pryder.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2021, mae'r tîm wedi cynnal dros 850 o asesiadau. Fel rhan o'i waith, comisiynodd y tîm newidiadau i system TG y Ganolfan Diwydrwydd Dyladwy sy'n golygu bod asesiadau nid yn unig ar gael i'r Rheolwr Grantiau ond hefyd i dimau ac adrannau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae'r tîm hefyd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ym maes Archwilio Mewnol, Atal Twyll a'r Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethu Corfforaethol er mwyn sicrhau y gellir ymgorffori unrhyw wersi a ddysgwyd yn ei brosesau.

Yn ystod y pandemig COVID-19, addasodd y tîm ei brosesau i adlewyrchu'r nifer mawr o gynlluniau newydd a pha mor gyflym roedd rhai penderfyniadau yn cael eu gwneud. Llwyddodd i roi arweiniad pwrpasol ar faterion penodol ac mae'n cefnogi mwy o wiriadau ôl-weithredol.

Fel rhan o'i waith parhaus, mae'r Tîm Diwydrwydd Dyladwy Canolog hefyd wedi ymgysylltu â Swyddfa Cabinet y DU ac wedi helpu i dreialu a rhoi adborth ar adnodd diwydrwydd dyladwy y mae Swyddfa'r Cabinet wedi bod yn ei ddatblygu. Adnodd pennu risg awtomataidd yw Spotlight, a all gwblhau gwiriadau diwydrwydd dyladwy cychwynnol ar nifer mawr o dderbynwyr grant, a rhoi allbwn lle y pennwyd y risg. Mae'r Tîm Diwydrwydd Dyladwy Canolog wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Swyddfa'r Cabinet dros y flwyddyn diwethaf er mwyn rhoi adborth ar y ffordd y mae Spotlight yn gweithredu a'i brofi fel defnyddiwr. Er bod yr adnodd cychwynnol wedi cael ei ryddhau bellach, mae'r gwaith datblygu yn parhau.

Adnodd paru data arall y mae'r tîm wedi ei dreialu sydd hefyd wedi cael ei ddatblygu gan Swyddfa Cabinet y DU mewn partneriaeth ag Experian yn benodol ar gyfer cyllid sy'n ymwneud â COVID-19, yw gwiriad Dilysu Cyfrif Banc a Chwmni Gweithredol. Defnyddir yr adnodd i ddilysu:

- Statws a dilysrwydd cyfrifon banc cwmnïau cyfyngedig, unig fasnachwyr ac elusennau, gan ddefnyddio data gan naw banc mawr yn y DU);
- A yw cwmni yn bodoli ac yn masnachu'n weithredol, gan ddefnyddio data Tŷ'r Cwmnïau/cytundebau data credyd).

Aeth y Tîm Diwydrwydd Dyladwy Canolog ati i dreialu 300 o sefydliadau drwy ddefnyddio'r adnodd hwn er mwyn asesu ei addasrwydd ar gyfer Grantiau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nodwyd bod rhai anfanteision i'r adnodd ar ei ffurf bresennol, o ran bod yn hawdd ei ddefnyddio ac achosion amhenodol o baru data, yn bennaf am iddo gael ei ddatblygu'n gyflym mewn ymateb i COVID-19 heb fawr ddim profi gan ddefnyddwyr. Serch hynny, mae i'r adnodd botensial a bydd y tîm yn parhau i gydgysylltu â Swyddfa'r Cabinet wrth iddi ddatblygu ail fersiwn fwy cadarn a diogel.

## Y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau – Ymateb i COVID-19

Ym mis Mawrth 2020, dechreuodd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau gael nifer mawr o ymholiadau gan reolwyr grantiau ynglŷn â phryderon gan sefydliadau allanol a oedd yn ei chael hi'n anodd cydymffurfio â thelerau ac amodau grantiau Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd cyfarfod trawsadrannol â nifer o reolwyr grantiau, gwasanaethau cyfreithiol a thimau gweithrediadau i drafod pryderon a materion cyffredin.

Drwy hyn, roedd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn gallu llunio canllawiau ar ymdrin ag ymholiadau a oedd yn ymwneud yn benodol â COVID-19, gan gynnwys pryd y dylid amrywio telerau ac amodau presennol a pha gamau gweithredu y dylid eu hystyried pe bai'n dod yn amlwg i reolwyr grantiau nad oedd derbynwyr grant yn gallu cydymffurfio a'r amodau presennol. Ymhlith y pynciau eraill a drafodwyd yn y canllawiau roedd statws cyfreithiol llythyrau dyfarnu, sut i ymdrin â newidiadau mewn targedau, proffiliau cyllido newidiol, diwydrwydd dyladwy, cyllid gan awdurdodau lleol a'r Cynllun Cadw Swyddi.

Cafodd y canllawiau eu lledaenu'n gyffredin yn Llywodraeth Cymru ac er eu bod wedi'u hanelu'n bennaf at helpu a chefnogi rheolwyr grantiau, roedd hefyd yn galluogi Llywodraeth Cymru i weithredu'n gyson wrth ymdrin ag ymholiadau gan sefydliadau allanol. Mae'r canllawiau bellach wedi cael eu diwygio sawl gwaith wrth i faterion newydd ddod i'r amlwg megis newidiadau ac estyniadau i drefniadau ffyrlo.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau hefyd wedi mynd ati i ymdrin â materion mewn perthynas â'r potensial ar gyfer cyllido dwbl yn erbyn grantiau Llywodraeth Cymru a ffynonellau eraill o gyllid. Datblygwyd canllawiau a darparwyd llythyr drafft i reolwyr grantiau ei anfon i sefydliadau yn y sector preifat a'r trydydd sector. Pwysleisiodd y llythyr hwn fod gwaharddiad ar gyllido dwbl ar gyfer yr un prosiectau o sawl ffynhonnell gyllido ac na chaiff ei oddef. At hynny, pwysleisiwyd y caiff camau adennill eu cymryd pan nodir achosion.

Ar ôl adborth pellach gan reolwyr grantiau ynglŷn â dyblygu cyllid, datblygodd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau Ddatganiad Sicrwydd i roi cyfle i sefydliadau ddatgan unrhyw gyllid dwbl neu hawliadau a wnaed drwy gamgymeriad. Bu hyn hefyd yn fodd i Lywodraeth Cymru bwysleisio unwaith eto i bob un sydd wedi cael grant y byddai gwiriadau monitro ac ôl-sicrwydd yn cael eu cynnal ac y byddai hyn, lle y bo'n briodol, yn cynnwys ymarferiadau paru data â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a gynhelir o dan adain y Fenter Twyll Genedlaethol.

Bydd gwiriadau ôl-sicrwydd ac ôl-weithredol yn erbyn gwaith sy'n ymwneud â COVID-19 yn parhau am gryn dipyn o amser a bydd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn parhau i weithio gyda chydweithwyr ym maes Archwilio Mewnol, Atal Twyll a chefnogi rheolwyr grantiau wrth i'r gwaith hwn ddatblygu. Bydd hyn yn cynnwys cydgysylltu ag adrannau eraill y llywodraeth, cyrff yn y sector cyhoeddus ac Archwilio Cymru.

# Cyllid Grant Gan Lywodraeth Cymru

Mae'r data ar gyfer 2020-21 yn seiliedig ar y system o "allweddau diwydiant" er mwyn rhoi darlun o gyllid yn ôl sector.

**Tabl 1: Cyfanswm Cyllid Grant Llywodraeth Cymru yn ôl Blwyddyn Ariannol**

| | 2018-19 £bn | 2019-20 £bn | 2020-21 £bn |
|---|---|---|---|
| Grant a roddwyd (£bn) | 14.9 | 16.4 | 21.2 |

**Tabl 2: Mae'n dangos lefelau o gyllid wedi'i neilltuo a roddwyd i bob un o'r sectorau mawr ar gyfer y tair blwyddyn ariannol diwethaf.**

| Cyllid Grant Wedi'i Neilltuo | 2018-19 £m | 2019-20 £m | 2020-21 £m |
|---|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol | 1,335 | 1,468 | 2,625 |
| Y GIG | 17 | 80 | 86 |
| Llywodraeth Ganolog a Chorfforaethau Cyhoeddus | 181 | 809 | 794 |
| Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | 62 | 59 | 115 |
| Cyllid i Addysg | 458 | 506 | 600 |
| Y Sector Preifat | 555 | 441 | 2,827 |
| Y Trydydd Sector | 337 | 340 | 471 |

# Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

## Diweddariad ar y Cynnydd o ran Cyflawni Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru – 2020-21

Rhaglen Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru sy'n gyfrifol am reoli rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) yng Nghymru ar gyfer cylch cyllido 2014-2020.

Daeth y Ddeddf Cytundeb Ymadael i rym ym mis Ionawr 2020 a gadawodd y DU yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar 31 Ionawr 2020. Mae hyn yn golygu y bydd y rhaglenni presennol o dan ESF ac ERDF yn cael eu cwblhau fel pe bai'r DU yn dal i fod yn un o Aelod-wladwriaethau'r UE. Bydd gwariant prosiect hyd at 31 Rhagfyr 2023 yn gymwys i gael cymorth yr UE, a bydd y gwariant prosiect terfynol yn cael ei ad-dalu yn ystod y flwyddyn ariannol 2024-2025.

Mae WEFO wedi neilltuo 98% o ddyraniad Cronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer 2014-2020, gan fuddsoddi dros £2.1bn a sbarduno buddsoddiad gwerth dros £4bn i gyd (ar 31 Mawrth 2021) sydd hefyd yn cynnwys ailbwrpasu cronfeydd strwythurol yr UE i gefnogi'r ymateb i COVID-19 yng Nghymru.

Hyd yma, mae prosiectau'r UE a gefnogwyd gan raglenni 2014-2020 wedi creu tua 21,600 o swyddi a mwy na 3,900 o fusnesau newydd. Hefyd, mae dros 15,000 o fusnesau wedi cael cymorth, mae 27,600 o bobl wedi cael eu helpu i gael gwaith, ac mae dros 118,200 o gymwysterau wedi cael eu hennill.

**Mae Tablau 1-4 yn dangos:**

- cynnydd WEFO o ran neilltuo'r grant sydd ar gael o dan y Cronfeydd Strwythurol y mae'n ei ddosbarthu yng Nghymru, hyd at 31 Mawrth 2021 – Tabl 1.
- Amlinellir dadansoddiad o'r prosiectau yn ôl sector yn y tabl isod – Tabl 2 (cymeradwywyd) a Thabl 3 (hawliadau).
- Taliadau grant blynyddol a wnaed rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 – Tabl 4.

### Tabl 1: Cymeradwyaethau yn ôl Rhaglen

| Cyllid Wedi'i Neilltuo (£m) | Gorllewin Cymru ERDF £m | Dwyrain Cymru ERDF £m | Gorllewin Cymru ESF £m | Dwyrain Cymru ESF £m | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyraniad | 1,088 | 181 | 716 | 182 | 2,167 |
| Gwerth y Grant | 1,089 | 186 | 703 | 150 | 2,128 |
| Nifer y Gweithrediadau | 109 | 40 | 70 | 44 | 263 |
| % a Gymeradwywyd | 100% | 103% | 98% | 82% | 98% |

| Iwerddon/Cymru | €m |
|---|---|
| Dyraniad | 79 |
| Gwerth y Grant | 77 |
| Nifer y Gweithrediadau | 21 |
| % a Gymeradwywyd | 97% |

### Tabl 2: Prosiectau a Ariennir gan yr UE a Gymeradwywyd hyd at 31 Mawrth 2021

| | Nifer y Prosiectau a gymeradwywyd | Cyfanswm y Buddsoddiad | | Grant yr UE | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Swm £m | Cyfran | Swm £m | Cyfran |
| Llywodraeth Cymru | 76* | 2,293 | 57% | 1,103 | 52% |
| Y Trydydd Sector | 30 | 157 | 4% | 113 | 5% |
| AU/AB | 78 | 616 | 16% | 376 | 18% |
| Y Sector Preifat | 19 | 563 | 14% | 297 | 14% |
| Llywodraeth Leol | 60 | 367 | 9% | 239 | 11% |
| **Prif Gyfanswm** | **263** | **3,996** | **100%** | **2,128** | **100%** |


* Mae'r ffigur yn cynnwys saith prosiect sy'n ymwneud â CNLCau, Asiantaethau'r Llywodraeth a Chyrff Cyhoeddus Eraill.

### Tabl 3: Dadansoddiad o Hawliadau yn ôl Sector

| | Gwariant Cronnus y Proffil Cyflawni £m | Gwariant Cymwys a Broseswyd £m | Amrywiant mewn Gwariant £m | Grant Proffil Cyflawni £m | Grant a Dalwyd Hyd yn Hyn £m | Amrywiant yn y Grant £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 1,097 | 895 | 202 | 497 | 372 | 125 |
| Y Trydydd Sector | 103 | 91 | 11 | 69 | 66 | 3 |
| AU/AB | 420 | 374 | 46 | 257 | 226 | 32 |
| Y Sector Preifat | 434 | 397 | 37 | 227 | 204 | 23 |
| Llywodraeth Leol | 194 | 172 | 22 | 126 | 111 | 15 |
| **Prif Gyfanswm** | **2,247** | **1,929** | **318** | **1,176** | **978** | **198** |

### Tabl 4: Taliadau Grant

## Prosiectau Llywodraeth Cymru



Cyflawnir prosiectau a arweinir gan Lywodraeth Cymru drwy amrywiaeth o bartneriaid cyflawni. Mae arweiniad Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn bosibl i amrywiaeth o bartneriaid cyflawni fod yn rhan o'r rhaglenni na fyddent fel arall wedi cael y profiad, na fyddai ganddynt gyfalaf gweithio na'r gallu i gymryd risgiau er mwyn cymryd rhan effeithiol yn y rhaglenni.

Mae prosiectau Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfanswm o £2.2bn o dan y rhaglenni presennol, sydd wedi cael £1.09bn o Gronfeydd Strwythurol yr UE.

| | Cyfanswm y gost | Cyfraniad yr UE |
|---|---:|---:|
| Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol | £1,995,876,039 | £946,704,435 |
| Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus | £232,165,811 | £118,343,769 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | £37,222,027 | £25,915,836 |
| | **£2,265,263,877** | **£1,090,964,040** |

Daw prosiectau Llywodraeth Cymru i ben ar adegau gwahanol rhwng nawr a diwedd 2023.

Mae WEFO yn parhau i weithio gyda'r holl fuddiolwyr i gynnal eu proffiliau cyflawni arfaethedig, cyflwyno hawliadau'n brydlon a datgan eu holl wariant. Mae WEFO yn gweithio gyda chydweithwyr cyllid yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol i gadarnhau'r rhesymau dros hawlio cyllid yr UE yn araf a chadarnhau sut y gall WEFO gynorthwyo buddiolwyr er mwyn sicrhau bod prosiectau yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus cyn diwedd y rhaglenni.

## Ymateb WEFO i COVID-19

Mae'r sefyllfa o ran COVID-19 yn parhau i gael ei hadolygu drwy'r amser.Mae'n ddigon posibl y bydd y gwaith o gyflawni prosiectau yn mynd yn broblem, yn enwedig i'r rhai sy'n cael eu cwblhau erbyn diwedd y cyfnod rhaglennu yn ôl y bwriad. Bydd WEFO yn gweithio'n hyblyg gyda sefydliadau er mwyn sicrhau na fydd unrhyw darfu ar y broses gyflawni hyd y gellir.

Mae Menter Fuddsoddi'r Undeb Ewropeaidd mewn Ymateb i'r Coronafeirws (CRII) wedi darparu pecyn o ddulliau hyblyg ar gyfer defnyddio Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd mewn ymateb i effeithiau economaidd COVID-19.

Mae WEFO wedi manteisio ar CRII ac wedi neilltuo hyd at £245m o gyllid yr UE i gefnogi ail gam y Gronfa Cadernid Economaidd, camau pellach ar gyfer Banc Datblygu Cymru a gweithgareddau cymorth i fusnesau, yn fwy cyffredinol, yn ogystal â chostau gwasanaethau iechyd sy'n gysylltiedig â COVID-19, yn enwedig cymorth i recriwtio staff meddygol ychwanegol a phrynu cyfarpar diogelu personol.

Daethpwyd o hyd i'r cyllid o ganlyniad i newidiadau yn y gyfradd gyfnewid ac ni fydd unrhyw effaith ar gyllid na phroses gyflawni prosiectau a ariennir o dan Gronfeydd Strwythurol yr UE ar hyn o bryd fel rhan o raglen 2014-2020.

# Rheoli ein Rhaglen Ddeddfwriaethol

Mae rheoli'r gwaith ar weithgareddau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn effeithiol yn flaenoriaeth allweddol o hyd. Yn ystod y flwyddyn diwethaf, bu'n rhaid cydbwyso rhaglen arfaethedig y llywodraeth o ddeddfwriaeth ddomestig â'r angen brys i wneud is-ddeddfwriaeth mewn ymateb i COVID-19 yn ogystal â'r is-ddeddfwriaeth a oedd yn angenrheidiol i hwyluso'r broses o adael yr UE. Bu'r rhaglen ddeddfwriaethol yn un o nifer o feysydd lle mae'r pandemig yn enwedig wedi cael effaith sylweddol iawn.

## Deddfwriaeth Sylfaenol

Parodd yr angen i ymateb i'r pandemig i Lywodraeth Cymru adolygu ei gweithgarwch ar ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad ar 15 Gorffennaf 2020 yn nodi y byddai Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r adnoddau a oedd ar gael iddi i ganolbwyntio ar ei blaenoriaethau deddfwriaethol allweddol.

O ganlyniad, penderfynwyd peidio â chwblhau proses ddeddfwriaethol tri Bil mawr yn ystod pumed tymor y Senedd: cafodd y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) a gyflwynwyd ei dynnu'n ôl, a chafodd Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) a'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) eu cyhoeddu er mwyn ymgynghori arnynt ar ffurf drafft. Er gwaethaf yr heriau digynsail hyn, yn 2020-21 cafodd chwe Bil a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru eu pasio gan Senedd Cymru:

## Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) 2020

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff y GIG a Gweinidogion o ran gwella ansawdd gwasanaethau iechyd; mae'n gosod dyletswydd ar gyrff y GIG a gwasanaethau gofal sylfaenol i fod yn agored ac yn onest gyda chleifion pan fydd rhywbeth wedi mynd o chwith gyda'u gofal o bosibl; mae'n creu Corff Llais y Dinesydd newydd; ac mae'n gwneud newidiadau sy'n ymwneud â phenodi is-gadeiryddion Ymddiriedolaethau'r GIG.

## Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol; ac mae'n gwneud newidiadau amrywiol i'r ffordd y mae syrcasau ac anifeiliaid gwyllt peryglus yn cael eu trwyddedu.

## Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mae'r Ddeddf yn diwygio llywodraeth leol ac yn newid trefniadau etholiadol.

## Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i ymateb i'r risgiau posibl i etholiad cyffredinol arferol i fod yn Aelod o Senedd Cymru sy'n deillio o bandemig COVID-19, gyda'r nod o sicrhau y gall yr etholiad gael ei weinyddu a'i gynnal yn ddiogel ac y gall yr etholwyr gymryd rhan a phleidleisio.

## Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021

Mae'r Ddeddf yn gwneud newidiadau i ddiogelwch meddiant pobl sy'n rhentu eu cartrefi yng Nghymru drwy ddiwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ac mae hefyd yn diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019.

## Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Mae'r Ddeddf yn creu gofynion cwricwlwm newydd ar gyfer pob dysgwr 3 i 16 oed mewn ysgolion a gynhelir, addysg feithrin a gynhelir neu addysg feithrin nas cynhelir a ariennir, a rhai lleoliadau eraill a gomisiynir gan awdurdodau lleol, gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion. Bydd y rhain yn disodli'r cwricwlwm cenedlaethol presennol a'r cwricwlwm sylfaenol.

## Is-ddeddfwriaeth

Mae cryn dipyn o is-ddeddfwriaeth i Gymru wedi cael ei pharatoi a'i gwneud yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig mewn ymateb i'r pandemig ac i baratoi ar gyfer diwedd cyfnod pontio'r UE. Roedd hyn yn gofyn am ailflaenoriaethu rhaglen is-ddeddfwriaeth y llywodraeth ar raddfa fawr, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r is-ddeddfwriaeth a oedd yn angenrheidiol i ymateb i'r pandemig ac i helpu i adfer ar ei ôl, hwyluso'r broses o adael yr UE a'r eitemau hynny a oedd yn hanfodol am resymau cyfreithiol neu resymau eraill na ellid eu hosgoi. Yna, canolbwyntiwyd unrhyw adnoddau a oedd yn weddill ar gyflawni blaenoriaeth allweddol eraill.

## Is-ddeddfwriaeth a oedd yn ymwneud â COVID-19

Yn ystod y cyfnod y mae’r cyfrifon hyn yn ymwneud ag ef, gwnaeth Gweinidogion Cymru bron 200 o eitemau o is-ddeddfwriaeth mewn ymateb i’r pandemig.

## Is-ddeddfwriaeth sy’n ymwneud ag Ymadael â’r UE

Erbyn diwedd y cyfnod pontio ar 31 Rhagfyr, roedd Gweinidogion Cymru wedi rhoi cydsyniad i gyfanswm o 213 o Offerynnau Statudol (OSau) a oedd yn ymwneud ag ymadawiad y DU â’r UE (er mwyn cywiro cyfraith yr UE a gedwir i sicrhau llyfr statud gweithredadwy a gweithredu’r Cytundeb Ymadael a chytundebau cysylltiedig), gan gynnwys 55 yn ystod y cyfnod pontio.

Mae cyfanswm o 71 o OSau i Gymru a oedd yn ymwneud ag ymadael â’r UE (unwaith eto er mwyn sicrhau llyfr statud gweithredol a gweithredu’r Cytundeb Ymadael a chytundebau cysylltiedig) wedi cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru ers i’r rhaglen ddechrau yn 2018, gydag 20 ohonynt wedi cael eu gwneud yn ystod y cyfnod pontio.

Rhoddwyd cydsyniad i 18 o OSau i’r DU a oedd yn ymwneud ag ymadael â’r UE, y bernid nad oedd eu hangen erbyn diwedd y cyfnod pontio, ar ddechrau 2021 a naw OS arall a oedd yn ymwneud ag ymadael â’r UE a wnaed gan Weinidogion Cymru.

## Deddfwriaeth y DU

Ymatebodd Llywodraeth Cymru hefyd i Filiau Seneddol y DU lle roedd y rhain yn gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig, a lluniwyd Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Biliau hyn.

# Ein Strategaethau ar gyfer Gweithlu'r Dyfodol a Gweithle'r Dyfodol a'r Strategaeth Ddigidol



Yn sgil dechrau'r pandemig COVID-19, symudodd Llywodraeth Cymru o fod yn sefydliad a oedd yn gweithredu yn seiliedig ar y swyddfa yn bennaf i un y bu'n rhaid iddo ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio, a hynny dros nos bron. Rydym wedi dysgu cryn dipyn o'n profiadau dros y flwyddyn ddiwethaf ac rydym am ddefnyddio'r profiad hwnnw i gadw'r manteision gweithio o bell rydym wedi'u gweld, gan gynnwys y lleihad yn ein hôl troed amgylcheddol a mynd i'r afael â rhai o'r effeithiau llai cadarnhaol.

Mae'r Ysgrifennydd Parhaol a'r uwch-dîm wedi comisiynu gwaith ar dair strategaeth ryngysylltiedig er mwyn helpu Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Bydd Strategaethau Gweithlu'r Dyfodol a Gweithle'r Dyfodol a'r Strategaeth Ddigidol (a'r cynlluniau gweithredu a gaiff eu cyhoeddi ar y cyd â nhw) yn amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ein pobl, dylunio ein lleoedd ac yn buddsoddi mewn adnoddau a fydd yn ein cefnogi fel sefydliad amrywiol, cynhwysol ac uchel ei berfformiad sy'n esiampl o fewn gwasanaeth cyhoeddus 'Cymru'n Un'.

Er mwyn llywio'r broses o ddatblygu'r tair strategaeth, rydym wedi cynnal ymarferiad ymgysylltu i'r sefydliad cyfan er mwyn deall mwy am brofiadau ein cyflogeion drwy gydol y pandemig, sut y gallwn adeiladau ar fanteision gweithio o bell a dysgu o'r hyn sydd wedi bod yn heriol.

Drwy ddefnyddio'r ddealltwriaeth hon, rydym wedi datblygu set o egwyddorion lefel uchel cynnar i lywio Strategaethau Gweithlu'r Dyfodol:

## Ein Gwerthoedd

- Byddwn yn creu diwylliant cynhwysol sy'n rhoi gwerth ar y nerth sydd mewn gwahaniaeth; lle caiff pawb ei drin ag urddas a pharch a lle yr ystyrir y Gymraeg yn ased. Caiff gweledigaeth, strategaeth a chynllun cyflawni ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer 2021-2026 eu hadlewyrchu drwy ein Strategaeth ar gyfer Gweithlu'r Dyfodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw le i hiliaeth na gwahaniaethu o unrhyw fath ac y gallwn ddweud yn ddiffuant ei fod yn wrth-hiliol. Byddwn yn cynnal asesiad o effaith y strategaeth a'r cynllun cyflawni ar gydraddoldeb.
- Byddwn yn croesawu'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan bob gwas sifil; gan bennu disgwyliadau uchel o ran perfformiad, ymddygiad a chyflawni Gwasanaeth Sifil Cymru, gan gynnwys rôl hanfodol ein harweinwyr a'n rheolwyr i'w galluogi i gyflawni a chydnabod rhagoriaeth.
- Bydd ein gweithlu yn y dyfodol yn cael ei lywio drwy ymgysylltu agored, tryloyw a pharhaus â'r staff er mwyn adlewyrchu profiadau ac anghenion amrywiol ein gweithlu. Byddwn yn mabwysiadu dull 'digidol yn gyntaf' o gynnwys, cyfathrebu a rhannu gwybodaeth â'n gweithlu am ffyrdd o weithio yn y dyfodol.
- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn yr Undebau Llafur er mwyn datblygu cyfeiriad ein strategaeth ar gyfer y gweithlu yn y dyfodol ac ymgynghori'n ffurfiol ar ein polisïau, ein harferion a'n ffyrdd newydd o weithio.

## Y camau nesaf

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un heriol dros ben a bu'n rhaid i lawer o gydweithwyr ymdopi â swyddi ymestynnol a chyfrifoldebau gofalu, gan ei chael hi'n anodd dod o hyd i le i weithio'n gyfforddus gartref neu i ymdrin â hunanynysu, salwch difrifol neu, yn anffodus, golli anwyliaid. Wrth inni ddatblygu ein Strategaethau ar gyfer Gweithlu'r Dyfodol a'r Gweithle a'r Strategaeth Ddigidol, byddwn yn parhau i flaenoriaethu iechyd, diogelwch a llesiant ein gweithlu, gan gymryd camau i fynd i'r afael ag effaith ein ffyrdd newydd o weithio ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl ein gweithlu, dysgu o'r hyn a fu'n heriol ac adeiladu ar yr hyn a fu'n fuddiol.

Bydd deall ein profiad unigol ac ar y cyd yn hollbwysig er mwyn ein helpu i 'ailosod' ein sefydliad i gefnogi Gweinidogion yn y ffordd orau bosibl wrth iddynt fynd i'r afael â'r cyfleoedd a'r heriau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn y Gymru ar ôl y pandemig ac ar ôl ymadael â'r UE.

## Strategaeth Gweithlu'r Dyfodol

Gan edrych y tu hwnt i gam adfer ar ôl COVID-19, mae Llywodraeth Cymru yn ailwerthuso ei model sefydliadol a'i strategaeth hirdymor ar gyfer ei ffyrdd o weithio yn y dyfodol a dyfodol ei hystad o swyddfeydd gweinyddol.

Mae Strategaeth Gweithlu’r Dyfodol newydd yn cael ei datblygu. Bydd yn cynnwys fframwaith lefel uchel hyblyg a llwybr newydd ymlaen ar gyfer llywio ein cynlluniau ar gyfer gweithle’r dyfodol dros y deng mlynedd nesaf, gan adlewyrchu dull aml-leoliad gwell a gwahanol o weithio a chynnal ein busnes. Ni fydd yn bodoli ar ei phen ei hun ond mae’n un o dair strategaeth sefydliadol cyflenwol newydd (gan gynnwys strategaeth y gweithlu a’r strategaeth ddigidol) sydd hefyd wrthi’n cael eu datblygu.

Y strategaethau newydd hyn fydd conglfeini canolog model gweithredu newydd, sy’n ymgorffori newid parhaol mewn patrymau gweithio gyda’r disgwyliad y bydd mwy o staff yn gweithio o bell. Ceir hefyd gydberthynas uniongyrchol â nodau ehangach Llywodraeth Cymru o ymgorffori gweithio o bell ym mhob sector yng Nghymru.

Mae’r strategaeth yn cwmpasu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithio’n hyblyg mewn sawl lleoliad, datgarboneiddio, cysoni ag amcanion adfywio economaidd ehangach, gan gynnwys egwyddorion ‘Canol y Dref yn Gyntaf’ a chyfleoedd cydweithredol i rannu gofod â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, yn ogystal ag ailbwrpasu ein swyddfeydd i gyfateb i ffyrdd newydd o weithio. Bydd maint ein hystad, ei siâp a’i lleoliad yn brif flaenoriaethau yn y dyfodol ac mae effeithlonrwydd, perfformiad a fforddiadwyedd ein hasedau yn nodau cyffredin o hyd.

## Strategaeth Ddigidol ar gyfer y Dyfodol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi’r Strategaeth Ddigidol i Gymru yn ddiweddar. Mae’n amlinellu’r weledigaeth sy’n dymuno i bobl yng Nghymru brofi gwasanaethau cyhoeddus modern, effeithiol a symlach ac ar yr un pryd sbarduno arloesedd yn ein heconomi a chefnogi canlyniadau heddiw ac ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.

Mae’r strategaeth ddigidol ar gyfer y dyfodol yn canolbwyntio’n fewnol ar uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer trawsnewid digidol. Ochr yn ochr â Strategaethau Gweithlu’r Dyfodol a Gweithle’r Dyfodol, mae wedi’i hanelu at drawsnewid Llywodraeth Cymru yn sefydliad sy’n esiampl i eraill.

Mae’r Weledigaeth Ddigidol ar gyfer y Dyfodol yn cynnwys saith egwyddor ddigidol allweddol a phedair egwyddor sy’n cefnogi Strategaeth Gweithlu’r Dyfodol a Strategaeth Gweithle’r Dyfodol. Mae’r rhain yn cynnwys egwyddorion ynglŷn â dylunio sy’n canolbwyntio ar y defnyddiwr a safonau’r Gymraeg, hygyrchedd, gwasanaethau digidol integredig i’r staff, datblygu data cysylltiedig a hygyrch, gwasanaethau diogel a chadarn ac iteru’n aml dros berchennog gwasanaeth sydd wedi’i rymuso. Mae’r fframwaith ar gyfer cyflawni hyn wrthi’n cael ei ddatblygu.

Mae gweithio o bell yn ystod y pandemig wedi codi disgwyliadau’r staff y bydd adnoddau digidol modern ar gael iddynt er mwyn eu helpu i wneud eu gwaith. Hefyd, rydym am gyflwyno gwasanaethau digidol integredig sy’n sicrhau effeithlonrwydd yn y ffordd rydym yn gweithio fel sefydliad.

Mae’r Strategaeth yn adeiladu ar lwyddiant y rhaglen TGCh ar gyfer y Dyfodol a bydd yn darparu gwasanaethau digidol cadarn o safon uchel i’r staff, gyda mwy o adnoddau ar gyfer datblygu a rheoli cymwysiadau mewnol.

# Datgarboneiddio




Ym mis Mawrth 2021, cytunodd Senedd Cymru i ddiweddaru llwybr Cymru tuag at leihau allyriadau hyd at 2050. Mae'r targedau a'r cyllidebau carbon newydd yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd:

- Cyllideb Garbon 2 (2021-25): gostyngiad cyfartalog o 37% ar gyfartaledd
- Cyllideb Garbon 3 (2026-30): gostyngiad cyfartalog o 58% ar gyfartaledd
- 2030: gostyngiad o 63%
- 2040: gostyngiad o 89%
- 2050: gostyngiad o 100% o leiaf ('sero net').

Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd adroddiad yn asesu'r cynnydd o ran lleihau allyriadau Cymru. Daeth i'r casgliad "bod Cymru ar ei ffordd i gyflawni ei tharged 2020 (lleihad o 27% ar lefelau 1990) a'r Gyllideb Garbon Gyntaf (lleihad cyfartalog o 23% ar lefelau 1990 ar draws 2016-2020)."

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddatblygu cynllun datgarboneiddio statudol nesaf Cymru, a fydd yn cael ei gyhoeddi fis Tachwedd 2021 i gyd-fynd â Chynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig (COP 26) a gynhelir yn Glasgow o 31 Hydref tan 12 Tachwedd. Bydd y cynllun yn disgrifio polisïau hirsefydlog yn ogystal â rhai a roddwyd ar waith yn fwy diweddar, megis Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, a fydd gyda'i gilydd yn galluogi Cymru i fodloni Cyllideb Garbon 2 (2021-25). Bydd y cynllun hefyd yn cynnwys polisïau a chamau gweithredu arfaethedig ar gyfer y tymor hwy. I lywio'r cynllun, cynhaliodd Llywodraeth Cymru Wythnos Hinsawdd Cymru ym mis Tachwedd 2020, a chynhaliwyd cynhadledd rithwir a ddenodd dros ddwy fil o bobl i wrando ar 80 o siaradwyr.

Fodd bynnag, nid dogfen i Lywodraeth Cymru yn unig fydd hon. Bydd yn ‘Gynllun i Gymru Gyfan’, sy’n adlewyrchu’r angen am ddull gweithredu lle mae ysgogiad y llywodraeth yn gweithio ochr yn ochr ag ymdrechion ar y cyd drwy’r sector cyhoeddus cyfan, ym mhob rhan o’n heconomi a thrwy ein holl gymunedau.

Gan gydnabod bod angen dull gweithredu ar draws Llywodraeth Cymru, rydym wedi dwyn ynghyd waith o bob un o adrannau’r llywodraeth a’i integreiddio, er enghraifft, â pholisïau newydd sy’n cael eu datblygu i sbarduno datgarboneiddio mewn diwydiant (Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU), iechyd (Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru), trafnidiaeth (Strategaeth Drafnidiaeth Cymru) a thai (y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio).

Yn ogystal â lleihau allyriadau, bydd angen inni hefyd feithrin y gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd. Ym mis Tachwedd 2019, cyhoeddwyd ein cynllun ymaddasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd, *Ffyniant i Bawb:Cymru sy’n effro i’r hinsawdd*.[45] Ers ei gyhoeddi, rydym wedi bod yn cymryd y camau gweithredu allweddol a ddisgrifiwyd yn y cynllun, sydd wedi’u llywio gan Fframwaith Monitro a Gwerthuso.

Yn ystod haf 2021, bydd Llywodraeth Cymru yn cael rhagor o gyngor gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar ffurf trydydd Asesiad Risg o Newid yn yr Hinsawdd a fydd yn ymateb i’r dystiolaeth ddiweddaraf o’r bygythiadau presennol a rhai yn y dyfodol sy’n gysylltiedig â newid hinsawdd y byddwn yn eu gweld o ganlyniad i allyriadau yn y gorffennol. Bydd Llywodraeth Cymru yn asesu’r cyngor ac yn ymateb yn unol â hynny.

Yn 2020-21 dyrannwyd £140m o gyllid cyfalaf i helpu i fynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd yn uniongyrchol. Cafodd y buddsoddiadau hyn eu gwneud i gyflawni cynlluniau megis seilwaith cerbydau trydan, teithio llesol, atebion sy’n seiliedig ar natur a pharhad y Rhaglen Tai Arloesol.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru fuddsoddiadau ychwanegol sylweddol hefyd mewn prosiectau eraill a fydd yn cael effaith sylweddol, er nad mynd i’r afael â datgarboneiddio yw eu hunig nod. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd i lefel y Grant Tai Cymdeithasol sydd ar gael a buddsoddi yn ein Cynllun Gweithredu ar yr Economi, lle mae sbarduno twf cynaliadwy a mynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd yn un o’r “galwadau i weithredu” allweddol i fusnesau preifat allu manteisio ar Gronfa Dyfodol yr Economi.

Mae’r Cynllun Gwella’r Gyllideb a ddatblygwyd yn 2020-21 ac a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2021-22 yn nodi gwelliannau arfaethedig i brosesau cyllidebau a threthi er mwyn sicrhau’r effeithiau mwyaf posibl i’n buddsoddiadau, gan gynnwys y paratoadau sydd ar y gweill i ddatblygu cynllun i olynu’r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru presennol, sy’n strategaeth ddeng mlynedd. Bydd y strategaeth newydd yn gosod y fframwaith ar gyfer buddsoddiadau Llywodraeth Cymru mewn seilwaith a chaiff ei chynllunio o amgylch pedair thema: llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol. Wrth ei gwraidd bydd ymateb Llywodraeth Cymru i’r argyfwng hinsawdd, gan gynnwys yr ymrwymiad i Sero-Net a mynd i’r afael â’r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

---

45 Ffyniant i Bawb:Cymru sy’n effro i’r hinsawdd
llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/ffyniant-i-bawb-cymru-syn-effro-ir-hinsawdd.pdf

## Astudiaeth Achos

### Mwy nag Ailgylchu – Strategaeth Economi Gylchol

Bu pwyslais mawr ar barhau i ymgysylltu a chydgynhyrchu o ran datblygu a chyflwyno'r Strategaeth Economi Gylchol.

Cynllun hirdymor yw'r strategaeth, sy'n cynnwys camau gweithredu i wella canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Cafodd ei chydgynhyrchu mewn partneriaeth, drwy gydweithio gwirioneddol â dinasyddion a rhanddeiliaid. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar gam cynnar o'r broses o ddatblygu'r strategaeth a cheisiwyd syniadau yn hytrach na barn ar gynnyrch gorffenedig. Cynhaliwyd dros 40 o ddigwyddiadau ledled Cymru, gyda llawer yn cael eu cynnal mewn cymunedau ac ysgolion ar amseroedd ac mewn lleoliadau a oedd yn gyfleus i'r bobl a oedd am fod yn bresennol.

Er mwyn helpu i wneud y digwyddiadau yn hygyrch, roedd y ddogfennaeth yn gryno ac ar ffurf fersiwn hawdd ei darllen a chyhoeddwyd crynodeb un dudalen hefyd. Cyhoeddwyd cyflwyniad â nodiadau i helpu pobl i ymgysylltu'n annibynnol.

Ar ôl cyhoeddi crynodeb o'r ymgynghoriad, gwnaethom barhau â'n hymgysylltu ar-lein wrth inni baratoi'r ddogfen derfynol. Roedd hyn yn golygu cynnal neu gymryd rhan mewn gweminarau a gweithdai gydag arbenigwyr a phartneriaid cyflawni er mwyn datblygu'r camau gweithredol terfynol.

Cyhoeddwyd y Strategaeth Mwy nag Ailgylchu ochr yn ochr â fersiwn hawdd ei darllen a nifer o asesiadau effaith a oedd yn cynnwys Asesiad o'r Nodau Llesiant a oedd yn amlinellu sut y byddwn yn mynd at i sicrhau bod y Strategaeth yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl tuag at y Nodau. Ymrwymwyd hefyd i barhau i ymgysylltu fel rhan o'r broses gyflawni.

# Cynaliadwyedd

## Diogelu ein Hamgylchedd

O ganlyniad i bandemig COVID-19, cafodd swyddfeydd eu cau neu eu cau'n rhannol gyda'r mwyafrif o'r staff yn gweithio gartref neu'n gweithio'n gyfunol. Arweiniodd hyn at leihad mawr yn nifer y saff a oedd yn bresennol ar safleoedd, sydd wedi cael effaith ddwys ar y cyfleustodau a ddefnyddiwyd a'r gwastraff a gynhyrchwyd:

## Ynni

- Canran gros allyriadau CO2e wedi gostwng 8.1% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Y defnydd o drydan wedi gostwng 25% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Y defnydd o nwy wedi cynyddu 51% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Esbonnir y cynnydd sydyn mawr yn y defnydd o nwy gan yr angen i gyflwyno paramedrau gweithredu newydd ar gyfer systemau awyru i sicrhau cyflenwad aer ffres llawn, gan osgoi ailgylchu aer a sicrhau, hyd y gellir, na pheryglir cysur thermol. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddilyn canllawiau'r diwydiant ar weithredu systemau ei hadeiladau'n ddiogel yn ystod y pandemig.

## Gwastraff

- Lleihau Cyfanswm y Gwastraff (Domestig) o 284 tunnell i 50 tunnell (gostyngiad o 82%) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Lleihau Gwastaff i'w Dirlenwi 2 dunnell ond fel canran mae wedi cynyddu i 2% o'r cyfanswm – dwbl y flwyddyn flaenorol.
- Lleihau faint sy'n cael ei ailgylchu (sy'n cynnwys treulio anaerobig/compostio bwyd) o 233 tunnell i 34 tunnell o gymharu â'r flwyddyn flaenorol – gostyngiad o 85%.
- Er bod y gwastraff a drowyd yn ynni 32 tunnell yn llai o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, cynyddodd y ganran 12%.

Cafodd y lleihad mewn ailgylchu a'r cynnydd mewn Troi Gwastraff yn Ynni a Thirlenwi ei achosi gan y cynnydd mewn gwastraff meddygol a halogedig megis masgiau, menyg, llieiniau gwrthfacteraidd (nad oedd modd eu hailgylchu) a ffrydiau gwastraff halogedig eraill o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19.

## Dŵr

Nodwyd y gostyngiad mewn m$^3$/y person wrth i lai o staff a chontractwyr weithio ar y safle ac wrth i rai swyddfeydd gau. Mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar y defnydd disgwyliedig gan staff yn hytrach na'r ffigurau gwirioneddol.

Dangosir manylion allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwastraff a gynhyrchwyd a dŵr a ddefnyddiwyd ar yr ystad weinyddol isod:

| GHG | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr Allyriadau Gros (tunelli o CO2e) | 8.4 | 6.9 | 6.3 | 5.4 | 4.2 | 3.7 | 3.4 |
| Cyfanswm yr Allyriadau Gros Cwmpas 1 Nwy (tunelli o CO2e) | 1.3 | 1.1 | 1.1 | 1.1 | 1.0 | 1.0 | 1.6 |
| Cyfanswm Allyriadau Gros Cwmpas 2 Trydan (tunelli o CO2e) | 7.1 | 5.8 | 5.2 | 4.3 | 3.2 | 2.6 | 1.8 |
| Trydan oriau gigawat | 13.4 | 11.8 | 11.6 | 11.2 | 10.5 | 10.3 | 8.1 |
| Nwy oriau gigawat | 7.1 | 5.8 | 5.8 | 6 | 5.7 | 5.8 | 8.8 |
| Gwariant ar Ynni (£M) | 2.1 | 2.1 | 2.1 | 2.0 | 2.1 | 2.1 | 2.5 |
| Lwfansau'r Ymrwymiad Lleihau Carbon | 0.16 | 0.27 | 0.1 | 0.1 | 0 | 0 | 0 |

| Gwastraff (tunelli) | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y gwastraff | 500 | 498 | 563 | 350 | 372 | 284 | 50 |
| Tirlenwi | 127 | 112 | 104 | 41 | 3 | 3.8 | 1.1 |
| Troi Gwastraff yn Ynni | | | | | 41 | 47 | 15 |
| Ailddefnyddiwyd / Ailgylchwyd | 314 | 322 | 396 | 222 | 245 | 150 | 24 |
| Treulio Anaerobig Bwyd | 59 | 64 | 63 | 87 | 83 | 83 | 10 |

| Gwastraff % | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tirlenwi | 25.4% | 22% | 18% | 12% | 0.8% | 1% | 2% |
| Troi Gwastraff yn Ynni | | | | | 12% | 17% | 29% |
| Ailddefnyddiwyd/ Ailgylchwyd | 62.8% | 64% | 70% | 63% | 66% | 53% | 49% |
| Treulio Anaerobig Bwyd | 11% | 12% | 11% | 25% | 22% | 29% | 20% |

| Dŵr | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (m3 y person y flwyddyn) | 8 | 8 | 7.1 | 6.3 | 6.2 | 5.6 | 2.1 |

Er bod COVID-19, yn anochel, wedi cael effaith ar y ffordd rydym yn defnyddio ein swyddfeydd, ym mis Mawrth 2021 crëwyd Wal Fyw yn ein swyddfa yn Nheras Picton, Caerfyrddin. Roedd hon yn seiliedig ar system Delltwaith a Hambwrdd sy'n cynnwys ceblau sy'n cynnal planhigion dringo/gwinwydd a blannwyd wrth waelod y ffrâm.

Caiff y wal ei chynnal yn naturiol â dŵr glaw a dim ond planhigion brodorol a ddefnyddiwyd. Mae Waliau Byw yn gwella amrywiaeth drwy dynnu llygryddion aer, gwanhau dŵr glaw, lleihau sŵn a lleihau ymdeimlad o lesiant. Mae strwythurau tebyg eraill yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ar safleoedd eraill Llywodraeth Cymru.

# Yr Agenda Ddigidol



Bu'r flwyddyn 2020-21 yn un hynod brysur yn y maes digidol, gydag amrywiol agweddau ar y rhaglen trawsnewid digidol yn mynd rhagddynt er mwyn diwallu anghenion cwsmeriaid a bodloni eu disgwyliadau yn wyneb y pandemig COVID-19. Mae'r pandemig nid yn unig wedi cyflymu'r broses o ddatblygu nifer o wasanaethau newydd gan Lywodraeth Cymru a nodweddion gwasanaethau sy'n bodoli eisoes y flwyddyn hon, mae wedi hwyluso ffyrdd newydd o rannu data, wedi ein gorfodi i weithio mewn ffyrdd cydgysylltiedig a chydweithredol, wedi trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio fel sefydliad ac wedi profi gwerth defnyddio data er budd y cyhoedd.

Crëwyd nifer o wasanaethau digidol newydd. Ym maes iechyd, cefnogodd Llywodraeth Cymru y broses genedlaethol, gyflym o gyflwyno meddalwedd ymgynghori dros fideo i ofal sylfaenol a gofal eilaidd, cyflawnodd ddull Cymru'n Un o greu systemau digidol a oedd yn cefnogi Profi, Olrhain a Diogelu; a pharhaodd i weithio i sefydlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru ym mis Ebrill 2021 a fydd yn hyrwyddo'r trawsnewid digidol sydd ei angen er mwyn sicrhau gwell iechyd a gofal yng Nghymru.

Roedd gwasanaeth brysbennu COVID-19 ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru yn cyfeirio defnyddwyr at raglenni cymorth a gwybodaeth yn seiliedig ar eu hatebion i gyfres o gwestiynau. Yn yr un modd, sefydlwyd gwasanaeth digidol gennym a oedd yn darparu gwybodaeth am symptomau COVID-19 ac yn cyfeirio defnyddwyr yn ddi-dor at safleoedd trefnu prawf.

Yn ogystal â chreu gwasanaethau digidol newydd, aeth Llywodraeth Cymru ati i wella'r gwasanaethau presennol allweddol er mwyn ymateb yn ystwyth i'r pandemig. Cafodd y Gwasanaeth Cyfrifon Busnes ei wella'n sylweddol er mwyn darparu'r Gronfa Cadernid Economaidd gwerth £500m ar-lein i fusnesau ac elusennau. Cafodd gwefan Busnes Cymru ei diweddaru'n fynych i gynnig y canllawiau diweddaraf i fusnesau a chyfres o gyrsiau digidol newydd a gweminarau i helpu BBaChau yng Nghymru.

Cynyddodd Map Data Cymru, ein llwyfan geo-ofodol unigol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru ei nodweddion a symudodd o gam Alffa i gam Beta. Roedd yn darparu gwybodaeth werthfawr i gefnogi gweithgareddau COVID-19 o fapio'r safleoedd gorau ar gyfer canolfannau brechu, dadansoddi amser gyrru i ysbytai dros dro a chynllunio ar gyfer adfer ar ôl COVID-19 drwy nodi llwybrau Teithio Llesol.

Ym maes addysg, chwaraeodd Rhaglen Hwb rôl hollbwysig, gan roi mynediad i ddysgwyr ac ymarferwyr i wasanaethau digidol Hwb, gan gynnwys e-bost ac adnoddau dysgu ar-lein. Fel rhan o'i Gronfa Technoleg Addysg, gwnaethom hefyd weithio'n agos gydag awdurdodau lleol ac ysgolion ledled Cymru i ddarparu bron 11,000 o ddyfeisiau ysgol wedi'u hailbwrpasu a chysylltedd 4G i ddysgwyr a oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

Roedd pwysigrwydd defnyddio a rhannu data i gefnogi'r agenda ddigidol yn glir drwy gydol 2020-21. Gwnaethom chwarae rôl hollbwysig yn y broses o ddarparu parseli bwyd i bobl a oedd yn gwarchod eu hunain. Roedd sefydlu protocolau rhannu data cyflym a chadarn yn hollbwysig i lwyddiant hyn. Darparwyd protocolau trosglwyddo data tebyg ar gyfer rhannu data â fferyllfeydd a chwmnïau dŵr.

Bu galw a diddordeb heb ei debyg mewn ystadegau a data ynglŷn â'r pandemig. Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y gwasanaeth ystadegol yng Nghymru, gan godi i'r her o gydweithio, ymaddasu ac arloesi'n gyflym er mwyn rhoi'r dystiolaeth yr oedd ei hangen i lywio'r ymateb i'r pandemig.

Bu'r Uned Gwyddor Data, a lansiwyd ar 1 Ebrill 2020, hefyd yn werthfawr o ran cefnogi'r ymateb dadansoddol i COVID-19 a nodi prosiectau i ddefnyddio'r wybodaeth a ddelir gan Lywodraeth Cymru yn y ffordd fwyaf gwerthfawr. Ystyriodd yr Uned y data a oedd ar gael er mwyn deall sut roedd dinasyddion Cymru yn newid eu patrymau symud o dan gyfyngiadau symud a'r clystyrau o amddifadedd yng Nghymru. Bu ein partneriaeth Ymchwil Data Gweinyddol Cymru â'r byd academaidd hefyd yn dangos gwerth ymchwil data cysylltiedig gyda nifer o brosiectau arloesol a oedd yn cefnogi'r rhai sy'n llunio polisïau a'r Gell Cyngor Technegol.

Yn ystod y flwyddyn, chwaraeodd Llywodraeth Cymru rôl arwain ym maes trawsnewid digidol ar draws y sector cyhoeddus. Sefydlwyd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol gennym ym mis Mehefin 2020 er mwyn gwella gallu gwasanaethau cyhoeddus digidol a helpu'r sector cyhoeddus i fwrw ymlaen â phrosiectau trawsnewidiol. Cyflwynodd y Ganolfan raglen o hyfforddiant ar ymwybyddiaeth ddigidol i uwch-arweinwyr ac aelodau etholedig, dechreuodd ddatblygu safonau gwasanaeth cyffredin a rhannodd arferion da i hyrwyddo cydweithio rhwng sectorau er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr a bodloni eu disgwyliadau.

Parhaodd ein Cronfa Trawsnewid Digidol ar gyfer Llywodraeth Leol i gefnogi prosiectau trawsnewid digidol drwy ddatrys problemau cyffredin yn gydweithredol mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Yn ogystal â gwaith mewn perthynas â'r pandemig, rhoddodd Llywodraeth Cymru arweinyddiaeth strategol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn asesu a lliniaru effeithiau posibl ymadael â'r UE ar lifau data. Drwy gydol y flwyddyn, gweithiodd Llywodraeth Cymru yn agos gyda Llywodraeth y DU a'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru ar barodrwydd, sicrwydd a rheoli risg.

Ni fyddai dim o'r gwaith hwn wedi bod yn bosibl pe na bai ein staff wedi cael yr adnoddau, y gwasanaethau a'r hyfforddiant cywir i ddechrau gweithredu'n effeithlon mewn ffordd rithwir. Cafodd y pandemig effaith sylweddol ar lefel y cymorth TGCh yr oedd ei angen ar ôl penderfyniad Llywodraeth Cymru y dylai'r staff weithio gartref.

Aeth staff mewn Gwasanaethau TGCh ati i helpu mewn gweithgareddau heb eu cynllunio megis dosbarthu a gosod cyfarpar TG mewn cartrefi, cynyddu'r gallu i ganiatáu i nifer cynyddol sylweddol o'r staff weithio o bell, diweddaru prosesau a gweithdrefnau i gefnogi ffyrdd newydd o weithio yn ogystal â chefnogi'r tîm Ymateb Brys yng Nghanolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru. Cafodd y defnydd o Microsoft Teams ei ehangu i gynnwys llais, gan alluogi staff i ymdrin â galwadau safonol a gweithredu teleffoni canolfannau cyswllt o bell.

Am fod staff yn gweithio o bell, bu angen mwy o seiberfonitro a datblygu a chyflwyno cymwysiadau newydd i gefnogi'r ffordd newydd hon o weithio. Mae Gwasanaethau TGCh hefyd wedi darparu gwasanaethau craidd newydd ac estynedig i alluogi Gweinidogion Cymru a'r staff i weithio'n effeithiol o bell. Mae'r adnoddau a'r technolegau digidol a gyflwynwyd mewn blynyddoedd blaenorol, gan gynnwys cyflwyno gliniaduron newydd a symud i wasanaethau Cwmwl, wedi sicrhau creu, parhad a chadernid gwasanaethau TGCh Llywodraeth Cymru o dan amgylchiadau na welwyd eu tebyg o'r blaen.

Mae sgiliau digidol hefyd wedi bod yn bwysig iawn inni dros y flwyddyn ddiwethaf ac er gwaethaf pwysau blaenoriaethau COVID-19, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddatblygu ei gallu digidol, data a thechnoleg a recriwtio i'r proffesiwn. Cwblhaodd y garfan gyntaf o brentisiaid digidol, data a thechnoleg y cynllun yn llwyddiannus a chawsant eu penodi mewn rolau parhaol ym maes digidol, data a thechnoleg drwy'r sefydliad cyfan. Rydym bellach yn ystyried y ffordd orau o gefnogi prentisiaid digidol, data a thechnoleg a Gwyddor Data, ynghyd ag aelodau eraill o staff er mwyn iddynt ddatblygu a chymhwyso eu sgiliau ymhellach.

# Urddas a Pharch



Yn ystod 2020-21, gwnaeth pandemig byd-eang COVID-19 darfu ar lawer o'n busnes arferol neu ei ohirio. Cawsom ein gorfodi ganddo i weithio mewn ffyrdd newydd, gyda'r mwyafrif o'r staff yn gweithio gartref, a fu'n bosibl drwy ein technoleg a'n polisïau Gweithio'n Glyfar.

Gwnaeth ein gorfodi hefyd i symud i ddigwyddiadau, rhaglenni dysgu a datblygu a recriwtio ar-lein a rhithwir. Mae hyn wedi arwain at fwy o gydraddoldeb daearyddol yn ein gweithle nag erioed o'r blaen. Er i'r rhain i gyd gael eu rhoi ar waith yn gyflym, rydym wedi sicrhau ein bod wedi'u hasesu o ran eu heffaith ar gydraddoldeb ac rydym yn mesur cynhwysiant ac unrhyw effaith wahaniaethol o hyd.

Mae gan bob tîm Siarter Tîm i sicrhau y caiff anghenion pob aelod o'r tîm eu hadlewyrchu yn nhrefniadau gweithio tîm a pharchu anghenion unigol pobl.

## Cadw Llywodraeth Cymru yn Ddiogel

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi dull system gyfan ar waith i gefnogi ymgysylltu, perfformiad a datblygu ar lefel unigolion a thimau drwy sgyrsiau rheolaidd yn seiliedig ar gryfderau a oedd yn canolbwyntio ar flaenoriaethau ar lefel unigolyn neu dîm. Ar ddechrau'r pandemig, nododd Llywodraeth Cymru ddisgwyliadau clir o ran sut y byddai'r sefydliad yn parhau i helpu pawb i weithio'n ddiogel a chadw mewn cysylltiad gan weithio ar wahân ar yr un pryd.

Ein blaenoriaeth oedd iechyd, diogelwch a llesiant ein gweithlu ac mae hynny'n parhau. Ochr yn ochr â'n hasesiad risg corfforaethol, darparwyd asesiad risg unigol i bawb ei ddefnyddio i asesu ei risg bersonol a llywio sgyrsiau gyda rheolwyr ynglŷn â'i waith. Rhoddwyd ffocws penodol hefyd ar bwysigrwydd asesiadau risg unigol a sesiynau ailgydio rheolaidd gyda rheolwyr i gydweithwyr a oedd yn wynebu mwy o risg o bosibl, gan gynnwys dulliau cyfathrebu wedi'u teilwra at ein cydweithwyr o gymunedau Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Cafodd pob cydweithiwr ei hysbysu hefyd am y cyngor a'r cymorth cyfrinachol a oedd ar gael, gan gynnwys drwy ein tîm adnoddau dynol a thrwy wasanaethau allanol gan gynnwys ein Rhaglen Cymorth i Gyflogeion.

Wrth i gyngor iechyd y cyhoedd ddatblygu ac wrth i fesurau newydd gael eu cyhoeddi ar lefel leol, genedlaethol a'r DU gyfan, nododd Llywodraeth Cymru yn glir ar gyfer ei gweithlu pa fesurau a gâi eu rhoi ar waith i gadw ein staff ein hunain yn ddiogel. Cafodd ein huwch-arweinwyr a'n huwch-reolwyr wybodaeth friffio reolaidd am y polisïau, arferion a chymorth Adnoddau Dynol a oedd yn ymwneud yn benodol â COVID-19 a oedd ar waith i bawb fanteisio arnynt. Wrth wraidd ein hymateb i'r pandemig bu ffocws ar sicrhau bod pawb yn cael sgyrsiau rheolaidd, yn enwedig am eu llesiant.

Roedd yn ofynnol i reolwyr ac arweinwyr tîm gynnal sgyrsiau ar adegau allweddol wrth i fesurau newid er mwyn deall yr effaith ar staff a darparu cymorth ychwanegol lle bynnag y bo ei angen. Drwy gydol y pandemig, rydym wedi cefnogi'r rhai â phryderon mawr ynglŷn â'u llesiant drwy gynnig yr hyblygrwydd ychwanegol i ddod i un o'n swyddfeydd a oedd ar agor.

Bu hyn yn elfen hollbwysig o'n cymorth i sicrhau bod pawb a oedd yn teimlo'n anniogel yn y cartref yn cael ei helpu i weithio yn ein swyddfeydd. Yn ogystal â'r cymorth cyfrinachol gan ein tîm Adnoddau Dynol canolog, roedd cydweithwyr yn cael eu hannog i dderbyn y cymorth a oedd ar gael drwy ein Rhaglen Cymorth i Gyflogeion. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai a oedd yn wynebu heriau iechyd meddwl, cyfrifoldebau gofalu ychwanegol ac addysgu yn y cartref.

Ar lefel tîm, roedd angen sgyrsiau penodol ynglŷn â ffyrdd o weithio a llesiant drwy gydol y pandemig gyda ffocws penodol ar gynhwysiant a sicrhau profiad cyfartal, ni waeth beth fo'u hamgylchiadau personol.

I'r rhai a oedd yn mynd i mewn i swyddfa, roedd disgwyliadau clir i gadw pawb yn ddiogel, gan gynnwys cyflwyno 'Siartrau Adeilad' i nodi'n glir yr ymddygiad disgwyliedig yn ein swyddfeydd, y mesurau hylendid a diogelwch a oedd ar waith a gofyniad ar bawb i gytuno i 'addewid i ddiogelu'. Bu hyn yn fuddiol ac mae dealltwriaeth fewnol yn dangos, i'r rhai a oedd yn mynd i'r swyddfa, fod gwelliant yn eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

Cafodd ein sianeli cyfathrebu mewnol eu hailwampio er mwyn rhoi gwybodaeth hanfodol i bawb, ynghyd â diweddariadau ar unwaith a mesurau wedi'u newid. Drwy gyflwyno sesiynau 'Dewch i Drafod yn Fyw' gyda'r Ysgrifennydd Parhaol a'n tîm gweithredol, bu modd sicrhau y gallai pawb, ni waeth ble, sut na phryd mae'n gweithio, gysylltu â'n tîm arweinyddiaeth, clywed yr wybodaeth ddiweddaraf a chodi unrhyw bryderon. Rhoddwyd ffocws newydd ar 'gadw mewn cysylltiad' gyda chyfleoedd rhithwir i'r staff gadw mewn cysylltiad â chydweithwyr neu gysylltu'n anffurfiol ag eraill. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i'r cydweithwyr hynny a oedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi neu'n teimlo'n ynysig yn ystod misoedd y gaeaf.

Mae ein canllawiau mewnol, ein cymorth a'n harlwy dysgu wedi cael eu hadnewyddu drwy'r amser i ymateb i anghenion ein gweithlu gyda hyfforddiant ychwanegol yn canolbwyntio ar gadernid a llesiant, sgyrsiau hyfforddi a mabwysiadu adnoddau newydd i gysylltu a chydweithio.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dilyn yr arferion gorau ym mhob rhan o'r Gwasanaeth Sifil er mwyn darparu ein pecyn cymorth pwrpasol ein hunain i staff yn ystod y pandemig. Mae hyn wedi cynnwys:

- Oherwydd y gwaith caled ychwanegol yr oedd staff yn ei wneud, roedd hyn yn golygu bod rhai yn llai tebygol o allu cymryd gwyliau blynyddol neu wyliau hyblyg. Felly, dyblwyd faint o wyliau blynyddol y gallai staff ei drosglwyddo o un flwyddyn i'r llall a rhoddwyd blwyddyn ychwanegol i gymryd y gwyliau hwnnw. Rydym hefyd wedi bod yn gwneud taliadau goramser os oedd gan staff gredyd hyblyg gormodol.
- Os oedd staff wedi bod yn absennol oherwydd COVID-19, sicrhawyd nad oedd absenoldebau tymor byr yn cael eu cyfrif tuag at bwyntiau sbarduno. Yn ogystal, pan oedd pwysau gofalu ar bobl pan oedd y pandemig ar ei anterth, roeddem yn galluogi staff i weithio mewn modd mor hyblyg ag y gallent, ac yn ychwanegu at unrhyw ddiffyg yn eu cyfanswm oriau hyblyg o fewn y cyfnod adrodd o 4 wythnos os nad oedd modd iddynt weithio'u holl oriau oherwydd anghenion gofalu.
- Galluogi staff i weithio'n ddiogel o'u cartrefi drwy ddatblygu ymhellach ein cymorth ar gyfer gweithio gartref. Roedd hyn yn cynnwys desg, cadair a chlustffonau, o wneud cais amdanynt, a chaniatáu i staff brynu ac adhawlio'r costau (o fewn terfynau penodol) ar gyfer offer ychwanegol gan gynnwys monitor, bysellfwrdd, llygoden a chodwr gliniadur. Rydym hefyd wedi sefydlu gwasanaeth argraffu a chasglu ar gyfer staff sydd angen cael gafael ar ddogfennau papur.
- Gwella ein pecyn cymorth llesiant ar gyfer staff, a oedd yn cynnwys canllawiau defnyddiol ar gyfer gweithio o bell, codi ymwybyddiaeth a gwasanaeth cyfeirio at gymorth i'r rhai sy'n delio â materion domestig, a sefydlu campfa rithwir ddwywaith yr wythnos a oedd yn galluogi staff i ymuno â sesiwn gampfa ar-lein, wedi'i sefydlu a'i chynllunio gan staff Llywodraeth Cymru.

Mae ein dull o fynd ati i gadw ein gweithlu'n ddiogel, yn gysylltiedig ac wedi'u cefnogi, wedi arwain at welliant sylweddol yn themâu allweddol ein Harolwg Pobl. Yng nghanlyniadau ein harolwg yn 2020 cafwyd y sgoriau cyffredinol uchaf erioed ar gyfer ymgysylltu, sef 69%. Roedd y sgoriau ar gyfer arweinyddiaeth a rheoli newid wedi codi 12 pwynt canran, ac roedd y sgoriau yn uwch na meincnod Gwasanaeth Sifil y DU yn y rhan fwyaf o themâu'r arolwg.

## Grŵp Cynghori Arbenigol COVID-19

Cafodd grŵp cynghori arbenigol COVID-19 y Prif Weinidog ei gydgadeirio gan y Barnwr Ray Singh a Dr Heather Payne. Ei gylch gwaith oedd archwilio'r gwahaniaethau o ran canlyniadau iechyd yn sgil COVID-19 mewn poblogaethau ethnig leiafrifol, a chwilio am ymatebion tymor byr a thymor hwy i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau hyn a chynnig mwy o amddiffyniad i gymunedau yr effeithir arnynt.

Sefydlwyd yr is-grŵp Asesu Risg (o dan gadeiryddiaeth yr Athro Keshav Singhal) a'r is-grŵp Cymdeithasol-economaidd (o dan gadeiryddiaeth yr Athro Emmanuel Ogbonna) i gyflwyno adroddiadau i'r prif grŵp. Aeth y grŵp Asesu Risg ati'n gyflym i lunio Adnodd Asesu Risg y Gweithlu, adnodd hygyrch a ddefnyddiwyd

ar draws y Gwasanaeth Iechyd a'r maes gofal cymdeithasol yng Nghymru (ac a ddefnyddiwyd hefyd ym maes addysg a chan yr Heddlu). Helpodd hyn i ddiogelu gweithwyr â nodweddion risg uchel, yn enwedig y rhai o grwpiau ethnig leiafrifol. Lluniodd y grŵp Economaidd-gymdeithasol adroddiad dylanwadol, a oedd yn nodi ffactorau allweddol sy'n achosi anghydraddoldeb ac anfantais, ac awgrymodd ffyrdd o fynd i'r afael â hyn.

Mae hyn wedi cael dylanwad llwyddiannus o ran cynhyrchu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru a phenodi hyrwyddwyr cymunedol ar gyfer cymunedau ethnig leiafrifol. Arweiniodd hyn at raglen frechu COVID-19 hynod lwyddiannus yng Nghymru, sydd wedi diogelu cyfrannau uwch o gymunedau sy'n wynebu mwy o risg.

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 Amcan y Cyflogwr

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i roi 'sylw dyledus' i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu. Mae'r Dyletswyddau Penodol, fel y'u nodwyd yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) 2011 yn cynnwys y gofyniad i gyhoeddi amcanion cydraddoldeb sydd â'r nod o helpu sefydliad i berfformio eu dyletswyddau cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus yn well. Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2020-2024 ym mis Ebrill 2020, gyda'r amcan y byddwn yn gyflogwr sy'n dangos esiampl drwy'r canlynol:

- Cynyddu amrywiaeth
- Dileu rhwystrau
- Cefnogi staff o bob cefndir i gyflawni eu potensial, gan sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

## Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021-2026

Mae Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021-2026 yn nodi sut y byddwn yn cyflawni amcan ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ddatblygu, drwy gydgynhyrchu â'n rhwydweithiau amrywiaeth staff a'r undebau llafur, Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021-2026[46], gan nodi sut rydym yn anelu at gyflawni'r amcan uchod. Cyhoeddwyd y Strategaeth ym mis Mawrth 2021, ynghyd â Chynllun Cyflawni blynyddol ategol, ffeithlun a Pholisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar ei newydd wedd. Bwriadwyd cyhoeddi'r Strategaeth ym mis Ebrill 2020 yn wreiddiol ond bu oedi oherwydd y pandemig. Cytunwyd y dylid pennu amserlen hwy er mwyn galluogi'r sefydliad i gyflawni ei dargedau o ran recriwtio staff anabl a staff o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

---

46 Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021 i 2026
llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2021/6/5/1623412879/strategaeth-cydraddoldeb-amrywiaeth-a-chynhwysiant-y-gweithlu-2021-i-2026.pdf

# Targedau Amrywiaeth y Gweithlu

Gwneud cynnydd ar dargedau'r gweithlu a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant 2016-2020:

- Targed ar gyfer staff anabl 5.8% – a gyflawnwyd ar 31 Mawrth 2020 (5.8%).
- Targed ar gyfer staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol – 2.5% – y rhagorwyd arno ar 31 Mawrth 2020 (2.6%).
- Cydbwysedd 50/50 rhwng y rhywiau erbyn 2020 yn yr Uwch Wasanaeth Sifil – heb ei gyflawni. Ar 31 Mawrth 2020, cafwyd canran o 42.8%.

Mae'n siomedig nad ydym wedi cyflawni ein targed o 50/50 ond gwelwyd cynnydd o 2% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Oherwydd y niferodd cymharol fach yn yr Uwch Wasanaeth Sifil, mae'r ffigur yn amrywio eithaf tipyn yn seiliedig ar hyd yn oed niferoedd bach yn ymuno neu'n gadael. Yng nghyd-destun y trosiant cyfyngedig yn yr Uwch Wasanaeth Sifil, mae'r newid yn araf ac ni fu modd cyflawni'r targed.

Mae canran y menywod ar lefel Dirprwy Gyfarwyddwr yn agosach at y targed, sef 45% ac o ystyried datblygiad gyrfa a throsiant rhagwelwyd mai ar lefel Dirprwy Gyfarwyddwr y byddai'r newid yn cael ei weld gyntaf. Hefyd, mae cynnydd da yn cael ei wneud ar raddau bwydo 6 a 7 islaw'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Mae Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021-2026 yn gosod targedau uchelgeisiol newydd inni o ran recriwtio a dyrchafu staff anabl, staff o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a menywod yn yr Uwch Wasanaeth Sifil.

**O ran recriwtio allanol, y targedau yw:**

- Erbyn 2026, ein nod yw y bydd 20% o'r bobl a benodir gennym yn anabl ac y bydd 20% o gefndiroedd ethnig leiafrifol.
- Erbyn 2030, ein nod yw cynyddu canran y bobl anabl a benodir gennym i 30%, er mwyn gwneud mwy i fynd i'r afael â'r ffaith bod pobl anabl wedi'u tangynrychioli i raddau helaeth iawn yn ein sefydliad. Caiff y targed o 30% ar gyfer 2030, a'r camau y bydd angen inni eu cymryd i'w gyrraedd, eu hadolygu yng ngoleuni'r gwersi a ddysgir wrth weithio i gyrraedd targed 2026, ond rydym am fod yn glir nawr mai ein huchelgais yw cyrraedd sefyllfa lle y bydd 30% o'r bobl a benodir gennym yn anabl erbyn 2030.
- Bydd mwy na 50% o'r bobl a gaiff eu penodi i'r Uwch Wasanaeth Sifil rhwng nawr a 2026 yn fenywod.

**O ran recriwtio mewnol, y targedau yw:**

- Dyrchafu staff anabl ar lefel sy'n uwch na'u cyfran o'r boblogaeth, er mwyn mynd i'r afael â thangynrychiolaeth ar bob lefel o'r sefydliad.
- Dyrchafu staff o gefndir ethnig leiafrifol ar lefel sy'n uwch na'u cyfran o'r boblogaeth, er mwyn mynd i'r afael â thangynrychiolaeth ar bob lefel o'r sefydliad.
- Y bydd mwy na 50% o'r bobl a gaiff eu dyrchafu i'r Uwch Wasanaeth Sifil yn fenywod.

## Rhwydweithiau Amrywiaeth Staff

Mae pedwar rhwydwaith amrywiaeth yn Llywodraeth Cymru. Mae’r rhwydweithiau yn rhoi llais i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, yn galluogi cydweithwyr i rannu profiadau a chefnogi ei gilydd:

- **Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd** – rhwydwaith cymorth i staff anabl sydd hefyd yn rhoi cyngor ar ddatblygu polisïau cyflogaeth, arferion ac amgylchedd sy’n effeithio ar staff yn unol â’r Model Cymdeithasol o Anabledd.
- **Rhwydwaith y Staff Ethnig Leiafrifol** – y rhwydwaith ar gyfer staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy’n rhoi sicrwydd ynglŷn pholisïau mewn cysylltiad â chydraddoldeb ac sydd hefyd yn helpu aelodau i wneud eu profiad o weithio i Lywodraeth Cymru yn un sy’n fuddiol i’n cymunedau ac sy’n datblygu unigolion.
- **Menywod Ynghyd** – rhwydwaith ar gyfer menywod, menywod traws a phobl anneuaidd a dynion fel cynghreiriaid. Mae Menywod Ynghyd yn annog twf personol a menywod yn helpu ei gilydd i gyrraedd eu llawn botensial.
- **PRISM** – y rhwydwaith staff ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd sy’n cefnogi staff sy’n nodi eu bod yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol, yn draws neu’n rhywedd-amrywiadol (LGBT+).


Ceir rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid anffurfiol hefyd ar gyfer Mabwysiadu a Maethu, yr Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth, Materion y Meddwl (Iechyd Meddwl), Gofalwyr, y Gymdeithas Gristnogol ac Atal Dweud.

Yn ystod y flwyddyn, mae’r rhwydweithiau staff wedi chwarae rôl enfawr i gefnogi eu haelodau, a oedd yn gweithio gartref a hefyd yn ymdopi â gofal plant, addysgu yn y cartref, gofalu neu a oedd yn gwarchod eu hunain o bosibl neu a oedd â phryderon iechyd/iechyd meddwl neu bryderon eraill.

Yn ystod y cyfnod hwn, llwyddodd y rhwydweithiau i gynnal nifer o ddigwyddiadau rhithwir i’r aelodau a’u cynghreiriaid yn ogystal ag anfon cylchlythyrau rheolaidd. Gwnaethant hefyd weithio’n agos gyda’r sefydliad i ddatblygu/adolygu polisïau a chynnal asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb. Bu’r rhwydwaith Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd hefyd yn weithgar iawn, gan weithio gyda’r sefydliad i helpu staff yr oedd angen addasiadau i galedwedd neu feddalwedd TGCh neu ddodrefn arbenigol arnynt er mwyn gallu gweithio o bell.

Enwyd Rhwydwaith y Staff Ethnig Leiafrifol yn y Gwobrau Busnesau Cyfrifol gan Busnes yn y Gymuned yn 2020.

# Adroddiad Rhedeg i Ddannedd y Gwynt




Yn sgil digwyddiadau byd-eang 2020 ac adferiad y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, cafodd Rhwydwaith y Staff Ethnig Leiafrifol a'r Rhwydwaith Menywod Ynghyd eu hysbrydoli i gynnal eu hymchwil eu hunain ar y cyd i brofiadau cyflogeion o hil, rhyw a chroestoriadedd.

Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda staff o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a staff sy'n fenywod gwyn er mwyn cael cipolwg uniongyrchol ar y materion cydraddoldeb y mae menywod yn eu hwynebu ar hyn o bryd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y rhai sy'n gysylltiedig â nodweddion croestoriadol a gorgyffyrddol hil a rhyw.

Cafodd y dystiolaeth ei throi'n adroddiad, sy'n dwyn y teitl Rhedeg i Ddannedd y Gwynt[47] – teitl sy'n deillio o drafodaeth ysgogol gydag un o'r grwpiau ffocws. Yn ogystal â'u canfyddiadau, mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys nifer o argymhellion i'r sefydliad fynd i'r afael â nhw, sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth/Cynllun Cyflawni ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu.

47 Rhedeg i Ddannedd y Gwynt llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-03/rhedeg-i-ddannedd-y-gwynt.pdf

## LGBT+ a Stonewall

Mae Llywodraeth Cymru yn falch o fod yn gyflogwr LGBT+ cynhwysol. Rydym yn defnyddio iaith niwtral o ran rhywedd lle bynnag y bo modd yn ein polisïau er mwyn osgoi rhagfarn ar sail rhywedd a all roi menywod, dynion a phobl anneuaidd o dan anfantais yn anfwriadol. Yn ein barn ni, nid yw hyn yn niweidiol i unrhyw grŵp gwarchodedig arall. Rydym yn ymrwymedig i fod yn gyflogwr amrywiol a chynhwysol, lle y caiff ein holl staff eu helpu i ffynnu a chyrraedd eu potensial.

Yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, rydym yn ymgynghori â'n rhwydweithiau amrywiaeth staff ar ddatblygiadau polisi mewnol a diwygiadau fel sy'n ofynnol, yn ogystal â'r gofyniad cyfraith cyflogaeth i ymgynghori â'r undebau llafur a gydnabyddir gennym ar faterion o'r fath.

Mae ein holl bolisïau yn gwbl gynhwysol o ran ein holl staff, ni wnaeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, priodas (gan gynnwys priodas gyfartal/o'r un rhyw) a phartneriaeth sifil, nam neu gyflwr iechyd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd.

Rydym yn cydnabod nad yw'r term 'hunaniaeth rhywedd' na'r term 'mynegiant rhywedd' yn nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ond rydym yn defnyddio'r termau hyn i gwmpasu nodwedd warchodedig 'ailbennu rhywedd' yn y Ddeddf Cydraddoldeb. Yn ein barn ni, nid yw'r termau hyn yn camgyfleu'r Ddeddf Cydraddoldeb o ran ysbryd y gyfraith. Mae diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb o "ailbennu rhywedd" yn cwmpasu statws traws a hunaniaeth rhywedd ac mae'n diogelu pobl anneuaidd a rhyweddhylifol hefyd, fel y'i dyfarnwyd yn ddiweddar.

Nodir ein hymrwymiad i fod yn gyflogwr cynhwysol ac amrywiol yn fanylach yn Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021-26. Fel cyflogwr cynhwysol, rydym yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau meincnodi'r gweithle er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu o arferion gorau mewn sefydliadau eraill. Mae Stonewall yn un o nifer o sefydliadau a ddefnyddir gennym i brofi ein polisïau a'n harferion. Rydym wedi cytuno i fod yn Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall yn 2021-22.

## Astudiaeth Achos

### Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol

Yn ystod haf 2020, galwodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, Jane Hutt am Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol "uchelgeisiol a radical". Cafodd y cynllun drafft ei gyd-greu â llawer o bartneriaid yn y gymuned, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, a chynhelir ymgynghoriad arno ar hyn o bryd a chyhoeddwyd crynodeb, fersiwn hawdd ei darllen a fersiwn Iaith Arwyddion Prydain hefyd. Ei weledigaeth yw gwneud Cymru'n wlad wrth-hiliol sy'n fwy cyfartal.

Arbrofwyd gyda model o benodi, am ffioedd bach, 17 o fentoriaid cymunedol, a dynnodd sylw swyddogion polisi at eu profiadau gwirioneddol fel unigolion a chymunedau. Hefyd, dyfarnwyd 24 o grantiau ymgysylltu cymunedol i grwpiau a fforymau cymunedol er mwyn ariannu ymgysylltu a oedd yn canolbwyntio ar leisiau pobl ethnig leiafrifol wrth ddatblygu'r Cynllun.

Yna, gwnaethom ddwyn ynghyd y gwahanol bartneriaid a oedd yn gweithio ar y sylfaen dystiolaeth, ar drafodaethau a arweiniwyd gan y gymuned, aelodau'r grŵp llywio, TUC Cymru, unedau llafur, arbenigwyr yn y maes a swyddogion polisi arweiniol ar gyfer sesiynau 'at wraidd y mater' er mwyn rhannu'r gwahanol fathau o dystiolaeth a llywio'r broses o ddatblygu'r Cynllun. Cafodd y nodau a'r camau gweithredu eu mireinio eto mewn 'digwyddiadau bord gron'.

Yn ystod yr ymgynghoriad, byddwn yn ceisio barn gan bob cymuned a phartner er mwyn datblygu'r gwaith hwn ymhellach. Bydd y cynllun terfynol yn wir yn adlewyrchu profiad uniongyrchol y bobl y mae'n eu gwasanaethau ac ymateb iddo.

## Mentora o Chwith

Y flwyddyn hon, lansiwyd pumed garfan o'n cynllun mentora o chwith llwyddiannus – caiff aelodau o'r Uwch Wasanaeth Sifil eu mentora o chwith gan fentoriaid o chwith sy'n cael eu recriwtio'n benodol ar gyfer eu safbwyntiau amrywiol a'u profiad uniongyrchol, gan gynnwys staff anabl, ethnig leiafrifol ac LGBT+ yn ogystal â menywod a'r rhai sy'n nodi eu bod yn dod o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.

## Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

Yn seiliedig at ddata a gyhoeddwyd o'r blaen, y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar 31 Mawrth 2021 oedd **7.37%**, sy'n gynnydd o'i gymharu â'r ganran o **5.53%** ar 31 Mawrth 2020.

Mae'r cynnydd yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau eleni yn siomedig. Er bod y sefydliad yn cyflogi mwy o fenywod na dynion yn gyffredinol, nid ydynt wedi'u gwasgaru'n gyfartal ar draws y graddau. Menywod yw'r rhan fwyaf o'r staff ar raddau is. Effeithiwyd ar hyn yn 2020-21 gan y nifer fawr o fenywod a ymunodd â'r sefydliad ar lefel Prentis a Chymorth Tîm. Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi gallu lleihau'r bwlch cyflog rhwng

y rhywiau drwy dargedu dyfarniadau cyflog at staff sydd ar gyflogau is. Y dyfarniad cyflog yn 2020-21 oedd 2.5% ar bob pwynt cyflog ar bob gradd, felly nid oedd yn lleihau ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Byddwn yn parhau i gymryd camau i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau drwy gefnogi menywod ar bob lefel o'r sefydliad i ddatblygu a datblygu eu gyrfaoedd, a pharhau i ymdrechu i gael Uwch Wasanaeth Sifil sy'n gytbwys o ran y rhywiau.

## Recriwtio

Mae Llywodraeth Cymru yn cadw at y Cynllun Gwarantu Cyfweliad ac fel rhan o'r cynllun hwn mae'n hysbysebu pob swydd wag fel y cyfryw. Mae'n ofynnol i unigolion sydd am gael eu hystyried o dan y Cynllun Gwarantu Cyfweliad ein hysbysu fel rhan o'r broses gwneud cais. Rydym yn cynnig yr un cyfle wrth recriwtio'n fewnol ac wedi estyn egwyddorion y Cynllun Gwarantu Cyfweliad i gynnwys staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol hefyd.

Yn fewnol, rydym wedi treialu proses addasiadau recriwtio newydd i'n hymgeiswyr anabl. Mae'r broses yn cynnwys y cyfle i gael sesiynau cyngor un i un i ymgeiswyr sy'n ansicr a ddylent ofyn am addasiadau rhesymol a pa addasiadau rhesymol y gallent ofyn amdanynt er mwyn sicrhau y gallant berfformio cystal â phosibl. Gall ymgeiswyr gwblhau ffurflen, gyda chymorth mentor os oes angen, i gofnodi unrhyw addasiadau rhesymol i'r broses recriwtio a'r ffaith eu bod wedi cytuno iddynt. Pan fydd ymgeiswyr anabl yn llwyddiannus, byddwn yn sicrhau y cânt eu paru â rolau sy'n cyd-fynd â'r addasiadau yn y gweithle.

## Rhagor o wybodaeth

Ceir rhagor o wybodaeth am weithgarwch amrywiaeth a chynhwysiant Llywodraeth Cymru fel cyflogwr a rhagor o fanylion am yr ystadegau cysylltiedig yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb Cyflogwr Blynyddol.[48]

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn hyrwyddwyr cydraddoldeb a hawliau dynol drwy'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn parhau i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a herio gwahaniaethu. Ariannodd ein Rhaglen Cyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant saith elfen allweddol o waith, pob un wedi'i arwain gan sefydliadau cydraddoldeb yng Nghymru. Cyflwynir y rhaglen ledled Cymru ac mae'n cyrraedd cymunedau, yn cynrychioli ac yn grymuso pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol ac yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb.

Mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol[49] yn nodi'r gwaith sy'n mynd rhagddo ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru ac ymhlith ein partneriaid i gymryd y camau a chyflawni'r canlyniadau yng Nghynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol 2020-24 Llywodraeth Cymru.[50] Mae'r adroddiad yn cynnwys pennod benodol ar bandemig COVID-19 ac anghenion y rhai â nodweddion gwarchodedig, yn ogystal â'r rhai sydd wedi'u hymyleiddio mewn unrhyw ffordd, wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynlluniau i ymateb i'r pandemig, ynghyd â chrynodeb o gynnydd tuag at amcanion cydraddoldeb.

---

48 Adroddiad Cydraddoldeb Cyflogwr 2019-2020 Llywodraeth Cymru llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-04/adroddiad-cydraddoldeb-cyflogwr-2019-2020-llywodraeth-cymru-.pdf

49 Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol:2019 i 2020 a 2020 i 2021 llyw.cymru/adroddiad-cydraddoldeb-blynyddol-2019-i-2020-2020-i-2021-html

50 Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb:2020 i 2024 llyw.cymru/cynllun-nodau-cydraddoldeb-2020-i-2024

# Parchu Hawliau Dynol

## Caffael Masnachol

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu trin yn deg a chyda pharch a sicrhau bod Cymru yn rhydd o gaethwasiaeth. Mae'r Cod Ymarfer – Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi wedi'i ymgorffori drwy gydol y broses gaffael. Caiff pob cyflenwr llwyddiannus ei annog i ymrwymo i'r Cod, ac fel gofyniad sylfaenol, mae'n ofynnol i gontractwyr/partneriaid yn y gadwyn gyflenwi weithio gyda Llywodraeth Cymru i reoli perfformiad contractau'n barhaus er mwyn sicrhau bod arferion cyflogaeth teg yn cael eu dilyn.

Bydd pob proses gaffael gwerth dros £25,000 yn destun asesiad risg strategol, sy'n ystyried cynaliadwyedd y gwasanaeth a'r potensial i fynd i'r afael â meysydd penodol yn y Cod drwy delerau contract, er enghraifft talu'r cyflog byw.

Yn fewnol, mae'n rhaid i bob gweithiwr proffesiynol caffael gwblhau e-ddysgu'r Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi ar Gaffael Moesegol a fydd yn rhoi gwybodaeth am arferion cyflogaeth teg a moesegol a'u helpu i'w deall a sut y gallant sicrhau bod y Cod yn cael ei ddilyn.

Cafodd Datganiad Polisi Caffael Cymru ei ddiweddaru ym mis Mawrth 2021 ac mae'n nodi'r weledigaeth strategol ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru yn nodi deg egwyddor caffael llesiant i Gymru yn seiliedig ar nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru.

Mae egwyddor 8 yn nodi: *Byddwn yn cydweithio â rhanddeiliaid i hyrwyddo cyfle cyfartal a gwaith teg yng Nghymru.*

Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun gweithredu i fod yn sail i gyflawni yn erbyn egwyddorion y Datganiad a gaiff ei gyhoeddi ar ein gwefan ac mae'r Datganiad yn gofyn i sefydliadau prynu yn y sector cyhoeddus yng Nghymru wneud hyn.

# Gweithio'n Ddwyieithog

Cyhoeddwyd strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar y defnydd mewnol o'r Gymraeg – "*Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd*" – ym mis Ebrill 2020. Mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.[51]

Mae'r strategaeth yn pennu nod hirdymor ynglŷn â'r defnydd o'r iaith, a fydd yn cael effaith gadarnhaol i'r cenedlaethau sydd i ddod. Ein nod yw y dylai Llywodraeth Cymru fod yn wirioneddol ddwyieithog erbyn 2050; sy'n golygu y byddai'n dod yn weithle lle mae'n arferol i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu defnyddio mewn modd naturiol a chyfnewidiol. Nod strategaeth 2020-2025 yn y byrdymor yw bod Llywodraeth Cymru yn dod yn sefydliad sy'n batrwm i eraill yn y ffordd y mae'n defnyddio'r iaith o gymharu â chyrff tebyg yng Nghymru.

Mae'r ymrwymiad a wnaed yn strategaeth Llywodraeth Cymru ehangach ei chwmpas ar ddatblygu'r Gymraeg ledled Cymru "*Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg*" sy'n addo arwain drwy esiampl o ran hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle hefyd yn berthnasol. Fel y nodwyd yn strategaeth Cymraeg 2050, mae gan Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru ran hollbwysig i'w chwarae er mwyn helpu Gweinidogion i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr. Mae hyn nid yn unig yn ymwneud â datblygu'r polisïau angenrheidiol i hyrwyddo'r iaith ledled Cymru, ond hefyd drwy arwain y ffordd fel cyflogwr yn y sector cyhoeddus.

Er gwaethaf yr amgylchiadau heriol o ganlyniad i'r pandemig, rydym wedi dechrau'n dda ac mae sylfaen gadarn wedi'i gosod i wneud cynnydd dros gyfnod pum mlynedd cyntaf y strategaeth. Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran pob un o'r pedair thema sy'n sail i'r strategaeth; dysgu, arweinyddiaeth, recriwtio a thechnoleg.

Mae'r ddarpariaeth dysgu Cymraeg sydd ar gael i'r staff wedi cael ei hailwampio, gan arwain at arlwy mwy amrywiol, hygyrch ac ehangach nag erioed o'r blaen. Mae mwy o gyfleoedd ar gael bellach i ddysgu'r iaith, o wersi wythnosol i gyfleoedd dysgu ar-lein newydd i gwrs hunanastudio newydd. Rydym hefyd wedi dileu'r gofyniad i gyflwyno achos busnes fel maen prawf derbyn ar gyfer dysgu'r Gymraeg y flwyddyn hon, a chynyddodd nifer y ceisiadau gan staff am wersi wythnosol yn dechrau ym mis Medi 2021 44%.

Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn arwain y ffordd ac mae'r Uwch Wasanaeth Sifil ehangach yn deall y rôl bwysig sydd ganddo o ran gosod esiampl dda, hyrwyddo gwerth y Gymraeg i'r sefydliad ac annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg. Rydym yn disgwyl i arweinwyr Llywodraeth Cymru *annog staff i ddefnyddio, dysgu neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a'u helpu i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd bellach ar gael drwy'r hyfforddiant Iaith Gymraeg a gynigir.*

51 Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd llyw.cymru/cymraeg-maen-perthyn-i-ni-i-gyd

Mae'r cwrs newydd 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog' a ddarperir gan Academi Wales ar gyfer uwch-arweinwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru hefyd wedi derbyn ei garfan gyntaf o fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhaglen ar gyfer rhoi gwybodaeth am y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru i ddechreuwyr newydd wedi cael ei hailwampio, ac mae cyrsiau newydd ar ynganu'r Gymraeg ac ymwybyddiaeth iaith wedi cael eu cyflwyno y flwyddyn hon.

Yn unol â'n dyletswyddau statudol, rydym yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Mae adroddiad 2019-2020 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.[52]

52 Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2020 i 2021
llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2021/6/4/1624546630/adroddiad-blynyddol-safonaur-gymraeg-2020-i-2021.pdf

# Gweithio mewn Partneriaeth

Corff mantell yw Ochr yr Undebau Llafur, sy'n cydlynu safbwyntiau'r tri undeb llafur a gydnabyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae ein tîm rheoli wedi gweithio mewn partneriaeth agos ag Ochr yr Undebau Llafur ers nifer o flynyddoedd yn unol ag egwyddorion partneriaeth gymdeithasol, gan ymgysylltu â'r undebau ar y cam cyntaf yn natblygiad polisi neu newid arfaethedig sy'n effeithio ar staff Llywodraeth Cymru.

Mae'r tri undeb yn cynrychioli eu haelodau ar amrywiaeth eang o amodau gwasanaeth a materion eraill sy'n gysylltiedig â gwaith. Pan gynigir newidiadau polisi a fydd yn effeithio ar staff, rydym yn ymgynghori ag Ochr yr Undebau Llafur yn ffurfiol ac yn cydgysylltu ag aelodau fel y bo'n briodol. Mae gan Ochr yr Undebau Llafur a Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru Gytundeb Partneriaeth hirsefydledig sy'n darparu fframwaith ar gyfer cydweithio. Er mwyn adlewyrchu trefniadau partneriaeth gymdeithasol newydd, bu Cadeirydd Ochr yr Undebau Llafur yn bresennol fel arsyllwr yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac roedd gan Ochr yr Undebau Llafur aelodaeth weithredol o Bwyllgor Gweithredol y Bwrdd.

Bu ein perthynas waith gynhyrchiol ag Ochr yr Undebau Llafur yn arbennig o werthfawr yn ystod argyfwng COVID-19, a oedd yn gofyn am hyblygrwydd ar y naill ochr a'r llall er mwyn mabwysiadu polisïau ar gyfer y staff ar fyr rybudd i adlewyrchu trefniadau gweithio'r pandemig. Bu Ochr yr Undebau Llafur yn ymwneud yn agos â'r holl agweddau ar ein hymateb fel sefydliad i'r pandemig ac yn fwy diweddar, mae wedi bod yn ymwneud â gwaith cynllunio ar gyfer adferiad.

Mae sicrhau bod aelodau'r staff yn cael eu cefnogi'n llawn, yn parhau'n iach a bod ganddynt amgylchedd diogel yn rhan bwysig o'n dull gweithredu o ran iechyd a diogelwch, ac un rydym yn gweithio'n agos iawn ag Ochr yr Undebau Llafur arno er mwyn gwella'n barhaus. Cydweithiodd y ddwy ochr i roi gweithfannau diogel rhag COVID-19 ar waith i'r staff na allent weithio gartref yn ystod y pandemig.

Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, roedd y ddwy ochr yn cefnogi ein cydweithwyr a oedd yn wynebu mwy o risg am eu bod yn darparu gwasanaethau'n allanol wrth iddynt baratoi i ailgydio yn eu gweithgareddau. Drwy gydweithio i roi cyngor ac arweiniad ynglŷn ag asesiadau risg a systemau gweithio diogel, maent wedi sicrhau bod y staff yn gallu ailgydio yn eu gweithgareddau'n ddiogel.

## Astudiaeth Achos

### Gweithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol

Cyhoeddwyd Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) drafft ar gyfer ymgynghoriad ym mis Chwefror 2021.

Nod y Bil yw sefydlu system o bartneriaeth gymdeithasol sy'n hwyluso'r broses o gynrychioli gweithwyr ar y cyd at ddibenion gwella gwasanaethau cyhoeddus, hyrwyddo gwaith teg a chefnogi llesiant cymdeithasol pobl yng Nghymru.

Mae'r Bil yn cynnig dyletswydd newydd ar gyrff cyhoeddus penodedig i weithredu mewn partneriaeth gymdeithasol; bydd yn ofynnol i gyflogwyr perthnasol yn y sector cyhoeddus ymgysylltu ag undebau llafur ardystiedig a chydnabyddedig wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu nodau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol newydd yn cynghori Gweinidogion ar faterion sy'n ymwneud â phartneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a chaffael cymdeithasol gyfrifol.

Mae'r Bil drafft a'r polisi ategol wedi cael eu datblygu mewn partneriaeth gymdeithasol. Cafodd tri aelod lefel uwch o staff o undeb llafur, cyflogwr yn y sector cyhoeddus a chyflogwr yn y sector preifat eu secondio i Lywodraeth Cymru gyda chylch gwaith penodol i gefnogi'r broses o ddatblygu'r Bil. Bu'r secondiadau yn allweddol i sicrhau bod y ddeddfwriaeth ddrafft yn uchelgeisiol, yn gadarn ac yn cael effaith wirioneddol. Mae'r secondiadau hefyd wedi helpu i atgyfnerthu cydweithio ehangach â phartneriaid cymdeithasol ar faterion o ddiddordeb cyffredin.

## Safon Iechyd a Diogelwch

Ym mis Tachwedd 2020, ar y cyd ag Ochr yr Undebau Llafur, cafodd y sefydliad ei achredu i'r Safon Iechyd a Diogelwch ryngwladol newydd – ISO 45001.

Mae'r Safon yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr ymgymryd â rôl arwain gryfach ym maes iechyd a diogelwch ac mae'n dilyn proses ataliol yn yr ystyr ei bod yn ei gwneud yn ofynnol i risg gael ei gwerthuso a'i hunioni cyn yr achosir damweiniau ac anafiadau yn hytrach na rheoli peryglon yn unig. Un o ofynion y Safon yw bod yn rhaid cynnal archwiliadau mewnol o'n system rheoli Iechyd a Diogelwch, ac mae carfan o 10 gwirfoddolwr, gan gynnwys cynrychiolydd o Ochr yr Undebau Llafur, wedi cael eu hyfforddi'n archwilwyr mewnol. Bydd yr archwiliadau hyn yn ategu'r archwiliadau allanol sydd eisoes yn cael eu cynnal gan ein corff ardystiedig, y Sefydliad Safonau Prydeinig.

# Atal Llwgrwobrwyo a Llygredd

Mae ein safonau a'n disgwyliadau ynglŷn â'r ffordd y disgwylir i gyflogeion Llywodraeth Cymru ymddwyn wrth ymgymryd â'u dyletswyddau yn glir iawn. Mae ein Telerau ac Amodau Gwasanaeth, Cod y Gwasanaeth Sifil, Cod Ymddygiad y Staff a chanllawiau ar Reoli Arian Cyhoeddus Cymru oll yn canolbwyntio ar ein gwerthoedd craidd, sef uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd a didueddrwydd. Maent yn rhoi cyngor diamwys na ddylai staff gamddefnyddio eu rolau swyddogol i hyrwyddo buddiannau preifat, derbyn rhoddion neu letygarwch neu dderbyn buddiannau eraill gan unrhyw un y gellid yn rhesymol ystyried eu bod yn peryglu'r gallu i lunio barn neu uniondeb.

Mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff ddatgelu unrhyw fuddiannau busnes allanol a all effeithio ar ei rôl yn Llywodraeth Cymru, a chael rheolwyr i gymeradwyo'r buddiannau hyn. Dosberthir gwybodaeth yn rheolaidd i atgoffa cydweithwyr am y gofyniad hwn. Hefyd, cynhelir gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar sefydliadau a ariennir gennym, fel rhan o nifer o fesurau i ddiogelu rhag troseddau ariannol gan unrhyw un sy'n derbyn grantiau a chontractau Llywodraeth Cymru.

Mae gennym Gangen Atal Twyll a'i chylch gwaith yw ymgorffori diwylliant o atal twyll a llygredd a hyrwyddo ymagwedd dim goddefgarwch tuag at dwyll a llygredd drwy ymchwilio i bob honiad a wneir, boed hynny yn erbyn Swyddogion Llywodraeth Cymru neu drydydd partïon sy'n cael grantiau a chontractau gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Gangen mewn cysylltiad agos â heddluoedd Cymru a grwpiau arbenigol eraill ac yn cymryd rhan mewn ymarferiadau paru data cenedlaethol i nodi achosion posibl o dwyll a gwrthdaro buddiannau. Mae'r Gangen Atal Twyll hefyd yn gyfrifol am gynnal ein Polisi Atal Twyll a Llygredd a'r Cynllun Ymateb i Dwyll.

Yn ystod y pandemig COVID-19 dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Gangen Atal Twyll wedi gwella ei rhwydwaith a gweithio mewn partneriaeth â thimau arbenigol eraill ym maes atal twyll. Ymgysylltodd y Gangen Atal Twyll â swyddogion arweiniol twyll awdurdodau lleol yng Nghymru, Tîm Atal Twyll Cymru y GIG, Tîm Atal Twyll Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

Gan gydweithio i rannu gwybodaeth ac arferion gorau mewn perthynas ag ymosodiadau twyll ar y gwahanol daliadau cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig â COVID-19. Gwnaeth timau Llywodraeth Cymru atal llawer o geisiadau a fethodd â chyflawni'r meini prawf neu pan oedd amheuaeth o gamarfer a thwyll posibl, gan ei gwneud yn bosibl i gyllid gael ei ddosbarthu i gefnogi unigolion a sefydliadau a oedd yn wir yn wynebu anawsterau. Byddwn yn parhau i ymchwilio i ôl-wiriadau monitro sicrwydd i atal twyll yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf a thu hwnt. Bydd hyn yn cynnwys ymarferiadau paru gwiriadau data y Fenter Twyll Genedlaethol gyda phob sefydliad sy'n cymryd rhan.

# Ymdrin â Chwynion

Mae gan Lywodraeth Cymru bolisi cwyno clir a thryloyw sy'n esbonio'r ffordd rydym yn ymdrin â chwynion gan aelodau o'r cyhoedd neu sefydliadau eraill. Rydym wedi mabwysiadu arferion gorau ym maes ymdrin â chwynion yn unol â pholisi cwyno a chanllawiau enghreifftiol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Yn y flwyddyn 2020-21, ymdriniwyd â 64 o gwynion. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu DPA o 85% o ran ymateb i gwynion.

Mae'r tabl isod yn dangos amseroedd ymateb ar gyfer y tair blwyddyn ddiwethaf:

% a gafodd ymateb o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno:

- Ebrill 2018 – Mawrth 2019 69%
- Ebrill 2019 – Mawrth 2020 78%
- Ebrill 2020 – Mawrth 2021 68%

Caiff terfynau amser ymateb i gwynion eu monitro bob mis a chaiff Swyddogion Arweiniol Cwynion ym mhob Grŵp eu hysbysu amdanynt. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt dynnu sylw at ymatebion hwyr yn gynharach a chymryd camau i atal hyn rhag digwydd yn rheolaidd.

Mae sawl rheswm gwahanol pam na fyddai cwyn yn derbyn ymateb o fewn y terfyn amser penodedig (megis cymhlethdod y gŵyn neu lefel yr ymchwiliad sydd ei angen). Ar gyfer 2020-21, cafodd y pandemig COVID-19 effaith ar gydymffurfiaeth â'r terfynau amser wrth i swyddogion ymateb i nifer mawr o gwynion a oedd yn ymwneud â'r pandemig.

Nid oedd y rhan fwyaf o'r cwynion hyn yn dod o dan broses gwyno Llywodraeth Cymru ond roedd angen ymdrin â nhw mewn modd sensitif ac amserol. Os caiff terfyn amser cwyn ei estyn, mae achwynwyr bob amser yn cael eu hysbysu ymlaen llaw er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf, yn unol â model Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Atgyfeiriwyd 21 o gwynion at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (saith yn fwy na'r flwyddyn flaenorol), a benderfynodd ymchwilio i ddwy ohonynt yn unig. Dewisodd beidio ag ymchwilio i 17, tynnwyd un gŵyn yn ôl ac ni chadarnhawyd cwyn arall. Nid yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi penderfynu eto a fydd yn ymchwilio i ddau achos arall yr atgyfeiriwyd ato. Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm yr achosion a gaewyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dros y pedair blynedd diwethaf.

Cyfanswm Blwyddyn yr achosion a gaewyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

- 2017-18: 30
- 2018-19: 20
- 2019-20: 7
- 2020-21: 5

Mae nifer yr achosion a gaewyd yn wahanol i nifer yr achosion a gyflwynwyd, a hynny am i rai o'r achosion a gaewyd yn 2020-21 gael eu cyflwyno yn y flwyddyn flaenorol ac am y bydd rhai achosion a gyflwynwyd yn 2020-21 yn cael eu cau yn 2021-22.

Rydym yn parhau i adolygu ein harferion a'n protocolau er mwyn sicrhau ein bod yn buddsoddi o hyd i wella'r broses i'n cwsmeriaid a'n cyflogeion. Rydym wedi hyfforddi aelodau ychwanegol o'r staff i ymdrin â chwynion ac rydym yn parhau i adolygu ein dogfennaeth er mwyn sicrhau bod ein gwasanaeth yn gynhwysol ac yn hygyrch. O ganlyniad i bandemig COVID-19, diweddarwyd tudalennau gwe'r Tîm Cynghori ar Gwynion hefyd er mwyn tynnu sylw cwsmeriaid at oedi posibl.

# Adroddiad Atebolrwydd 2020-21

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrifon adnoddau cyfunol blynyddol yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi, yn nodi'r adnoddau sydd wedi'u caffael, eu dal neu eu gwaredu a'r defnydd o adnoddau yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill a ddynodwyd yng Ngrŵp Llywodraeth Cymru ac a restrir yn y nodiadau i'r cyfrifon hyn. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o faterion Llywodraeth Cymru a'r grŵp ac o incwm a gwariant, Datganiad o Sefyllfa Ariannol a llifoedd arian parod y grŵp ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Y Prif Swyddog Cyfrifyddu ar ran Gweinidogion Cymru biau'r cyfrifoldeb dros drefniadaeth gyffredinol, rheolaeth a staffio Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros systemau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid a materion eraill, a thros reoli gofyniad net Llywodraeth Cymru am arian parod. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol hefyd am baratoi a llofnodi cyfrif adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth ac, yn arbennig:

- parchu'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan y Trysorlys, gan gynnwys gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru systemau a gweithdrefnau priodol a dibynadwy i gyflawni'r broses gydgrynhoi;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol, gan gynnwys y dyfarniadau sydd ynghlwm wrth gydgrynhoi'r wybodaeth gyfrifyddu a ddarperir gan gyrff cyhoeddus eraill yn y grŵp;
- datgan a yw'r safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn FReM wedi'u dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol;
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu crynswth yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r farn sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

O dan Adran 133(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gallu dynodi aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn dynodi Prif Weithredwr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn Swyddog Cyfrifyddu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae gwaith y Byrddau Iechyd Lleol, Byrddau Iechyd Arbennig ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru'n cael ei lywodraethu gan awdurdod ar wahân ac mae Prif Weithredwyr pob un o'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cael eu penodi'n Swyddogion Atebol gan Brif Weithredwr y GIG yng Nghymru. Nid yw'r penodiadau hyn yn tynnu oddi ar gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Swyddog Cyfrifyddu dros gyfrifon Llywodraeth Cymru.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu (neu Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol, ar eu rhan) wedi penodi Prif Weithredwyr (neu swyddogion cyfatebol) Cyrff Cyhoeddus Cymru yn Swyddogion Cyfrifyddu'r cyrff hynny. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am sicrhau bod systemau a rheolaethau yn eu lle i sicrhau yr ymgeisir am unrhyw grantiau y mae Llywodraeth Cymru'n eu rhoi i Gyrff Cyhoeddus Cymru at y dibenion a fwriedir. Mae'n gyfrifol hefyd am sicrhau bod modd cyfrif yn briodol am y gwariant hwnnw ac incwm a gwariant arall y cyrff hynny o fewn y cyfrifon adnoddau. O dan y telerau penodi, mae Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff Cyhoeddus Cymru'n atebol am ddefnyddio, gan gynnwys rheoleidd-dra a phriodoldeb, y grantiau a dderbynnir ac incwm a gwariant arall y cyrff hynny.

Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol, a diogelu asedau Llywodraeth Cymru neu'r corff Cyhoeddus Cymreig y mae'r swyddog cyfrifyddu'n atebol iddo, yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

## Datgelu Gwybodaeth i Archwilwyr

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru'n gwybod am yr wybodaeth honno. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad Llywodraethiant

## Rhagymadrodd

Rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod safonau uchel o uniondeb yn y ffordd y rheolir arian cyhoeddus. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion Gweinidogion Cymru, ac sy'n hwyluso arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli risg.

Mae'r prif ffynonellau gwybodaeth yr wyf yn eu hystyried wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethiant hwn wedi'u nodi yn Ffigur 1 isod.

**Ffigur 1: Ffynonellau Gwybodaeth sy'n Cyfrannu at y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol**




Defnyddir Ffynonellau Gwybodaeth Allanol hefyd i lywio'r datganiad Llywodraethiant.

Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau gan y canlynol ymysg eraill:

- Archwilio Cymru
- Rheoleiddwyr
- Y Comisiwn Ewropeaidd
- Aseswyr Allanol

# COVID-19

Ar 11 Mawrth 2020 datganodd Sefydliad Iechyd y Byd fod y Coronafeirws, COVID-19 yn bandemig byd-eang. O ganlyniad, symudodd Llywodraeth Cymru swm sylweddol o gapasiti a gallu mewnol er mwyn ymateb i'r argyfwng. Mae Ffigur 2 isod yn dangos Llinell Amser Covid.

**Ffigur 2: Llinell amser COVID-19 2020-2021**

- **31 Ionawr 2020 –** Cadarnhau'r achosion cyntaf o COVID-19 yn y DU
- **4 Chwefror 2020 –** Gweinidogion Cymru yn gwneud y ddeddfwriaeth Covid gyntaf
- **18 Chwefror 2020 –** Cyfarfod ExCovid cyntaf LIC
- **28 Chwefror 2020 –** Canfod yr achos cyntaf o COVID-19 yng Nghymru
- **11 Mawrth 2020 –** Sefydliad Iechyd y Byd yn datgan pandemig
- **16 Mawrth 2020 –** Y farwolaeth gyntaf oherwydd COVID-19 yng Nghymru
- **17 Mawrth 2020 –** Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cymru) cyntaf
- **18 Mawrth 2020 –** ECC(W) yn dod yn weithredol
- **20 Mawrth 2020 –** Cau ysgolion Cymru
- **23 Mawrth 2020 –** Y cyfyngiadau symud cyntaf yng Nghymru a'r DU
- **24 Mawrth 2020 –** Dechrau'r cynllun gwarchod yng Nghymru
- **25 Mawrth 2020 –** Deddf y Coronafeirws yn cael y Cydsyniad Brenhinol
- **29 Mehefin 2020 –** Cymru'n llacio'r cyfyngiadau a'r ysgolion yn ailagor
- **16 Awst 2020 –** Y cynllun gwarchod yn dod i ben yng Nghymru
- **Hydref 2020 –** Ymarfer cloriannu cyflym: gwersi a ddysgwyd
- **23 Hydref 2020 –** Y cyfnod atal byr yn dechrau yng Nghymru
- **9 Tachwedd 2020 –** Diwedd cyfnod atal byr Cymru
- **8 Rhagfyr 2020 –** Dechrau'r rhaglen frechu yng Nghymru
- **20 Rhagfyr 2020 –** Cyfyngiadau symud newydd yn dechrau yng Nghymru
- **22 Chwefror 2021 –** Disgyblion yng Nghymru yn dechrau dychwelyd i'r ysgol
- **25 Chwefror 2021 –** Cymru/y DU ar Lefel Rhybudd 4
- **13 Mawrth 2021 –** 'Aros yn lleol' a dechrau llacio'r cyfyngiadau yng Nghymru
- **3 Mai 2021 –** Cymru ar Lefel Rhybudd 3
- **17 Mai 2021 –** Cymru ar Lefel Rhybudd 2
- **24 Mai 2021 –** Cymru'n trefnu bod tystysgrifau brechu ar gael ar gyfer teithiau rhyngwladol brys
- **17 Gorffennaf 2021 –** Cymru ar Lefel Rhybudd 1
- **7 Awst 2021 –** Cymru ar Lefel Rhybudd 0

Mae trefniadau llywodraethiant sy'n bodoli eisoes wedi parhau yn ystod y pandemig. Er hynny, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, cyflwynais fesurau newydd i ddarparu llywodraethiant tryloyw a phenodol, i reoli risg (goddefgarwch risg) a rheolaeth i gefnogi Llywodraeth Cymru yn ei hymateb i COVID-19. Nodir y mesurau allweddol isod.

## ExCovid

Y mesur llywodraethiant ychwanegol a fu'n allweddol i ymateb y sefydliad fu creu'r Pwyllgor ExCovid. Mae'r aelodaeth yn cynnwys Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol ac uwch-swyddogion eraill gydag Aelodau Anweithredol y Bwrdd yn mynychu ar sail gylchdroi. Hwn yw'r fforwm goruchwylio, cydgysylltu a sicrwydd strategol ar lefel swyddogol sy'n fy ngalluogi i arwain a monitro cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Gweinidogion yn eu hymateb i COVID-19.

Rôl ExCovid fu goruchwylio a chydgysylltu gweithgareddau swyddogion i sicrhau bod amcanion polisi a gweithredol allweddol yn cael eu cyflawni a thrwy hynny rhoi cymorth effeithiol i'r Gweinidogion i'w cynorthwyo i ddelio â'r argyfwng, gan gynnwys:

- rhoi sicrwydd bod swyddogion yn gwneud popeth o fewn eu gallu i helpu i reoli argyfwng COVID-19 a'u bod yn bodloni disgwyliadau'r Gweinidogion;
- sicrhau bod blaenoriaethau polisi a gweithredol hanfodol Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni;
- goruchwylio ac adolygu'r portffolio ehangach o gyflawni  polisi er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion argyfwng COVID-19 a'i fod yn cael ei gyflawni'n effeithiol;
- sicrhau bod gwaith ar COVID-19 yn cael ei flaenoriaethu'n glir a nodi a dileu meysydd o ddyblygu ymdrech a gweithgarwch;
- datblygu gweledigaeth strategol glir ar gyfer esblygiad polisi, gan gynnwys yn y cyfnod adfer;
- adolygu a rheoli rhestr o risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Dechreuodd ExCovid gyfarfod ddwywaith yr wythnos o fis Chwefror i fis Mai 2020, ac wedi hynny mae cyfarfodydd wedi'u cynnal yn wythnosol. Bydd yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd tra bo'r argyfwng yn parhau. Yn ogystal â'r aelodau craidd, mae'r presenoldeb wedi bod yn hyblyg i gynnwys y swyddogion hynny y mae angen iddynt ddod â materion i'r Pwyllgor.

## Mesurau Llywodraethiant Eraill

Mae mesurau eraill yr wyf wedi'u cyflwyno wedi cynnwys:

- Ysgrifennu at bob Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol a Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff Cyhoeddus, ar faterion sy'n ymwneud â pharodrwydd i dderbyn risg mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir mewn ymateb i'r pandemig, rheoli'n gyflym, a phwysigrwydd rhoi mesurau diogelu cymesur ar waith. Mae hyn yn cynnwys yr angen i gynllunio i liniaru risgiau, ystyried gwerth am arian, cadw cofnodion digonol a gweithio gyda thimau canolog sy'n darparu cyngor ac arweiniad.
- Ysgrifennu at bob Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol y mae disgwyliadau ohonynt o ran yr angen posibl i geisio Cyfarwyddyd Gweinidogol.
- Cyfarfod â Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol yn rheolaidd i drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â swyddogion cyfrifyddu.
- Cyhoeddi canllawiau ychwanegol i'r holl staff ar reolaeth ariannol, grantiau, llywodraethiant, atal twyll a chaffael yn ystod COVID-19.
- Sicrhau bod Cyllidebu Strategol a'r Canolfannau Rhagoriaeth (ar gyfer Grantiau a Llywodraethiant Corfforaethol) yn parhau i ymgysylltu'n llawn â pharatoi Cyngor Gweinidogol.

Yn ogystal â gweithredu ExCovid, dechreuodd is-bwyllgor y Pwyllgor Gweithredol FinCo gyfarfod yn wythnosol yng nghamau cynnar y pandemig er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyffredin ar draws y Grwpiau o effaith penderfyniadau ariannol. Wrth i'r pandemig fynd yn ei flaen, bu llai o angen i FinCo gyfarfod bob wythnos ond mae'r Pwyllgorau Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol a Phobl ar wahân wedi ei chael yn fwy effeithiol ac effeithlon cyfarfod fel cyd-bwyllgor o dan yr amgylchiadau presennol, gan arwain at strwythur llywodraethiant wedi'i addasu ar hyn o bryd.

Roedd newidiadau eraill yn ystod y flwyddyn i sicrhau y gallem ymateb i'r pandemig. Cafodd sesiynau her y Cabinet a sesiynau her y Cyfarwyddwyr Anweithredol eu gohirio dros dro a chyflwynais Fwrdd Cyflawni'r Ysgrifennydd Parhaol ym mis Awst 2020 i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cynllun Ailgychwyn ac Adfer yn y Dyfodol.

## Ymarferiad Cloriannu a Gwersi a Ddysgwyd Llywodraeth Cymru

Ym mis Hydref 2020, comisiynodd ExCovid ymarferiad cyflym Cloriannu a Gwersi a Ddysgwyd gan Lywodraeth Cymru i ymateb cyffredinol Gwasanaeth Sifil Cymru yn ystod ton gyntaf pandemig COVID-19. Nod yr ymarferiad oedd ystyried yr hyn a weithiodd yn dda a nodi'r gwersi a ddysgwyd, fel y gallai Llywodraeth Cymru adolygu ac addasu ei threfniadau i wella ei hymateb parhaus i'r pandemig. Canfu'r archwiliad lawer o bethau cadarnhaol gan gynnwys: gweithio cryf iawn ar draws Lywodraeth Cymru rhwng cydweithwyr gweithredol, cyfathrebu a pholisi, hyblygrwydd a gwydnwch staff wrth ymateb i ofynion newidiol y pandemig a'r lefel ddigynsail o ddeialog ac ymgysylltu ar draws y sector cyhoeddus.

Yn gyffredinol, roedd y trefniadau ymateb brys yn mynd i'r afael â'n gofynion uniongyrchol. Roedd yr ymgysylltu a'r cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol yn ddigynsail o ran eu brys, eu hamlder, eu tryloywder a'r parodrwydd i gydweithio tuag at nod cyffredin. Mae profiad COVID-19 wedi dangos yr angen i gynllunio at argyfwng tymor hwy i sicrhau bod ein hymateb i argyfyngau parhaus o'r math hwn yn gynaliadwy ac yn cael adnoddau digonol.

Canfu'r archwiliad fod parodrwydd cryf ymhlith staff ar draws Llywodraeth Cymru i helpu ac i chwarae rhan wrth helpu i reoli'r pandemig. Ymatebodd y staff yn hyblyg i gyflymder y newid a'r angen i symud i feysydd blaenoriaeth, gan ymateb yn gadarnhaol i'r gromlin ddysgu gyflym a chroesawu'r cyfleoedd a gynigid gan yr amrywiaeth o waith oedd ar gael.

Er hynny, canfu'r archwiliad dystiolaeth, yn nyddiau cynnar rolau'r pandemig, o ganlyniad i'r symudiadau cyflym hyn, y gallai cyfrifoldebau fod yn aneglur ar adegau a bod diffyg goruchwyliaeth strategol ac amcanion strategol clir weithiau.

Ar draws Llywodraeth Cymru, addasodd timau ac unigolion yn gyflym ac yn effeithiol i weithio o bell, gan fabwysiadu yn gyflym y dechnoleg newydd a roddwyd ar waith i'w cefnogi. Ond roedd angen i'r sefydliad gydnabod bod gweithio gartref wedi bod yn heriol i rai, yn enwedig y rhai â chyfrifoldebau gofalu.

Ym mis Medi 2020, penodwyd Cyfarwyddwr Cyffredinol dros dro ar gyfer Cydgysylltu Argyfwng Covid i sicrhau eglurder o ran rolau ac atebolrwydd (fel y nodwyd yn yr ymarfer gwersi a ddysgwyd). Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn gyfrifol am gyflawni blaenoriaethau polisi a gweithredol COVID-19 diweddaraf Llywodraeth Cymru a rhoi cyngor i'r Gweinidogion, yr Ysgrifennydd Parhaol a Chyfarwyddwyr Cyffredinol eraill ar y ffordd y mae'r Gwasanaeth Sifil yn ymdrin â'r argyfwng ar y cyd.

Daw craffu pellach gyda chyhoeddiad diweddar Prif Weinidog y DU am y bwriad i gynnal ymchwiliad cyhoeddus o dan delerau Deddf Ymchwiliadau 2005 i'r ffordd yr ymdriniwyd â'r argyfwng iechyd cyhoeddus, gan ddechrau yng ngwanwyn 2022 yn ôl pob tebyg. Rwyf wedi gofyn i dîm bach dynodedig gael ei sefydlu a fydd yn goruchwylio'r gwaith paratoi yn Llywodraeth Cymru ac yn gweithredu fel y pwynt cydgysylltu unwaith y bydd yr Ymchwiliad yn mynd rhagddo.

## Newidiadau Sefydliadol

Yn ogystal ag adleoli staff yn sylweddol ar draws y sefydliad mewn ymateb i'r pandemig a sicrhau rheolaeth weithredol effeithiol ar ymateb COVID-19, mae strwythurau newydd wedi'u sefydlu ar lefel Grŵp mewn rhai meysydd, er enghraifft yn achos swyddogaethau sy'n cefnogi'r Prif Swyddog Meddygol o fewn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ar lefel y sefydliad, y swyddogaeth allweddol a grëwyd i ddwyn ynghyd, cydgysylltu a chyfathrebu ar draws y gwahanol agweddau ar ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19, fu Cyfarwyddiaeth Ailgychwyn ac Adfer wedi COVID-19, gan gynnwys creu swydd Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd.

Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu â'r holl staff (sesiynau holi ac ateb) a 13 sesiwn gyda'r Uwch Wasanaeth Sifil. Cafodd y Grŵp Uwch Arweinwyr (cyfarfod Cyfarwyddwyr) ei ailgyflwyno hefyd ar 11 Tachwedd 2020 ar ôl iddo gael ei rewi oherwydd y pandemig.

## Gwneud Penderfyniadau Ariannol

Cyflwynwyd templed ar gyfer penderfyniadau ariannu a risg (ynghyd â chyngor ategol) ar gyfer penderfyniadau COVID-19 ym mis Mawrth 2020 a oedd yn ategu'r canllawiau presennol ar baratoi cyngor i'r Gweinidogion. Mae'r dogfennau ychwanegol hyn yn gofyn am ystyriaeth benodol o'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig ag ymyriad penodol. Fe'u rhoddwyd ar waith i sicrhau bod risgiau'n cael eu hystyried yn briodol yng ngoleuni'r newidiadau i barodrwydd Llywodraeth Cymru i dderbyn risg ac i sicrhau bod cynigion COVID-19 yn briodol ac yn fforddiadwy. Hwylusodd y templedi ychwanegol hyn benderfyniadau integredig a chyflym drwy gydol y pandemig.

Sefydlwyd "Siambr y Seren" Weinidogol gan y Cabinet i ddarparu craffu ychwanegol ar adeg pan oedd y pwysau i ariannu cynigion yn sylweddol. Hyd yn oed ar ôl i'r penderfyniadau ariannu mwy gael eu gwneud ac ar ôl i waith Siambr y Seren ddod i ben, parhaodd y Gweinidog Cyllid i ofyn am gyngor gan Banel Cynghori a oedd yn cynnwys swyddogion ac aelod annibynnol i'w chefnogi i wneud penderfyniadau am ddyraniadau cyllid.

Mae'r Canolfannau Rhagoriaeth (Llywodraethiant Corfforaethol a Grantiau) wedi rhoi cyngor ar ofynion *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* a herio agweddau ar reoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian drwy gydol y pandemig. Roedd rhai o staff y Canolfannau Rhagoriaeth yn aelodau o dimau sy'n delio â dyraniadau cyllid mawr, er mwyn sicrhau y cydymffurfid â gofynion *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*. Mae'r Ganolfan Ragoriaeth llywodraethiant corfforaethol hefyd wedi parhau i graffu'n fanwl ar gyngor Gweinidogol sy'n ymwneud â COVID-19 ac mae'n cadw cofrestr o'r holl gyngor Gweinidogol sy'n gysylltiedig â Covid. Roedd angen perthynas waith wahanol, ac agosach byth rhwng y Grwpiau a swyddogaethau canolog er mwyn ymateb i'r pandemig, gan arwain at fwy o rannu ac uwchgyfeirio materion.

O ran yr ymyriadau COVID-19 lle'r oedd yr awdurdodau lleol yn gweithredu fel asiantau o ran dosbarthu cyllid, cafwyd sicrwydd trwy gyfuniad o fecanweithiau a ddarparwyd gan swyddogion A151 a'r fframwaith rheolaeth a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob ymyriad penodol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- dogfennau canllawiau cynhwysfawr a rheolau'r cynllun yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru;
- llythyrau dyfarnu grant;
- hawliadau'n cael eu hardystio gan Brif Swyddogion Cyllid;
- cyfarfodydd rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Awdurdodau Lleol. Diben hyn oedd darparu goruchwyliaeth "fyw" a chyfleu unrhyw faterion arwyddocaol a oedd yn codi;
- ar gyfer rhai ymyriadau, sefydlwyd Grŵp Goruchwylio Llywodraeth Cymru;
- cyflwyno gwybodaeth fonitro reolaidd (feunyddiol weithiau).

## Sicrwydd a Chraffu

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cynnal nifer o adolygiadau ym maes COVID-19 yn ystod y flwyddyn gan gynnwys y rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu, cyflenwi a chaffael cyfarpar diogelu personol (PPE), trefniadau llywodraethiant y GIG yn ystod y pandemig, a chyflwyno'r rhaglen frechu.

Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi darlun cadarnhaol ar y cyfan o agweddau ar yr ymateb, er enghraifft ynghylch cydweithredu rhwng cyrff cyhoeddus a threfniadau llywodraethiant hyblyg. Er hynny, cydnabuwyd eu bod i gyd yn tynnu sylw at wersi i'w dysgu yn ogystal â llywio myfyrdodau Llywodraeth Cymru ar y cam ymateb i COVID-19. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi pwysleisio bod yr adroddiadau'n ymdrin â rheolaeth a llywodraethiant rhaglenni unigol, yn hytrach na'r ymateb cyffredinol.

Drwy gydol y pandemig mae'r Swyddogion Cyfrifyddu a'r Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol wedi mynychu nifer o sesiynau penodedig y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar COVID-19 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig.

Cynhaliodd y tîm Archwilio Mewnol hefyd 15 o adolygiadau cysylltiedig â COVID-19 dros yr un cyfnod, gan gwmpasu nifer o ymyriadau polisi Llywodraeth Cymru. Fe wnaeth yr adolygiadau ddarparu barn sicrwydd resymol neu sylweddol a derbyniodd y rheolwyr yr holl sylwadau a wnaed. Prif ffocws y gwaith archwilio mewnol oedd sicrhau cysondeb trefniadau llywodraethiant ac effeithiolrwydd dulliau rheoli, rheoli risg a monitro dros yr ymyriadau hyn, a oedd wedi'u datblygu'n gyflym.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Rwyf wedi ymrwymo i gefnogi Gweinidogion Cymru i gyflawni eu dyletswydd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) a llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'i llunio i sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol y llywodraeth a chyrff cyhoeddus, ac felly dylai trefniadau gweithredu a llywodraethiant a mecanweithiau'r Llywodraeth, a'r cyngor a'r cymorth a roddir gan y gwasanaeth sifil yng Nghymru, wella'n gyson er mwyn ymateb i'r gofynion hyn.

Ym mis Chwefror 2020, trafododd y Pwyllgor Gweithredol y rhwystrau mewnol sy'n ein hatal rhag gwireddu buddion y ddeddfwriaeth. Roedd y rhain yn ymdrin ag agweddau megis gwella llywodraeth gydgysylltiedig; defnyddio Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol fel llwyfan i feithrin gallu ar gyfer meddwl yn y tymor hir; sefydlu dull ataliol y tu hwnt i'r gyllideb; a sut y gallwn wella gallu ein proffesiwn polisi. Cydnabuwyd hefyd bwysigrwydd sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn dangos arweinyddiaeth amlwg ac yn gwella'r modd yr ydym yn rhoi gwybod am y newidiadau a wnawn. Cytunodd ExCo i fframwaith gweithredu strategol wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu a chyfleu ehangder a chwmpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn well o fewn y Llywodraeth.

Mae'r fframwaith hwn yn nodi gwahaniaeth pwysig rhwng y canlynol:

- rôl Gweinidogion Cymru o ran sicrhau'r cyfraniad gorau posibl gan y Llywodraeth at y nodau llesiant drwy bennu amcanion llesiant a'u cyflawni;
- rôl y Gwasanaeth Sifil o ran gwella'r cymorth a'r cyngor a roddir i Weinidogion Cymru drwy gynnwys yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn ein ffordd o weithio;

- ein rôl ni o ran galluogi eraill i gyfrannu at y broses o gyflawni'r nodau llesiant a rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith;
- ein rôl ni o ran helpu i ddeall Cymru yn awr ac yn y dyfodol drwy waith ar Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, y dangosyddion llesiant cenedlaethol ac Adroddiad Blynyddol Llesiant Cymru.

Ym mis Ionawr 2021, darperais bapur ategol[53] i ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r papur yn canolbwyntio ar y camau gweithredu yr wyf fi fel Ysgrifennydd Parhaol wedi'u cymryd gyda'r Pwyllgor Gweithredol a swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor *Cyfrifon Cyhoeddus Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yma*[54] ar 17 Mawrth 2021 ac fe'i trafodwyd ar 24 Mawrth 2021. Ysgrifennodd[55] y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn datgan y byddai Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r adroddiad erbyn yr hydref.

## Y Fframwaith Llywodraethiant

Mae'r Fframwaith Llywodraethiant yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfeirio a rheoli Llywodraeth Cymru a'r gweithgareddau y mae'n atebol trwyddynt i Senedd Cymru ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwyddynt. Mae'n galluogi'r sefydliad i fonitro'r modd y mae ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion yn cael eu cyflawni ac i weld a lwyddwyd i sicrhau gwerth am arian. Mae'r fframwaith yn cynnwys y cyrff hynny y cyflawnir blaenoriaethau ac ymrwymiadau'r llywodraeth trwyddynt a hefyd y trefniadau mewnol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru. Ceir manylion pellach am y Fframwaith Llywodraethiant gyda Datganiad System y Swyddog Cyfrifyddu.

### Cyrff Cyhoeddus Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n cyflawni rhai o'i nodau a'i hamcanion trwy nifer o Gyrff Cyhoeddus, gan gynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, is-gwmnïau a chyrff eraill a noddir gan y Llywodraeth. Penodir Swyddogion Cyfrifyddu ar gyfer pob corff sydd â swyddogaethau gweithredol, ac maent yn gyfrifol am y ffordd y mae sefydliad yn rheoli cyllid cyhoeddus ac yn cyflawni ei amcanion. Mae'n ofynnol i Swyddogion Cyfrifyddu lofnodi datganiad llywodraethiant a gyhoeddir yng nghyfrifon blynyddol eu corff. Diffinnir y berthynas â Llywodraeth Cymru mewn dogfennaeth ysgrifenedig ar gyfer pob corff.

Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus wedi parhau i ddatblygu'r berthynas bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'i chyrff cyhoeddus. Mae'r Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd yn ystod y pandemig ac mae wedi bod o werth cynyddol fel fforwm ar gyfer deialog â chyrff cyhoeddus a rhyngddynt. Mae'r Fforwm yn cael ei gadeirio'n annibynnol ac mae aelodaeth wedi'i hehangu dros y flwyddyn. Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus wedi dechrau cyflwyno ei rhaglen o Adolygiadau Pwrpasol, gan fabwysiadu dull ymgynghorol sy'n seiliedig ar risg. Mae'r Uned hefyd wedi bod yn arwain y gwaith o weithredu Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru.

---

53 Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus | Rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus www.busnes.senedd.cymru/documents/s112194/PAC5-04-21%20P2%20-%20Llywodraeth%20Cymru.pdf

54 Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: y stori hyd yma: www.senedd.cymru/media/yjubmisr/cr-ld14223-w.pdf

55 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog www.busnes.senedd.cymru/documents/s114240/Llythyr%20gan%20y%20Dirprwy%20Weinidog%20ar%20Prif%20Chwip%20-%2024%20Mawrth%202021.pdf

Mae effaith y pandemig wedi ei gwneud yn ofynnol i'r Uned Cyrff Cyhoeddus fod yn arbennig o ofalus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gyrff cyhoeddus am ganllawiau oddi wrth Lywodraeth Cymru a hefyd, lle y bo'n briodol, oddi wrth Lywodraeth y DU. Er enghraifft, bu'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes Cyllid a Thrysorlys EM i sicrhau bod gan y Cyrff Cyhoeddus hynny yng Nghymru, yr effeithiwyd yn andwyol arnynt gan y gostyngiad mewn derbyniadau, ac felly refeniw, fynediad effeithiol at Gynllun Cadw Swyddi Llywodraeth y DU. Mae'r Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus hefyd wedi gallu hwyluso'r broses o gyfnewid profiadau am bynciau megis gweithio o bell.

## Trefniadau Mewnol Llywodraeth Cymru

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r Fframwaith Llywodraethiant a bwriedir iddi liniaru risg annerbyniol. Mae Cynllun Dirprwyo Llywodraeth Cymru (a elwid gynt y Fframwaith Rheoli Cyffredin) yn nodi'r dirprwyaethau safonol sy'n gweithredu ar draws pob rhan o Lywodraeth Cymru.


Cyhoeddwyd Cynllun Dirprwyo wedi'i ddiweddaru ym mis Hydref 2020 i adlewyrchu'r polisïau diweddaraf yn Llywodraeth Cymru. Ers y dyddiad hwn, mae'r Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol wedi diweddaru'r Atodlen ar sawl achlysur i adlewyrchu lle y mae mân newidiadau wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn, megis unigolion yn newid rolau. Mae unrhyw newidiadau'n cael eu cyfleu drwy Benaethiaid Cyllid a'r Gymuned Ymarfer Llywodraethiant Corfforaethol ledled Llywodraeth Cymru.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol yn cyhoeddi bwletinau hanner blwyddyn i'r holl staff yn tynnu sylw at rai o'r egwyddorion a'r prosesau a ddefnyddir i gael arferion llywodraethiant da ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru. Ym mis Hydref 2020, atgoffwyd y staff am yr angen i ddilyn egwyddorion gwerth am arian wrth ymdrin ag arian cyhoeddus a rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r staff ar ddiwygiadau i'r broses o roi cyngor Gweinidogol. Ym mis Ebrill 2021, rhoddwyd gwybod i'r staff am yr arferion gorau i'w dilyn wrth sefydlu corff cyhoeddus gan fod cyrff cyhoeddus yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hyrwyddo, darparu, ariannu a chraffu ar wasanaethau cyhoeddus.

Cefnogir y Fframwaith Llywodraethiant a'r system rheolaeth fewnol hefyd gan broses barhaus o reoli risg, sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru, i werthuso pa mor debygol ydyw y caiff y risgiau hynny eu gwireddu, ac wedyn i'w rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Datblygwyd y fframwaith i gydymffurfio â gofynion llywodraethiant da ac fe'i hategir gan *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* sy'n nodi'r egwyddorion ar gyfer ymdrin ag adnoddau yn sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Ym mis Ebrill 2021 dechreuodd y Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol baratoi *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* ar ei newydd wedd. Roedd y gwaith hwn i fod i ddechrau yn ystod 2020 ond cafodd ei ohirio oherwydd yr angen i ganolbwyntio ar flaenoriaethau COVID-19. Er ei bod yn ddyddiau cynnar o hyd, bwriedir cwblhau'r fersiwn ddiwygiedig yn ystod 2022. Mae cynllun cyfathrebu wedi'i ddatblygu i sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn cymryd rhan yn y broses ddiweddaru.

# Y Strwythur Llywodraethiant Corfforaethol



## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae'r fframwaith Dangosyddion Perfformiad Allweddol y rhoddais adroddiad arno yn fy Natganiad y llynedd bellach wedi symud ymlaen i'r cam lle mae'n cael ei ddefnyddio gan Fwrdd Llywodraeth Cymru fel sylfaen wybodaeth ar gyfer gwella perfformiad gweithredol Llywodraeth Cymru. Er nad yw'r ystod lawn o ddangosyddion wedi'u cwblhau eto, mae'r fframwaith yn fodd defnyddiol i'r Bwrdd gael trosolwg cyflawn ar draws yr holl briodoleddau a swyddogaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Mynegai Effeithiolrwydd Rhyngwladol ar gyfer Gwasanaethau Sifil. Roedd hwn yn brosiect uchelgeisiol i'w gynnal, hyd yn oed cyn inni gael wynebu gofynion yr argyfwng iechyd cyhoeddus, ac rwyf yn falch iawn o'i weld yn symud ymlaen i'r cam lle mae'n ychwanegu gwerth at waith Llywodraeth Cymru.

## Adolygiad Llywodraethiant

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddilyn yr egwyddorion a amlinellir yn y Cod Llywodraethiant Corfforaethol ar gyfer Adrannau Canolog cyn belled ag y bo'n ymarferol, hyd nes y bydd asesiad o God Llywodraethiant Corfforaethol ar gyfer Cymru yn cael ei gynnal. Mae rhai meysydd lle mae arferion Llywodraeth Cymru yn wahanol i'r hyn sydd yn y Cod (gan fod y Cod wedi'i gynllunio ar gyfer Adrannau yn hytrach na Gweinyddiaethau Datganoledig), gan gynnwys:

- nid yw Prif Weinidog Cymru yn mynychu nac yn cadeirio cyfarfodydd Bwrdd Llywodraeth Cymru;
- mae nifer yr aelodau gweithredol yn uwch na nifer y cyfarwyddwyr anweithredol.

## Gwrthdaro Buddiannau

Mae sicrhau bod unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei reoli'n effeithiol yn agwedd allweddol ar unrhyw fframwaith llywodraethiant a system rheolaeth fewnol effeithiol. O fewn Llywodraeth Cymru mae'r rheolaethau sydd ar waith i ddelio â hyn yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau corfforaethol sy'n cynnwys cofrestrau gwrthdaro buddiannau a ffurflen flynyddol gan yr holl staff perthnasol a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru (sy'n datgelu unrhyw aelodaeth o fyrddau ac aelodaeth o gyrff trydydd parti a ddelir gan swyddogion Llywodraeth Cymru).

Mae gan y Bwrdd a phob Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) Gofrestrau Gwrthdaro Buddiannau hefyd. Gofynnir hefyd am wrthdrawiadau buddiannau sy'n gysylltiedig ag eitemau penodol ar yr agenda ym mhob cyfarfod ac fe'u cofnodir yn ffurfiol. Mae'r gofynion a osodir ar aelodau ARAC hefyd wedi'u nodi mewn llythyrau penodi ac yn y Cylch Gorchwyl.

Y llynedd, adroddais fod adolygiad o weithdrefnau Gwrthdaro Buddiannau Llywodraeth Cymru gan y Gwasanaethau Archwilio Mewnol wedi nodi nifer o feysydd lle'r oedd angen cryfhau prosesau. Mae'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol wedi ailedrych ar yr archwiliad hwn yn ystod 2020-21 ac roeddent yn gallu rhoi sicrwydd rhesymol ynghylch i ba raddau y mae'r arsylwadau yn yr adroddiad gwreiddiol wedi'u

rhoi ar waith. Dywedasant eu bod yn ymwybodol o'r sefyllfa o ran gallu'r staff i roi'r arsylwadau ar waith mewn modd amserol oherwydd effaith COVID-19 ac ymateb Llywodraeth Cymru iddo, gan gynnwys adleoli staff i feysydd blaenoriaeth, ond eu bod yn fodlon bod cynnydd digonol wedi'i wneud, heblaw'r system TG newydd a awgrymwyd, i gyfiawnhau'r farn gyffredinol a roddwyd.

Ym mis Ebrill 2021, mewn ymateb i bryderon Gwasanaeth Sifil y DU am uwch-weision sifil sy'n dal penodiadau allanol nad ydynt yn gydnaws â Chod y Gwasanaeth Sifil, comisiynais adolygiad o'r polisi, y broses a'r gweithdrefnau gwrthdaro buddiannau. Mae'r adolygiad hwn yn mynd rhagddo ac er fy mod yn ffyddiog bod ein polisïau a'n gweithdrefnau presennol yn effeithiol, mae meysydd yr hoffwn eu cryfhau, gan gynnwys polisi cliriach a mwy effeithiol i'r holl staff, a gwell gweithgarwch i godi a chynnal ymwybyddiaeth bellach o'r safonau a ddisgwylir gan weision sifil o ran buddiannau allanol. Mae'r adolygiad polisi llawnach a threfn gadw cofnodion gadarn bellach ar y gweill.

## Y Bwrdd

Fel Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu, fe'm cefnogir gan Fwrdd Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys 16 Aelod, yn Gyfarwyddwyr Anweithredol a Chyfarwyddwyr Gweithredol. Mae cynrychiolwyr Ochr yr Undebau Llafur ac aelodau'r Bwrdd Cysgodol hefyd yn mynychu fel sylwedyddion sy'n cyfranogi. Mae'r Bwrdd yn fy nghynghori wrth imi wneud penderfyniadau strategol ynghylch sut y mae Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru'n cael ei ddatblygu i gefnogi'r Prif Weinidog a'r Gweinidogion ac yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r amcanion a'r strategaethau a nodir yn Rhaglen Lywodraethu'r Gweinidogion sef "Symud Cymru Ymlaen" a'r blaenoriaethau a nodir yn "Ffyniant i Bawb'[56]. Roeddwn yn cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd ac yn cynnal cyfarfod dwyochrog yn rheolaidd ag Aelodau'r Bwrdd. Rwyf wedi ailsefydlu cyfarfodydd yn ddiweddar â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol gyda'i gilydd bob chwe wythnos a oedd wedi dod i ben yn ystod y pandemig. Rwyf wedi cytuno â'r Prif Weinidog y bydd yn ymgysylltu â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol o leiaf unwaith y flwyddyn. Er hynny, cafodd hyn ei ohirio hefyd yn ystod 2020-21 oherwydd y pandemig.

Yn ystod y flwyddyn ystyriodd y Bwrdd y materion canlynol fel rhan o'i agenda:

- COVID-19
- Y cyfnod pontio o'r UE
- Rheoli'r Gyllideb a Phwysau Ariannol
- Diweddariadau'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol
- Blaenoriaethau ac Adnoddau Allweddol
- Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Cyfrifon Blynyddol
- Y Gwasanaeth Iechyd

56 Mae hon wedi'i disodli gan Raglen Lywodraethu newydd yn dilyn Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021.

- Dysgu a Datblygu
- Diweddariad ar Gyfathrebu
- Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru
- Risgiau Iechyd a Diogelwch
- Strategaethau'r Gweithlu, y Gweithle a Materion Digidol
- Canlyniadau'r Arolwg Pobl
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

## Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd

| Yr aelodaeth bresennol | Presenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| Shan Morgan, yr Ysgrifennydd Parhaol | 7/8 |
| Ellen Donovan, Cyfarwyddwr Anweithredol | 8/8 |
| Jeff Farrar, Cyfarwyddwr Anweithredol | 8/8 |
| Gareth Lynn, Cyfarwyddwr Anweithredol | 8/8 |
| Meena Upadhyaya, Cyfarwyddwr Anweithredol | 7/7 |
| Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol | 8/8 |
| Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus | 7/8 |
| Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/ Prif Weithredwr GIG Cymru | 8/8 |
| Des Clifford, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Swyddfa'r Prif Weinidog | 7/8 |
| Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cydgysylltu Argyfwng COVID-19 | 3/4 |
| David Richards, Cyfarwyddwr, Llywodraethiant a Moeseg | 8/8 |
| Peter Kennedy, Cyfarwyddwr, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Corfforaethol | 8/8 |
| Gawain Evans, Cyfarwyddwr, Cyllid | 8/8 |
| Natalie Pearson, Pennaeth Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu | 8/8 |
| Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru | 8/8 |
| Helen Lentle, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol | 7/8 |

## Hunanasesiad y Bwrdd o Berfformiad

Cynhaliwyd yr adolygiad blynyddol o'r Bwrdd ym mis Hydref 2020 trwy gyfrwng ymarfer hunanasesu. At ei gilydd, roedd y canfyddiadau'n gadarnhaol, er y nodwyd rhai meysydd i'w datblygu. Dangosodd yr ymarfer fod gan y Bwrdd gryfderau penodol o ran meithrin awyrgylch cynhwysol a chydweithredol, gyda'r berthynas rhwng yr holl aelodau yn cael ei hystyried yn gefnogol ac yn broffesiynol. Roedd teimlad hefyd fod ei ddull o graffu a herio yn effeithiol.

Nodwyd ymrwymiad y Bwrdd i gydraddoldeb, amrywiaeth ac ymgysylltu â staff fel cryfder arall, gyda'r aelodaeth bellach yn fwy amrywiol nag y bu mewn blynyddoedd blaenorol, er yr awgrymwyd y gallai fod mwy o gynrychiolaeth ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig. Yn gyffredinol, roedd y Bwrdd o'r farn bod ganddo'r cymysgedd cywir o sgiliau a phrofiad, ond nododd fod mynediad at Ddysgu a Datblygu wedi dod yn fwy heriol yn ystod y pandemig ac y dylai cynnig gwell fod yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen. Bernid yn gyffredinol fod cylch gwaith y Bwrdd a'r trefniadau llywodraethiant yn glir. Gofynnwyd am rywfaint o eglurhad ar y berthynas rhwng y trefniadau llywodraethiant dros dro a oedd wedi dod i'r amlwg oherwydd COVID-19 a'r cyfnod pontio o'r UE a'r trefniadau presennol.

Awgrymwyd bod trefniadau llywodraethiant ac agenda'r Bwrdd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn adlewyrchu anghenion y sefydliad. Yn gyffredinol, teimlai'r Bwrdd ei fod wedi addasu'n dda i gyfarfodydd o bell a thechnoleg newydd, gan gyfrannu'n effeithiol at ymdrin â COVID-19, er bod barn nad oedd cyfarfodydd rhithiol bob amser yn ffafriol i drafodaethau a rhwydweithio manwl. Bydd camau'n cael eu cymryd yng ngoleuni'r adborth a gafwyd o'r adolygiad.

## Is-bwyllgorau'r Bwrdd

Roeddwn hefyd yn cael fy nghynghori gan ddau Is-bwyllgor y Bwrdd a arweinir gan Aelodau Anweithredol (y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol).

### Is-bwyllgor y Bwrdd: y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Mae Pwyllgor Archwilio a Risg Llywodraeth Cymru'n fy nghefnogi ar faterion ariannol. Roedd y Pwyllgor hwn yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol y Bwrdd. Roedd ARACs hefyd yn gweithredu ar lefel Grwpiau yn ystod 2020-21 gyda'u tri Chadeirydd yn ffurfio gweddill aelodaeth ARAC Llywodraeth Cymru. Roedd ARAC yn fy nghynghori drwy gydol y flwyddyn, yn rhinwedd fy swydd fel Prif Swyddog Cyfrifyddu ar weithrediad rheoli risg a gallu'r sefydliad i reoli risg. Oherwydd COVID-19 cafodd sesiynau ARACs y Grwpiau ac ARAC Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2020 eu canslo.

Yn ogystal, yn ystod y cyfnod hwn, cafodd aelodau ARAC Llywodraeth Cymru ac ARACs y Grwpiau eu briffio gan Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol mewn perthynas â'n hymateb i COVID-19 a'r cymorth a'r arweiniad ychwanegol oedd yn cael eu darparu ar draws Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd cyfarfodydd arbennig o ARAC Llywodraeth Cymru ganol mis Mai 2020 a 2021 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ARAC am ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19. Parhaodd y Prif ARAC ac ARACs y Grwpiau â'u rhaglen arferol o gyfarfodydd o fis Mehefin 2020.

## Is-bwyllgor y Bwrdd: Cydnabyddiaeth Ariannol

Ail is-bwyllgor y Bwrdd yw Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yr Uwch Wasanaeth Sifil sy'n gyfrifol am dâl ac amodau'r Uwch Wasanaeth Sifil (SCS), cynllunio ar gyfer olyniaeth a recriwtio a holl achosion personél SCS. Mae Cyfarwyddwr Anweithredol yn cadeirio'r Pwyllgor. Cyfarfu'r Pwyllgor saith gwaith yn ystod y flwyddyn a mynychais yr holl gyfarfodydd. Nid yw'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn pennu fy nghyflog i gan mai Swyddfa Cabinet y DU sy'n delio â hynny.

## Y Pwyllgor Gweithredol (ExCo)

Drwy gydol 2020-21, roeddwn yn cael fy nghefnogi gan dîm arwain o Gyfarwyddwyr Cyffredinol, pob un yn arwain Grŵp yn Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am swyddogaethau corfforaethol allweddol, sef Llywodraethiant a Moeseg, Cyllid, Trysorlys Cymru, Adnoddau Dynol/Gwasanaethau Corfforaethol, materion Digidol, Data a Thechnoleg, a Gwasanaethau Cyfreithiol. Mynychodd cynrychiolwyr Ochr yr Undebau Llafur y cyfarfodydd hefyd fel sylwedyddion sy'n cyfranogi. Mae ExCo yn cyfarfod bob pythefnos.

Mae'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol ar y Pwyllgor Gweithredol yn cael eu dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol mewn perthynas â'r cyllidebau sydd wedi'u dirprwyo iddynt er mwyn rhoi cyfrifoldeb ac atebolrwydd personol iddynt dros ddefnyddio arian cyhoeddus yn briodol a sicrhau gwerth am arian ar fy rhan innau. Mae rhai Cyfarwyddwyr penodol hefyd yn cael eu dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i egluro ymhellach drefniadau llywodraethiant corfforaethol ac atebolrwydd, a hynny ar gyfer defnyddio cronfeydd cyhoeddus ac wrth ateb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae'r dynodiadau hyn yn achos Cyfarwyddwyr yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol.

## ExCovid

Rhan allweddol o ymateb y sefydliad i argyfwng COVID-19 fu creu Pwyllgor ExCovid – ceir manylion llawn y pwyllgor hwn ar dudalen 103.

## Y Pwyllgor Gweithredol: Brexit (BrexCo)/Bwrdd Sicrwydd ar ôl Ymadael â'r UE

Rwyf yn cadeirio'r Bwrdd Sicrwydd ar ôl Ymadael â'r UE, a sefydlwyd ym mis Mehefin 2020 fel is-bwyllgor o ExCo, gan ddisodli'r trefniadau llywodraethu mewnol blaenorol o ran y Trefniadau Pontio Ewropeaidd. Ers hynny, mae wedi cyfarfod yn fisol i oruchwylio'r gwaith sy'n ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE a diwedd y Cyfnod Pontio. Mae Bwrdd Gweithredu wedi cefnogi'r Bwrdd Sicrwydd. Cyfarfu'r Bwrdd yn

rheolaidd mewn gwahanol fformatau yn ystod 2020-21, gan gynnwys yn wythnosol yn y cyfnod cyn ac yn syth ar ôl 31 Rhagfyr 2020 pan adawodd y DU y Cyfnod Pontio, gan ganolbwyntio ar ddatblygu a chyflawni camau gweithredu i baratoi ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio a materion cysylltiedig, neu ymateb iddynt. Cefnogwyd y Bwrdd Sicrwydd hefyd gan Fwrdd Negodi, a gyfarfu'n rheolaidd yn ystod 2020-21 i ddatblygu a rhoi argymhellion i Weinidogion ar safbwyntiau negodi Llywodraeth Cymru yn ymwneud â pherthynas fasnachu'r DU â'r UE a gwledydd yng ngweddill y byd yn y dyfodol. Mae aelodau'r Bwrdd Sicrwydd yn cynnwys yr holl Gyfarwyddwyr Cyffredinol, aelod Anweithredol o'r Bwrdd a Chynrychiolydd o'r Undebau Llafur.

## Is-bwyllgor ExCo: Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Mae'r Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn is-bwyllgor parhaol sy'n cynothwyo ExCo â'r gwaith o redeg y sefydliad yn fewnol ar lefel weithredol o ran rheoli adnoddau dynol, diogelwch TG, rheoli data, cyllid ac adnoddau, gan ganiatáu i ExCo gadw ffocws strategol ar draws y sefydliad. Mae aelodaeth yr Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn cynnwys un o'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ar Fwrdd Llywodraeth Cymru.

Roedd y Pwyllgor hwn gynt yn cynnwys dau is-bwyllgor ExCo ar wahân; sef Cyllid (FinCo) a Phobl a Gwasanaethau Corfforaethol. Ym mis Hydref 2020 cytunais y dylid cyfuno'r pwyllgorau hyn oherwydd gorgyffwrdd pobl allweddol yn y ddau gyfarfod, natur gydategol y gwaith a chan ei bod yn cynnig gwell defnydd o amser, yn enwedig yn wyneb pwysau COVID-19.  Mae'r pwyllgor hwn yn cyfarfod unwaith bob tair wythnos.

## Is-bwyllgor ExCo: Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol

Mae Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaeth yn cydgysylltu ac yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni Rhaglen Ddeddfwriaeth y Llywodraeth ar lefel swyddogion. Mae'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Moeseg ac mae'n cyfarfod bob yn ail fis.

## Sesiynau Her y Cyfarwyddwyr Anweithredol

Er mwyn rhoi cymorth ychwanegol, sefydlwyd sesiynau her sy'n cael eu cadeirio gan Gyfarwyddwyr Anweithredol i roi sicrwydd ar gyflawni meysydd gwaith allweddol a ddewisir gan Gyfarwyddwyr Cyffredinol a minnau, ac sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau'r Prif Weinidog.

Bwriad y sesiynau her yw cynnig cyfleoedd ar gyfer craffu a thrafod adeiladol mewn amgylchedd diogel. Mae'r trafodaethau'n defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd ar draws y sefydliad i nodi ble y gellir cryfhau prosesau, a lle y gellir cyflwyno atebion ac opsiynau i helpu i gefnogi cyflawni'r gwaith. Mae un cyfarfod wedi'i gynnal hyd yn hyn, ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol. Gan i'r sesiynau her gael eu sefydlu ychydig cyn pandemig COVID-19, cawsant eu rhewi wedyn. Rwyf yn bwriadu ailgychwyn y sesiynau hyn yn y dyfodol agos er mwyn i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol barhau i gynnig y cymorth ychwanegol.

## Chwythu'r Chwiban

Cyfarfu Panel Chwythu'r Chwiban yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i ystyried achosion chwythu'r chwiban, gan sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn brydlon wedyn ond gan gadw cyfrinachedd lle y bo modd. Mae'r polisi ar Chwythu'r Chwiban a Chod y Gwasanaeth Sifil yn esbonio beth y dylai staff ei wneud os ydynt yn amau cydweithiwr o gamwedd. Cyhoeddir gwybodaeth ar y Fewnrwyd hefyd.

Rwyf yn hyderus bod ein trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban yn dryloyw, yn gadarn ac yn cydymffurfio ag arferion da.

Rhoddwyd gwybod i'r Panel am 11 o achosion yn ystod y flwyddyn, sef:

| Achosion o Chwythu'r Chwiban | 2020-21 | 2019-20 | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|
| Heb eu cadarnhau | 4 | 3 | 4 | 2 |
| Wedi'u datrys yn fewnol (materion yn ymwneud â staff) | 1 | 6 | - | 1 |
| Ddim yn fater i Lywodraeth Cymru | - | - | - | - |
| Cyngor wedi'i roi i'r chwythwr chwiban | 1 | 2 | - | 1 |
| Yn destun ymchwiliad o hyd | 4 | - | 3 | 1 |
| Wedi'u cadarnhau a chamau wedi'u cymryd | 1 | | | |
| **Cyfanswm** | **11** | **11** | **7** | **5** |

Yn ogystal â'r Panel Chwythu'r Chwiban sy'n delio ag achosion mewnol, mae'r Panel Sicrwydd Allanol yn darparu cyngor i Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol a swyddogion polisi ar ymateb i bryderon a godir mewn perthynas â chronfeydd Llywodraeth Cymru a ddyfernir i gyrff allanol. Mae llawer, ond nid pob un, o'r achosion hyn yn honiadau o dwyll, ac nid oes angen dod â'r holl achosion y mae'r Tîm Gwrth-dwyll yn delio â hwy gerbron y Panel (felly mae gwahaniaeth yn nifer yr achosion y mae'r Panel a'r Tîm Gwrth-dwyll yn delio â hwy). Mae'r Panel yn darparu cyngor proffesiynol, yn ceisio sicrhau triniaeth gyson ar draws Llywodraeth Cymru, ac yn gallu nodi gwersi a ddysgwyd ac arferion gorau y gellir eu rhannu â swyddogion polisi.

Rhoddwyd gwybod i'r Panel am 10 o achosion newydd yn ystod y flwyddyn a rhoddwyd gwybod i'r Tîm Gwrth-dwyll am 76 o achosion. Mae rhai achosion a ystyrir gan y Tîm Gwrth-dwyll hefyd yn cael eu hystyried gan y Panel. Gall yr achosion hyn gael eu cau gan y Tîm Gwrth-dwyll ond maent yn dal ar agor gyda'r Panel er mwyn ymchwilio i faterion llywodraethiant a chydymffurfio ehangach o ran yr achos/y sefydliad.

Datrysodd y Panel 12 o achosion yn ystod y flwyddyn – 6 ohonynt yn parhau o'r flwyddyn flaenorol. Cafodd 5 achos eu dwyn ymlaen i 2021-22, gan gynnwys 1 achos cymhleth hirsefydlog o 2019-20.

Ymchwiliodd y Tîm Gwrth-dwyll i 41 o achosion ac nid oedd angen i'r Panel eu hystyried ymhellach, naill ai am iddynt gael eu hatgyfeirio at adrannau neu asiantaethau eraill i weithredu arnynt, neu am i dwyll gael ei brofi a chamau'n cael eu cymryd heb yr angen am ystyriaeth y Panel, neu oherwydd y nodwyd yn gynnar

nad oedd achos i'w ateb. Mae 39 o'r achosion newydd hyn yn dal ar agor, ynghyd â dau o'r blynyddoedd blaenorol a gafodd eu dwyn ymlaen.

Y rheswm dros y cynnydd sylweddol yn yr achosion o wrth-dwyll a gafodd eu hatgyfeirio oedd darparu grantiau cymorth COVID-19. Daeth atgyfeiriadau sy'n gysylltiedig â Covid o wahanol ffynonellau:

- Llinellau adrodd am dwyll Llywodraeth Cymru (ffôn ac e-bost);
- Tîm Gwrth-dwyll Swyddfa Gabinet y DU;
- Adroddiadau Crimestoppers;
- Awdurdodau Lleol a Heddluoedd Cymru;
- Timau Llywodraeth Cymru sy'n darparu cyllid.

Gallai'r Tîm Gwrth-dwyll ymchwilio i'r atgyfeiriadau twyll yn gymharol gyflym a'u datrys. Cafodd y mwyafrif o atgyfeiriadau eu gwneud gyda bwriad da, er y cafwyd bod lleiafrif yn flinderus. Mewn rhai achosion nid oedd y dystiolaeth yn ddigonol i fodloni'r safon o ran tystiolaeth droseddol er mwyn gallu bwrw ymlaen. Gellid priodoli achosion eraill i gamddealltwriaeth ddilys neu wall ar ran y ceisydd. Mewn ychydig o achosion ymddengys fod ceiswyr wedi cyflwyno ceisiadau tybiannol a dibynnu ar y llywodraeth i beidio â'u caniatáu gan nad ydynt yn bodloni'r meini prawf. Roedd achosion hefyd lle'r oedd twyll yn cael ei amau ond lle y byddai cost erlyniad troseddol yn drech na'r swm o dan sylw a lle'r oedd adfer sifil yn ddewis gwell. Roedd cyfran lai o atgyfeiriadau'n gofyn am ymchwiliad mwy manwl a thrylwyr.

| Gwrth-dwyll | 2020-21 | Achosion y Panel Sicrwydd Allanol | 2020-21 |
|---|---|---|---|
| Wedi'u dwyn ymlaen o 2019-20[57] | 6 | Wedi'u dwyn ymlaen o 2019-20 | 7 |
| Achosion newydd yn codi | 76 | Achosion newydd yn codi | 10 |
| Achosion a gafodd eu datrys | 41 | Achosion a gafodd eu datrys | 12 |
| Achosion yn parhau | 41 | Achosion yn parhau | 5 |
| - Achos llys yn mynd rhagddo | 0 | - Achos llys yn mynd rhagddo | 0 |
| - Yn destun ymchwiliad gan yr Heddlu | 1 | - Yn destun ymchwiliad gan yr Heddlu | 0 |
| - O dan waith monitro ad-dalu | 0 | - O dan waith monitro ad-dalu | 0 |
| - Yn destun adolygiad gan asiantaeth dwyll annibynnol | 4 | - Yn destun adolygiad gan asiantaeth dwyll annibynnol | 0 |
| Cyfanswm ymchwiliadau'n mynd rhagddynt | 36 | Cyfanswm ymchwiliadau'n mynd rhagddynt | 5 |
| **Cyfanswm achosion heb eu datrys** | **41** | **Cyfanswm achosion heb eu datrys** | **5** |

57 Mae'n bosibl fod rhai achosion Gwrth-dwyll ac achosion y Panel Sicrwydd Allanol sydd wedi'u dwyn ymlaen o'r flwyddyn flaenorol wedi'u dyblygu yn y data oherwydd y rhesymau a ddisgrifir uchod.

Cafodd pob achos ei adolygu ar gyfer gwersi a ddysgwyd, ac mae'r rhain wedi'u rhannu â thimau priodol i weithredu arnynt, gan gynnwys trwy'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Caffael, a'r timau Atal Twyll a Gweithrediadau Grŵp, y cynrychiolir pob un ohonynt ar y Panel Sicrwydd Allanol.

## Trefniadau Sicrwydd

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant gan gynnwys y system rheolaeth fewnol, yr wyf yn cymryd sicrwydd gan amrywiaeth eang o weithgareddau ar ei gyfer. Yn hyn o beth, fe'm hysbysir gan waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r swyddogion hynny yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Rwyf yn cymryd sicrwydd o'r broses o gytuno ar gynlluniau gweithredu a'u cyflawni gan reolwyr mewn ymateb i faterion a nodir gan yr Archwilydd Allanol (Archwilydd Cyffredinol Cymru) yn ei adroddiadau ac mewn adroddiadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau Craffu eraill y Senedd sy'n cynnal eu hymchwiliadau eu hunain. Mae ARACs y Grwpiau ac ARAC Llywodraeth Cymru yn monitro hynt y gwaith o weithredu unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r adroddiadau hyn.

Rwyf wedi cael fy nghynghori hefyd ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru yn cwmpasu meysydd allweddol ar fywyd cyhoeddus, a hynny o dan arweiniad y Prif Weinidog a'r Cabinet, a'r Gweinidogion eraill sydd wedi'u penodi ganddo. Mae ystod eang o reolaethau mewnol yn bodoli i ddarparu ar gyfer stiwardiaeth gadarn ar adnoddau.

### Archwilio Mewnol

Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru yn darparu rhaglen archwilio a chynghori sy'n seiliedig ar risg i roi sicrwydd imi ar fframwaith llywodraethiant, rheoli a rheoli risg Llywodraeth Cymru, gan ddarparu adroddiadau aseiniadau i mi a'r tîm(au) rheoli perthnasol. Cyflwynodd y Gwasanaeth adroddiadau rheolaidd hefyd ar gynnydd a chanlyniad ei raglen waith i'r ARACs, ar lefel Grwpiau ac ar lefel Llywodraeth Cymru. Cefais gyfarfodydd â'r Pennaeth Archwilio Mewnol o bryd i'w gilydd drwy gydol y flwyddyn i drafod materion archwilio a sicrwydd.

Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydgysylltu ei waith â gwaith Archwilio Cymru. Mae protocol cydweithio sefydledig yn sail i'r dull gweithredu a ddilynir ac mae cyfarfodydd cyswllt yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd i i rannu gwybodaeth. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy swyddogaeth annibynnol a gwrthrychol hyn o sicrwydd yn rhoi cryn gysur imi o ran sicrhau gwerth am arian a dibynadwyedd y cyfrifon ariannol, yn achos Archwilio Cymru, ac o ran gweithredu'r fframwaith rheoli risg, llywodraethiant a rheolaeth, yn achos y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

Yn ei Hadroddiad Barn am Sicrwydd Blynyddol, rhoes y Pennaeth Archwilio Mewnol sicrwydd “rhesymol” ar weithrediad y fframwaith llywodraethiant, rheolaeth a rheoli risg yn Llywodraeth Cymru. Er bod trefniadau’n cael eu cynllunio a’u cymhwyso’n effeithiol, mae sicrwydd rhesymol yn golygu bod ar rai materion angen sylw rheolwyr o ran rheolaeth neu gydymffurfio, ac maent yn agored i risg cymedrol nes cael eu datrys. Cafodd barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ei llywio gan yr aseiniadau archwilio a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, y rhoddir barn sicrwydd ar eu cyfer, a chan adolygiadau cynghori, na ddarperir casgliad sicrwydd archwilio traddodiadol ar eu cyfer. Cynhyrchodd y rhaglen o waith archwilio a gwblhawyd yn ystod 2020-21, sy’n gyrru’r farn sicrwydd gyffredinol a roddir, y casgliadau canlynol ar gyfer yr adroddiadau archwilio a gyhoeddwyd:

| Barn Sicrwydd | 2020-21 | 2019-20 | 2018-19 | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | 12 | 19 | 35 | 16 | 14 |
| Sicrwydd Rhesymol | 22 | 15 | 30 | 38 | 29 |
| Sicrwydd Cyfyngedig | 3 | 4 | 9 | 7 | 9 |
| Dim Sicrwydd | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Adolygiadau Cynghori | 0 | 9 | 3 | 2 | 0 |

Cyhoeddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol dri adroddiad sicrwydd cyfyngedig yn ystod y flwyddyn. Roedd y math o wendidau a nodwyd a arweiniodd at ddarparu barn sicrwydd gyfyngedig yn cynnwys:

a. Dim digon o gynllunio i gyrraedd targedau cyfreithiol.

b. Diffyg tystiolaeth i seilio penderfyniadau polisi arni.

c. Arferion llywodraethiant anghyson ar draws sectorau.

d. Cadw gwybodaeth y tu hwnt i ofynion cyfreithiol.

e. Dogfennau canllaw heb eu diweddaru.

Mae’r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon â’r ymateb cadarnhaol gan y rheolwyr i’r arsylwadau a godwyd mewn archwiliadau yr adroddwyd arnynt yn ystod y flwyddyn. Lle y nodwyd gwendidau mewn adroddiadau archwilio, cytunwyd ar gynlluniau gweithredu rheoli i wella’r fframwaith rheolaeth a mynd i’r afael â’r mater(ion) a nodwyd. Mae’r camau rheoli y cytunwyd arnynt yn dilyn archwiliad mewnol wedi’u monitro gan Dimau Gweithrediadau Grŵp er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu’n briodol ac yn amserol ac mae’r Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiadau pellach ei hun o’r meysydd hynny lle y rhoddwyd barn sicrwydd “gyfyngedig” neu “ddim”.

Ar gyfer 2020-21, cadwodd y Pennaeth Archwilio Mewnol y dull cynllunio “ystwyth” yr oedd wedi’i fabwysiadu yn 2019-20 fel y dull mwyaf hyblyg sy’n addas ar gyfer ymateb i effeithiau pandemig COVID-19 ar y sefydliad. Sylweddolodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn gyflym y byddai gallu’r sefydliad i ddarparu ar gyfer archwiliadau yn ystod dyddiau cynnar y pandemig yn gyfyngedig iawn ac felly bu’n canolbwyntio i ddechrau ar gwblhau archwiliadau sydd ar y gweill yn gyflym, yn seiliedig ar waith a oedd wedi’i wneud ar y pryd yn unig, yn hytrach na chwblhau cwmpas llawn y gwaith a gynlluniwyd yn wreiddiol.

Ataliwyd gwaith cynllunio ar gyfer Rhaglen Archwilio newydd 2020-21 a newidiodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei ddull o weithio o “ddarparu sicrwydd” i “gynghori ar argyfwng”, gan weithio gyda swyddogion i ddarparu cyngor a chanllawiau cyson ar faterion llywodraethiant, risg a rheolaeth. Cafodd tîm craidd ei gadw o fewn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ond rhyddhawyd yr holl archwilwyr mewnol eraill i gynorthwyo rhannau eraill o’r sefydliad â’u hymateb i COVID-19. Parhaodd y sefyllfa hon tan fis Awst 2020 pan gafodd Archwilwyr Mewnol eu galw’n ôl i’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i gychwyn rhaglen o waith archwilio a gynlluniwyd i adlewyrchu’r newid ym mhroffil risg Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio’n benodol ar ei hymyriadau COVID-19 allweddol, ond gyda rhywfaint o amser hefyd wedi’i neilltuo ar gyfer meysydd eraill o weithgarwch parhaus y Llywodraeth.

Newidiodd y risgiau allweddol y dylid mynd i’r afael â hwy yn ystod y flwyddyn yn sylweddol a COVID-19 oedd y prif ffocws. Mae’r gwaith archwilio a wneir ar lefel strategol ar lywodraethiant a rheoli risg y gwahanol ymyriadau, ym marn y Pennaeth Archwilio Mewnol, yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb mewn ffordd briodol a bod trefniadau llywodraethiant priodol ar waith i helpu i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu.

O ran y gwaith nad yw’n waith COVID-19, er gwaethaf y tarfu ar weithrediadau Llywodraeth Cymru a’r hyblygrwydd yr oedd ei angen i ryddhau staff i fynd i’r afael ag ymatebion â blaenoriaeth COVID-19, mae’r casgliadau yn awgrymu na fu cyfaddawd o ran rheoli risg, llywodraethiant a rheoli gweithgareddau ‘arferol’ yn effeithiol.

Mae ystod eang o ymyriadau wedi’u cyflwyno i ymateb i bandemig COVID-19. Cyflwynwyd llawer ohonynt ar fyrder, wedi’u hariannu drwy Gronfa Wrth Gefn COVID-19. Roedd yr ymyriadau’n amrywio’n sylweddol, o gynlluniau grant a gweithredu polisi newydd i aildrefnu’r cyllid presennol. Er mwyn sicrhau bod digon o amlygrwydd i’r rheolaethau sydd ar waith ar gyfer yr ymyriadau hyn, datblygodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Fap Sicrwydd COVID-19, yn unol â Fframwaith Sicrwydd Llywodraeth Cymru, a gaiff ei ddiweddaru’n barhaus wrth i ymyriadau pellach gael eu sefydlu neu wrth i newidiadau gael eu gwneud i reolaethau, trefniadau llywodraethiant a rheolaeth ariannol sy’n bodoli eisoes. Mae Map Sicrwydd COVID-19 yn dilyn y model ‘3 llinell amddiffyn’ ac mae wedi’i boblogi â manylion rheolaethau rheoli, trefniadau goruchwylio a sicrwydd annibynnol a gwrthrychol sydd ar gael ar gyfer pob ymyriad COVID-19.

Addasodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei fethodoleg archwilio ac addasu ei brotocolau adrodd er mwyn sicrhau sicrwydd mewn modd amserol, effeithiol ac effeithlon. Fel hyn, er bod y rhaglen o waith archwilio ar gyfer 2020-21 yn llawer llai nag y byddai wedi bod fel arall, rwyf yn fodlon, yn seiliedig ar gyngor y Pennaeth Archwilio Mewnol a’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, fod corff digonol o waith wedi’i gwblhau i roi barn sicrwydd am y flwyddyn am weithrediadau Llywodraeth Cymru.

Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Mae’r Safonau hyn yn mynnu bod y Gwasanaeth yn destun Asesiad Ansawdd Allanol (EQA) bob pum mlynedd, ac roedd un i fod i’w gynnal yn achos y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn 2021 Mae’r EQA diweddaraf wedi’i gwblhau ac mae’r Adolygydd a benodwyd wedi dod i’r casgliad bod y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn dîm archwilio mewnol sy’n perfformio’n dda ac sy’n cael ei reoli’n dda, gan ddarparu gwasanaethau proffesiynol o ansawdd uchel i Lywodraeth Cymru. Er bod rhai meysydd o gydymffurfio’n rhannol â’r Safonau wedi’u nodi, nid yw hyn yn atal barn gyffredinol o Gydymffurfiaeth Cyffredinol rhag cael ei dyfarnu.

## Y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd

Ym mis Chwefror 2021, cyflwynodd y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT) ei Adroddiad Rheoli Blynyddol a'i Farn i'r Comisiwn gyda'i farn sicrwydd ar Gronfeydd Strwythurol a hawliwyd gan Gymru am y cyfnod 1 Gorffennaf 2019 i 30 Mehefin 2020. Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar waith a wnaed gan EFAT yn unol â'i strategaeth archwilio ar gyfer y Rhaglenni. Rwyf yn falch bod EFAT wedi llwyddo i ddarparu barn ddiamod i'r Comisiwn mewn perthynas â rhaglenni ESF ac ERDF. Rhoes EFAT farn ddiamod hefyd mewn perthynas â Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Iwerddon/Cymru am yr un cyfnod. Derbyniwyd yr Adroddiad Rheoli Blynyddol a'r barnau yn ffurfiol gan y Comisiwn ar 30 Ebrill 2021 (Iwerddon-Cymru) a 4 Mai 2021 (ESF/ERDF).

## Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Ar sail ei waith drwy gydol 2020-21, mae'r Pwyllgor yn gallu rhoi sicrwydd rhesymol cyffredinol ar ddigonolrwydd y trefniadau archwilio ar gyfer Llywodraeth Cymru a hefyd ar y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol sydd wedi'u sefydlu. Mae hynny'n seiliedig ar y sicrwydd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor a'r wybodaeth a roddwyd iddo gan swyddogion.

## Holiaduron Rheolaeth Fewnol a Datganiadau Sicrwydd Blynyddol

Fe'i gwneuthum yn ofynnol i'r holl Gyfarwyddwyr gwblhau Holiadur Rheolaeth Fewnol (ICQ) ac, ar sail yr wybodaeth hon, i Gyfarwyddwyr Cyffredinol baratoi eu Datganiad Sicrwydd personol er mwyn rhoi i mi eu hasesiad o effeithiolrwydd fframweithiau rheolaeth fewnol eu Grŵp.

Trwy'r Holiadur, mae'r Cyfarwyddwyr wedi rhoi imi eu hunanasesiadau o reolaeth fewnol, llywodraethiant a rheoli risg a'u hystyriaethau ynghylch pa mor effeithiol y mae rheolaethau wedi gweithredu drwy gydol y flwyddyn ariannol. Mae'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol wedi rhoi trosolwg o lywodraethiant, rheolaeth a rheoli risg o fewn eu priod Grwpiau.

Ar ôl i'r ffurflenni ICQ gael eu cyflwyno, cynhyrchir "map gwres" a'i ystyried yn yr Archwiliad Sicrwydd blynyddol. Diben Archwiliad Sicrwydd ICQ yw ystyried y darlun cyffredinol o'r sicrwydd a gafwyd mewn ICQ. Mae'r sesiwn yn darparu sesiwn her i'r Ysgrifennydd Parhaol, y Cyfarwyddwyr Cyffredinol ac arweinwyr swyddogaethol, megis y Pennaeth Caffael a'r Pennaeth Diogelwch TG, ystyried y sgoriau a roddwyd a sicrhau bod sgorio wedi digwydd yn gyson.

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r sgoriau naill ai yr un fath neu fymryn i lawr ar lefelau hyder Cyfarwyddwyr Cyffredinol 2019-20. Yn dilyn yr archwiliad ac o ganlyniad i'r broses herio a chymedroli, gwnaed 16 o newidiadau i ICQs ym meysydd COVID-19, cynllunio busnes, adrodd am dwyll, materion staffio a rheoli gwybodaeth.

Mae'r map gwres ICQ hefyd yn cynnwys naratif i gydnabod nad yw ICQ ond yn un agwedd ar amgylchedd rheoli cyffredinol Llywodraeth Cymru a bod rhaid ystyried bod pob elfen yn adlewyrchiad cywir a chymesur o'r amgylchedd rheoli sydd wedi bod yn gweithredu yn ystod y pandemig. Ar ôl asesu'r rheolaethau

ychwanegol sydd ar waith, gan gynnwys Map Sicrwydd COVID-19, er bod 2020-21 wedi creu amgylchedd gweithredu hynod o heriol i Lywodraeth Cymru, daeth y naratif i'r casgliad fod y dystiolaeth a aseswyd yn dangos bod y cynnydd cyffredinol mewn risg wedi'i gydbwyso yn sgil cyflwyno mesurau rheoli a llywodraethiant ychwanegol i reoli'r risgiau hynny'n briodol.

## Modelau Dadansoddi Allweddol o ran Busnes

Mae ymarferiad sicrwydd blynyddol wedi'i gynnal gan Benaethiaid y Proffesiwn Dadansoddi yn Llywodraeth Cymru i asesu modelau dadansoddi sy'n cael eu defnyddio a rhoi sicrwydd imi am y modelau hynny.

Ar draws Llywodraeth Cymru, bu cynnydd mewn cysylltiad sefydliadol â risg modelu dadansoddol eleni. Datblygwyd modelau newydd yn gyflym i lywio rhai o'r penderfyniadau mwyaf sylweddol ac uchel eu proffil yn ystod yr ymateb i'r pandemig. Yn y blynyddoedd blaenorol, nodwyd bod ergydion economaidd yn risg i fodelu ac eleni mae'r pandemig a'r cyfnod pontio o'r UE wedi cyfrannu ansicrwydd sylweddol, gan godi lefel risg nifer o fodelau dadansoddol sy'n bodoli eisoes.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Phrifysgol Abertawe i feithrin gallu'n gyflym i fodelu llwybrau posibl y pandemig a datblygu'r senario waethaf y mae'n rhesymol ei thybied. Mae prosesau sicrhau ansawdd cryf wedi'u sefydlu, gan gynnwys adolygiadau gan gymheiriaid a her arbenigol o bob rhan o'r DU. Mae natur frys y modelu hwn yn dod â risgiau ac mae cryn ansicrwydd i rai tybiaethau oherwydd natur ddatblygol y wyddoniaeth, er enghraifft ar effeithiolrwydd brechlynnau. Mae'r risgiau hyn yn cael eu deall a'u cyfleu'n dda.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae cysylltiad sylweddol â risg o hyd mewn rhai meysydd, megis cyllid i fyfyrwyr, gyda chyllidebau blynyddol mawr ar gyfer rhwymedigaeth atebolrwydd grantiau a benthyciadau, yn seiliedig ar system statudol a seilir ar alw. Mae llywodraethiant a mesurau lliniaru da ar waith. Erbyn hyn, mae modelau ar drethi datganoledig wedi ymwreiddio'n dda yn y broses rhagolygon trethi a phennu cyllidebau.

Defnyddir data Cyfrifiad 2011 yn rheolaidd, naill ai fel mewnbwn allweddol neu drwy ddefnyddio amcanestyniadau o'r boblogaeth, sy'n deillio o ddata'r cyfrifiad. A ninnau bellach wedi cyrraedd y pwynt pellaf o Gyfrifiad 2011, mae'r amser sydd wedi mynd heibio ers casglu'r data hwn yn cyflwyno ansicrwydd a risg pellach. Cynghorwyd y timau modelu perthnasol i ddechrau cynllunio ar gyfer sut i integreiddio data Cyfrifiad 2021 unwaith y bydd ar gael.

Bob blwyddyn mae Penaethiaid y Proffesiwn Dadansoddi yn cynnal nifer o adolygiadau cymheiriaid manylach o fodelau dadansoddi. O ganlyniad i bandemig COVID-19, ni chafwyd sesiynau adolygu gan gymheiriaid eleni, ond mae modelau blaenoriaeth wedi'u nodi ar gyfer y flwyddyn i ddod fel rhan o'r rhaglen sicrwydd barhaus.

Mae'r ddibyniaeth sefydliadol ar fodelu dadansoddol yn debygol o dyfu yn y dyfodol, yn enwedig mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd, lle mae modelu cymhleth ar waith i olrhain cynnydd tuag at dargedau cyllidebau carbon ac i asesu costau opsiynau polisi amgen.

# Materion Rheolaeth Fewnol

Mae'r sicrwydd cadarnhaol yr wyf wedi'i gael yn rhoi hyder imi fod gan Lywodraeth Cymru, yn gyffredinol, fframweithiau cadarn a threfnus o lywodraethiant a rheolaeth fewnol. Er hynny, datgelwyd rhai materion nodedig yn ystod y flwyddyn ac mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain ac i wneud gwelliannau, fel y nodir isod.

## Setliad Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio

Ym mis Gorffennaf 2020, daeth Llywodraeth Cymru i setliad mewn perthynas â'r camau cyfreithiol a gychwynnwyd mewn perthynas â Chronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio. Daethpwyd i'r setliad ar sail fasnachol a heb unrhyw gyfaddefiad o atebolrwydd gan unrhyw barti. Mae'r telerau manwl wedi'u hymgorffori mewn cytundeb setliad cyfrinachol rhwng y partïon. O ganlyniad i'r setliad, cadarnhaodd y Gweinidogion y byddai'r £40.7 miliwn a geir yn y Gronfa ar 31 Mawrth 2020 bellach ar gael i gefnogi prosiectau adfywio a phrosiectau eraill ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dysgu nifer o wersi o ganlyniad i achos y Gronfa ac rydym wedi gwneud newidiadau i'n dulliau gweithio.  Ar lefel strategol byddem yn tynnu sylw at yr effaith y mae'r Gronfa wedi'i chael o ran creu dull llawer mwy soffistigedig o ddefnyddio cyllid benthyciadau sydd ac a fydd yn parhau i greu amryw o fanteision.

## Cyllid y Comisiwn Ewropeaidd

Effaith COVID-19 ar archwilio Cronfeydd Strwythurol

Mae EFAT yn cyflawni rôl Awdurdod Archwilio Cymru mewn perthynas â rhaglenni ESF, ERDF ac ETC, yn ogystal â chynnal archwiliadau ar gyfer y rhaglen EMFF ar ran DEFRA. Er mwyn bodloni gofynion y Comisiwn Ewropeaidd, rhaid i EFAT gwblhau nifer o archwiliadau ar draws dau gyfnod sampl ar wahân erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Fel arfer, mae archwiliadau'n cael eu cynnal ar safle'r prosiect sy'n destun archwiliad.

Er gwaethaf pandemig COVID-19, mae terfynau amser arferol y Comisiwn Ewropeaidd yn parhau ar gyfer 2021. Yn ogystal, nid yw'r hyblygrwydd mwy a ddarparwyd gan y Comisiwn y llynedd ar gyfer meintiau sampl is (er mwyn caniatáu ar gyfer yr amser cynyddol y mae ei angen i gynnal archwiliad desg) wedi'i ymestyn i'r flwyddyn gyfredol a bydd rhaid cynnal sampl lawn o archwiliadau. Er hynny, fel gyda'r llynedd, mae archwiliadau'n parhau i gael eu cynnal o bell a bydd hynny'n parhau at y dyfodol  nes y bydd yn ddiogel ac yn briodol archwilio ar y safle mewn prosiectau.

### Llys Archwilwyr Ewrop

Ym mis Medi 2019, roedd EFAT yn destun archwiliad gan Lys Archwilwyr Ewrop er mwyn cadarnhau a oedd lefel y sicrwydd y mae EFAT yn ei roi i'r Comisiwn Ewropeaidd ar Raglenni ESF ac ERDF 2014-2020 yn ddigonol. Cwblhawyd yr adroddiad ar yr archwiliad hwn ym mis Medi 2020. Mae problem o hyd mewn perthynas â Chymorth Gwladwriaethol ar gyfer un prosiect. Mae EFAT a WEFO yn parhau i gydweithio â Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru ar y mater ac mae'r mater yn dal i fod ar agor gyda'r Comisiwn Ewropeaidd.

Ym mis Mawrth 2021, dechreuodd Llys Archwilwyr Ewrop archwiliad o gau Rhaglen ESF 2007-2013. At yr un diben daeth adroddiad drafft i law ym mis Ebrill 2021. Oherwydd cyfuniad o amserlenni tynn a'r cyfyngiadau sydd ar waith oherwydd COVID-19, mae wedi bod yn her sylweddol cael tystiolaeth o brosiectau sydd wedi'u storio ar ffurf copi caled ac sydd yn aml yn cael eu harchifo oddi ar y safle. Mae EFAT, WEFO a'r prosiectau dethol bellach wedi darparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani. Mae Llys Archwilwyr Ewrop wedi ystyried y dystiolaeth ychwanegol hon a chyhoeddodd ei adroddiad terfynol fis Gorffennaf 2021.

## Colledion, Diddymiadau a Thaliadau Arbennig

### Benthyciad Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a Gostwng Gwerth Ecwiti

Mae effaith pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol a dramatig ar werth daliadau Llywodraeth Cymru ym Maes Awyr Caerdydd. Cytunwyd ar ddiddymu benthyciad o £42.6m yn seiliedig ar y dybiaeth bod Llywodraeth Cymru yn darparu £16m pellach  o gymorth i'r maes awyr am y 12 mis nesaf i'w alluogi i adfer yn dilyn y pandemig cyn gynted ag y bydd cyfyngiadau teithio'n cael eu codi, a diddymu ecwiti o £43.5m.

Nid ar chwarae bach yr argymhellwyd y penderfyniad hwn, a gyflwynwyd i'r Gweinidogion ynghylch dyfodol y maes awyr, a bu diddordeb sylweddol o du'r Senedd, gan gynnwys gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn ein buddsoddiad a'n cyllid ar gyfer Maes Awyr Caerdydd. Er hynny, gwnaed y penderfyniad yn dilyn cyngor gan arbenigwyr perthnasol ac annibynnol o bob rhan o Lywodraeth Cymru ac mae'n rhoi'r cyfle gorau i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o werth ein buddsoddiad sy'n weddill ym Maes Awyr Caerdydd.

### Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd

Yn unol â gweithdrefnau cyfrifyddu safonol, a'r egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*, roedd gwerth yn y costau datblygu yr oeddem wedi mynd iddynt yn y prosiect ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd wedi gostwng ymhellach.

Mae'r broses o ostwng gwerth y £75.9 miliwn sy'n weddill yn dilyn y gostyngiad o £43.1m yn y cyfrifon ar gyfer 2019-20. Aed i wariant ar waith datblygu, gan gynnwys arolygon amgylcheddol, data ar ymchwiliadau tir a modelau trafnidiaeth.

Er na fydd y costau y gostyngwyd eu gwerth yn cael eu cofnodi'n asedau bellach yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, nid yw hynny'n golygu y bydd astudiaethau a setiau data yn cael eu diystyru. Mae'r llyfrgell ddata a grëwyd drwy'r gwariant yn parhau i fod ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru a bwriedir cyfeirio ati mewn prosiectau yn y dyfodol er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i bwrs y wlad. Erys rhai eitemau bach gyda gwerth ar gyfer y prosiect hwn, yn bennaf o ran tir ac adeiladau a gaffaelwyd gennym.

## Taliad ex-gratia ar gyfer ceffylau mewn gofal

Yn ystod y flwyddyn cymeradwywyd taliad o £0.5m i'r Cydwasanaethau Rheoleiddio (y Gwasanaeth) sy'n cwmpasu Cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg a oedd ag achos lles ceffylau difrifol. Deilliodd hyn o ymarfer graddfa fawr i atafaelu 200 o geffylau oddi wrth fridiwr adnabyddus a waharddwyd yn flaenorol gan ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth ofalu am y ceffylau mewn lleoliad diogel tra'n aros i feddiant cyfreithiol gael ei ddyfarnu i Gyngor Bro Morgannwg fel rhan o'r achos erlyn ehangach. O gofio nifer y ceffylau dan sylw, y gost eithriadol i'r Gwasanaeth a lles y ceffylau roeddwn yn fodlon y dylid gwneud taliad ex-gratia yn yr achos hwn.

## Dileu Dyledion Busnes

Yn ystod y flwyddyn, awdurdodwyd diddymu dau swm sylweddol o gyllid a oedd yn ddyledus i Lywodraeth Cymru. Roeddwn yn fodlon bod yr holl fesurau priodol wedi'u cymryd i geisio adennill y symiau a oedd yn ddyledus ac mai dileu'r ddyled oedd yr opsiwn terfynol a'r unig opsiwn priodol a oedd ar gael. Roedd y ddyled gyntaf am £0.9m yn ddyledus gan gwmni o'r enw Oysterworld ar ôl i fenthyciadau gael eu gwneud yn 2012 a 2013 i gefnogi datblygu gemau cyfrifiadurol. Er i lawer o amodau eraill y grant gael eu bodloni megis cyflogi staff am nifer o flynyddoedd, gan na chyrhaeddodd y gemau'r farchnad erioed, yn anffodus, daeth y cwmni i ben yn y pen draw.

Mae'r ail ddyled am £1.5m mewn perthynas â Quinn Radiators. Gwnaed y benthyciadau gwreiddiol yn 2014 ac yn sgil ailgyllido'r cwmni mae rhan o'r benthyciadau wedi'u had-dalu. Aeth y cwmni i ddwylo'r gweinyddwyr yn 2019 ac yn ystod y flwyddyn ariannol hon cawsom gyngor cyfreithiol annibynnol yn cadarnhau bod yr holl asedau gan y cwmni wedi'u gwerthu ac nad oedd unrhyw obaith y byddai Llywodraeth Cymru yn adennill yr arian a oedd yn ddyledus inni.

## Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr

Rwyf wedi rhoi gwybod o'r blaen bod Grantiau i Ddibynyddion (GFDs) wedi cael eu talu trwy gamgymeriad i nifer o fyfyrwyr rhan-amser sy'n byw yng Nghymru ac sy'n astudio cyrsiau dysgu o bell. Cofnodwyd £3.3m yng nghyfrifon ariannol 2018-19 Llywodraeth Cymru. Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi cael cyfarwyddyd i ddarparu datganiad blynyddol yn cadarnhau'r GFDs blynyddol i'w dileu ar gyfer y myfyrwyr yr effeithir arnynt - bydd gwerth y taliadau'n cael ei gynnwys yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru yn y dyfodol

a disgwylir y bydd y ffigur blynyddol yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn wrth i fwy o'r myfyrwyr sydd ar ôl gwblhau eu cyrsiau. Mae taliadau'n parhau i gael eu gwneud i fyfyrwyr presennol hyd at ddiwedd eu hastudiaethau ac yn y blynyddoedd dilynol, er mwyn cynnal y sefyllfa na fydd y myfyrwyr yn wynebu unrhyw gosb ariannol am y camgymeriad hwn. Mae'r diddymiad o £0.4m sydd wedi'i wneud eleni yn ymwneud â'r flwyddyn academaidd 2018-19 ac mae'n golygu bod cyfanswm o £3.7m wedi'i ddiddymu hyd yma mewn cysylltiad â'r camgymeriad hwn.

### Stociau ffliw pandemig

Cafodd stociau o ffliw pandemig eu diddymu yn y flwyddyn gyda gwerth o £5.3m. Mae stociau o gyffuriau gwrthfeirysol, gwrthfiotigau a defnyddiau traul yn cael eu dal gan Lywodraeth Cymru yn unol â chynllunio ledled y DU ym maes iechyd y cyhoedd. Mae'r lefelau stoc y mae ei hangen, y mathau o gyffuriau ac ailbrosesu cyffuriau yn cael eu rheoli ar lefel y DU a gallant fod yn anwadal o'r herwydd. Mae diddymiadau'n digwydd o ganlyniad i addasu cyflenwadau gwladol i fodloni angen cynlluniedig. Mae'r diddymiadau yr adroddir amdanynt yn ymwneud â chyffuriau sydd wedi darfod nad ydynt yn addas i'w defnyddio mewn gwasanaethau GIG craidd neu i drin COVID-19. Mae'n risg gydnabyddedig wrth wneud paratoadau priodol ar gyfer achosion o ffliw pandemig fod rhai stociau'n debygol o gael eu diddymu.

### Trefniadau TAW/Cynllunio a Rheoli Trethi

Fel rhan o raglen dreigl o adolygiadau cydymffurfio, mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) wrthi'n cynnal tri adolygiad o fewn Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar TAW, statws Cyflogaeth a Chydymffurfiaeth Gyffredinol gan Gyflogwyr. Er hynny, oherwydd materion adnoddau CThEM sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau COVID-19 a'r cyfnod pontio o'r UE, prin fu'r gwaith sydd wedi'i wneud ar yr Arolygiadau. Nid oedd yn ofynnol gwneud unrhyw ad-daliadau i CThEM yn ystod y flwyddyn ariannol 2020-21.

## Llywodraethu Gwybodaeth

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol yn bodoli i gydymffurfio â'r set graidd o fesurau gofynnol gorfodol i amddiffyn gwybodaeth yn Adrannau'r Llywodraeth. Mae'n ofynnol imi asesu'r risg a sicrhau bod strategaethau lliniaru priodol yn bodoli.

Lle bo trydydd partïon yn ymdrin â gwybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol amdani yn gyfreithiol, mae'n bwysig bod cyngor a chyfarwyddyd yn cael eu rhoi iddynt am sut y mae rhaid ymdrin â'r wybodaeth honno. Mae diogelwch TG yn cael ei asesu cyn dyfarnu contract, lle mae gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu gan drydydd partïon, ac mae cymalau sicrhau gwybodaeth yn cael eu cynnwys yn safonol fel rhan o gymalau contract. Rydym hefyd yn cadarnhau bod y rhai sy'n prosesu ein gwybodaeth sensitif yn destun Gwiriad Iechyd TG annibynnol ac yn bodloni'r safon "Cyber Essentials".

Mae risgiau diogelwch (gan gynnwys seiber) yn cael eu trafod gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (enwebai diogelwch ar lefel Bwrdd) a'r Prif Swyddog Diogelwch bob pythefnos. Mae ExCo yn cael briffiadau diogelwch rheolaidd yn ychwanegol at y briffiadau a roddir i'r Ysgrifennydd Parhaol.

**Digwyddiadau sy'n dod o fewn y meini prawf ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) (Adroddwyd):**

| Blwyddyn | Digwyddiadau a adroddwyd i'r ICO | Camau a gymerwyd gan yr ICO |
|---|---|---|
| 2020-21 | 2 | 0 |
| 2019-20 | 7 | 0 |

**Crynodeb o Ddigwyddiadau eraill yn ymwneud â Data Personol a Ddiogelir**

**Yn y tabl isod nodir digwyddiadau nad yw'r Rheolydd Data yn barnu eu bod yn perthyn i'r meini prawf ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ond sy'n cael eu cofnodi'n fewnol**

| Math | Natur y digwyddiad | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|---|
| I | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol, o safleoedd diogel y Llywodraeth | 0 | 7 |
| II | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol, o'r tu allan i safleoedd diogel y Llywodraeth | 4 | 7 |
| III | Gwaredu mewn modd anniogel offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol | 0 | 0 |
| IV | Datgeliad heb ei awdurdodi | 96 | 68 |
| V | Arall | 3 | 20 |

Roedd y mwyafrif o'r digwyddiadau a oedd heb eu hadrodd i'r ICO yn deillio o ddatgeliadau heb eu hawdurdodi. Roedd y rhain yn deillio, yn bennaf, o anfon neu e-bostio dogfennau penodol sy'n cynnwys data personol at y person anghywir. O'r digwyddiadau hyn roedd 81% yn cynnwys trawsyrru data y tu allan i Lywodraeth Cymru a 19% o fewn Llywodraeth Cymru. Er bod nifer y digwyddiadau yn 2020-21 (96) yn gynnydd ar y flwyddyn flaenorol (68), mae hyn yng nghyd-destun y ffaith bod nifer cyfartalog yr e-byst a anfonir gan staff bob mis wedi dyblu.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal proses gadarn ar gyfer adrodd, sy'n cynnwys pob math o ddigwyddiad. Ar ôl i bob achos o dorri data gael ei adrodd, cytunir ar gamau unioni â'r rheolwyr ac mae camau gweithredu'n cael eu holrhain i sicrhau bod y camau hynny'n cael eu cwblhau. Lle bo angen, mae gwersi i'w dysgu ar draws y sefydliad yn rhan o'r Bwletin Diogelwch rheolaidd i'r holl staff.

## Adroddiad y Swyddog Diogelu Data

Yn ychwanegol, rwyf yn cymryd sicrwydd gan Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru ynghylch cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Nid yw'n syndod bod ailflaenoriaethu adnoddau i ymateb i bandemig COVID-19 wedi gohirio cynnydd o ran mynd i'r afael â rhai o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gan fy Swyddog Diogelu Data y llynedd, megis datblygu un broses Cofrestr Asedau Gwybodaeth awtomataidd Llywodraeth Cymru a gwybodaeth well a ddelir yn ganolog am asesiadau effaith diogelu data a chytundebau a chontractau rhannu data. Arafodd COVID-19 hefyd y gwaith o gyflwyno hyfforddiant cynefino i bob Perchennog Asedau Gwybodaeth yn y rôl hon ond mae'r dasg hon bron wedi'i chwblhau a nodir anghenion hyfforddi pellach dros y flwyddyn i ddod.

Mae creu Cyfarwyddiaeth Ddigidol, Data a Thechnoleg newydd ym mis Ebrill 2020 o dan y Prif Swyddog Digidol, gan adrodd yn uniongyrchol i mi a dwyn ynghyd bob agwedd ar dechnoleg gwybodaeth a rheoli gwybodaeth a chofnodion, wedi cryfhau llywodraethu gwybodaeth yn sylweddol. Ymhellach, er bod y pandemig wedi gohirio rhai gwelliannau, mae fy Swyddog Diogelu Data hefyd wedi sylwi ar lefel dda a chynyddol o ymwybyddiaeth ymhlith swyddogion am egwyddorion diogelu data trosfwaol a gofynion GDPR y DU. Heb amheuaeth, mae swyddogion wedi ennill profiad ymarferol gwerthfawr a dealltwriaeth dechnegol well o ddiogelu data wrth roi ymatebion i'r pandemig ar waith. O'r herwydd mae swyddogion, sy'n gweithio yn aml gyda phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, wedi llwyddo i ddefnyddio data personol yn briodol ac yn ddiogel i ddarparu ymyriadau i ddiogelu a chefnogi dinasyddion Cymru.

# Atebolrwydd Lleol

Mae cyfran sylweddol o wariant Llywodraeth Cymru'n cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol Cymru a chyrff GIG Cymru i gyflawni amcanion polisi ac ystod o wasanaethau rheng flaen, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru hefyd yn Brif Weithredwr GIG Cymru.

## Awdurdodau Lleol

Darperir cyllid grant i awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Yr elfen unigol fwyaf o gyllid grant yw'r setliad blynyddol ar gyfer Awdurdodau Unedol sy'n cynnwys Grant Cynnal Refeniw (RSG) a chyfran o incwm ardrethi annomestig. Gellir defnyddio'r cyllid hwn at unrhyw ddiben wrth ddarparu'r gwasanaethau y mae'r awdurdodau hynny'n gyfrifol amdanynt. Pennir cwantwm y cyllid fel rhan o gylch cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru. fe'i dosberthir gan ddefnyddio fformiwla sy'n adlewyrchu'r ffactorau sydd wrth wraidd angen yr awdurdodau i wario i ddarparu ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys addysg a gofal cymdeithasol. Mae'r fformiwla'n cael ei chynnal, ei diweddaru a'i gwella drwy raglen waith barhaus gyda llywodraeth leol.

Rhoddir cyllid hefyd i awdurdodau drwy grantiau na ellir eu defnyddio ond at y dibenion penodol y maent yn cael eu darparu ar eu cyfer. Yn ogystal, mae'r Awdurdodau Unedol yn cael rhai grantiau penodol oddi wrth Adrannau Llywodraeth y DU ar gyfer swyddogaethau sydd heb eu datganoli, o'r dreth Gyngor a bennir yn lleol, ac o ffioedd, taliadau a ffynonellau incwm eraill. Mae'r Awdurdodau Unedol hefyd yn cael grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwario cyfalaf a chymorth ar gyfer benthyca. Cydategir hyn gan allu'r awdurdodau eu hunain i fenthyca, grantiau gan gyrff eraill a derbyniadau cyfalaf.

Mae trefniadau tebyg yn gymwys i'r ddarpariaeth refeniw ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a ariennir drwy gyfuniad o'r Grant Cynnal Refeniw ac incwm ardrethi domestig gan Lywodraeth Cymru, Grant yr Heddlu oddi wrth y Swyddfa Gartref, grantiau penodol ac o'r dreth gyngor. Mae awdurdodau eraill yn cael eu hariannu trwy drefniadau megis grantiau penodol, ardollau a phraeseptau.

Mae pob awdurdod yn atebol am sut y mae'n defnyddio'r cyllid sydd ar gael wrth gyflawni'r swyddogaethau y mae'n gyfrifol amdanynt. Rhaid i'r Awdurdodau Unedol, cyrff yr heddlu ac Awdurdodau Tân ac Achub gael swyddog penodedig o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sydd â dyletswyddau statudol i sicrhau bod materion ariannol yn cael eu gweinyddu'n briodol. Mae awdurdodau yn cael eu dwyn i gyfrif drwy eu swyddogaethau craffu a thrwy atebolrwydd uniongyrchol i'w hetholwyr lleol. Mae eu materion ariannol yn cael eu llywodraethu drwy fframwaith cyfrifyddu ac archwilio statudol ac mae eu cyfrifon yn destun archwiliadau allanol blynyddol llawn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Tan 1 Ebrill 2021 bu'n rhaid i brif gynghorau sefydlu trefniadau i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, a bu'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a oedd pob cyngor yn debygol o fodloni'r gofynion hyn neu wedi'u bodloni. O 1 Ebrill 2021 ymlaen, bydd cynghorau'n destun trefn perfformiad a llywodraethu newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt adolygu eu perfformiad yn gyson, a'i gwneud yn ofynnol iddynt o 5 Mai 2022 drefnu asesiad perfformiad gan banel o leiaf unwaith bob tymor etholiadol. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn gwneud gwaith archwilio perfformiad ym mhob cyngor i fod yn fodlon ei fod wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio ac i asesu i ba raddau y mae cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

O ran cyllid a ddarperir at ddibenion penodol, yr adrannau polisi perthnasol sy'n gyfrifol am delerau ac amodau grantiau unigol. Mae'n ofynnol i'r telerau ac amodau hyn roi sylw dyledus i Safonau Gofynnol y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ar gyfer Cyllid Grant. Drwy gadw at y safonau hyn dylid sicrhau cydymffurfiaeth â threfniadau llywodraethiant ac ariannol, cyfreithiau perthnasol, polisïau ac arferion da Llywodraeth Cymru. O ran y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â swyddogaethau heb eu datganoli, cytunir ar y trefniadau ar gyfer atebolrwydd rhwng yr Awdurdodau Lleol a'r Adran berthnasol yn Llywodraeth y DU.

## Materion penodol:

Sefydlwyd Bwrdd Gwella a Sicrwydd ym Mhowys ym mis Mawrth 2018 i helpu'r Arweinydd i fwrw ymlaen â'r newid a'r gwelliant gofynnol yng Nghyngor Sir Powys (y Cyngor). Ym mis Mawrth 2020 adolygwyd diben/cylch gwaith y Bwrdd a'i effeithiolrwydd. Edrychodd yr adolygiad ar gylch gwaith presennol y Bwrdd i fonitro cynnydd mewn perthynas â: Gwasanaethau Cymdeithasol (Plant ac Oedolion), Addysg, a Materion Corfforaethol ac ystyriodd a oes angen parhaus i her annibynnol statudol a chymorth gael eu darparu ym mhob un o'r tri maes.

Yng ngoleuni'r cynnydd digonol a wnaed hyd yn hyn gan y Cyngor, daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylid symud o Fwrdd Gwella a Sicrwydd ffurfiol i drefniadau lleol i oruchwylio a sbarduno gwelliant. Parhaodd y Bwrdd Gwella a Sicrwydd i weithredu am gyfnod byr gyda chylch gwaith ar ei newydd wedd gyda ffocws penodol ar sicrhau cyfnod pontio effeithiol er mwyn i'r Cyngor sbarduno ei welliant ei hun. Cyfarfu'r Bwrdd yn ffurfiol am y tro olaf ym mis Hydref 2020. Mae angen parhaus i gynnal her a chyngor allanol ar feysydd gwasanaeth penodol, sef addysg a gwasanaethau cymdeithasol ac mae hyn yn rhan o drefniadau'r Cyngor.

Mae pecyn cymorth statudol wedi bod ar waith ym Merthyr Tudful ers mis Gorffennaf 2019 yn dilyn llythyr oddi wrth Arweinydd y Cyngor yn gofyn am gymorth ffurfiol mewn ymateb i Lythyr Archwilio Blynyddol a anfonwyd i'r Cyngor gan Archwilio Cymru ym mis Mai 2019. Mae tair rhan i'r cymorth:

- Sefydlu Bwrdd Gwella a Sicrwydd cyffredinol i gynorthwyo'r Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd a'r Prif Weithredwr i fwrw ymlaen â'r newid a'r gwelliant gofynnol yn y Cyngor ac i adrodd ar sicrwydd i'r Gweinidog.
- Penodi cynghorwyr allanol i ddarparu cymorth wedi'i dargedu am gyfnod byr i lywio'r penodiad mewn perthynas â chymorth i aelodau/swyddogion; addysg; gwasanaethau cymdeithasol; a chymorth ar yr agenda gwella/trawsnewid.
- Darparu mentora a chefnogaeth gan gymheiriaid i'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr gan Arweinydd sy'n gwasanaethu a phrif weithredwr blaenorol awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r pecyn cymorth yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cymorth yn parhau i fod yn addas i'r diben ac i nodi unrhyw addasiadau y mae eu hangen.

Mae Cynadleddau Gwella a Chymorth, gan gynnwys cynrychiolwyr o Archwilio Cymru, Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn parhau i gael eu cynnal yn rheolaidd i drafod ble y gellid cynnig cymorth ychwanegol i gefnogi gwella'r awdurdodau lleol.

## Iechyd

Mae Byrddau Iechyd Lleol (BILl) yn cael eu hariannu i gomisiynu a darparu gwasanaethau ysbytai ac iechyd cymunedol ac i dalu cost cyffuriau a ragnodir gan feddygon teulu ar gyfer eu poblogaethau preswyl. Darperir arian hefyd i roi taliadau i gontractwyr annibynnol gan gynnwys meddygon teulu, ymarferwyr deintyddol cyffredinol a fferyllwyr. Mae arian ychwanego wedi'i dargedu yn cael ei ddefnyddio helpu i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Darperir cyllid cyfalaf i gefnogi Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan ac mae cyllid cyfalaf disgresiynol hefyd yn cael ei ddarparu i gefnogi blaenoriaethau a nodir yn lleol.

Y llynedd dywedais fod chwech o'r deg o Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i fantoli'r gyllideb trwy weithio o fewn eu cyllidebau yn ystod y cyfnod asesu tair blynedd. Methodd pedwar o'r saith o Fyrddau Iechyd Lleol â chyflawni eu dyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd. O ganlyniad, cafodd y pedwar corff hyn farn amodol ar reoleidd-dra gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer cyfrifon 2019-20, wedi iddynt fethu â bodloni eu dyletswydd ariannol statudol am y pedwerydd cyfnod o dair blynedd.

Yn 2020-21 methodd pedwar bwrdd iechyd unwaith eto â chyflawni eu dyletswydd i fantoli'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd. Er hynny, mae cynnydd cadarnhaol. Gostyngodd cyfanswm diffyg y GIG yn ystod y flwyddyn, o £89 miliwn yn 2019-20 i £48 miliwn eleni, a gostyngodd y gorwariant cronnol tair blynedd ar draws y GIG o £352 miliwn i £233 miliwn.

Methodd dau o'r pedwar corff a fethodd i gyflawni eu dyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb dros dair blynedd, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, hefyd â mantoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn. Er bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn parhau i ddangos tuedd well yn ei sefyllfa ariannol, mae sellfa ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi dirywio eto.

Mae'r ddau gorff arall sydd wedi methu â chyflawni eu dyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb dros dair blynedd, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ill dau wedi gwneud cynnydd ariannol sylweddol, gan fantoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn. (Llwyddodd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro hefyd i fantoli'r gyllideb gyda gwarged yn ystod y flwyddyn yn 2019-20.)

Fe wnaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru amodi ei farn archwilio ar gyfer 2020-21 am reoleidd-dra'r pedwar corff hyn ar y sail nad oedd y byrddau iechyd wedi cyflawni eu dyletswydd ariannol statudol i fantoli'r gyllideb dros y cyfnod o dair blynedd. Cyflawnodd y tri bwrdd iechyd arall a'r tair ymddiriedolaeth GIG eu dyletswyddau i fantoli'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd, tra cyflawnodd yr awdurdod iechyd arbennig ei darged blwyddyn i fantoli'r gyllideb.

Yn 2020-21, roedd pob BILl, pob Ymddiriedolaeth GIG a'r Awdurdod Iechyd Strategol yn destun datganiad Pwyslais Mater yn eu barn archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â rhwymedigaethau digwyddiadol sy'n deillio o'r Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019 ar gyfer y cynllun pensiwn ar gyfer clinigwyr sy'n atebol i dalu treth am ymgymryd â gwaith yn 2019-20.

Roedd yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gyfyngu ar gwmpas ei farn archwilio ar gyfrifon Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gan nad oedd yn gallu bod yn bresennol mewn archwiliadau i gael tystiolaeth archwilio ynghylch prisio stociau'r Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2021, oherwydd ei bolisi wrth ddilyn cyfyngiadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â COVID-19. Mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r amodi hwn yn ganlyniad i unrhyw ddiffygion yn systemau neu weithredoedd yr Ymddiriedolaeth, ond oherwydd effaith COVID-19 ar weithdrefnau archwilio allweddol.

## Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd y GIG

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi dychwelyd at drefniadau monitro rheolaidd yn 2019-20, gan adlewyrchu'r gwelliant yn eu perfformiad ariannol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (gynt Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn destun monitro uwch. Mae statws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi gwella ac mae wedi symud o Fesurau Arbennig i Ymyriad wedi'i Dargedu.

Cafodd y sefydliad a ragflaenodd Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf) ei uwchyfeirio i 'fonitro uwch' ym mis Ionawr 2019 ar ôl i bryderon gael eu codi mewn perthynas ag arolygiad ymbelydredd ïoneiddio, adolygiad o wasanaethau corffdai a digwyddiadau anffafriol difrifol o fewn ei wasanaethau mamolaeth. Wedyn ym mis Ebrill 2019, yn dilyn cyhoeddi adolygiad ar y cyd a gynhaliwyd gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwragedd, cyhoeddodd Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru y dylid rhoi gwasanaethau mamolaeth cyn Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf mewn 'mesurau arbennig'. Cafodd y bwrdd iechyd hefyd ei uwchgyfeirio i Ymyriad wedi'i Dargedu ar gyfer Arweinyddiaeth, Diwylliant, Ymddiriedaeth a Hyder a Llywodraethu Ansawdd. Mae'r bwrdd iechyd wedi parhau i sicrhau gwelliannau yn 2020-21 ac mae 50 o'r 70 o argymhellion ynghylch gwasanaethau mamolaeth bellach wedi'u cyflawni.

Ym mis Mawrth 2020, daeth effaith pandemig COVID-19 yn glir ac fe gafodd effaith sylfaenol ar amcanion cyflawni diwygiedig cyrff y GIG. Cafodd prif gost ymateb i heriau ariannol y pandemig ei bodloni ym mlwyddyn ariannol 2020-21 ond rhoddwyd cyfrif am bythefnos olaf mis Mawrth yn y flwyddyn ariannol 2019-20. I gefnogi hyn, yn 2020-21 dyrannwyd £1.170 biliwn ar gyfer gwariant refeniw a £133 miliwn at ddibenion cyfalaf.

Er mwyn adlewyrchu'r effaith ddramatig ar sut y byddai disgwyl i sefydliadau weithredu yn yr amgylchedd digynsail hwn, cyhoeddwyd canllawiau i gyrff GIG Cymru ar 30 Mawrth 2020 a oedd yn cynnig yr egwyddorion canlynol i'w cymhwyso wrth wneud penderfyniadau:

- Rhoddir ystyriaeth ddyledus i reoleidd-dra wrth ddibynnu ar bwerau cyfreithiol, priodoldeb a bodloni safonau 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru', a gwerth am arian a gefnogir gan asesiad o'r opsiynau realistig sydd ar gael i chi ar y pryd.
- Rhaid i benderfyniadau a wneir fod yn rhesymegol a rhaid bod modd eu cyfiawnhau gan roi ystyriaeth briodol i'r holl opsiynau a risg. Os oes angen cymeradwyaeth yna dylid ei cheisio a dylid cofnodi cyfiawnhad dros benderfyniadau wedyn, os nad ar y pryd.
- Dylai unigolion a sefydliadau sicrhau bod ymddygiad gwneud penderfyniadau yn cyd-fynd ag Egwyddorion Nolan, gydag uniondeb wrth wraidd penderfyniadau a heb unrhyw wrthdaro buddiannau yn effeithio ar benderfyniadau neu'n ymddangos fel pe bai'n effeithio arnynt.
- Yn ystod argyfyngau, mae'n anochel bod sefydliadau'n fwy agored i'r risg o dwyll. Felly, mae pwyslais parhaus ar lywodraethiant da a thwyll posibl yn hanfodol.
- Os oes gan unrhyw sefydliad bryderon o ran unrhyw agweddau ar eu proses gwneud penderfyniadau a threfniadau llywodraethiant diwygiedig, yn ogystal â cheisio cyngor gan swyddogion Llywodraeth Cymru, dylent sicrhau bod Archwilio Cymru yn cymryd rhan barhaus yn eu gweithgareddau i ailffocysu prosesau gwneud penderfyniadau.

O gofio'r heriau uniongyrchol a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19, cydnabuwyd bod hyn yn amharu ar drefniadau a disgyblaethau ariannol arferol a bod angen iddynt gael eu haddasu dros dro. Yn unol ag egwyddorion ac ysbryd y canllawiau, addaswyd y trefniadau ariannol arferol er mwyn rhoi ffocws cefnogol a chytbwys wrth sicrhau bod gofynion sylfaenol craidd ar waith i gefnogi pob sefydliad ar yr adeg heriol hon.

Yn yr amgylchedd hwn, roedd canllawiau ariannol yn argymell yr angen i sicrhau:

- Bod trefniadau ariannol clir a phragmataidd ar waith a oedd yn amharu cyn lleied â phosibl ar y system.
- Bod trefniadau parhad busnes yn effeithiol.
- Bod fframweithiau i gefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol yn glir.
- Bod rhagdybiaethau a safbwyntiau ariannol craidd yn glir ac yn cael eu monitro, ond gyda dull gweithredu ysgafn gan gadw  eglurder digonol o ran mesurau allweddol gofynnol.

## Proffil Risg

Mae proffil risg Llywodraeth Cymru yn helaeth ac yn amrywiol, fel y byddid yn disgwyl, o gofio'r ystod eang o wahanol weithgareddau y mae'n ymwneud â hwy. Mae risgiau gweithredol yn codi wrth gyflawni amcanion polisi allweddol ac maent yn cael eu rheoli a'u lliniaru o ddydd i ddydd ar draws y sefydliad. Yn ogystal, mae gan Lywodraeth Cymru nifer o risgiau wrth gefn (effaith uchel ond yn annhebygol o gael eu gwireddu) sy'n deillio o'i chyfrifoldebau rheoleiddio. Enghreifftiau o'r rhain yw cyfrifoldebau pe bai brigiad o glefyd pobl neu anifeiliaid yng Nghymru, ei chyfrifoldeb dros seilwaith trafnidiaeth Cymru a'i rhwymedigaethau o dan y gwarantau y mae'n eu gwneud o bryd i'w gilydd i gefnogi busnesau yng Nghymru.

Gyda dyfodiad COVID-19 cafodd un o'r risgiau digwyddiadol hyn ei gwireddu a bu angen i Lywodraeth Cymru ymateb i'r argyfwng. Yn gynnar yn y gwaith o ddatblygu ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19, nododd y Prif Swyddog Cyfrifyddu yn glir i'r Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol ei safiad ar yr awydd am risg mewn perthynas â phenderfyniadau a wneid mewn ymateb i COVID-19, i lywio'r gwaith o reoli risg yn ystod y cyfnod eithriadol hwn. Mae ExCovid wedi nodi a monitro risgiau a materion penodol COVID-19 ar gyfer y sefydliad ac mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol wedi'i diweddaru i sicrhau bod risgiau corfforaethol a oedd yn bodoli cyn y pandemig byd-eang wedi'u diweddaru i sicrhau bod effaith COVID-19 yn cael ei hadlewyrchu ynddynt.

Mae COVID-19 wedi arwain at gynnydd digynsail yn y pwysau ar Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 ac mae llwybr yr economi a chyllid cyhoeddus yn y dyfodol yn aneglur iawn. Mae hefyd wedi cynyddu'r risgiau i'r gweithlu gan gynnwys materion yn ymwneud â chapasiti a llesiant staff. Mae mecanweithiau effeithiol wedi'u rhoi ar waith i fonitro a darparu cymorth i staff, yn ôl yr angen.

Y risg gorfforaethol allweddol drwy gydol y pandemig oedd nad yw staff o bosibl wedi cael eu hadleoli'n ddigon cyflym, neu nad oes ganddynt sgiliau digonol i ymateb yn briodol i ofynion y pandemig. Defnyddiwyd y broses Adnoddau Blaenoriaethol i nodi rolau hanfodol ar gyfer ymateb i COVID-19 ac i adleoli staff addas i'r rolau hynny. Risg gorfforaethol berthnasol arall fu cadernid TGCh a gallu Llywodraeth Cymru i fod yn weithredol effeithiol os nad oes systemau a chymwysiadau TGCh ar gael. Cynyddwyd effaith y risg hon drwy weithio o bell oherwydd COVID-19 ond mae mesurau lliniaru cadarn wedi golygu bod staff wedi gallu gweithio'n effeithiol o bell o wahanol leoliadau.

Mae COVID-19 wedi arwain hefyd at gynnydd digynsail yn y pwysau ar gyllideb Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 ac mae llwybr yr economi a chyllid cyhoeddus yn y dyfodol yn aneglur iawn. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn Nhrysorlys EM ac yn cynllunio senarios cyllidol posibl yn y dyfodol, gan gynnwys asesu effaith polisïau a rhaglenni i ganolbwyntio ar sicrhau'r gwerth gorau am arian.

Yn ystod y flwyddyn ychwanegwyd dwy risg newydd at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Roedd y gyntaf yn adlewyrchu'r risg yn ymwneud ag etholiadau'r Senedd. Roedd y risg hon yn cydnabod effaith COVID-19 ar y broses etholiadol ac yn rhoi mesurau ar waith i reoli'r risg honno. Yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2021, mae'r risg hon bellach wedi'i dileu.

Cafodd yr ail risg ei huwchgyfeirio o Gofrestr Risg Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol ac mae'n ymwneud â chyflwr y rhwydwaith ffyrdd strategol yng Nghymru a chostau cynnal yr ased hwn mewn cyflwr diogel a boddhaol.

Mae risg gyffredinol sy'n gysylltiedig â'r cyfnod pontio o'r UE yn ymddangos ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, ac mae'r Bwrdd Sicrwydd Ôl-UE yn adolygu risgiau strategol a thrawsbynciol yn rheolaidd, gan ystyried yn fanylach y risg benodol yn y Byrddau Gweithredu a Negodi yn ôl yr angen.

## Y Gallu i Ymdrin â Risg

Mae Llywodraeth Cymru yn cadw at y "prif egwyddorion" ar gyfer rheoli risgiau mewn llywodraeth a nodir yn *The Orange Book; Management of Risk – Principles and Concepts (2019, updated 2020*) Trysorlys EM.

Prif amcan polisi rheoli risg Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod proses gyson yn bodoli ar gyfer mesur, rheoli, monitro ac adrodd ar risg ar draws y sefydliad. Ni ddylai rheoli risg yn effeithiol beri bod Llywodraeth Cymru'n ymdrechu'n ormodol i osgoi risg ac wrth fynd ar drywydd ei hamcanion, mae'n barod i gymryd risgiau sydd wedi'u hasesu, eu gwerthuso a'u rheoli'n briodol er mwyn gallu manteisio'n fwy effeithiol ar gyfleoedd wrth iddynt godi, gan dderbyn yr un pryd y gallai methiant ddigwydd.

Yn gorfforaethol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am oruchwylio gweithredu polisi a phroses ar gyfer rheoli risg ac am oruchwylio a chraffu ar liniaru'r risgiau allweddol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a allai fel arall atal neu lesteirio'r sefydliad rhag cyflawni ei amcanion strategol. Yn bennaf, y rhain yw'r risgiau sydd mor allweddol fel na ellir eu rheoli ar lefel Grŵp, ynghyd â rhai o natur gorfforaethol y teimlid eu heffaith ar draws y sefydliad cyfan. Mae risgiau corfforaethol wedi'u hadolygu gan y Bwrdd ddwywaith yn y flwyddyn.

Cyfrifoldeb rheoli yw rheoli a lliniaru risg o ddydd i ddydd ac mae pob Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi bod yn gyfrifol am reoli risg a chyfle mewn perthynas ag amcanion allweddol eu Grŵp. Roedd risgiau grŵp yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan uwch-dimau rheoli a chan Bwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg y Grŵp ac fe gawsant eu llywio gan gofrestrau risg a gynhelir gan brosiectau a rhaglenni ac asesiadau risg a chofrestau risg ar lefel adrannol.

Ar ddechrau 2021, adolygodd ExCovid y dull o reoli risgiau COVID-19 ar draws y sefydliad, o ystyried y ffordd yr oedd y pandemig wedi esblygu. Roedd Llywodraeth Cymru yn rheoli nifer o faterion a ddaeth i'r amlwg yn gynyddol o'r pandemig, a chytunwyd y dylai ExCovid oruchwylio cofrestr risg benodol ganolog ar gyfer COVID-19. Yn ogystal, roedd y Cabinet wedi rhoi'r gorau i dderbyn dangosfwrdd wythnosol o ymyriadau allweddol, gan olygu bod gofyniad i ddod â'r risgiau allweddol hyn ynghyd mewn ffordd wahanol.

Mae cofrestr risg ExCovid yn dilyn dull gweithredu tebyg i'r dull a gymerwyd gyda Chofrestr Risgiau Corfforaethol Llywodraeth Cymru, ac mae'n cynnwys risgiau sylweddol/critigol sy'n effeithio ar sawl rhan o'r sefydliad ar yr un pryd, gan ei gwneud yn ofynnol i ddull "sefydliad cyfan" ddarparu un ateb sy'n effeithiol i bawb. Mae'r gofrestr risg ExCovid hefyd yn cynnwys, er gwybodaeth, y risgiau mwyaf sylweddol sy'n cael eu rheoli ar lefel grŵp.

## Cyfarwyddyd Gweinidogol

Yn y flwyddyn ariannol 2019-20 ceisiais a chefais Gyfarwyddyd Gweinidogol oddi wrth y Prif Weinidog. Hwn oedd y Cyfarwyddyd Gweinidogol cyntaf a roddwyd ers dechrau datganoli. Roedd angen y Cyfarwyddyd[58] o ganlyniad i'r gofyniad polisi i leddfu effaith rhai newidiadau pensiwn a threth ar glinigwyr sydd ar gyflogau uwch yn y GIG, a oedd wedi arwain at ostyngiad mewn capasiti gwasanaeth oherwydd bod diffyg cymhelliant i feddygon weithio oriau ychwanegol i'r GIG. Roeddwn o'r farn nad oedd y cynllun hwn yn gydnaws â rhai o'r darpariaethau yn “Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru” yn ymwneud â mesurau cynllunio trethi ac o ganlyniad roedd angen i mi ofyn am Gyfarwyddyd gan y Prif Weinidog.

Mae cyrff y GIG yng Nghymru wedi cofnodi rhwymedigaeth ddigwyddiadol heb ei meintioli yn eu cyfrifon ar gyfer 2020-21 mewn perthynas â'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn, sydd wedi'i gynnwys yng Nghyfrif Cyfunol Llywodraeth Cymru yn nodyn 12.

## Amodi Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20

Amododd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei farn wir a theg a'i farn rheoleidd-dra am Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 mewn perthynas â chymhwyso Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 37: Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol, i gymorth COVID-19 i fusnesau a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020.

Mae gan Lywodraeth Cymru farn wahanol i Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ddehongli IAS37 a'i gymhwyso mewn perthynas â chymorth grant i fusnesau bach a'r sectorau hamdden, lletygarwch a manwerthu a gyhoeddwyd gan y Gweinidogion ym mis Mawrth 2020. Ystyrir bod y driniaeth gyfrifyddu a ddefnyddiwyd yn 2019-20 yn briodol ac yn gyson â pholisi cyfrifyddu Llywodraeth Cymru ar grantiau a'u trin. Mae uwch-swyddogion cyllid Llywodraeth Cymru wedi ystyried canllawiau pellach a gyhoeddwyd ar y mater hwn gan Drysorlys EM yn 2021, ac wedi dod i'r casgliad nad oes angen unrhyw newid i'r driniaeth gyfrifyddu a gymhwysir i'r cynlluniau hyn.

Er hynny, gan fod y gwariant a dynnwyd ar gyfer y cymorth grant a ddarparwyd yn 2020-21 yn cael ei adrodd yn y Cyfrifon Cyfunol ar gyfer 2020-21, nad yw'n cyd-fynd â barn Archwilydd Cyffredinol Cymru, bydd barn wir a theg Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cael ei hamodi ar gyfer 2020-21 mewn perthynas â'r mater hwn.

58 Cyfarwyddyd gweinidogol ynghylch y cynnig ar dreth pensiynau'r GIG 2019 to 2020
llyw.cymru/cyfarwyddyd-gweinidogol-ynghylch-y-cynnig-ar-dreth-pensiynaur-gig-2019-i-2020

# Casgliad

Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith yn sefydliad am y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Cyfunol. Mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EM. Rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a roddwyd imi drwy fy adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant a gallaf gymryd sicrwydd rhesymol bod y trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu wedi cael eu cynllunio a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae ar rai materion angen sylw rheoli o ran rheoli, cynllunio neu gydymffurfio, ac maent yn agored i risg cymedrol nes cael eu datrys.

Mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno newid digynsail i'r sefydliad ond drwy gydol y cyfnod rwyf yn fodlon bod trefniadau llywodraethiant a sicrwydd cadarn wedi parhau.

**Shan Morgan**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu**
27 Hydref 2021

Ar sail y sicrwydd uchod gan yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu blaenorol, yr wyf wedi'i drafod gyda hi, ac ar sail fy adolygiad fy hun o'r materion y mae'n ofynnol eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethiant hwn, rwy'n fodlon bod fframwaith llywodraethiant cadarn a system rheolaeth fewnol gadarn ar waith ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon. Roeddent yn cefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru; yn hwyluso'r broses o arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn effeithiol; ac yn diogelu'r arian a'r asedau cyhoeddus yr oedd y Prif Swyddog Cyfrifyddu blaenorol yn gyfrifol yn bersonol amdanynt. Mae'r materion hyn o ran llywodraethiant a rheolaeth yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu blaenorol, a bellach i mi fel Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu o 1 Tachwedd 2021 ym 'Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru' Trysorlys EM.

## Y cynllun sy'n talu GIG

Ymhellach i gynnwys y Datganiad Llywodraethiant a lofnodwyd gan fy rhagflaenydd, mae gwybodaeth ddilynol wedi ymddangos ynghylch y rhwymedigaeth ar gyfer trefniadau pensiwn a threth y 'Cynllun sy'n Talu GIG' ar gyfer clinigwyr ar gyflogau uwch yn y GIG a oedd yn destun Cyfarwyddyd Gweinidogol. Fel rhan o'r gwaith o baratoi cyfrifon cyrff y GIG 2021-22, mae gwybodaeth wedi'i darparu i gyrff y GIG fel cyflogwyr i gefnogi darpariaethau ar gyfer cynnwys y rhwymedigaeth hon yn eu cyfrifon 2021-22. Mae Llywodraeth Cymru wedi asesu'r wybodaeth hon o dan y safonau cyfrifyddu perthnasol ac wedi cynnwys rhwymedigaeth ddigwyddiadol wedi'i meintioli ar gyfer £21.5m yn y datganiadau ariannol yn nodyn 12. Gan fod costau'r cynllun i'w hariannu gan Lywodraeth Cymru, bydd darpariaeth yn cael yn cael ei chynnwys yng nghyfrifon 2021-22 sy'n gyson â'r cyfrifon ar gyfer Cyrff y GIG yng Nghymru.

## Cydnabyddiaeth ariannol

Rwy'n deall bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bwriadu amodi ei farn archwilio ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21 ar sail taliad o £39,123 a wnaed i'r cyn Ysgrifennydd Parhaol pan adawodd hi'r sefydliad (er y gwnaed y taliad yn 2021-22). Rwy'n deall bod rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gymhwyso'r safonau archwilio priodol i bob elfen o'r Cyfrifon ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon amdanom ni'n peidio â chadw cofnodion cyfoes a'r rhesymau dros wneud y taliad i'r cyn Ysgrifennydd Parhaol. Cadarnhaf ein bod wedi cymryd camau i wella prosesau at y dyfodol.

Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn credu'n gryf na chafodd y cyn Ysgrifennydd Parhaol unrhyw beth nad oedd ganddi hawl iddo ac na chafodd ei thrin yn wahanol gan Lywodraeth Cymru i unrhyw was sifil arall.

Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw Archwilio Cymru at y taliad yn unol â'n cyfrifoldebau i amlygu unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd rhwng cyflwyno'r cyfrifon drafft i'w harchwilio a'r adeg pan fo'r Archwilydd Cyffredinol yn eu llofnodi. Gwnaed y taliad i'r cyn Ysgrifennydd Parhaol ym mis Hydref 2021, mis cyn y dylai cyfrifon 2020-21 fod wedi'u llofnodi. Ers codi'r mater hwn gyntaf ag Archwilio Cymru ym mis Tachwedd 2021, rydym wedi rhannu pob e-bost a dogfen ynglŷn â'r taliad, wedi ateb pob ymholiad a wnaed ac wedi cadarnhau, yn ôl-weithredol, effeithiolrwydd y taliad gyda Swyddfa Cabinet y DU sy'n goruchwylio penodiadau Ysgrifenyddion Parhaol a gweinyddwr pensiynau'r gwasanaeth sifil sy'n cynghori ar faterion yn ymwneud ag ymddeoliad rhannol. Rydym hefyd wedi cyfarfod â staff Archwilio Cymru sawl gwaith i geisio eu bodloni mewn perthynas â'u hymholiadau. Rydym hefyd wedi cynnwys nodyn yn yr adroddiad ar daliadau cydnabyddiaeth yn y cyfrifon hyn sy'n datgelu'r taliad a wnaed.

Yn 2018 gwnaeth y cyn Ysgrifennydd Parhaol gais am ymddeoliad rhannol, gan ddewis elwa ar ei phensiwn yn unol â rheolau pensiynau'r Gwasanaeth Sifil. O ganlyniad, roedd yn cael ei thalu 80% o'i chyflog ac ni wnaeth Llywodraeth Cymru unrhyw gyfraniadau pensiwn pellach wedi hynny. Oherwydd y galw yn sgil y pandemig a chyn hynny Brexit, parhaodd y cyn Ysgrifennydd Parhaol i weithio oriau amser llawn ac yn aml ar benwythnosau yn ôl y galw yn ei swydd. Ar y sail honno daeth y cyn Ysgrifennydd Parhaol i gytundeb â Llywodraeth Cymru fel ei chyflogwr i fancio amser i ffwrdd *in lieu*, yn gyfwerth ag un diwrnod ychwanegol wedi'i weithio yr wythnos, i'w gymryd tuag at ddiwedd ei chontract a oedd i fod o ddod i ben ym mis Chwefror 2022.

Roedd yn amlwg yn fewnol ac i unrhyw un a fu'n delio â Llywodraeth Cymru yn ystod Brexit a phandemig COVID-19 na weithiodd y cyn Ysgrifennydd Parhaol lai o oriau nag y byddai wedi'u gweithio pe bai wedi bod yn derbyn 100% o'i chyflog.

Gan mai ymgeisydd mewnol a allai ddechrau ar unwaith oedd y sawl a ddewiswyd i'w holynu a chan y byddai osgoi cyfnod trosglwyddo estynedig o fudd i'r sefydliad, roedd y cyn Ysgrifennydd Parhaol yn barod i adael cyn diwedd ei chontract. Roedd hyn yn golygu ei bod yn amhosibl iddi gymryd yr amser i ffwrdd ychwanegol hwn. Felly, cynigiodd Llywodraeth Cymru opsiwn ariannol gwerth £39,123 i'r cyn Ysgrifennydd Parhaol. Roedd y cynnig hwn yn llai na'r swm y gallai'r cyn Ysgrifennydd Parhaol fod wedi gofyn amdano, y tu hwnt i'r cyflog yr oedd yn ei dderbyn, ac yn llai na'r hyn y byddai'r cyn Ysgrifennydd Parhaol wedi'i dderbyn pe bai wedi bod yn cael ei thalu 100% o'i chyflog contractiol. Gan mai ar gyfer amser i ffwrdd *in lieu* ac nid swm ariannol cyfatebol oedd y cytundeb gwreiddiol, roedd Llywodraeth Cymru yn credu, ar sail gwerth am arian, y byddai cynnig i dalu tua hanner yr amser y byddai wedi'i gymryd *in lieu* yn rhesymol. Cymeradwywyd y taliad terfynol yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

I osgoi unrhyw amheuaeth, derbyniodd y cyn Ysgrifennydd Parhaol daliad am gredyd yn lle oriau a fanciwyd a thaliad yn lle rhybudd ond ni chafodd unrhyw daliadau diswyddo pan adawodd y sefydliad cyn diwedd cyfnod ei chontract.

## Cymorth i fusnesau yn ystod y pandemig

Yn ystod 2020-21 darparwyd cymorth cyflym i fusnesau yng Nghymru oherwydd yr amgylchiadau digynsail a arweiniodd at lawer o fusnesau, megis y rhai yn y sectorau hamdden, manwerthu a lletygarwch, yn gorfod cau am gyfnodau yn ystod y flwyddyn.

Penderfynodd Llywodraeth Cymru, ar sail cloriannu'r risgiau, fod angen darparu'r cymorth cyflym hwn i sicrhau y gallai busnesau a oedd yn hyfyw cyn y pandemig barhau i weithredu ar ei ôl, a thrwy hynny gefnogi swyddi, y gadwyn gyflenwi a bywoliaeth teuluoedd yn y pen draw. Ar sail cyfuniad o drefniadau rheoli ceisiadau, Monitro ar ôl Cwblhau (PCM) a'r amgylchedd rheoli cyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y ffordd y darparwyd cymorth i fusnesau yn ystod pandemig COVID-19 yn gymesur, yn effeithiol ac wedi diogelu arian cyhoeddus yn ddigonol.

Mae hyn wedi'i gyfiawnhau gan y lefelau isel o dwyll a welwyd hyd yma (llai na 0.08%) a'r lefelau isel o gyllid y bu'n rhaid ei adennill drwy PCM ar gyfer y cynlluniau a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru. Ar y cyfan, o'r achosion o dwyll a adroddwyd a'r PCM a gynhaliwyd mae ystod twyll a gwall o rhwng 0.08% a 4.17% wedi'i hasesu. Felly, ar gyfer cynlluniau gwerth cyfanswm o £893m, cynlluniau a oedd â gofynion cymhwysedd manylach na'r cynlluniau cymorth cyfradd safonol cychwynnol a reolwyd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, rhwng £0.7m a £37.2m yw'r risg bosibl o dwyll a gwall. Mae hyn ymhell o dan y trothwy ar gyfer perthnasedd yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru.

Mae PCM ar gyfer y cyfnodau cychwynnol nawr wedi'i gwblhau ac mae PCM ar gyfer y cyfnodau sy'n weddill wrthi'n cael ei weithredu.

Felly, yn gyffredinol, rwyf hefyd yn dawel fy meddwl y bydd dyluniad y cynlluniau, ynghyd â'r gwiriadau ymlaen llaw a gynhaliwyd gan ddefnyddio'r gronfa ddata Ardrethi Annomestig a ffynonellau trydydd parti eraill, ynghyd â'n gwaith monitro ar ôl cwblhau, yn dangos yn y pen draw fod y risg o golled i'r trethdalwr drwy dwyll neu wall mewn ceisiadau yn isel a'i bod yn gymesur a'r camau yr oedd angen eu cymryd i amddiffyn busnesau yn ystod y pandemig.

**Dr Andrew Goodall CBE**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu**
4 Awst 2022

# Datgeliadau Atebolrwydd

Mae'r canlynol yn ddatganiad o golledion a thaliadau arbennig fel sy'n ofynnol o dan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, gyda datgeliadau unigol lle mae'r cyfansymiau a dynnir yn uwch na'r terfynau o £300,000 a bennir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y colledion | 170 | 214 |
| Cyfanswm gwerth y colledion (£000) | 129,049 | 61,864 |

| Manylion y colledion dros £300,000: | | |
|---|---|---|
| Colledion storfa | Stociau o gyffuriau sydd wedi dod i ben | £5,313,586 |
| Hawliadau y rhoddwyd y gorau iddynt | Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf[1] | £42,600,000 |
| Hawliadau y rhoddwyd y gorau iddynt | Quinn Radiators Ltd – y cwmni yn nwylo'r gweinyddwyr | £1,500,000 |
| Hawliadau y rhoddwyd y gorau iddynt | Oysterworld Ltd– y cwmni yn nwylo'r gweinyddwyr | £909,950 |
| Hawliadau y rhoddwyd y gorau iddynt | Grantiau i Ddibynyddion – gwall prosesu[2] | £399,425 |
| Colled ddeongliadol | Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd – dileu gwariant hanesyddol[3] | £75,946,602 |

1 Fel unig gyfranddalwyr Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, cafodd £42.6m o fenthyciad i'r maes awyr ei ddileu er mwyn adfer buddsoddiad benthyciad Llywodraeth Cymru. Sefydlwyd cynllun pum mlynedd ar gyfer achub ac ailstrwythuro'r maes awyr ym mis Mawrth 2021.

2 Cafodd y colledion hyn eu hysgwyddo o fewn y flwyddyn ariannol 2019-20 a'u hadrodd i Lywodraeth Cymru gan y Cwmni Cyllid Myfyrwyr yn y flwyddyn ariannol 2020-21.

3 Yn dilyn y cyhoeddiad gan y Prif Weinidog ar 4 Mehefin 2019 i beidio â bwrw ymlaen â phrosiect Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd, mae £75.9m pellach o gostau cyfalafedig wedi'u hadolygu fel rhan o brosesau cyfrifyddu safonol ac fe aseswyd bod angen eu dileu.

Cynhwysir yn y colledion a nodir uchod 21 o golledion sydd wedi'u hysgwyddo mewn perthynas â'r pandemig COVID-19 sy'n gwneud cyfanswm o £43.0 miliwn. Mae'r rhan fwyaf o'r gwerth hwn yn ymwneud â dileu benthyciad Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf, gyda'r gweddill yn bennaf ar gyfer digwyddiadau a gafodd eu canslo o ganlyniad i'r pandemig wrth i'r cyfyngiadau symud  cychwynnol ddod i rym.

| | 2020-21 | 2019-20 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y taliadau arbennig | 14 | 13 |
| Cyfanswm gwerth y Taliadau Arbennig (£000) | 925 | 188 |

| **Manylion y taliadau arbennig dros £300,000:** | | |
|---|---|---|
| Taliad ex-gratia | Gofal ceffylau a atafaelwyd | £493,333 |

Ceir rhagor o fanylion am y colledion unigol a'r taliadau arbennig a ddatgelwyd yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar dudalennau 126-128.

# Adroddiad Staff a Thaliadau Cydnabyddiaeth 2020-21

## Polisi Taliadau Cydnabyddiaeth

Mae taliadau cydnabyddiaeth uwch-weision sifil yn cael eu pennu ar lefel Llywodraeth y DU yn dilyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu[59] Cyflogau Uwch-swyddogion. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dirprwyedig dros dâl cydnabyddiaeth staff nad ydynt yn rhan o'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Mae tâl a phensiynau'r Gweinidogion yn cael eu pennu gan Benderfyniad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ar Dâl a Lwfansau'r Aelodau.[60]

## Contractau Gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau gael eu gwneud ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellid gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir hynny isod, mae'r swyddogion sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn dal swyddi sy'n benagored. Byddai penderfyniad i derfynu swydd, am resymau ac eithrio camymddygiad, yn golygu bod yr unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommission.org.uk

# Datganiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar ei Pholisi Tâl

Yn unol ag egwyddorion 'Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru' a gyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad ar ei pholisi tâl ar ei gwefan.

Mae'r Datganiad Polisi Tâl yn ymdrin â diffiniad Llywodraeth Cymru o "swyddi uwch" a "gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf" a'r berthynas rhwng taliadau cydnabyddiaeth swyddi uwch a thaliadau cydnabyddiaeth y gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf.

---

59 Adroddiad y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion: 2020 www.gov.uk/government/publications/senior-salaries-review-body-report-2020

60 Penderfyniad: y Bwrdd Taliadau bwrddtaliadau.cymru/penderfyniad/

Mae hefyd yn trafod:

a) tystiolaeth amlwg o fforddiadwyedd a gwerth am arian,

b) nifer y swyddi uwch o fewn y corff sydd â phecyn tâl o fwy na £100,000 mewn bandiau o £5,000,

c) y ffordd o reoli talent fewnol,

d) y ffordd o ymdrin â thâl ar sail perfformiad,

e) y ffordd o roi cymorth i staff sydd ar gyflog llai,

f) y pwyntiau tâl uchaf ac isaf,

g) y polisïau ar daliadau diswyddo sy'n weithredol a sut ac o dan ba amgylchiadau y gellir eu hamrywio.

## Taliadau cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliau pensiwn

Mae'r adran hon yn destun archwiliad ac yn cael ei chynnwys ym marn archwilio'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am daliadau cydnabyddiaeth a buddion pensiwn y Gweinidogion a'r uwch-reolwyr.

## Cydnabyddiaeth ariannol

Nodir isod daliadau cydnabyddiaeth y Prif Weinidog a'i dîm yn y Cabinet a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn. Adlewyrchir y costau hyn yng nghyfrifon Comisiwn y Senedd ac nid Llywodraeth Cymru. Mae cyflogau'r Gweinidogion yn cynnwys eu cyflogau fel Aelodau o'r Senedd sef £67,649 (2019-20: £67,649). Y cyflog sy'n daladwy i'r Gweinidogion yw'r cyflog sy'n daladwy o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i pennir gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd.

Ni chynhwysir buddion mewn nwyddau mewn perthynas â chyfrifoldebau Aelodau o'r Senedd yn y tabl.

**Cyfanswm ffigur taliadau cydnabyddiaeth – y Gweinidogion**

| Y Gweinidogion | Cyflog 2020-21 £ | Cyflog 2019-20 £ | Buddion mewn nwyddau Cyllideb 2020-21 £ | Buddion mewn nwyddau 2019-20 £ | Buddion pensiwn 2020-21 (i'r £1000 agosaf)[1] £ | Buddion pensiwn 2019-20 (i'r £1000 agosaf)[1] £ | Cyfanswm 2020-21 (i'r £1000 agosaf) £ | Cyfanswm 2019-20 (i'r £1000 agosaf) £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mark Drakeford<br>Y Prif Weinidog | 147,983 | 147,983 | 0 | 0 | 57,000 | 58,000 | 205,000 | 206,000 |
| Rebecca Evans<br>Un o Weinidogion Cymru | 105,701 | 105,701 | 0 | 0 | 30,000 | 31,000 | 136,000 | 137,000 |
| Vaughan Gething<br>Un o Weinidogion Cymru | 105,701 | 105,701 | 0 | 0 | 30,000 | 31,000 | 136,000 | 137,000 |
| Lesley Griffiths<br>Un o Weinidogion Cymru | 105,701 | 105,701 | 0 | 0 | 29,000 | 29,000 | 135,000 | 135,000 |
| Julie James<br>Un o Weinidogion Cymru | 105,701 | 105,701 | 0 | 0 | 30,000 | 31,000 | 136,000 | 137,000 |
| Eluned Morgan<br>Un o Weinidogion Cymru | 105,701 | 105,701 | 0 | 0 | 31,000 | 32,000 | 137,000 | 138,000 |
| Ken Skates<br>Un o Weinidogion Cymru | 105,701 | 105,701 | 0 | 0 | 31,000 | 31,000 | 137,000 | 137,000 |
| Kirsty Williams<br>Un o Weinidogion Cymru | 105,701 | 105,701 | 0 | 0 | 29,000 | 29,000 | 135,000 | 135,000 |
| Jeremy Miles<br>Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd | 105,701 | 105,701 | 0 | 0 | 31,000 | 32,000 | 137,000 | 138,000 |
| Hannah Blythyn<br>Dirprwy Weinidog | 89,846 | 89,846 | 0 | 0 | 27,000 | 27,000 | 117,000 | 117,000 |
| Dafydd Elis-Thomas[2]<br>Dirprwy Weinidog | 89,846 | 89,846 | 0 | 0 | 4,000 | 4,000 | 94,000 | 94,000 |
| Jane Hutt<br>Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip | 89,846 | 89,846 | 0 | 0 | 32,000 | 32,000 | 122,000 | 122,000 |
| Julie Morgan[3]<br>Dirprwy Weinidog | 89,846 | 89,846 | 0 | 0 | 0 | 18,000 | 90,000 | 108,000 |
| Lee Waters<br>Dirprwy Weinidog | 89,846 | 89,846 | 0 | 0 | 27,000 | 27,000 | 117,000 | 117,000 |

1 Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.

2 Nid yw Dafydd Elis Thomas ond yn cronni pensiwn ar ei gyflog Deiliad Swydd o £22,197.

3 Rhoes Julie Morgan y gorau i gyfrannu at y cynllun pensiwn ym mis Tachwedd 2019.

| Manylion pensiwn – y Gweinidogion | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gweinidogion** | **Pensiwn a gronnwyd adeg oedran pensiwn fel y mae ar 31/03/21 £000** | **Pensiwn a gronnwyd adeg oedran pensiwn fel y mae ar 31/03/20 £000** | **Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 65 oed ar y dyddiad dod i rym £000** | **CETV ar 31/03/21 £000** | **CETV ar 31/03/20 £000** | **Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000** |
| Mark Drakeford<br>Y Prif Weinidog | 25-30 | 20-25 | 2.5-5 | 547 | 489 | 54 |
| Rebecca Evans<br>Un o Weinidogion Cymru | 20-25 | 15-20 | 0-2.5 | 247 | 218 | 12 |
| Vaughan Gething[1]<br>Un o Weinidogion Cymru | 25-30 | 25-30 | 0-2.5 | 386 | 352[2] | 13 |
| Lesley Griffiths<br>Un o Weinidogion Cymru | 40-45 | 35-40 | 0-2.5 | 727 | 674 | 23 |
| Julie James<br>Un o Weinidogion Cymru | 20-25 | 15-20 | 0-2.5 | 383 | 336 | 26 |
| Eluned Morgan<br>Un o Weinidogion Cymru | 5-10 | 5-10 | 0-2.5 | 127 | 95 | 18 |
| Ken Skates<br>Un o Weinidogion Cymru | 15-20 | 15-20 | 0-2.5 | 224 | 196 | 12 |
| Kirsty Williams<br>Un o Weinidogion Cymru | 40-45 | 35-40 | 0-2.5 | 615 | 574 | 14 |
| Jeremy Miles<br>Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd | 5-10 | 5-10 | 0-2.5 | 118 | 89 | 15 |
| Hannah Blythyn<br>Dirprwy Weinidog | 5-10 | 5-10 | 0-2.5 | 84 | 64 | 9 |
| Dafydd Elis-Thomas<br>Dirprwy Weinidog | 60-65 | 60-65 | 0-2.5 | 918 | 946 | 2 |
| Jane Hutt<br>Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip | 65-70 | 65-70 | 0-2.5 | 1134 | 1133 | 24 |
| Julie Morgan[2]<br>Dirprwy Weinidog | 10-15 | 10-15 | 0-2.5 | 197 | 206 | 0 |
| Lee Waters<br>Dirprwy Weinidog | 5-10 | 5-10 | 0-2.5 | 90 | 67 | 11 |

Gall rhai aelodau wynebu taliadau treth Lwfans Blynyddol o ganlyniad i gronni pensiwn yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.

1 Mae'r CETV ar 31.3.20 ar gyfer Vaughan Gething wedi cael ei ailgyfrifo oherwydd addasiad bach a wnaed i bensiwn yr aelod hwn ar ddiwedd y llynedd. Ffigur y flwyddyn flaenorol a ddatgelwyd yn Adroddiad Cydnabyddiaeth 2019-20 oedd £353,000.

2 Nid yw Julie Morgan bellach yn cyfrannu at y Cynllun Pensiwn ac felly ni wnaeth gronni unrhyw bensiwn ychwanegol eleni.

# Manylion pensiwn – y Gweinidogion (parhad)

Mae'r Senedd yn darparu cynllun â buddion diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae adran 20 (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 11 iddi, yn sicrhau dilyniant yn y Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Mae'r Cynllun yn darparu buddion i Aelodau'r Senedd a Deiliaid Swyddi. Mae pob Aelod o'r Senedd yn aelod o'r Cynllun o'r dyddiad y mae'n dechrau yn y Senedd oni bai ei fod yn dewis yn benodol peidio â bod yn rhan ohono. Nid yw'r Gweinidogion yn derbyn cyfandaliad awtomatig. Mae ganddynt yr opsiwn i drosi rhan o'u pensiwn yn gyfandaliad yn gyfnewid am lai o bensiwn.

Cyflwynwyd Cynllun Pensiwn Enillion Cyfartalog Gyrfa ym mis Mai 2016. Roedd aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 yn cael eu diogelu yn ystod y cyfnod pontio, ac mae eu buddion yn parhau i gael eu cyfrifo ar sail eu cyflog terfynol am bum mlynedd yn ychwanegol, hyd at 6 Mai 2021. O 7 Mai 2021 mae pob un o'r Aelodau yn y Cynllun Cyfartaledd Gyrfa.

Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod yr 'warchodaeth drosiannol' a gynigid i rai aelodau o'r cynlluniau ar gyfer barnwyr a diffoddwyr tân yn golygu gwahaniaethu anghyfreithlon. Ar 15 Gorffennaf 2019, gwnaeth Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig yn cadarnhau, gan fod 'gwarchodaeth drosiannol' wedi'i chynnig i aelodau holl brif gynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus, fod angen dileu'r driniaeth wahanol ym mhob cynllun ar gyfer aelodau sydd â gwasanaeth perthnasol.

Bwrdd Taliadau annibynnol y Senedd sy'n gyfrifol am reolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau. Ar ôl ystyried barn y Bwrdd Pensiwn, mae'r Bwrdd wedi cytuno y dylid mabwysiadu ateb i ddileu'r gwahaniaethu yn rheolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau o ganlyniad i'r darpariaethau amddiffyn trosiannol y maent yn eu cynnwys ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i ymgynghori â'r Aelodau yr effeithir arnynt a Chomisiwn y Senedd ar ateb arfaethedig.

Roedd y Senedd yn cyfrannu 19.9% o gyflogau cyfanredol yr Aelodau. Mae aelodau nad ydynt yn destun 'gwarchodaeth drosiannol' yn talu cyfraniadau ar raddfa o 10.5%. Mae'r aelodau hynny sy'n destun 'gwarchodaeth drosiannol' yn parhau i dalu cyfraniadau ar eu cyfradd bresennol o naill ai 6% neu 10% yn dibynnu a ydynt yn cronni buddion ar sail croniad 50fed neu 40fed yn ôl eu trefn.

Mae'r Oedran Ymddeol Arferol yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65, p'un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar yr Oedran Ymddeol Arferol o 65.

## Cofrestr Buddiannau

Cyhoeddir Cofrestr Buddiannau Gweinidogion Cymru sy'n datgelu buddiannau perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru. llyw.cymru/buddiannau-preifat-perthnasol-y-gweinidogion

Mae'r datganiad o fuddiannau, nodi gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a rheoli unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei wneud yn unol â Chod y Gweinidogion llyw.cymru/cod-gweinidogion

## Cyfanswm ffigur taliadau cydnabyddiaeth

Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o Adrannau'r Llywodraeth Ganolog gynnwys Cyfanswm Taliadau Cydnabyddiaeth ynghyd â ffigur cymharol ar gyfer blynyddoedd blaenorol o fewn yr adroddiad ar daliadau cydnabyddiaeth. Mae cyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, taliadau bonws a buddion mewn nwyddau blaenorol yn ogystal â ffigur buddion pensiwn. Mae'r buddion pensiwn wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth. O ganlyniad i hyn, gall ffactorau eraill megis unigolyn yn penderfynu gwneud cyfraniadau ychwanegol neu ffactorau prisio sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn cyfan ddylanwadu ar y ffigurau, ac felly nid ydynt bob tro yn adlewyrchu'n gywir symiau gwirioneddol y pensiwn a dalwyd neu a enillwyd gan unigolyn mewn blwyddyn. Er hynny, mae'r system hon yn gymwys i bob un o adrannau'r llywodraeth gan gynnwys cyrff y GIG.

**Cyfanswm taliadau cydnabyddiaeth – uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru**

| Uwch-swyddogion* | Cyflog 2020-21 £000 | Cyflog 2019-20 £000 | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) 2020-21 £000 | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) 2019-20 £000 | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2020-21 £000 | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Shan Morgan**[1]<br>Yr Ysgrifennydd Parhaol | 135-140 | 130-135 | - | - | 135-140 | 130-135 |
| **Andrew Goodall**[2]<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 205-210 | 200-205 | - | - | 205-210 | 200-205 |
| **Tracey Burke**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 125-130 | 120-125 | 45-50 | 50-55 | 170-175 | 170-175 |
| **Des Clifford**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 125-130 | 120-125 | 40-45 | 25-30 | 165-170 | 150-155 |
| **Andrew Slade**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 125-130 | 120-125 | 60-65 | 50-55 | 185-190 | 170-175 |
| **Reg Kilpatrick**[3]<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol o 28/09/2020 | 60-65 | - | 120-125 | - | 180-185 | - |
| **David Richards**<br>Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Moeseg | 105-110 | 105-110 | 45-50 | 25-30 | 155-160 | 130-135 |
| **Jeff Godfrey**[4]<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Aelod o'r Bwrdd hyd at 13/09/2019 | - | 50-55 | - | 10-15 | - | 60-65 |
| **Helen Lentle**[5]<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol o 08/07/2019<br>Aelod o'r Bwrdd o 13/09/2019 | 95-100 | 65-70 | 65-70 | 90-95 | 160-165 | 160-165 |
| **Natalie Pearson**<br>Pennaeth strategaeth Adnoddau Dynol, Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu | 80-85 | 75-80 | 55-60 | 20-25 | 135-140 | 100-105 |
| **Gillian Baranski**[6]<br>Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hyd at 31/08/2019<br>Aelod o'r Bwrdd hyd at 05/07/2019 | - | 30-35 | - | 15-20 | - | 50-55 |
| **Peter Kennedy**<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Corfforaethol | 100-105 | 95-100 | 50-55 | 50-55 | 150-155 | 150-155 |
| **Gawain Evans**<br>Cyfarwyddwr Cyllid | 105-110 | 100-105 | 55-60 | 45-50 | 165-170 | 150-155 |
| **Andrew Jeffreys**<br>Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru a Hyrwyddwr Cydraddoldeb o 01/09/2019 | 100-105 | 95-100 | 45-50 | 35-40 | 150-155 | 135-140 |
| **Glyn Jones**[7]<br>Prif Swyddog Digidol o 13/08/2020 | 55-60 | - | 60-65 | - | 120-125 | - |

| Cyfanswm taliadau cydnabyddiaeth – uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Uwch-swyddogion* | Cyflog 2020-21 £000 | Cyflog 2019-20 £000 | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) 2020-21 £000 | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf) 2019-20 £000 | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2020-21 £000 | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) 2019-20 £000 |
| Ann Keane[8] Cyfarwyddwr Anweithredol hyd at 06/03/2020 | - | 10-15 | - | - | - | 10-15 |
| Ellen Donovan Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 10-15 | - | - | 10-15 | 10-15 |
| Jeff Farrar[9] Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 10-15 | - | - | 10-15 | 10-15 |
| Gareth Lynn Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 10-15 | - | - | 10-15 | 10-15 |
| Meena Upadhyaya Cyfarwyddwr Anweithredol o 05/05/2020 | 10-15 | - | - | - | 10-15 | - |

* Mae uwch-swyddogion ar gyfer cyfanswm ffigur datgeliadau taliadau cydnabyddiaeth yn aelodau o Fwrdd Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Gweithredol.

1 Dewisodd Shan Morgan elwa ar ei phensiwn ar 31 Mawrth 2018. Yn unol â rheolau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, gostyngwyd ei chyflog o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Rhoddodd Shan Morgan y gorau i'w swydd fel Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ar 31 Hydref 2021. Wrth ymadael, cafodd daliad o £92,018 a oedd yn ymwneud â chyflog hyd at y dyddiad ymadael, tâl yn lle rhybudd, gwyliau blynyddol heb eu cymryd a thaliad allgontractiol sy'n cyfateb i £39,123 (yr oedd £30,289 ohono yn gronnus ar 31 Mawrth 2021 fel rhan o'r croniad Buddion Cyflogeion cyffredinol) mewn perthynas â dyddiau o ymddeoliad rhannol pan weithiodd Shan, heb dâl.
Fel y datgelwyd mewn cyfrifon blaenorol, roedd ei chyflog wedi'i ostwng ers 1 Ebrill 2018 pan ddewisodd elwa ar ei phensiwn. Fel arfer, os yw unigolyn yn dewis elwa ar ei bensiwn, caiff ei oriau eu lleihau i gyd-fynd â'r cyflog is. Yn yr achos hwn, roedd gofynion eithriadol y pandemig Covid yn golygu bod angen iddi weithio'n llawn amser ac ar benwythnosau ac nad oedd cyfle i gymryd dyddiau o ymddeoliad rhannol. Yr arfer disgwyliedig mewn sefyllfa o'r fath fyddai bod unigolion yn adennill y diwrnodau a weithiwyd drwy gymryd gwyliau blynyddol ychwanegol ar ôl i'r pwysau eithriadol ddod i ben. Yn achos yr Ysgrifennydd Parhaol, cafodd y dyddiad ymadael cytunwyd arno ei ddwyn ymlaen, a oedd yn golygu nad oedd modd cymryd dyddiau i ffwrdd yn lle'r rhai a gronnwyd.

2 Mae Andrew Goodall wedi'i secondio o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac mae wedi dewis peidio â chael ei gynnwys o dan drefniadau pensiwn y GIG. Penodwyd Andrew Goodall yn Ysgrifennydd Parhaol o 1 Tachwedd 2021.

3 Penodwyd Reg Kilpatrick yn Gyfarwyddwr Cyffredinol dros dro, Cydgysylltu Argyfwng Covid o 28 Medi 2020. Ei gyflog cymaradwy Cyfwerth ag Amser Llawn yw £120,000- £125,000 y flwyddyn. Yn ogystal, ar gyfer y cyfnod yr oedd Reg Kilpatrick yn Uwch-swyddog yn 2020-21, cafodd lwfans nad yw'n rhan o'i gydnabyddiaeth fel Uwch-swyddog a ddatgelwyd uchod ei ordalu mewn camgymeriad, ac mae wedi'i adennill.

4 Gwasanaethodd Jeff Godfrey fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol tan 7 Gorffennaf 2019 ond arhosodd ar y bwrdd tan 13 Medi 2019. Ei gyflog cymaradwy Cyfwerth ag Amser Llawn oedd £110,000-£115,000 y flwyddyn.

5 Penodwyd Helen Lentle yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol o 8 Gorffennaf 2019 a'i chyflog cymaradwy Cyfwerth ag Amser Llawn ar gyfer 2019-2020 oedd £90,000-£95,000 y flwyddyn. Oherwydd oedi wrth brosesu cynyddrannau cyflog, mae datgeliadau pensiwn yn seiliedig ar gyflog a delir yn ystod y flwyddyn yn hytrach na chyflog sy'n daladwy am flwyddyn.

6 Mae cyflog 2019-20 a ddatgelwyd ar gyfer Gillian Baranski yn ymwneud â'i rôl fel Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru. Cynhwysir datgeliad yn y tabl uwch-swyddogion uchod mewn perthynas â'i gwasanaeth gwirfoddol ychwanegol fel Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llywodraeth Cymru tan gyfarfod olaf y Bwrdd yn y swydd honno ar 5 Gorffennaf 2019. Rhoddodd Gillian y gorau i rôl Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar 31 Awst 2019.

7 Daeth swydd Glyn Jones fel Prif Swyddog Digidol yn rhan o'r Pwyllgor Gweithredol o 13 Awst 2020. Ei gyflog Cyfwerth ag Amser Llawn cymaradwy yw £90,000-£95,000.

8 8Mae cyflog Anne Keane ar gyfer 2019-20 yn cynnwys ffioedd ychwanegol o £564 am waith a gomisiynwyd o fewn Llywodraeth Cymru. Ymddiswyddodd Ann Keane o'r Bwrdd ar 6 Mawrth 2020.

9 Ymddiswyddodd Jeff Farrar o'r Bwrdd ar 15 Awst 2021.

| Manylion pensiwn – uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uwch-swyddogion** | **Pensiwn cronedig adeg oedran pensiwn fel yr oedd ar 31/03/21 a chyfandaliad cysylltiedig £000** | **Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn £000** | **CETV ar 31/3/21 £000** | **CETV ar 31/3/20 £000** | **Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000** |
| Shan Morgan<br>Yr Ysgrifennydd Parhaol | - | - | - | - | - |
| Andrew Goodall<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | - | - | - | - | - |
| Tracey Burke<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 35-40 | 2.5-5 | 558 | 449 | 31 |
| Des Clifford<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 35-40<br>ynghyd â chyfandaliad o 110-115 | 0-2.5<br>ynghyd â chyfandaliad o 5-7.5 | 889 | 812 | 44 |
| Andrew Slade<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 50-55<br>ynghyd â chyfandaliad o 100-105 | 2.5-5<br>ynghyd â chyfandaliad o 0-2.5 | 853 | 782 | 39 |
| Reg Kilpatrick<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol o 28/09/2020 | 45-50 ynghyd â chyfandaliad o 130-135 | 5-7.5 ynghyd â chyfandaliad o 12.5-15 | 1,065 | 920 | 115 |
| David Richards<br>Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Moeseg | 55-60<br>ynghyd â chyfandaliad o 175-180 | 0-2.5<br>ynghyd â chyfandaliad o 5-7.5 | 1,213 | 1,177 | 43 |
| Jeff Godfrey<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Aelod o'r Bwrdd tan 13/09/2019 | - | - | - | 1,181 | - |
| Helen Lentle[1]<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol o 08/07/2019<br>Aelod o'r Bwrdd o 13/09/2019 | 40-45<br>ynghyd â chyfandaliad o 85-90 | 2.5-5<br>ynghyd â chyfandaliad o 2.5-5 | 792 | 716 | 48 |
| Natalie Pearson<br>Pennaeth Strategaeth Adnoddau Dynol, Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu | 30-35<br>ynghyd â chyfandaliad o 85-90 | 2.5-5<br>ynghyd â chyfandaliad o 2.5-5 | 703 | 634 | 44 |
| Gillian Baranski<br>Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth tan 31/08/2019,<br>Aelod o'r Bwrdd tan 05/07/2019 | - | - | - | 586 | - |
| Peter Kennedy<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 35-40<br>ynghyd â chyfandaliad o 90-95 | 2.5-5<br>ynghyd â chyfandaliad o 0-2.5 | 783 | 715 | 39 |
| Gawain Evans<br>Cyfarwyddwr Cyllid | 45-50<br>ynghyd â chyfandaliad o 115-120 | 2.5-5<br>ynghyd â chyfandaliad o 0-2.5 | 1,000 | 922 | 43 |
| Andrew Jeffreys<br>Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru a Hyrwyddwr Cydraddoldeb o 01/09/2019 | 30-35<br>ynghyd â chyfandaliad o 55-60 | 2.5-5<br>ynghyd â chyfandaliad o 0-2.5 | 542 | 491 | 28 |
| Glyn Jones<br>Prif Swyddog Digidol o 13/08/2020 | 25-30 ynghyd â chyfandaliad o 50-55 | 2.5-5 ynghyd â chyfandaliad o 5-7.5 | 410 | 355 | 40 |

[1] Oherwydd oedi wrth brosesu cynyddrannau cyflog, mae datgeliadau pensiwn yn seiliedig ar gyflog a delir yn ystod y flwyddyn yn hytrach na chyflog sy'n daladwy am flwyddyn.

## Cofrestr Buddiannau

Cyhoeddir Cofrestr Buddiannau Llywodraeth Cymru sy'n datgelu buddiannau perthnasol uwch-swyddogion ar wefan Llywodraeth Cymru: llyw.cymru/uwch-swyddogion-cofrestr-o-fuddiannau

Mae'r datganiad o fuddiannau, nodi gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a rheoli unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei wneud yn unol â Chod y Gwasanaeth Sifil, Polisi Datgan Buddiannau Llywodraeth Cymru, telerau contractiol penodiadau Cyfarwyddwyr Anweithredol a Chylch Gorchwyl y Bwrdd. Ceir rhagor o wybodaeth am reoli buddiannau yn y Datganiad Llywodraethiant ar dudalennau 111-112.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; goramser; hawliau neilltuedig ar gyfer pwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfansau eraill i'r graddau eu bod yn destun treth y DU.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a wneir gan Lywodraeth Cymru ac eithrio'r Gweinidogion fel y nodir uchod.

Mae gan Uwch-weision Sifil o fewn Llywodraeth Cymru hawl gontractiol i gael eu hystyried am daliad amrywiol ar sail perfformiad. Mae unrhyw daliadau a wneir yn cael eu talu ar ddiwedd mis Gorffennaf bob blwyddyn, ond ni wnaed unrhyw daliadau. Rôl Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yr Uwch Wasanaeth Sifil yw gweithredu polisi tâl uwch-weision y DU a chymeradwyo unrhyw ddyraniadau, asesu'r cyfraniadau perthnasol a pherfformiad Uwch-weision Sifil yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn cynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol, un Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol y buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac y mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn eu trin fel enillion trethadwy, ac yn cael ei nodi i'r £100 agosaf. Aseswyd nad oedd unrhyw fuddion mewn nwyddau am y flwyddyn 2020-21.

## Lluosrifau tâl

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng taliadau cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yn eu sefydliad a thaliad cydnabyddiaeth canolrifol gweithlu'r sefydliad.

Tâl cydnabyddiaeth wedi'i fandio'r cyfarwyddwr a oedd yn derbyn y tâl uchaf yn Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol 2020-21 oedd £205,000-210,000 (2019-20: £200,000-205,000). Roedd hyn yn 5.5 gwaith (2019-20: 5.6) tâl cydnabyddiaeth canolrifol y gweithlu, sef £37,410 (2019-20: £36,500). Ar sail tâl cydnabyddiaeth wedi'i fandio yr Ysgrifennydd Parhaol y gymhareb yw 3.7 (2019-20: 3.6). Yn 2020-21 a 2019-20 ni chafodd unrhyw gyflogeion dâl cydnabyddiaeth yn uwch na'r cyfarwyddwr y talwyd y swm uchaf iddynt. Roedd y tâl cydnabyddiaeth yn amrywio o £20,000 i £25,000 i £205,000-£210,000 (2019-20: £ £15,000-20,000 to £200,000-205,000).

Mae cyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl ar sail perfformiad sydd heb ei gyfuno a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn gan gyflogwyr a gwerthoedd trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafedig buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond y gwasanaeth mewn swydd uwch sy'n destun datgelu.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd iddynt brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Cyfrifir y CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid yw'n rhoi ystyriaeth i unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir budd-daliadau pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

## Niferoedd a Chostau Staff

Nifer cyfartalog y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (gan gynnwys uwch-reolwyr a chynghorwyr arbennig) oedd:

| | Staff sydd wedi'u cyflogi'n barhaol | Staff Eraill | Cynghorwyr Arbennig | Cyfanswm 2020-21 | Cyfanswm 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **90,828** | **4,220** | **12** | **95,060** | **90,010** |
| O'r rhain: | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 5,087 | 322 | 12 | 5,421 | 5,317 |
| BILlau a chyrff y GIG | 84,513 | 3,898 | 0 | 88,411 | 83,717 |
| Is-gwmnïau | 1,228 | 0 | 0 | 1,228 | 976 |
| O gyfanswm Llywodraeth Cymru: | | | | | |
| Cyrff rheoleiddio a chyflawni | 720 | | | | |
| Tribiwnlysoedd | 28 | | | | |

**Cyfansoddiad staff Llywodraeth Cymru yn ôl rhyw (heb ei archwilio)**

| | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd | 56% | 44% |
| Yr Uwch Wasanaeth Sifil | 57% | 43% |
| Yr holl Staff | 41% | 59% |

Nod Llywodraeth Cymru oedd cael cydbwysedd rhwng y rhywiau o 50/50 yn yr Uwch Wasanaeth Sifil erbyn 2020. Yn anffodus, ni chafodd y targed ei fodloni ond gwelwyd cynnydd o 2% ers y flwyddyn flaenorol. Oherwydd y niferodd cymharol fach yn yr Uwch Wasanaeth Sifil, mae'r ffigur yn amrywio eithaf tipyn yn seiliedig ar hyd yn oed niferoedd bach yn ymuno neu'n ymadael.

Yng nghyd-destun y trosiant cyfyngedig, mae newid yn araf ac ni fu modd cyflawni'r targed. Mae canran y menywod ar lefel Dirprwy Gyfarwyddwr yn agosach at y targed, sef 45.8% ac o gofio dilyniant a throsiant rhagwelwyd mai ar lefel Dirprwy Gyfarwyddwr y byddai'r newid yn cael ei weld gyntaf. Hefyd, mae cynnydd da yn cael ei wneud ar raddau bwydo 6 (47.8%) a 7 (54.4%) islaw'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Mae gan ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2021-2026 dargedau newydd. Yn achos recriwtio allanol, ein nod yw y bydd mwy na 50% o'r bobl a gaiff eu penodi i'r Uwch Wasanaeth Sifil rhwng nawr a 2025 yn fenywod. Yn achos dilyniant mewnol, ein nod yw y bydd mwy na 50% o ddyrchafiadau i'r Uwch Wasanaeth Sifil yn fenywod.

**Costau staff**

| Llywodraeth Cymru | Staff sydd wedi'u cyflogi'n barhaol* £m | Arall Staff £m | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 Cyfanswm £m | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 236 | 12 | **248** | 233 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 26 | - | **26** | 25 |
| Costau Pensiwn Eraill | 67 | - | **67** | 62 |
| **Cyfanswm** | **329** | **12** | **341** | **320** |
| Adenillon o secondiadau | (2) | - | **(2)** | (2) |
| Costau staff net | 327 | 12 | **339** | 318 |
| **Wedi'u cyfuno** | | | | |
| Cyflogau | 3,831 | 291 | **4,122** | 3,605 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 364 | 4 | **368** | 337 |
| Costau Pensiwn Eraill | 666 | 3 | **669** | 617 |
| **Cyfanswm** | **4,861** | **298** | **5,159** | **4,559** |
| Adenillon o secondiadau | (2) | - | **(2)** | (2) |
| Costau staff net | 4,859 | 298 | **5,157** | 4,557 |

* Er ei fod wedi'i nodi mewn categori gwahanol o ran niferoedd staff, mae cyflog Cynghorwyr Arbennig, nawdd cymdeithasol a chostau pensiwn wedi'u cynnwys yn ffigurau costau'r Staff a Gyflogir yn Barhaol.

Mae cyflogau'n cynnwys cyflogau gros, y bonysau perfformio sy'n daladwy, hawliau neilltuedig i Bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw, a lwfansau'r swyddfa breifat.

Talwyd cyfanswm o £1,100,923 (2019-20 – £836,466)[61] i Gynghorwyr Arbennig am y flwyddyn, gan gynnwys pensiwn a chostau nawdd cymdeithasol, ac maent wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod. Roedd 14 o Gynghorwyr Arbennig yn gweithio yn ystod y cyfan neu ran o'r flwyddyn ariannol 2020-21, sy'n cyfateb i 12 cynghorydd arbennig cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd, fel y nodir uchod.

Cyhoeddir Cofrestr Buddiannau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynghorwyr Arbennig sy'n datgelu buddiannau perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru llyw.cymru/cynghorwyr-arbennig-cofrestr-o-fuddiannau

Mae'r datganiad o fuddiannau, nodi gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a rheoli unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei wneud yn unol â Chod y Gwasanaeth Sifil, Polisi Datganiad Buddiannau Llywodraeth Cymru a thelerau contractiol penodiadau Cynghorwyr Arbennig. Ceir rhagor o wybodaeth am reoli buddiannau yn y Datganiad Llywodraethiant ar dudalennau 111-112.

Mae costau nawdd cymdeithasol a phensiynau ar gyfer staff dros dro a staff ar secondiad o dan y ffigurau craidd ar gyfer staff eraill wedi cael eu cynnwys yn y cyflogau gan eu bod yn cael eu hanfonebu ar sail gros. Telir cyflogau  Gweinidogion Cymru gan Gomisiwn y Senedd ac fe'u hadlewyrchir yn y cyfrifon hynny. O ran nifer yr uwch-staff y mae eu cyflog yn uwch na £100k, roedd 50 o staff yr oedd eu cyflog yn uwch na £100k ar 31 Mawrth. O'r rhain, roedd 6 yn staff rhan-amser yr oedd eu henillion felly o dan y trothwy o £100k ac fe ymadawodd 4 ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn. Aeth y gyfradd darged ar gyfer lefel Cyfarwyddwr o fewn Llywodraeth Cymru dros £100,000 am y tro cyntaf yn 2020-21 (£100,820). cafwyd cynnydd o 2.5% yng nghyflogau Uwch-weision Sifil, yn unol â'r dyfarniad cyflog ar gyfer staff dirprwyedig.

## Pensiynau

Darperir buddion Pensiwn y Gwasanaeth Sifil trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil, sef Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill, neu'r cynllun **alpha**. O dan y cynllun hwnnw, darperir buddion ar sail enillion cyfartalog gyrfa, ac mae'r oed pensiwn arferol yn cyd-fynd ag oed pensiwn yr aelod o dan system Bensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed, os yw'n uwch). Mae pob gwas sifil a gafodd ei benodi ers y dyddiad hwnnw, yn ogystal â'r rhan fwyaf o weithwyr a oedd eisoes yn rhan o'r Gwasanaeth Sifil, bellach wedi ymuno â'r cynllun **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran. Mae tair ohonynt yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol yr aelod (**classic, premium neu classic plus**), a hynny'n gysylltiedig ag oed pensiwn arferol o 60. Mae'r adran arall yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan yr aelod (**nuvos**), a hynny'n gysylltiedig ag oed pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, ac mae costau'r buddion yn cael eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha** yn cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Mae aelodau o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi parhau i fod yn aelodau o'r PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd

61 Mae ffigur 2019-20 wedi'i ailddatgan oherwydd cywiriad a nodwyd yn y flwyddyn

a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i'r cynllun **alpha** rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Gan fod y Llywodraeth yn bwriadu dileu gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 i rai aelodau, disgwylir, maes o law, y gallai fod gan aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 hawl i gael buddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gall hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler tudalen 148). Bydd buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i'r cynllun **alpha** yn cael eu 'bancio'. O ran y rhai a gronnodd fuddion gynt fel aelodau o un o adrannau'r PCSPS a oedd yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, bydd y buddion hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael y cynllun **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn rhan o PCSPS neu'r cynllun **alpha** – fel y bo'n briodol. Lle mae gan swyddog fuddion PCSPS a buddion alpha, y ffigur a ddangosir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall yr aelodau sy'n ymuno o 1 Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partnership**).

Mae cyfraniadau gweithwyr cyflogedig yn seiliedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% i aelodau **classic premium, classic plus, nuvos** ac **alpha**. Mae buddion yn **classic** yn cronni ar y gyfradd o 1/80th o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ychwanegol, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i bensiwn cychwynnol tair blynedd yn daladwy adeg ymddeol. Mae buddion yn **classic** yn cronni ar y gyfradd o 1/60th o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig; hybrid yw **classic plus** i bob pwrpas gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo yn fras fel ar gyfer classic a buddion ar gyfer gwasanaeth o Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn achos **premium**. Yn **nuvos** mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn sydd wedi'i ennill gan yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn y cynllun hwnnw ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â'r ddeddfwriaeth ar y cynnydd mewn pensiynau. Mae buddion yn aplha'n cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio mai 2.3% yw'r gyfradd groniadol. Ym mhob achos gall yr aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn **partnership**. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol rhwng 8% ac 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod), i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o'r darparwr penodedig – Legal & General Mastertrust. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch.

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu os yw'n hŷn na hynny. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau'r cynlluniau **classic, premium a classic plus**, a 65 yw'r oedran ar gyfer aelodau'r cynllun **nuvos**, a naill ai 65 neu eu Hoedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau **alpha**, p'un bynnag sydd uchaf.

(Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** fel y bo'n briodol. Os oes gan swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddangosir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun. Dylid nodi, fodd bynnag, y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar oedrannau gwahanol.)

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

Mae gweithwyr Llywodraeth Cymru yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac eithrio nifer bach o staff sydd wedi dewis parhau i fod yn aelodau o gynlluniau eraill y sector cyhoeddus.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn 'Alpha' – yn gynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr ac felly ni all Llywodraeth Cymru nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiodd Actiwari'r Cynllun y cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet.

Ar gyfer 2020-21, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £58,960,519 yn daladwy i PCSPS/Alpha (2019-20: £55,974,742) yn ôl un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6 i 30.3 y cant (2019-20: 26.3 i 30.3) o enillion pensiynadwy yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu cost y buddion a gronnwyd yn ystod 2020-21 i gael eu talu pan fo'r aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn "partnership", sef pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol lle mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £244,428 (2019-20: £228,556) i'r darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8 o 14.75 y cant o enillion pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad cyfatebol i weithwyr hyd at 3 y cant o enillion. Yn ogystal â hyn, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £8,412, 0.5% (2019-20: £7,908 0.5%) o dâl pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu am y gost o ddarparu buddion cyfandaliadol yn y dyfodol os bydd gweithiwr yn marw yn y swydd neu'n ymddeol oherwydd salwch.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn "partnership" ar ddyddiad y fantolen (2019-20: ddim). Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y dyddiad hwnnw (2019-20:£ddim).

Ymddeolodd tri unigolyn (2019-20: pedwar) yn gynnar oherwydd salwch; cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol a gronnwyd yn y flwyddyn oedd £22,857 (2019-20: £1,446).

Dewisodd nifer bach o gyflogeion yr hen Awdurdod Datblygu gadw eu telerau ac amodau presennol a'u trefniadau pensiwn. Maent yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun a ariennir gan sawl cyflogwr yn darparu pensiwn a buddion cysylltiedig, sydd bellach yn cael ei gyfrifo ar sail cyfartaledd gyrfa yn hytrach nag ar sail cyflog terfynol. Mae asedau'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i asedau Llywodraeth Cymru a'u gweinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Rhoddir buddion ymddeol ychwanegol yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Leol (Iawndal am Ymddeol Cyn Pryd) 1982 a darperir y buddion hyn eu ar sail talu wrth fynd. Cynhwysir manylion Pensiynau Byrddau Iechyd Lleol yn eu cyfrifon.

# Adrodd ar gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau eraill – pecynnau ymadael

Nid oedd unrhyw gynlluniau hyblyg ar gyfer ymddeoliad cynnar, ymddeoliad cynnar cymeradwy nac ymadawiad cynnar yn 2020-21 na 2019-20 a dim ond ymadawiadau cynnar oedd yn bodoli. Ar gyfer pob achos ymadawiad gwirfoddol unigol, cyfrifir cyfnod ad-dalu, a bydd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol wedyn yn ei gymeradwyo.

Ar gyfer 2020-21 mae 8 (2019-20 13) o gyflogeion wedi ymadael neu gytuno i ymadael am resymau ymadawiad gwirfoddol neu am resymau eraill rhwng 31 Mawrth 2020 a 31 Mawrth 2021. Y taliadau iawndal y cytunwyd arnynt yw £314,590 (2019-20: £259,066).

Talwyd costau dileu swydd a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972, neu lle bo'n gymwys, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet ar Iawndal Effeithlonrwydd 2016. Pan fo'r adran wedi cytuno i ganiatáu ymddeoliadau cynnar, caiff y costau ychwanegol eu talu gan Lywodraeth Cymru, ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir caiff costau ymddeol oherwydd afiechyd gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y tabl.

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2020-21 | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| <£10,000 | - | 2 | 2 | 5 |
| £10,000-£25,000 | - | 2 | 2 | 4 |
| £25,000-£50,000 | - | 1 | 1 | 2 |
| £50,000-£100,000 | - | 3 | 3 | 2 |
| £100,000-£150,000 | - | - | - | - |
| £150,000-£200,000 | - | - | - | - |
| £200,000+ | - | - | - | - |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl math** | **-** | **8** | **8** | **13** |
| **Cyfanswm cost yr adnoddau £** | **-** | **314,590** | **314,590** | **259,066** |

Mae'r tabl uchod yn dangos cyfanswm cost y pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn 2020-21 (rhoddir ffigurau cymharol 2019-20 hefyd). Cyfanswm y costau ymadael a dalwyd yn ystod 2020-21, y flwyddyn ymadael, oedd £314,590 (2019-20 £5,829,912).

Mae'r costau yn y tabl yn nodi cyfanswm y gost i'r sefydliad yn dilyn unrhyw ymadawiad. Er hynny, mewn rhai achosion gallai rhai unigolion, wrth ymadael, fod wedi defnyddio eu taliadau iawndal i ddarparu mynediad cynnar at bensiwn heb ei leihau, neu i brynu pensiwn wedi'i gynyddu.

## Absenoldeb oherwydd salwch (heb ei archwilio)

Mae'r mesurau a gyflwynwyd yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, megis y Strategaeth Iechyd a Llesiant a'r Awr Lesiant, wedi arwain at ostyngiad sylweddol yng nghyfanswm nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch, gyda gostyngiad dilynol o 13% yn y diwrnodau gwaith cyfartalog a gollwyd.

Mae nifer y staff nad ydynt yn cymryd absenoldeb oherwydd salwch yn parhau i gynyddu o ganlyniad i'n hymyriadau cadarnhaol. Mae'r cynnydd yn nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb tymor byr yn atgyfnerthu effaith gadarnhaol y camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag absenoldeb hirdymor gan fod staff yn dychwelyd i'r gwaith yn gynharach nag y gallent fod wedi'i wneud o'r blaen. Mae hyn yn adlewyrchu'r ystod o gymorth llesiant sydd wedi'i roi ar waith ac sy'n parhau i gael ei ddatblygu mewn ymateb i'r pandemig, ac anghenion staff. Mae'r gallu i weithio o bell hefyd yn caniatáu i staff weithio gartref os nad ydynt yn teimlo'n ddigon da i deithio i leoliad swyddfa, gan osgoi'r angen i gymryd absenoldeb oherwydd salwch.

Cymharol ychydig o aelodau staff yn unig yn Llywodraeth Cymru sydd wedi dal feirws COVID-19 ac felly mae'r effaith ar lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn wedi bod yn fach iawn. Mae llwyddiant ein polisïau gweithio'n glyfar wedi galluogi'r mwyafrif helaeth o staff i weithio'n ddiogel o gartref, gan gynnwys y rhai sy'n hunanynysu, ac mae wedi arwain at lai o absenoldeb gan fod staff wedi cael llai o gyswllt ag eraill.

Disgwylir i'n hymgyrch barhaus i gefnogi rheolwyr a staff drwy'r cylch absenoldeb a rhoi'r cyngor a'r offer angenrheidiol iddynt i'w helpu i ddychwelyd i'r gwaith arwain at ostyngiadau yn absenoldeb tymor hir a thymor byr yn y flwyddyn i ddod. Rydym hefyd yn sicrhau bod staff yn cael y cymorth, yr offer a'r adnoddau priodol i'w galluogi i weithio mewn ffordd gyfunol boed o'r cartref, y swyddfa neu weithio'n glyfar, y disgwylir iddo hefyd gael effaith gadarnhaol ar lefelau absenoldeb.

| **Absenoldeb oherwydd salwch yn Llywodraeth Cymru** | **2020-21** | **2019-20** | **2018-19** | **2017-18** |
|---|---|---|---|---|
| Dyddiau a gollwyd (tymor byr) | 12,103 | 18,321 | 16,545 | 17,818 |
| Dyddiau a gollwyd (tymor hir) | 14,315 | 17,291 | 23,840 | 22,627 |
| **Cyfanswm y dyddiau a gollwyd (dros gyfnod o 12 mis)** | **26,418** | **35,612** | **40,385** | **40,445** |
| Cyfanswm y blynyddoedd staff | 5,235 | 5,186 | 5,098 | 5,035 |
| Cyfanswm y staff cyflogedig yn ystod y cyfnod (fesul pen) | 5,861 | 5,920 | 5,770 | 5,682 |
| Cyfanswm y staff cyflogedig heb absenoldeb yn ystod y cyfnod (fesul pen) | 3,979 | 2,977 | 2,826 | 2,490 |
| % y staff heb absenoldeb salwch | 68% | 50% | 49% | 44% |
| Nifer cyfartalog y dyddiau a gollwyd | 5.1 | 6.87 | 7.9 | 8 |

## Trosiant Staff (heb ei archwilio)

Cyflwynodd y Llawlyfr Adrodd Ariannol ar gyfer 2020-21 ofyniad datgelu newydd ar gyfer datgeliadau ‘Trosiant Staff’. Mae’r cyfrifiad o’r datgeliad yn seiliedig ar ganllawiau gan Swyddfa’r Cabinet.

Cyfrifir y ffigur trosiant fel nifer y rhai sy’n gadael o fewn y cyfnod hwnnw wedi’i rannu â nifer cyfartalog y staff mewn-swydd dros y cyfnod ac ar gyfer 2020-21 mae’n 3.42% ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Mae staff yn cael eu cynnwys fel rhai sy’n gadael os ydynt yn gadael Llywodraeth Cymru heb unrhyw fwriad i ddychwelyd e.e. ymddeoliad, diswyddo cynnar. Nid yw staff ar secondiadau neu fenthyciadau y tu allan i Lywodraeth Cymru wedi’u cynnwys yn nifer cyfartalog y staff yn eu swyddi am yr amser y maent ar fenthyg neu secondiad.

# Crynodeb o’r Alldro Adnoddau

| CWMPAS | Cyllideb 2020-21 Gwariant net £m | Alldro 2020-21 Gwariant net £m | Alldro o’i gymharu ag Amrywiant yn y Gyllideb £m |
|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 10,467 | 10,166 | 301 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 5,945 | 5,912 | 33 |
| Addysg | 3,575 | 3,361 | 214 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 4,195 | 4,248 | (53) |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 453 | 447 | 6 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 640 | 640 | 0 |
| Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg | 414 | 389 | 25 |
| **Cyfanswm y gofynion Adnoddau a Chyfalaf** | **25,689** | **25,163** | **526** |
| **Incwm** | **979** | **819** | **160** |
| **Gwariant gros** | **26,668** | **25,982** | **686** |

# Esboniad o Amrywiannau

Fe wnaeth yr ansicrwydd a achoswyd gan y pandemig achosi lefelau anarferol o uchel o ansefydlogrwydd o fewn MEGs yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad, rheolwyd tanwariant o fewn MEGs fel rhan o ddull cyfunol o reoli sefyllfa gyffredinol cyllideb Llywodraeth Cymru fel y cytunwyd gan y Senedd.

## Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Tanwariant o £301m

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £137m, tanwariant DEL Cyfalaf o £1m, DEL Adnoddau Anghyllidol o £5m a thanwariant Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) o £158m.

Mae tanwariant y DEL Refeniw yn cynnwys yn bennaf danwariant o £115m ar gyllid COVID-19 a ddyrannwyd. Mae hyn yn adlewyrchu cyfnod heriol iawn o ran rheoli'r gyllideb. Roedd lefel a chyflymder ymateb y Grŵp i'r pandemig yn aml yn cael ei bennu gan amgylchiadau newidiol y pandemig, a chan ffactorau cyfnewidiol fel pris ac argaeledd offer, defnyddiau traul a PPE. Y prif reswm dros y tanwariant yw bod costau gwirioneddol ar gyfer meysydd a arweinir gan y galw wedi digwydd bod ar ben isaf yr ystod o gostau amcangyfrifedig, yn hytrach na bod gweithgareddau heb gael eu cyflawni. Er enghraifft, roedd PPE a Phrofi ac Olrhain, a oedd yn hynod o sensitif i'r gost a'r galw, gyda'i gilydd yn golygu tanwariant o £259m. Mae'r tanwariant net o £115m yn adlewyrchu rheolaeth weithredol ar y gyllideb ar draws cynlluniau mewn ffordd hyblyg yn ystod y flwyddyn. Wrth i'r disgwyliad o ran y gwarged hwn godi, rheolwyd y sefyllfa fel rhan o ddull gweithredu ar y cyd ar draws Llywodraeth Cymru, gyda gwariant ychwanegol wedi'i gynllunio yn cael ei gytuno mewn Grwpiau Gwariant eraill.

Mae alldro'r DEL Refeniw yn cynnwys cyfanswm diffyg y GIG o £47.9m yn ystod y flwyddyn (sy'n deillio o diffyg dau Fwrdd Iechyd Lleol) sydd wedi'i wrthbwyso gan ddarpariaeth gynlluniedig o fewn y MEG ar gyfer diffyg y GIG yn 2020-21 a oedd yn cyd-fynd yn fras â'r disgwyliadau.

Mae DEL Adnoddau Anghyllidol yn ariannu dibrisiant ar gyfer y GIG yn bennaf. Roedd y tanwariant yn £5m, sy'n adlewyrchu effeithiau COVID-19 ar gynlluniau sy'n mynd rhagddynt ac ailasesiad technegol yn ymwneud ag amhariad disgwyliedig na chododd.

Mae'r tanwariant AME o £158m yn ymwneud yn bennaf ag amrywiannau darpariaeth y GIG rhwng y gofyniad a ragwelir a'r gofyniad gwirioneddol. Mae'r darpariaethau hyn gan gynnwys esgeulustod clinigol wedi'u cynnwys yn AME gan eu bod yn cael eu gyrru gan y galw ac yn amrywio'n fawr. Mae gweddill y tanwariant AME yn ymwneud â'r amhariadau a ragwelwyd ar gyfer cynlluniau adeiladu cyfalaf y GIG, a gafodd eu heffeithio gan lithriadau prosiect ac amrywiannau rhwng y prisiadau a ragwelwyd a'r prisiadau gwirioneddol ar gwblhau'r cynllun.

## Tai a Llywodraeth Leol – Tanwariant o £33m

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £80m, gorwariant DEL Cyfalaf o £82m a thanwariant AME o £30m.

Mae'r tanwariant DEL Refeniw yn ymwneud yn bennaf â £69m yn achos Cronfa Galedi'r Awdurdodau Lleol, sy'n cael ei harwain gan y galw a £21m yn achos y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Cenedlaethol. Gwnaed dyraniadau i'r Gronfa Caledi yn y drydedd gyllideb atodol yn seiliedig ar gynllunio senarios ar gyfer gweithgarwch posibl hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Oherwydd amgylchedd ansicr y pandemig, cyllidebwyd ar gyfer y gallu mwyaf i ddarparu cymorth. Roedd y galw gwirioneddol yn is na'r disgwyl, gan greu tanwariant mewn rhai rhannau o'r Gronfa Galedi. Elwodd y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig tua diwedd y flwyddyn ariannol pan ddychwelodd nifer o gwmnïau mawr ryddhad yr oeddent wedi'i gael i Lywodraeth Cymru. Cymerwyd camau o fewn y MEG i reoli tanwariant sy'n codi, gan gynnwys dyraniad o £12m i'r awdurdodau lleol i gefnogi gwaith cynnal a chadw ffyrdd.

Mae'r gorwariant DEL Cyfalaf yn deillio'n bennaf o gamau gweithredu cynlluniedig i gynyddu gwariant ar Gam 3 o gynllun Cymorth i Brynu Cymru o £95.6m i gyflymu'r broses o gyflawni Cam 3.

Cododd tanwariant Gwariant a Reolir yn Flynyddol o £30m oherwydd addasiadau Gwerth Teg Cymorth i Brynu – Cymru. Mae'r symudiadau Gwerth Teg ar gynllun Cymorth i Brynu – Cymru wedi'u cynnwys yn AME gan fod sensitifrwydd i amodau prisio'r farchnad sydd y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru yn dylanwadu arnynt. Arweiniodd y prisiad ar gyfer 2020-21 at gynnydd sylweddol i'r llyfr benthyciadau, na ellid ei rag-weld adeg y drydedd gyllideb atodol, gan arwain at yr amrywiant.

## Addysg – Tanwariant o £214m

Mae'r tanwariant yn cynnwys gorwariant DEL Refeniw o £50m a gorwariant DEL Cyfalaf o £11m a gafodd eu gwrthbwyso gan danwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £269m a thanwariant AME o £8m.

Mae'r gorwariant DEL Refeniw o £50m yn ymwneud â chamau gweithredu cynlluniedig i ddarparu cyllid ychwanegol o £33m i gefnogi addysgu a dysgu ym maes adfer wedi'r pandemig ar draws y system addysg, £45m ar gyfer cynnal refeniw ysgolion a £6.5m ar gyfer y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu. Cafodd y rhain eu gwrthbwyso'n rhannol gan danwariant a oedd yn codi lle na ddefnyddiwyd cynlluniau wrth gefn.

Mae'r gorwariant Cyfalaf o £11m yn ymwneud yn bennaf â chamau gweithredu arfaethedig i gyflwyno prosiectau arloesi o 2021-22. Mae'r rhan fwyaf o danwariant y DEL Adnoddau Anghyllidol o £269m yn danwariant mewn perthynas â benthyciadau myfyrwyr, ac mae ffactorau economaidd yn effeithio'n sylweddol ar brisiad y portffolio. Roedd cyllidebau'n cynnwys cynlluniau wrth gefn sy'n gyson â gweinyddiaethau eraill y DU mewn perthynas ag effeithiau economaidd posibl COVID-19 ar y model prisio. Pan wnaed y prisiad, nid oedd angen y cynllun wrth gefn hwn.

Mae'r tanwariant o £8m yn achos Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) hefyd yn gysylltiedig â'r portffolio Benthyciadau Myfyrwyr ac mae'n cael ei sbarduno gan y galw yn seiliedig ar faterion benthyciadau. Mae'r tanwariant yn ymwneud â swm is o faterion benthyciad na'r disgwyl.

## Yr Economi a Thrafnidiaeth – Gorwariant o £53m

Mae'r gorwariant yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £42m, gorwariant DEL Cyfalaf o £56m a gorwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £40m.

Gellir priodoli tanwariant y DEL Refeniw i raddau helaeth i driniaeth gyllidebol dechnegol ar gyfer yr amhariad o £43m yn achos y buddsoddiad ym Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig sy'n cael ei sgorio i DEL Adnoddau Anariannol ac nid DEL Refeniw fel y disgwylid yn wreiddiol. Cododd y gorwariant Cyfalaf o £56m yn bennaf o wariant ychwanegol a gynlluniwyd ar gyfleoedd prosiect strategol gyda'r awdurdodau lleol i gefnogi gweithgarwch rheilffyrdd ac adfywio, wedi'i wrthbwyso gan rywfaint o alw llai am gymorth busnes cyfalaf ac effaith cyfyngiadau'r pandemig ar ddarparu Trafnidiaeth Cymru a chynlluniau teithio cynaliadwy.

Gellir priodoli'r DEL Adnoddau Anghyllidol o £40m i raddau helaeth i'r un driniaeth gyllidebol dechnegol ar gyfer amhariadau sy'n effeithio ar alldro'r DEL Refeniw, wedi'i wrthbwyso gan amrywiant bach mewn taliadau dibrisiant.

## Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu – Tanwariant o £6m

Mae tanwariant y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn deillio'n bennaf o danwariant o £2m ar DEL Adnoddau Anghyllidol a thanwariant o £4m ar Wariant a Reolir yn Flynyddol.

Mae adnoddau anghyllidol y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dibrisiant ystad Llywodraeth Cymru. Mae'r amrywiant o £2m wedi codi oherwydd gwahaniaethau yn y taliadau blynyddol i'r rhagolwg ar ôl i fynegeion eiddo gael eu cymhwyso, sy'n cael eu gyrru gan ffactorau'r farchnad a ffactorau economaidd.

Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn y MEG yn cynnwys newidiadau prisio mewn rhwymedigaethau pensiwn gan eu bod yn destun prisiad actiwaraidd cymhleth bob blwyddyn a gallant fod yn anwadal. Mae'r amrywiant o £4m yn deillio o wahaniaethau rhwng prisiadau cynllun pensiwn actiwaraidd a ragwelir a'r hyn a ddarperir ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

## Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg – Tanwariant o £25m

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £6m, tanwariant DEL Cyfalaf o £1m, DEL Adnoddau Anghyllidol o £2m ac AME o £16m.

Mae tanwariant y DEL Refeniw yn adlewyrchu effaith y pandemig a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar ohirio gweithgarwch yn y portffolio sy'n ymwneud â digwyddiadau, twristiaeth ac ymgyrchoedd yn y gweithle megis Pwysau Iach: Cymru Iach. Mae hefyd yn cynnwys addasiad cyfrifyddu o £3.5m ar gyfer gweithgareddau cyflenwi cyrff a noddir gan Chwaraeon Cymru.

Mae tanwariant cyfalaf o £1m yn ymwneud yn bennaf ag amrywiannau bach ar raglenni a arweinir gan y galw ac sy'n codi mewn cyrff a noddir.

Cododd tanwariant Adnoddau Anghyllidol o £2m yn bennaf oherwydd oedi yng ngwaith cadwraeth CADW a phrosiectau mawr o ganlyniad i gyfyngiadau'r pandemig.

Mae tanwariant Gwariant a Reolir yn Flynyddol o £16m yn deillio'n bennaf o amrywiannau mewn prisiadau pensiwn ar gyfer rhwymedigaethau pensiwn mewn cyrff a noddir gan gynnwys Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac addasiadau cysylltiedig i alinio'r gyllideb ar gyfer cyrff a noddir.

### Incwm £160m o dan y gyllideb

Mae'r rhan fwyaf o'r amrywiant incwm i'r gyllideb yn gysylltiedig â derbyniadau'r UE. Mae amseru derbyniadau o'r UE ar raglenni aml-flwyddyn yn gwneud yr alldro'n anodd ei rag-weld. Mae'r cyllidebau'n cael eu pennu, felly, i sicrhau eu bod yn darparu mwy na digon o sicrwydd mewn unrhyw flwyddyn. Gallai methu â gwneud hynny arwain at golli cyllid i Gymru.

## Adroddiad Llywodraeth Cymru ar Alldro

Mae'r Crynodeb o'r Alldro Adnoddau yn nodi alldro Llywodraeth Cymru yn erbyn y cyfansymiau rheoli a gymeradwywyd yng nghynnig y Drydedd Gyllideb Atodol ar gyfer 2020-21. Fel y nodwyd ar dudalennau 36-37, darperir adroddiad manylach ar alldro terfynol yn erbyn y rheolaethau is sy'n cael eu gweithredu a'u gorfodi gan Drysorlys EM a balans Cronfa Wrth Gefn Cymru gan gynnwys cario ymlaen o alldro DEL Cymru yn flynyddol ar ôl i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd gyhoeddi Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru i Bwyllgor Cyllid y Senedd a'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.
llyw.cymru/cyllid-llywodraeth

# Rhestr o eirfa’r gyllideb

**Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys Ei Mawrhydi mewn Adolygiadau o Wariant. Mae’r DEL wedi’i rannu’n ddosbarthiadau gan gynnwys y rhai isod.

**DEL Adnoddau Cyllidol (Refeniw):** Mae’r gyllideb DEL Adnoddau Cyllidol yn sgorio’r rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran ac mae’n cynnwys costau staff. grantiau a threuliau eraill.

**DEL Cyfalaf:** Mae cyllidebau cyfalaf yn cwmpasu gwariant sydd, yn bennaf, yn arwain at ased ffisegol naill ai ar fantolen Llywodraeth Cymru neu ar fantolen trydydd parti.

**DEL Adnoddau Anghyllidol:** Mae Cyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol yn sgorio gwariant cyfredol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rhai amhariadau a dibrisiant. Mae’r cyllidebau hyn wedi’u clustnodi ac ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant DEL Adnoddau Cyllidol.

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** Mae’r cyllidebau hyn yn ymdrin â gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlflwyddyn yn yr un ffordd â DEL. Maent felly’n cael eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys Ei Mawrhydi. Mae AME fel rheol yn cynnwys rhaglenni sy’n fawr, yn anwadal a/neu’n ymateb i’r galw.

# Nodiadau

| Arian a dynnwyd o Gronfa Gyfunol Cymru | Alldro 2020-21 £m | Alldro 2019-20 £m |
|---|---|---|
| Awdurdodwyd i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru | 23,954 | 17,311 |
| Cyllid a dynnir i lawr | (23,397) | (16,901) |
| Cyllid heb ei dynnu i lawr | 557 | 410 |

| Cysoni alldro a'r CSoCNE | Alldro 2020-21 £m | Alldro 2019-20 £m |
|---|---|---|
| **Alldro Adnoddau Net** | **25,163** | **18,113** |
| Llai: Addasiadau i gyfalaf a benthyciadau | (2,596) | (2,225) |
| Llai: Addasiad Cyfuno | (105) | 15 |
| Plws: Addasiad NDR | (2) | 29 |
| Plws: Addasiadau eraill | (59) | 9 |
| **Gwariant yn ôl y CSoCNE** | **22,401** | **15,941** |

Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau yn cael ei lunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu – sy'n debyg i IFRS ond yn wahanol iddo. Felly, mae'r cysoniad hwn yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng yr Alldro Adnoddau a'r gwariant gweithredu Net Cyfunol, gan gysylltu'r Alldro Adnoddau â'r datganiadau ariannol.

Mae addasiadau Cyfalaf a Benthyciadau yn tynnu o'r Alldro Adnoddau drafodiadau adnoddau cyfalaf sy'n deillio o'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol nad ydynt yn mynd drwy'r Datganiad Cyfunol o Wariant Net.

Mae addasiadau cydgrynhoi yn adlewyrchu camalinio rhwng cyllidebu a'r ymdriniaeth yn y cyfrifon o drafodiadau penodol ar gyfer endidau yn y ffin gydgrynhoi.

Mae addasiadau eraill yn ymwneud yn bennaf â thrafodiadau sy'n cael eu trin yn wahanol rhwng y fframwaith cyllidebu a'r cyfrifon.

| Cysoni adnoddau i'r gofyniad arian parod | Cyllideb 2020-21 £m | Alldro 2020-21 £m | Alldro o'i gymharu â'r Gyllideb £m | Alldro wedi'i ailddatgan* 2019-20 £m |
|---|---|---|---|---|
| **Alldro adnoddau net** | **25,689** | **25,163** | **526** | **18,113** |
| Llai: Cyrff a ddynodir o dan a126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru – trafodiadau adnoddau yn unig | | (714) | 714 | (408) |
| Llai: Trafodiadau nad ydynt yn arian parod | | | | |
| Dibrisiant | (586) | (241) | (345) | (224) |
| Amhariadau ac addasiadau gwerth teg | (960) | (597) | (363) | (266) |
| Symudiadau mewn darpariaethau | (189) | (55) | (134) | (71) |
| Llai: Symudiadau mewn balansau gweithio | | (591) | 591 | (183) |
| Arall | | 21 | (21) | (33) |
| **Gofyniad arian parod net** | **23,954** | **22,986** | **968** | **16,928** |

Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau yn cael ei lunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu ar sail gwariant adnoddau, yn hytrach nag arian parod. Mae'r cysoniad hwn yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng yr Alldro Adnoddau i'r gofyniad arian parod net.

* Wedi'i ailddatgan i ddiwygio'r modd y cyflwynir eitemau cysoni.

**Dr Andrew Goodall CBE**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu**
4 Awst 2022

# Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Barn amodol ar ddatganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Llywodraeth Cymru a'r Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lif Arian Parod, Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu sylweddol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac a addaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM.

Rwyf hefyd wedi archwilio'r Datganiad Alldro Adnoddau a'r nodiadau cysylltiedig, y Datgeliadau Atebolrwydd a'r wybodaeth arall yn yr Adroddiad Atebolrwydd (tudalennau 99-170) a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel un sydd wedi'i archwilio.

Yn fy marn i, ac eithrio effeithiau ac effeithiau posibl y materion a ddisgrifir yn yr adran 'Sail ar gyfer barn amodol ar wir a theg' fy adroddiad, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr Llywodraeth Cymru a materion y Grŵp ar 31 Mawrth 2021 ac o'i ofyniad arian parod net, alldro adnoddau net a chost gweithredu net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac a addaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Sail ar gyfer barn wir a theg amodol

**Effeithiau posibl taliad a wnaed i'r cyn Ysgrifennydd Parhaol**

Ym mis Hydref 2021, gwnaeth Llywodraeth Cymru daliad o £92,018 i gyn Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Datgelodd Llywodraeth Cymru yn yr Adroddiad Taliadau a Staff mai'r cyflog oedd hyn i ddyddiad gadael, taliad yn lle rhybudd, gwyliau blynyddol heb ei oddiweddyd a thaliad cytundebol ychwanegol o £39,123 (gan gynnwys swm o £30,289 y mae Llywodraeth Cymru yn ei nodi sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol 2020-21).

Nid wyf wedi gallu cael digon o dystiolaeth archwilio priodol am drefniadau gwaith y cyn Ysgrifennydd Parhaol o fis Ebrill 2018 ac o ganlyniad a oedd gan y cyn Ysgrifennydd Parhaol hawl i gael taliad o £39,123. Nid wyf wedi gallu cadarnhau:

- ar ba sail y gwnaed y taliad;
- sut y cyfrifwyd y taliad;
- a oedd rhwymedigaeth ar Lywodraeth Cymru i wneud y taliad; ac
- a yw wedi'i gynnwys, neu a ddylai gael ei gynnwys, yn natganiadau ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21.

O ganlyniad, ni allaf benderfynu a yw'r gwariant yn y datganiadau ariannol yn sylweddol gywir.

**Effeithiau costau a hepgorwyd sy'n deillio o Gyfarwyddyd y Gweinidog ar dreth bensiwn uwch glinigwyr**

Yn fy marn i, dylai'r gost amcangyfrifedig sy'n deillio o Gyfarwyddyd y Gweinidog dyddiedig 18 Rhagfyr 2019 ar bensiynau uwch glinigwyr fod wedi'i hadlewyrchu fel darpariaeth a gwariant yn natganiadau ariannol 2020-21. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y gost hon ac o ganlyniad, mae darpariaethau a gwariant yn cael eu tanddatgan o £21.5 miliwn.

**Effeithiau fy nghymhwyster blwyddyn flaenorol ar ddatganiadau ariannol 2020-21**

Yn fy marn i, roedd y cyhoeddiadau a'r camau a gymerwyd cyn 31 Mawrth 2020 mewn ymateb i bandemig Covid-19 i sicrhau bod arian parod yn cael ei dalu i fusnesau cyn gynted â phosibl yn creu rhwymedigaeth adeiladol o dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 37, Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Wrth Gefn, a dylai'r costau cysylltiedig fod wedi'u cynnwys yn natganiadau ariannol 2019-20. Ni chynhwysodd Llywodraeth Cymru y costau hyn yn natganiadau ariannol 2019-20 ac o ganlyniad fe wnes i amodi fy marn archwilio ar ddatganiadau ariannol 2019-20. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys £730.4 miliwn o'r costau hyn yn anghywir yn ei datganiadau ariannol ar gyfer 2020-21 gyda'r canlyniad bod ei gwariant yn ystod y flwyddyn yn cael ei orbwysleisio gan y swm hwn.

Ceir rhagor o fanylion yn fy Adroddiad ar dudalennau 178 i 182.

## Barn amodol ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ac eithrio effeithiau posibl y mater a ddisgrifir yn yr adran 'Sail ar gyfer barn amodol ar reoleidd-dra' yn fy adroddiad, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Sail ar gyfer barn amodol ar reoleidd-dra

**Effeithiau posibl taliad a wnaed i'r cyn Ysgrifennydd Parhaol**

Nid wyf wedi gallu cael digon o dystiolaeth archwilio am drefniadau gwaith y cyn Ysgrifennydd Parhaol o fis Ebrill 2018 ac o ganlyniad a oedd gan y cyn Ysgrifennydd Parhaol hawl i gael y taliad y cyfeirir ato yn yr adran 'Sail ar gyfer barn wir a theg amodol (effeithiau posibl taliad a wnaed i'r cyn Ysgrifennydd Parhaol) yn fy adroddiad.

Ni chadwodd Llywodraeth Cymru gofnodion cyfoes o'i rhesymau dros wneud y taliad, y rhesymeg dros y swm a dalwyd na thystiolaeth o bwy a awdurdododd y taliad. Felly, nid wyf wedi gallu bodloni fy hun bod y taliad wedi'i awdurdodi'n briodol yn unol â fframwaith yr awdurdodau sy'n llywodraethu'r gwariant ac a dynnwyd y gwariant at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd.

Ceir rhagor o fanylion yn fy Adroddiad ar dudalennau 178 i 182.

## Sail y barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y Swyddog Cyfrifyddu mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Materion eraill

Rwy'n tynnu sylw at y datgeliadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu ynghylch taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol. Yn fy marn i nid yw rhannau o'r datgeliadau hyn yn gyson â'r wybodaeth yr wyf wedi'i hennill yn ystod fy archwiliad.

Rwyf hefyd yn tynnu sylw at ddatgeliadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu ynghylch y lefel amcangyfrifedig o dwyll a gwall mewn grantiau busnes.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad a archwilir ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Nid yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddir i Gyfoeth Naturiol Cymru yn nodi cynnwys a ffurf y wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a gyflawnais, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi sôn am y ffaith honno.

## Adroddiad ynghylch gofynion eraill

**Barn ar faterion eraill**

Gan nad yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddir i Lywodraeth Cymru yn nodi cynnwys a ffurf y wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, ni allaf gadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol (tudalennau 1-98) a'r Adroddiad Atebolrwydd (tudalennau 99-170) o'r Cyfrifon Cyfunol wedi eu paratoi yn unol â'r canllawiau.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yng nghwrs fy archwiliad, ac eithrio effeithiau ac effeithiau posibl y materion a ddisgrifir yn yr adrannau 'Sail ar gyfer barn wir a theg amodol' a 'Sail i farn reolaidd-dra amodol' fy adroddiad a'r Mater Arall ynghylch y datgeliadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu ynghylch taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol, mae'r wybodaeth na archwiliwyd yn yr Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad Atebolrwydd y Cyfrifon Cyfunol yn gyson â'r datganiadau ariannol a'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad.

Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol ar gyfer Adroddiad Ar Gydnabyddiaeth a Staff, mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi adroddiad o'r fath. Fel y nodwyd yn yr adran 'Sail ar gyfer gwir farn amodol a theg' yn fy adroddiad, nid wyf wedi gallu cael digon o dystiolaeth briodol am drefniadau gweithio'r cyn Ysgrifennydd Parhaol ac felly nid wyf wedi gallu llunio barn ynghylch a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff y mae'n ofynnol ei harchwilio fel arfer wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chanllawiau Trysorlys EM.

**Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad**

Ac eithrio effeithiau ac effeithiau posibl y materion a ddisgrifir yn yr adrannau 'Sail ar gyfer barn wir a theg amodol' a 'Sail ar gyfer barn amodol ar reoleidd-dra' yn fy adroddiad, a'r Mater Arall ynghylch y datgeliadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu ynghylch taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol, yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiad Atebolrwydd y Cyfrifon Cyfunol.

O ran y materion y cyfeirir atynt yn unig yn yr adrannau 'Sail ar gyfer barn wir a theg amodol' a 'Sail i farn reolaidd-dra amodol' fy adroddiad, sy'n ymwneud ag effeithiau posibl taliad a wnaed i'r cyn Ysgrifennydd Parhaol:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i at ddibenion fy archwiliad;
- nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw;
- nid wyf wedi gallu dod i'r casgliad bod y datganiadau ariannol, y Datgeliadau Atebolrwydd archwiliedig a'r rhan archwiliedig o'r Adroddiad Ar Gydnabyddiaeth a Staff yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni ac yn berthnasol gywir; ac
- nid wyf wedi gallu ffurfio barn archwilio ynghylch a ddatgelwyd gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EM ynghylch tâl a thrafodion eraill.

## Cyfrifoldebau

**Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â chyfarwyddiadau Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2006 a Gweinidogion Cymru a wnaed yno, i fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg ac am y fath reolaeth fewnol y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir bod hynny'n amhriodol.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, ar faterion sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac os oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; ac
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried, gan weithredu fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol:
  - Diystyru rheolaeth sy'n cael ei hystyried yn risg sylweddol ym mhob corff a archwilir;
  - Gwariant ychwanegol yn 2020-21 i ddelio â phandemig COVID-19.
- Chael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Llywodraeth Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi rheolwyr am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau perthnasol eraill; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol; a
- phrofion sylweddol i fynd i'r afael â'r risg o dwyll mewn gwariant ychwanegol i ddelio â phandemig COVID-19.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i'r tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn effeithio ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Llywodraeth Cymru, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

**Cyfrifoldebau rheoleidd-dra**

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra y trafodiadau ariannol.

Mae'n ofynnol imi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol imi fod y gwariant a'r incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli nhw.

## Adroddiad

Mae fy Adroddiad ynghylch tystiolaeth annigonol parthed taliad i gyn Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru; sylwebaeth yn y Datganiad Llywodraethu ynghylch y taliad hwn; effeithiau fy marn amodol y flwyddyn flaenorol ar grantiau busnes; goblygiadau'r cyfarwyddyd gweinidogol ar bensiynau a datgeliadau uwch glinigwyr; a datgeliadau yn y Datganiad Llywodraethu ar lefel amcangyfrifedig y twyll a'r gwallau mewn grantiau busnes ar dudalennau 178 i 182.

*Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn ar eu ffurf wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw hwn. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hwn, ac nid Archwilydd Cyffredinol Cymru.*

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
4 Awst 2022

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

# Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd

## Cyflwyniad

1. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 rwy'n gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd ar ddatganiadau ariannol Llywodraeth Cymru.
2. Yn yr adroddiad hwn ar ddatganiadau ariannol 2020-21 Llywodraeth Cymru, nodais:
    a. y rhesymau a'r cyd-destun dros fy marn archwilio amodol sy'n ymwneud â thaliad i'r cyn Ysgrifennydd Parhaol;
    b. bryderon am rai o'r sylwebaeth yn y Datganiad Llywodraethu am y taliad hwn i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol;
    c. y rhesymau a'r cyd-destun dros fy marn archwilio amodol mewn perthynas â grantiau busnes COVID-19 2019-20;
    d. y rhesymau a'r cyd-destun dros fy marn archwilio amodol sy'n ymwneud â Chyfarwyddyd y Gweinidog ar bensiynau uwch glinigwyr; ac
    e. y datgeliadau cefndir yn y Datganiad Llywodraethu am y lefel amcangyfrifedig o dwyll a gwall mewn grantiau busnes.

## Cymhwyster y farn wir a theg a rheoleidd-dra ynghylch taliad i gyn Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru

3. Rwyf wedi cymhwyso fy marn archwilio gwir a theg a rheoleidd-dra ar ddatganiadau ariannol 2020-21 Llywodraeth Cymru mewn perthynas â thaliad i Ysgrifennydd Parhaol blaenorol Llywodraeth Cymru. Ymhellach, nid wyf wedi gallu dod i'r casgliad a yw'r Datgeliadau Atebolrwydd archwiliedig neu'r rhan archwiliedig o'r Adroddiad Ar Gydnabyddiaeth a Staff yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol, neu a yw'r rhan archwiliedig o'r Adroddiad Ar Gydnabyddiaeth a Staff wedi cael ei baratoi'n iawn yn unol â chanllawiau Trysorlys EM.
4. Fel y datgelwyd yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff, ym mis Hydref 2021, gwnaeth Llywodraeth Cymru daliad o £92,018 i gyn Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru Roedd hyn yn cynnwys cyflog ei mis olaf o £11,499 ynghyd â thaliad o £80,519, sy'n cael ei ddisgrifio gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Taliad cytundebol ychwanegol ar gyfer diwrnodau ychwanegol a weithiwyd | £39,123 |
| Talu gwyliau blynyddol heb eu cymryd | £ 9,553 |
| Taliad yn lle rhybudd | £31,843 |
| | **£80,519** |

5. Dywed Llywodraeth Cymru fod yr elfen £39,123 o'r taliad yn ganlyniadol i newidiadau y cytunodd arnynt i drefniadau gweithio cyn Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ar ôl iddi ymddeol yn rhannol ar 31 Mawrth 2018. Mae hefyd yn nodi bod £30,289 o'r £39,123 yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2020-21 ac wedi'i gynnwys yn y croniad cyffredinol o fudd-daliadau cyflogeion o fewn 'Croniadau eraill ac incwm gohiriedig' ar 31 Mawrth 2021.

6. Penododd Llywodraeth Cymru y cyn Ysgrifennydd Parhaol (a oedd yn aelod parhaol o'r Uwch Wasanaeth Sifil) i'r rôl honno ym mis Chwefror 2017 ar gontract llawn amser pum mlynedd. Mae Llywodraeth Cymru'n dweud ei bod wedi cytuno ar newidiadau i drefniadau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol yn 2018 ac eto yn 2019.

7. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu rhoi digon o dystiolaeth briodol i mi i gadarnhau'r newidiadau y mae'n dweud gafodd eu gwneud ac felly nid wyf wedi gallu bodloni fy hun ynghylch:

- ar ba sail y gwnaed y taliad;
- sut y cyfrifwyd y taliad;
- a oedd gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth i wneud y taliad; ac
- a yw wedi'i gynnwys, neu a ddylai gael ei gynnwys, yn natganiadau ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21.

8. Nid wyf wedi gallu gadarnhau sail y taliad na natur y taliad, ac nid wyf wedi gallu dod i gasgliad parthed a oedd y taliad wedi'i awdurdodi'n briodol.

9. Mae elfennau canlynol y taliad a wnaed i'r cyn Ysgrifennydd Parhaol ym mis Hydref 2021 yn ymwneud â Chyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22.

| | |
|---|---|
| Talu am ddiwrnodau ychwanegol a weithiwyd | O leiaf ran o £39,123 |
| Gwyliau blynyddol heb eu cymryd | £9,553 |
| Taliad yn lle rhybudd | £31,843 |

10. Mae'r elfennau talu hyn o fewn cwmpas fy archwiliad o Gyfrifon Cyfunol 2021-22 Llywodraeth Cymru ac felly nid ydynt yn cael eu hystyried gan yr adroddiad hwn.

## Mater arall: Datganiad Llywodraethu – taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol

11. Rwyf wedi cynnwys datganiad Mater Arall yn fy nhystysgrif archwilio yn nodi fy marn, mewn perthynas â'r taliad a wnaed i'r cyn Ysgrifennydd Parhaol, nad yw rhannau o'r Datganiad Llywodraethu yn gyson â'm gwybodaeth am yr archwiliad.

12. Mae'r Datganiad Llywodraethu yn cynnwys eglurhad Llywodraeth Cymru ynghylch pam y cafodd y taliad o £39,123 y cyfeiriwyd ato uchod ei wneud i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol. Fodd bynnag, nid yw'r esboniad hwn yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth ymataliol. I'r graddau bod dogfennaeth ymataliol yn bodoli mewn perthynas â'r taliad hwn, nid yw'n cefnogi'r sylwebaeth a nodir yn y Datganiad Llywodraethu.

13. Byddaf yn cyhoeddi memorandwm i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, lle byddaf yn darparu gwybodaeth bellach ar y mater hwn i lywio craffu arno yn hydref 2022 o Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21.

## Cymhwyster y farn archwilio gywir a theg mewn perthynas â grantiau busnes COVID-19 2019-20

14. Rwyf wedi cymhwyso fy marn wir a theg ar ddatganiadau ariannol 2020-21 Llywodraeth Cymru gan eu bod yn cynnwys gwariant a ddylai fod wedi'i gynnwys yn natganiadau ariannol 2019-20.

15. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020 y gallai busnesau cymwys ddisgwyl cael cymorth i ymateb i effeithiau uniongyrchol pandemig Covid-19. Gallai busnesau sy'n gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach gael grant o £10,000 a gallai rhai busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch gael grant o £25,000. Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am reoli'r cynlluniau; roedd taliadau i fusnesau yn cael eu gweinyddu gan awdurdodau lleol.

16. Yn fy marn i, roedd y cyhoeddiadau a'r camau a gymerwyd cyn 31 Mawrth 2020 i sicrhau bod arian parod yn cael ei dalu i fusnesau cyn gynted â phosibl yn creu rhwymedigaeth adeiladol o dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 37, Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Wrth Gefn, a dylai'r costau cysylltiedig o £0.7 biliwn fod wedi'u cynnwys yn natganiadau ariannol 2019-20. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r sefyllfa hon ac mae wedi cynnwys y gwariant hwn yn ei datganiadau ariannol ar gyfer 2020-21.

## Cymhwyster y gwir farn a'r farn deg ynghylch rhwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr y GIG

17. Rwyf wedi amodi fy marn wir a theg ar ddatganiadau ariannol 2020-21 Llywodraeth Cymru oherwydd bod gwariant wedi'i hepgor sy'n deillio o Gyfarwyddyd y Gweinidog ar bensiynau uwch glinigwyr.

18. Nid yw cynllun Pensiwn y GIG a deddfwriaeth treth pensiwn wedi'u datganoli i Gymru. Roedd newidiadau Trysorlys EM i'r trefniadau treth ar gyfraniadau pensiwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys y gostyngiad yn y terfyn Lwfans Blynyddol o dros £200,000 yn 2011-12 i £40,000 yn 2018-19. O ganlyniad, mewn achosion lle mae cyfraniadau pensiwn unigolyn yn fwy na therfynau lwfans cyfraniadau pensiwn blynyddol a / neu gydol oes penodol, yna cânt eu trethu ar gyfradd uwch ar eu holl gyfraniadau, gan greu cynnydd sydyn mewn atebolrwydd treth.

19. Mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 13 Tachwedd 2019, roedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi bod cyrff GIG Cymru: 'yn adrodd yn rheolaidd nad yw uwch staff clinigol yn fodlon ymgymryd â gwaith a sesiynau ychwanegol oherwydd yr atebolrwydd treth a allai fod yn gosbol'. Mewn rhai amgylchiadau, gallai hyn arwain at daliadau treth ychwanegol sy'n fwy nag unrhyw incwm ychwanegol a enillir.

20. Ar 18 Rhagfyr 2019, cyhoeddodd y Prif Weinidog (sy'n adlewyrchu camau cynharach gan Ysgrifennydd Gwladol Dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lloegr) Gyfarwyddyd Gweinidogol i'r Ysgrifennydd Parhaol fwrw ymlaen â chynlluniau i ymrwymo i wneud taliadau i staff clinigol i adfer gwerth eu pecynnau budd-daliadau pensiwn. Pe bai clinigwyr yn dewis defnyddio'r cyfleuster 'Cynllun sy'n Talu' i setlo taliadau treth lwfans blynyddol sy'n deillio o'u cynilion pensiwn GIG ar gyfer 2019-20 (h.y. setlo'r tâl ar ffurf pensiwn blynyddol is, yn hytrach na thrwy wneud taliad untro ar unwaith), yna byddai eu cyflogwyr yn talu effaith y taliadau treth hynny ar eu pensiwn pan fyddant wedi ymddeol. Bydd Llywodraeth Cymru yn talu'r holl gostau cysylltiedig.

21. Roedd angen y Cyfarwyddyd Gweinidogol oherwydd gallai Cyllid a Thollau EI Mawrhydi ystyried bod yr ateb hwn yn gyfystyr â chynllunio treth ac osgoi trethi o bosibl, gan wneud y gwariant yn afreolaidd. Mae Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru (sy'n adlewyrchu'r hyn sy'n cyfateb iddo yn Lloegr) yn nodi'n benodol 'na ddylai sefydliadau'r sector cyhoeddus gymryd rhan mewn.osgoi treth, osgoi treth neu gynllunio treth'.

22. Nid yw Cyfarwyddyd Gweinidogol yn gwneud yr hyn a fyddai fel arall yn afreolaidd yn rheolaidd, ond mae'n symud yr atebolrwydd am benderfyniadau o'r fath gan y Swyddog Cyfrifyddu i'r Gweinidog sy'n rhoi'r cyfarwyddyd.

23. Dim ond i daliadau treth lwfans blynyddol sy'n deillio o gynnydd yn y buddion a gronnwyd yng Nghynllun Pensiwn y GIG yn ystod y flwyddyn dreth a ddaeth i ben 5 Ebrill 2020 y mae'r ateb yn berthnasol. Ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben 5 Ebrill 2021, cynyddodd y Canghellor y trothwyon ar gyfer y lwfans blynyddol wedi'i dapro ac, o ganlyniad, rhagwelir bod y risg i'r cyflenwad o staff clinigol wedi'i lliniaru.

24. Mae gan Lywodraeth Cymru bellach ddigon o wybodaeth i gyfrifo a chydnabod amcangyfrif o gostau posibl digolledu uwch staff clinigol am fudd-daliadau pensiwn y byddent fel arall wedi'u colli drwy ddefnyddio'r trefniant 'Talu'r Cynllun'.

25. Yn fy marn i, mae unrhyw wariant sy'n deillio o'r Cyfarwyddyd Gweinidogol hwn yn berthnasol yn ôl ei natur a dylai Llywodraeth Cymru fod wedi cydnabod gwariant fel darpariaeth ar 31 Mawrth 2021 am £21.5 miliwn yn unol â Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 37, Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Wrth Gefn. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y gwariant hwn yn natganiadau ariannol 2020-21 ond mae wedi datgelu atebolrwydd amodol yn nodyn 12. O ganlyniad, rwyf wedi cymhwyso fy marn 'wir a theg'.

26. Pe bai Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y trafodion yn natganiadau ariannol 2020-21, byddwn wedi cymhwyso fy marn 'rheoleidd-dra' gan fy mod o'r farn bod unrhyw drafodion a gydnabyddir yn afreolaidd ac yn berthnasol yn ôl eu natur gan fod y taliadau'n groes i baragraff 5.6.1 o Rheoli Arian Cyhoeddus ac yn fath o gynllunio treth a fydd yn gadael y Trysorlys yn ei gyfanrwydd yn waeth ei fyd. At hynny, mae'r trefniadau'n newydd ac yn ddadleuol ac o bosibl yn gosod cynsail.

## Mater arall yn ymwneud â'r datgeliadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu ynghylch lefel amcangyfrifedig y twyll a'r gwallau mewn grantiau busnes

27. Rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2021, rhoddodd Llywodraeth Cymru £2 biliwn o gymorth ariannol i fusnesau sy'n wynebu heriau gweithredol ac ariannol o ganlyniad i bandemig COVID-19. Roedd y cymorth hwn ar ffurf rhaglen grantiau busnes a rhyddhad ardrethi busnes, gyda Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am reoli'r cynlluniau grant yn gyffredinol. Gweinyddwyd taliadau i fusnesau gan awdurdodau lleol Cymru a Llywodraeth Cymru.

28. O dan gam cyntaf y rhaglen, awdurdodau lleol Cymru oedd yn gyfrifol am weinyddu grantiau busnes a chynlluniau rhyddhad ardrethi busnes gwerth cyfanswm o £1.1 biliwn. Roedd cymhwysedd yn seiliedig ar amodau y gellid eu gwirio cyn i'r grantiau gael eu dyfarnu gan gynnwys math o fusnes a gwerth ardrethol. Nid wyf wedi nodi unrhyw faterion cymhwysedd sylweddol gyda thaliadau a wneir o dan y cynlluniau hyn.

29. Ar gyfer cynlluniau a weinyddir gan Lywodraeth Cymru a chamau diweddarach y cynlluniau a weinyddir gan awdurdodau lleol, sef cyfanswm o £893 miliwn, roedd y meini prawf cymhwysedd yn fwy penodol i dargedu'r ddarpariaeth o gymorth grant. Roedd yn ofynnol i fusnesau wneud cais am y cynlluniau pan gawsant eu cyhoeddi. Er bod rhai gwiriadau ar rai o'r meini prawf cymhwysedd cyn i grantiau gael eu talu, nid oedd y gwiriadau hyn yn systematig nac wedi'u dogfennu bob amser. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn dibynnu ar hunanddatganiadau ar gyfer rhai agweddau ar y meini prawf cymhwysedd ac mae'n bwriadu gwirio rhai o'r rhain yn ddiweddarach. Mae amcangyfrif Llywodraeth Cymru o lefel y twyll a'r camgymeriad posib yn y grantiau hyn yn cael ei ddatgelu yn y Datganiad Llywodraethu, ond mae ansicrwydd yn yr amcangyfrif hwn o ganlyniad i gyfyngiadau data. Erbod lefel y twyll a'r gwall yn y grantiau hyn yn ansicr, rwy'n fodlon bod digon o dystiolaeth i ddod i'r casgliad nad yw hyn yn gyfystyr â gwariant materol yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru.

*Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn ar eu ffurf wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw hwn. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hwn, ac nid Archwilydd Cyffredinol Cymru.*

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
4 Awst 2022

# Rhan 3

## Datganiadau Ariannol

Mae'r Datganiadau Ariannol hyn yn cynnwys Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) o 1 Ebrill 2019 fel corff sydd newydd gael ei gyfuno.

### Datganiad wedi'i Gydgrynhoi o Lifoedd Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | 2 | (41) | (64) | (41) | (57) |
| Incwm gweithredol arall | 2 | (449) | (762) | (1,096) | (1,478) |
| **Cyfanswm incwm gweithredol** | | **(490)** | **(826)** | **(1,137)** | **(1,535)** |
| Costau staff | 3 | 339 | 5,157 | 318 | 4,557 |
| Gwariant | 3 | 22,409 | 17,826 | 17,219 | 12,693 |
| Cost darpariaeth | 3 | 194 | 244 | 203 | 226 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredol** | | **22,942** | **23,227** | **17,740** | **17,476** |
| **Gwariant net am y flwyddyn** | | **22,452** | **22,401** | **16,603** | **15,941** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall:**<br>Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i gostau gweithredol net: | | | | | |
| (Elw)/colled net ar ailbrisio eiddo, offer, cyfarpar a buddsoddiadau | | (58) | (330) | (544) | (2,398) |
| (Elw)/colled actiwaraidd ar rwymedigaethau cynlluniau pensiwn | | 19 | 24 | (1) | (4) |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **22,413** | **22,095** | **16,058** | **13,539** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 189 i 236 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad wedi'i Gyfuno o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2021 | | Ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 18,025 | 24,610 | 18,106 | 24,163 |
| Asedau nad ydynt yn ddiriaethol | 5 | 22 | 76 | 22 | 67 |
| Asedau ariannol | 6 | 6,177 | 4,798 | 5,129 | 4,239 |
| Symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn | 8 | 18 | 227 | 22 | 135 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **24,242** | **29,711** | **23,279** | **28,604** |
| **Asedau cyfredol:** | | | | | |
| Asedau sydd wedi'u dosbarthu fel 'mewn llaw i'w gwerthu' | | - | 2 | - | 3 |
| Asedau ariannol | 6 | 168 | 168 | 169 | 169 |
| Stocrestrau | 7 | 201 | 376 | 191 | 275 |
| Symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn | 8 | 221 | 390 | 344 | 505 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 9 | 640 | 1,828 | 107 | 839 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **1,230** | **2,764** | **811** | **1,791** |
| **Cyfanswm asedau** | | **25,472** | **32,475** | **24,090** | **30,395** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 10 | (2,140) | (3,352) | (1,277) | (2,131) |
| Darpariaethau | 11 | (329) | (378) | (277) | (318) |
| Rhwymedigaethau eraill | 13 | - | (2) | - | (2) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(2,469)** | **(3,732)** | **(1,554)** | **(2,451)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **23,003** | **28,743** | **22,536** | **27,944** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 10 | (76) | (146) | (86) | (145) |

## Datganiad wedi'i Gyfuno o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2021 (parhad)

| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2021 | | Ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Darpariaethau | 11 | (977) | (1,032) | (973) | (1,021) |
| Rhwymedigaethau eraill | 13 | (47) | (96) | (65) | (107) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(1,100)** | **(1,274)** | **(1,124)** | **(1,273)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **21,903** | **27,469** | **21,412** | **26,671** |
| **Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 12,274 | 15,211 | 11,634 | 14,517 |
| Cronfa ailbrisiadau | | 9,629 | 12,258 | 9,778 | 12,154 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **21,903** | **27,469** | **21,412** | **26,671** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 189 i 236 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Dr. Andrew Goodall CBE
Yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu
4 Awst 2022

## Datganiad wedi'i Gydgrynhoi o Lifoedd Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Craidd LIC £m** | **Grŵp LIC £m** | **Craidd LIC £m** | **Grŵp LIC £m** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredol:** | | | | | |
| Cost weithredol net | | (22,452) | (22,401) | (16,603) | (15,941) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd | 11 | (119) | (152) | (106) | (137) |
| Addasiadau ar gyfer trafodiadau nad ydynt yn arian parod[1] | | 1,035 | 1,297 | 698 | 536 |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod | 14 | 601 | 765 | 193 | 196 |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | - | - | (32) | (32) |
| Arall | | (24) | (18) | (1) | (3) |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(20,959)** | **(20,509)** | **(15,851)** | **(15,381)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi:** | | | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar[1] | | (278) | (849) | (201) | (688) |
| Prynu asedau nad ydynt yn ddiriaethol | | (3) | (24) | - | (19) |
| Enillion yn sgil gwaredu eiddo, offer a chyfarpar | | 4 | 13 | 4 | 10 |
| Enillion yn sgil gwaredu asedau datblygu | | 4 | 4 | 2 | 2 |
| Prynu asedau datblygu | | (21) | (21) | (26) | (26) |
| Rhoi benthyciadau a buddsoddiadau | | (1,743) | (1,214) | (984) | (892) |
| Ad-dalu benthyciadau | | 170 | 205 | 146 | 180 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(1,867)** | **(1,886)** | **(1,059)** | **(1,433)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau ariannu:** | | | | | |
| O Gronfa Gyfunol Cymru | | 23,364 | 23,364 | 16,901 | 16,901 |
| Ychwanegiadau Grant Gohiriedig yr UE | | - | 17 | - | 36 |
| Elfen gyfalaf PFI a Phrydlesau Cyllid | | (10) | (2) | (10) | (7) |
| **Cyllido net** | | **23,354** | **23,379** | **16,891** | **16,930** |

1 Yn cynnwys addasiad yn y Grŵp am £469.8m grant cyfalaf dim arian parod ar gyfer caffael Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) – gweler Nodyn 4.1 i gael rhagor o fanylion.

## Datganiad wedi'i Gydgrynhoi o Lifoedd Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 (parhad)

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod cyn addasiadau ar gyfer derbyniadau a thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | | **528** | **984** | **(19)** | **116** |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | 5 | 5 | 19 | 19 |
| Balansau arian parod Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno[1] | | - | - | - | 6 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod ar ôl addasiadau ar gyfer derbyniadau a thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | **9** | **533** | **989** | **-** | **141** |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 9 | 107 | 839 | 107 | 698 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | 9 | 640 | 1,828 | 107 | 839 |

[1] Mae balansau arian parod Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno'n adlewyrchu'r balansau a gynhwysir ar 1 Ebrill 2019 ar gyfer AaGiC.

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 189 i 236 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr

| Grŵp Llywodraeth Cymru | Cronfa Gyffredinol £m | Cronfa Ailbrisiadau £m | Cyfanswm Cronfeydd £m |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **13,741** | **9,721** | **23,462** |
| Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno[1] | 4 | - | 4 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 16,901 | - | 16,901 |
| Gwariant net am y flwyddyn | (15,941) | - | (15,941) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | - | 2,398 | 2,398 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | (35) | 35 | - |
| Addasiadau eraill | (153) | - | (153) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **14,517** | **12,154** | **26,671** |
| Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno[1] | - | - | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru – Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 23,364 | - | 23,364 |
| Gwariant net am y flwyddyn | (22,401) | - | (22,401) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | - | 330 | 330 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | 226 | (226) | - |
| Addasiadau eraill[2] | (495) | - | (495) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **15,211** | **12,258** | **27,469** |

| Craidd Llywodraeth Cymru | Cronfa Gyffredinol £m | Cronfa Ailbrisiadau £m | Cyfanswm Cronfeydd £m |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **11,518** | **9,185** | **20,703** |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 16,901 | - | 16,901 |
| Cost weithredol net am y flwyddyn | (16,603) | - | (16,603) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | - | 544 | 544 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | (49) | 49 | - |
| Addasiadau eraill | (133) | - | (133) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **11,634** | **9,778** | **21,412** |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 23,364 | - | 23,364 |
| Cost weithredol net am y flwyddyn | (22,452) | - | (22,452) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | - | 58 | 58 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | 207 | (207) | - |
| Addasiadau eraill[2] | (479) | - | (479) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **12,274** | **9,629** | **21,903** |

[1] Mae Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno'n adlewyrchu'r balansau a gynhwysir ar 2019 Ebrill 2019 ar gyfer AaGIG.

[2] Mae'r ffigur Addasiadau Eraill yn cynnwys effaith credydwr Llywodraeth Cymru o ran Cronfa Gyfunol Cymru ar 31.3.21, sef £411m ar gyfer cyllid heb ei wario sydd i'w ad-dalu i Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 189 i 236 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM). Mae'r polisïau cyfrifyddu yn FReM yn cymhwyso'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiedir neu y'u dehonglir ar gyfer cyd-destun sector cyhoeddus. Lle bo FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Llywodraeth Cymru at ddibenion rhoi golwg gywir a theg. Disgrifir y polisïau penodol sydd wedi cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru (ar gyfer y gweithgarwch adroddadwy) yn Atodiad A neu fel troednodiadau i'r nodyn perthnasol. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau y eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratoir o dan IFRS, mae FReM hefyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru baratoi  prif ddatganiadau ychwanegol. Cynhwysir y Crynodeb o Alldro Adnoddau sy'n dangos alldro gwirioneddol yn erbyn y gyllideb a nodiadau ategol sy'n cysoni alldro i gost weithredol net, ac adnoddau i'r gofyniad am arian parod yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'u haddasu i gyfrif am ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar a rhai asedau eiddo buddsoddi a rhai asedau a rhwymedigaethau ariannol.

### 1.2 Sail Cyfuno

Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu'r asedau a'r rhwymedigaethau cyfunol a chanlyniadau endidau o fewn ffin gyfrifyddu gyfuno Llywodraeth Cymru. Mae'r ffin gyfrifyddu gyfuno'n cynnwys ymgymeriadau is-gorff fel sy'n ofynnol o dan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y llywodraeth lle y'u dynodir i'w cyfuno trwy offeryn statudol, a lle maent yn uwch na throthwy de minimis i fod yn berthnasol. Mae'r ffin gyfrifyddu gyfuno hefyd yn cynnwys ymgymeriadau is-gwmni yn uwch na'r trothwy de minimis a oedd wedi cael eu cyfuno ar sail Safonau Cyfrifyddu Grŵp IFRS cyn i Orchmynion Dynodi gael eu cyflwyno yng Nghymru (yn effeithiol o 2017-18), ac nad yw'r broses ddynodi wedi dod i ben eto ar eu cyfer. Diben hyn yw cadw cysondeb yn achos cyflwyniad cyfuno'r Grŵp tra bo prosiect alinio Llywodraeth Cymru'n mynd rhagddo.

Ers i Orchmynion Dynodi gael eu cyflwyno, ychwanegir endidau at y ffin gyfrifyddu gyfuno yn unig os ydynt wedi'u dynodi ac yn berthnasol.

Caiff is-gwmnïau eu cyfuno o gyfrifon drafft lle nad oes cyfrifon terfynol ar gael. Mae trafodiadau rhwng endidau a gynhwysir yn y cyfuno'n cael eu dileu.

Darperir gwybodaeth bellach am yr endidau o fewn y ffin gyfuno yn yr Adroddiad Blynyddol sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon hyn ar dudalennau 50-51.

### 1.3 Trefniadau Pontio Ewropeaidd

Ar 29 Mawrth 2017, cyflwynodd Llywodraeth y DU hysbysiad o'i bwriad i ymadael â'r UE yn unol ag Erthygl 50. Ar 31 Ionawr 2020, daeth y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE yn gyfreithiol rwymol a gadawodd y DU yr UE. Daeth y cyfnod pontio i ben ar 31 Rhagfyr 2020, gyda Chytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE-DU yn gymwys dros dro o 1 Ionawr 2021, ac yn dod i rym o 1 Mai 2021. Nid oes unrhyw rwymedigaethau ariannol penodol ar Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r Cytundeb.

## 2. Incwm Gweithredol

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau:** | | | | |
| Incwm o eiddo a buddsoddiadau | 39 | 39 | 32 | 32 |
| Arall | 2 | 25 | 9 | 25 |
| | **41** | **64** | **41** | **57** |
| **Incwm gweithredol arall nad yw'n incwm yr UE:** | | | | |
| Incwm iechyd | 86 | 357 | 55 | 402 |
| Arall[1] | 45 | 62 | 491 | 496 |
| | **131** | **419** | **546** | **898** |
| **Incwm gweithredol arall yr UE:** | | | | |
| Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd | 241 | 266 | 224 | 254 |
| Y Polisi Amaethyddol Cyffredin | 71 | 71 | 319 | 319 |
| Incwm arall yr UE | 6 | 6 | 7 | 7 |
| | **318** | **343** | **550** | **580** |
| | **490** | **826** | **1,137** | **1,535** |

[1] Yn gynwysedig o fewn Incwm Gweithredu Craidd y Tu Allan i'r UE mae 'arall' yn £34.9m (2019 20: £0m) o incwm mewn perthynas â derbyn defnyddiau traul COVID-19 gan gynnwys brechlynnau, pecynnau prawf llif unffordd a meddyginiaethau a drosglwyddwyd i Lywodraeth Cymru o Adrannau eraill Llywodraeth y DU i'w hystyried, fel rhan o'r ymateb ehangach i bandemig COVID-19 a dosbarthu cyflenwadau penodol a gaffaelwyd gan Lywodraeth y DU.

# 3. Gwariant

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Gwariant** | | | | |
| Grantiau[1, 4] | 21,177 | 11,509 | 16,386 | 7,676 |
| Nwyddau a gwasanaethau [1, 3] | 335 | 5,177 | 281 | 4,126 |
| Rhentu o dan brydlesau gweithredu | 18 | 18 | 18 | 18 |
| Costau staff | 339 | 5,157 | 318 | 4,557 |
| PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill | 12 | 21 | 13 | 22 |
| Dilead polisi benthyciadau myfyrwyr | 21 | 21 | 30 | 30 |
| Gwerth teg net (enillion)/colledion ar asedau ariannol yn ôl gwerth teg trwy SOCNE[2] | 295 | 288 | 175 | 208 |
| Dibrisiant Asedau Sefydlog | 233 | 449 | 217 | 407 |
| Amorteiddio | 8 | 23 | 7 | 21 |
| Asedau sydd wedi'u rhoi gan y llywodraeth | - | (10) | - | (7) |
| Amhariadau | 303 | 318 | 91 | 192 |
| (Elw)/Colled ar waredIadau | 6 | 6 | 1 | (4) |
| Cyllid Pensiwn | (3) | 2 | (2) | 2 |
| Rhyddhau grant yr UE | (1) | (1) | (1) | (1) |
| Darpariaeth Dyledion Drwg | 5 | 5 | 3 | 3 |
| | **22,748** | **22,983** | **17,537** | **17,250** |
| **Darpariaethau** | | | | |
| Cynnydd yn nifer y darpariaethau | 194 | 244 | 203 | 226 |
| | **22,942** | **23,227** | **17,740** | **17,476** |

[1] Mae gwariant ar Grantiau a Nwyddau a Gwasanaethau yn adlewyrchu'r dyraniad Alldro Adnoddau Cwmpasoedd.

[2] Caiff Benthyciadau Myfyrwyr ac asedau ariannol Cymorth i Brynu eu mesur yn ôl gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

[3] Yn gynwysedig o fewn Nwyddau a Gwasanaethau Craidd mae £26.8m (2019-20 £0m) o wariant mewn perthynas â defnyddio defnyddiau traul COVID-19 gan gynnwys brechlynnau, pecynnau prawf llif unffordd a meddyginiaethau a drosglwyddwyd i Lywodraeth Cymru o Adrannau eraill Llywodraeth y DU i'w hystyried yn unig, fel rhan o'r ymateb ehangach i bandemig COVID-19 a dosbarthu cyflenwadau penodol a gaffaelwyd gan Lywodraeth y DU.

[4] Mae gwariant grant yn cynnwys £1,825m mewn perthynas â thrafodiadau a gyfrifwyd gan asiantaethau gydag Awdurdodau Lleol ar gyfer cynlluniau COVID-19.

Gweithiodd Llywodraeth Cymru gydag awdurdodau lleol i ddarparu'r grantiau neu'r meysydd cymorth ariannol canlynol i fusnesau ac unigolion gan fod gan awdurdodau lleol yr wybodaeth a'r gallu lleol i sefydlu systemau'n gyflym ac yn effeithlon i wneud taliadau.

- Grant Busnes yn gysylltiedig ag Ardrethi Annomestig
- Grant Llawrydd y Gronfa Cadernid Diwylliannol
- Y Gronfa Rhyddhad Ardrethi Annomestig
- Llifogydd
- Y Cynllun Gwella Tâl Salwch Statudol
- Y Cynllun Bonws i Weithwyr Gofal Cymdeithasol
- Y Cynllun Cymorth Hunanynysu

Aseswyd y cynlluniau hyn o dan adran 2.6 (Trafodiadau Prif Barti ac Asiantau) Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol (gweler Atodiad B) ac yn unol â dehongliad perthnasol o IFRS 15 – Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid.

Llywodraeth Cymru yw'r prif barti y trefniadau hyn ac mae wedi cydnabod y costau llawn a ysgwyddwyd ar gyfer y cynlluniau gan Awdurdodau Lleol yn 2020-21.

## Costau staff

Mae dadansoddiad llawn o gostau staff, gan gynnwys niferoedd staff a gwybodaeth gysylltiedig, wedi'i ddarparu yn Adroddiad Atebolrwydd y ddogfen hon ar dudalennau 155-157.

## Ffioedd Archwilio

Y swm sy'n daladwy i'r Archwilydd Cyffredinol am roi barn ar ddatganiadau ariannol cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 yw £395,000 (£379,706 2019-20) ac mae wedi'i gynnwys yn y Nwyddau a Gwasanaethau a ddatgelir uchod. Cynhwysir uchod hefyd ffioedd a godir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â chyfrifon eraill a baratoir gan Weinidogion Cymru fel a ganlyn:

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 £ | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 £ |
|---|---|---|
| Cyfrif Cryno'r GIG | 30,000 | 30,295 |
| Cyfrif Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | 8,700 | 8,753 |
| Cyfrif y Llywodraeth Gyfan | 13,734 | 11,445 |
| Cronfa Gyfunol Cymru | 19,000 | 18,897 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | - | 47,389 |

Mae ffi archwilio 2019-20 yn cynnwys bilio ar gyfer yr holl waith a wnaed mewn perthynas â chyfrifon 2019-20, gan gynnwys rhai costau ychwanegol sy'n ymwneud â materion cyfrifyddu COVID-19.

Datgelir ffioedd archwilio cyrff cyfunol o fewn eu cyfrifon unigol.

## 4. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Asedau Rhwydwaith Gweler Nodyn 4.1 £m | Tir £m | Adeiladau gan gynnwys Anheddau £m | Gosodiadau a Ffitiadau Technoleg Gwybodaeth £m | Taliadau ar gyfrif ac Asedau sy'n cael eu hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 19,447 | 427 | 2,728 | 1,130 | 1,147 | 24,879 |
| Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno | - | - | 1 | 2 | - | 3 |
| Ychwanegiadau | 612 | 6 | 35 | 105 | 400 | 1,158 |
| Gwarediadau | (96) | (2) | - | (65) | - | (163) |
| Trosglwyddiadau | (66) | - | - | - | (5) | (71) |
| Amhariadau | (10) | (1) | (93) | (5) | (44) | (153) |
| Ailbrisiadau | 2,444 | (2) | 1 | - | - | 2,443 |
| Ailddosbarthwyd i 'mewn llaw i'w gwerthu' | - | (2) | (3) | (20) | - | (25) |
| Ailddosbarthu | 96 | 1 | 186 | 23 | (314) | (8) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **22,427** | **427** | **2,855** | **1,170** | **1,184** | **28,063** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2019 | 2,660 | - | 231 | 744 | 2 | 3,637 |
| Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno | - | - | - | 1 | - | 1 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 202 | - | 97 | 108 | - | 407 |
| Gwarediadau | (96) | - | - | (64) | - | (160) |
| Trosglwyddiadau | (7) | - | - | - | - | (7) |
| Amhariadau | 10 | - | (7) | - | - | 3 |
| Ailbrisiadau | 73 | - | (29) | - | - | 44 |
| Ailddosbarthiadau | **(11)** | - | 7 | **(21)** | - | **(25)** |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **2,831** | **-** | **299** | **768** | **2** | **3,900** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2020** | **19,596** | **427** | **2,556** | **402** | **1,182** | **24,163** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2019 | 16,787 | 427 | 2,497 | 386 | 1,145 | 21,242 |
| **Cyllido asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben fis Mawrth 2020** | | | | | | |
| Yn eiddo (wedi'i ailddatgan) | 19,105 | 424 | 2,455 | 396 | 1,182 | 23,562 |
| Wedi'u prydlesu o ran cyllid (wedi'i ailddatgan) | - | - | 17 | 5 | - | 22 |
| Contractau PFI ar y fantolen | 491 | 3 | 84 | 1 | - | 579 |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **19,596** | **427** | **2,556** | **402** | **1,182** | **24,163** |

## 4. Eiddo, offer a chyfarpar (parhad)

| | Asedau Rhwydwaith Gweler Nodyn 4.1 £m | Tir £m | Adeiladau gan gynnwys Anheddau £m | Gosodiadau a Ffitiadau Technoleg Gwybodaeth £m | Taliadau ar gyfrif ac Asedau sy'n cael eu hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 22,427 | 427 | 2,855 | 1,170 | 1,184 | 28,063 |
| Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno[1] | - | - | - | - | - | - |
| Ychwanegiadau | 160 | 10 | 66 | 190 | 423 | 849 |
| Gwarediadau | (144) | (7) | (1) | (39) | (1) | (191) |
| Trosglwyddiadau | 3 | (4) | 4 | (2) | (63) | (62) |
| Amhariadau | - | (3) | (106) | (6) | (76) | (192) |
| Ailbrisiadau | 230 | (6) | 38 | - | - | 262 |
| Ailddosbarthwyd i 'mewn llaw i'w gwerthu' | - | - | - | (5) | - | (5) |
| Ailddosbarthu | - | 3 | 456 | 28 | (516) | (29) |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **22,676** | **420** | **3,312** | **1,336** | **951** | **28,695** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 2,831 | - | 299 | 768 | 2 | 3,900 |
| Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno[1] | - | - | - | - | - | - |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 229 | - | 104 | 116 | - | 449 |
| Gwarediadau | (143) | - | - | (39) | - | (182) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - | - | - |
| Amhariadau | - | - | (10) | - | - | (10) |
| Ailbrisiadau | (64) | - | (4) | - | - | (68) |
| Ailddosbarthiadau | - | - | 2 | (4) | (2) | (4) |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **2,853** | **-** | **391** | **841** | **-** | **4,085** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2021** | **19,823** | **420** | **2,921** | **495** | **951** | **24,610** |
| **Cyllido asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben fis Mawrth 2021** | | | | | | |
| Yn eiddo | 19,330 | 418 | 2,820 | 490 | 951 | 24,009 |
| Wedi'u prydlesu o ran cyllid | - | - | 16 | 3 | - | 19 |
| Contractau PFI ar y fantolen | 493 | 2 | 85 | 2 | - | 582 |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **19,823** | **420** | **2,921** | **495** | **951** | **24,610** |

## 4. Eiddo, offer a chyfarpar (parhad)

| | Asedau Rhwydwaith Gweler Nodyn 4.1 £m | Tir £m | Adeiladau gan gynnwys Anheddau £m | Gosodiadau a Ffitiadau Technoleg Gwybodaeth £m | Taliadau ar gyfrif ac Asedau sy'n cael eu hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran graidd ar 31 Mawrth 2021** | **17,215** | **52** | **136** | **40** | **582** | **18,025** |
| **BILI ac is-gyrff ar 31 Mawrth 2021** | **2,608** | **368** | **2,785** | **455** | **369** | **6,585** |
| Adran graidd ar 31 Mawrth 2020 | 17,237 | 51 | 129 | 42 | 647 | 18,106 |
| BILI ac is-gyrff ar 31 Mawrth 2020 | 2,359 | 376 | 2,427 | 360 | 535 | 6,057 |

[1] Mae Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno'n adlewyrchu'r balansau a gynhwysir ar 1 Ebrill 2019 ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru.

### Tir ac adeiladau, gan gynnwys anheddau

Cynhelir tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol, gan gynnwys y rhai a ddelir ar brydlesau tir hir (99 mlynedd nodweddiadol neu ragor sy'n cyfateb i rydd-ddaliad) wrth i brisiad gael ei asesu ar werth teg/gwerth y farchnad at ddefnydd presennol. O fewn y categori hwnnw, mae asedau arbenigol yn cael eu prisio drwy gyfeirio at ddull cost amnewid ddibrisiedig. Gwerth y farchnad sydd i asedau a ddelir i'w gwerthu.

Cynhelir prisiadau proffesiynol allanol bob pum mlynedd ar gyfer y rhan fwyaf o ystad Llywodraeth Cymru, ac yn flynyddol ar gyfer asedau penodol (sef, fel arfer, asedau yn y portffolio safleoedd strategol). Yn y blynyddoedd ariannol rhwng y prisiadau pum mlynedd ffurfiol, mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol yn cael eu prisio gan ddefnyddio'r mynegeion diweddaraf sydd ar gael ym mis Mawrth bob blwyddyn ariannol i ddarparu amcangyfrif rhesymol o brisiad. Fodd bynnag, pan fydd asedau'n cael eu caffael neu'n cael eu newid yn sylweddol, mae'n arferol bod prisiad cyfredol yn cael ei gomisiynu.

Cafodd y rhan fwyaf o dir ac adeiladau rhydd-ddaliadol Craidd Llywodraeth Cymru asesiad prisio pum mlynedd ar 31 Mawrth 2020, yn bennaf gan Syrfewyr Siartredig Avison Young. Paratowyd y prisiadau a oedd yn destun adolygiad blynyddol yn bennaf ar 28 Chwefror 2021 gan Alder King. Mae'r holl asesau wedi'u prisio yn unol â safonau RICS ar gyfer adrodd ariannol fel y'u cyhoeddwyd yn eu hatodiad ar gyfer y DU o'r safonau byd-eang (y Llyfr Coch).

Mae ffigurau Grŵp Llywodraeth Cymru'n cynnwys Tir ac Adeiladau'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG a gafodd eu hailbrisio gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio gyda dyddiad dod i rym o 1 Ebrill 2017. Mae'r prisiad wedi'i baratoi yn unol â thelerau safonau prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, 6ed argraffiad. Mae Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cymhwyso'r model ailbrisio a nodir yn IAS 16 fel y mae wedi'i addasu gan FReM. Mae tir ac adeiladau nad ydynt yn arbenigol yn cael eu dal ar werth y farchnad at eu defnydd presennol; mae adeiladau arbenigol yn cael eu dal ar gost amnewid ddibrisiedig. Defnyddir mynegeio yn y blynyddoedd rhwng prisiadau pum mlynedd.

O ganlyniad i ganllawiau Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig a gyhoeddwyd mewn perthynas ag effaith COVID-19, nododd y priswyr proffesiynol ansicrwydd o bwys yn eu hadroddiadau prisio ar gyfer diwedd

2019-20 o ran rhai o'r prisiadau ar gyfer Craidd Llywodraeth Cymru a chyrff y GIG. Yn gynwysedig yn y nodyn Eiddo, Offer a Chyfarpar ar gyfer 2019-20 mae asedau Tir ac Adeiladu gwerth cyfanswm o £234.4m ac roedd y prisiad yn cynnwys datganiadau ansicrwydd o bwys.

## 4.1 Eiddo, Offer a Chyfarpar Asedau Rhwydwaith

| | Rhwydwaith Ffyrdd £m | Rhwydwaith Rheilffyrdd £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 20,068 | 2,359 | 22,427 |
| Ychwanegiadau | 143 | 17 | 160 |
| Gwarediadau | (144) | - | (144) |
| Trosglwyddiadau | - | 3 | 3 |
| Amhariadau | - | - | - |
| Ailbrisiadau | 1 | 229 | 230 |
| Ailddosbarthwyd i 'mewn llaw i'w gwerthu' | - | - | - |
| Ailddosbarthu | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **20,068** | **2,608** | **22,676** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 2,831 | - | 2,831 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 217 | 12 | 229 |
| Gwarediadau | (143) | - | (143) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - |
| Amhariadau | - | - | - |
| Ailbrisiadau | (52) | (12) | (64) |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **2,853** | **-** | **2,853** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2021** | **17,215** | **2,608** | **19,823** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2020** | **17,237** | **2,359** | **19,596** |
| Adran graidd ar 31 Mawrth 2021 | 17,215 | - | 17,215 |
| BILI ac is-gyrff ar 31 Mawrth 2021 | - | 2,608 | 2,608 |

### Rhwydwaith Ffyrdd

Mae'r rhwydwaith Ffyrdd yn cael ei brisio ar gost amnewid ddibrisiedig (DRC) gan ddefnyddio model System Prisio Asedau Awdurdodau Ffyrdd (RAAVS) (i gael rhagor o wybodaeth gweler Atodiad A – Polisïau Cyfrifo A.1)

Mae'r model RAAVS yn defnyddio mynegeion allweddol yn y prisiad sy'n sensitif i ansicrwydd macroeconomaidd. Gallai amrywiadau yn y mynegeion hynny yn y dyfodol effeithio ar brisiad yr asedau hyn mewn cyfnodau adrodd dilynol.

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd isod yn adlewyrchu'r effaith ar brisiad DRC yn sgil newid pwynt canran yn y mynegeion allweddol.

| | Cost Amnewid Ddibrisiedig (-) £m | Cost Amnewid Ddibrisiedigi (+) £m |
|---|---|---|
| Mynegai Baxter – 1% / +1% | (157) | 157 |
| Mynegai BEAMA | (1) | 1 |

### Y Rhwydwaith Rheilffyrdd – Dibrisiant Llinellau Craidd y Cymoedd

Cafodd Ased Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) ei brisio ar 31 Mawrth 2021 gan Trafnidiaeth Cymru (TC) gyda chymorth gan Atkins Limited (priswyr proffesiynol) gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan TC. Hon oedd blwyddyn gyntaf y prisiad gan TC ar ôl prynu'r ased yn 2019-20.

Roedd y prisiad yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20 ar 31 Mawrth 2020 yn ddiweddariad i brisiad 31 Mawrth 2019 a wnaed gan Network Rail hyd at ddyddiad caffael ased Llinellau Craidd y Cymoedd, gan ddefnyddio ffactorau mynegeio chwyddiannol ar 31 Mawrth 2020.

Mae'r prisiad wedi'i wneud ar sail cost amnewid ddibrisiedig fel ased arbenigol a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd. Er mwyn cynhyrchu'r prisiad hwn mae angen defnyddio rhagdybiaethau, amcangyfrifon a chrebwyll proffesiynol. Ystyrir mai'r tybiaethau allweddol yn y prisiad yw: gweddill bywydau asedau cydrannau'r rhwydwaith, addasu iawndal tir a ffactor risg. Ceir manylion llawn y tybiaethau hyn ac ansicrwydd amcangyfrif yng nghyfrifon TrC.

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd canlynol yn adlewyrchu'r ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif yn y prisiad, gan ddangos effaith newidiadau mewn tybiaethau ar werth cyffredinol ased Llinellau Craidd y Cymoedd.

- Mae Senario 1 yn dangos effaith cynyddu neu leihau gweddill bywydau asedau cydrannau'r rhwydwaith rheilffyrdd cyfatebol modern 10%
- Mae Senario 2 yn dangos yr effaith pe bai'r addasiad iawndal tir (72% fel arfer) yn cynyddu neu'n gostwng 10%
- Mae Senario 3 yn dangos effaith addasiad i'r ffactor risg a gymhwyswyd i'r prisiadau DRC cyffredinol, sef 38% ar hyn o bryd, ar sail cynnydd neu ostyngiad o 10%.

| Math | Cost Amnewid Ddibrisiedig (-) £m | Cost Amnewid Ddibrisiedig (+) £m |
|---|---|---|
| Senario 1 | (189) | 189 |
| Senario 2 | (41) | 41 |
| Senario 3 | (137) | 137 |

**Caffael Llinellau Craidd y Cymoedd**

Mae cymarolion 2019-20 yn cynnwys caffael Ased Llinellau Craidd y Cymoedd gan Trafnidiaeth Cymru oddi wrth Network Rail ar 28 Mawrth 2020. Roedd y caffaeliad hwn yn cynnwys llinellau Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert (gan gynnwys pob gorsaf, trac a seilwaith rheilffyrdd cysylltiedig).

Y pris prynu ar gyfer y trafodiad hwn oedd £469.8m, sef y prisiad Sail Asedau a Reoleiddir gan Network Rail. Mae'r Dreth Trafodiadau Tir a chostau eraill y gellir eu priodoli'n uniongyrchol yn arwain at ychwanegiad cyfalaf llawn o £520.9m.

Yn unol â'r FReM, mae'n ofynnol i'r ased gael ei roi yng Nghyfrif Cyfunol Llywodraeth Cymru wrth ei brisio. Cost amnewid ddibrisiedig yw'r fethodoleg brisio fwyaf priodol i'w chymhwyso i ased Llinellau Craidd y Cymoedd ac wrth gymhwyso hynny yn 2019-20 cafwyd adenilliad ailbrisio o £1.8bn, a roddwyd yn y gronfa ailbrisio.

Gweler Atodiad A – Polisïau Cyfrifo A.1 i gael rhagor o wybodaeth am y polisïau cyfrifyddu cymwys ar gyfer prisio a dibrisiant.

Cafodd y trafodiad prynu ar gyfer caffael yr ased hwn yn 2019-20 ei wneud drwy fecanwaith dim arian parod i leihau trafodiadau arian parod diangen rhwng cyrff y Llywodraeth Ganolog. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grant cyfalaf dim arian parod o £469.8m i Trafnidiaeth Cymru. Neilltuodd Trafnidiaeth Cymru yr hawliau i gyllid sy'n deillio o grant Llywodraeth Cymru i Network Rail fel setliad ar gyfer prynu Llinellau Craidd y Cymoedd. Cafodd yr ased ei waredu a'i gaffael ar sail egwyddor dim ennill/colli, ac yn unol â hynny cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth grant cyfalaf dim arian parod o £469.8m i Lywodraeth Cymru.

Adlewyrchir y trafodiadau dim arian parod yn natganiad Llif Arian Grŵp 2019-20 drwy addasiadau i drafodiadau nad ydynt yn arian parod a phrynu eiddo, offer a chyfarpar.

Mae'r grant cyfalaf gan yr Adran Drafnidiaeth i Lywodraeth Cymru wedi'i gynnwys yn 'Incwm gweithredu arall y tu allan i'r UE' Craidd Llywodraeth Cymru 2019-20 – gweler Nodyn 2.

Mae'r grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i Drafnidiaeth Cymru wedi'i gynnwys yn 'Grantiau' Craidd Llywodraeth Cymru 2019-20 – gweler Nodyn 3.

# 5. Asedau nad ydynt yn ddiriaethol

| | Technoleg Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ar 31 Mawrth 2021 | | Ar 31 Mawrth 2020 | |
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| **Cost neu brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 56 | 181 | 57 | 165 |
| Ychwanegiadau | 3 | 24 | - | 19 |
| Gwarediadau | - | (18) | (1) | (8) |
| Ailddosbarthiadau | 5 | 7 | - | 5 |
| **Ar 31 Mawrth** | **64** | **194** | **56** | **181** |
| **Amorteiddio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 34 | 114 | 28 | 102 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 8 | 23 | 7 | 21 |
| Gwarediadau | - | (19) | (1) | (8) |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - | (1) |
| **Ar 31 Mawrth** | **42** | **118** | **34** | **114** |
| **Gwerth Net y Llyfr ar 31 Mawrth** | **22** | **76** | **22** | **67** |
| Gwerth Net y Llyfr ar 1 Ebrill | 22 | 67 | 29 | 63 |

## 6. Asedau Ariannol – Buddsoddiadau a benthyciadau

| | Benthyciadau i Fyfyrwyr £m | Cyfalaf Difidend Cyhoeddus Ymddiriedolaethau'r GIG £m | Asedau Ariannol Eraill £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **3,115** | **-** | **875** | **3,990** |
| Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno | - | - | - | - |
| Ychwanegiadau | 699 | - | 193 | 892 |
| Gwarediadau/Dileadau | - | - | - | - |
| Ad-daliadau benthyciadau | (139) | - | (76) | (215) |
| Addasiad gwerth teg | - | - | (2) | (2) |
| Enillion gwerth teg net/ (colledion) ar asedau ariannol yn ôl gwerth teg trwy SOCNE (gweler nodyn 3 Gwariant)[2] | (150) | - | (58) | (208) |
| Dileadau polisi | (30) | - | - | (30) |
| Ailddosbarthu | - | - | (5) | (5) |
| Addasiadau | - | - | (14) | (14) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020[1]** | **3,495** | **-** | **913** | **4,408** |
| Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno | - | - | - | - |
| Ychwanegiadau | 819 | - | 395 | 1,214 |
| Gwarediadau/Dileadau | - | - | (35) | (35) |
| Ad-daliadau benthyciadau | (135) | - | (104) | (239) |
| Amhariadau | - | - | (55) | (55) |
| Addasiad gwerth teg | - | - | (24) | (24) |
| Enillion gwerth teg net/ (colledion) ar asedau ariannol yn ôl gwerth teg trwy SOCNE (gweler nodyn 3 Gwariant)[2] | (330) | - | 36 | (294) |
| Dileadau polisi | (21) | - | - | (21) |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - |
| Addasiadau | - | - | 12 | 12 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021[1]** | **3,828** | **-** | **1,138** | **4,966** |
| **Craidd Llywodraeth Cymru yn unig** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **3,828** | **222** | **2,295** | **6,345** |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 3,495 | 203 | 1,600 | 5,298 |

[1] Cynhwysir yn y balans sy'n cael ei gario ymlaen £168m (2020 – £169m) sy'n ddyledus o fewn blwyddyn.

[2] Mae Benthyciadau i Fyfyrwyr yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg trwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Nodir isod fanylion mesuriad Gwerth Teg Benthyciadau i Fyfyrwyr a'r amlygiad i risgiau. Mae asedau ariannol Cymorth i Brynu – Cymru bellach yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg trwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

### Gwerth Enwol

Mae'r tabl isod yn darparu cysoniad rhwng gwerth cario a gwerth enwol benthyciadau myfyrwyr a roddwyd.

| | Benthyciadau i Fyfyrwyr £m |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **4,590** |
| Ychwanegiadau | 699 |
| Ad-daliadau | (139) |
| Llog | 209 |
| Dileadau polisi | (30) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **5,329** |
| Ychwanegiadau | 819 |
| Ad-daliadau | (135) |
| Llog | 171 |
| Dileadau polisi | (21) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **6,163** |
| | |
| **Addasiadau/amhariadau gwerth teg wrth gau:** | |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **(2,335)** |
| Ar 31 Mawrth2020 | (1,834) |
| | |
| **Gwerth cario:** | |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **3,828** |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 3,495 |

Trafodir amlygiad y grŵp i risgiau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r offerynnau ariannol yn y polisïau cyfrifyddu. Yr amlygiad mwyaf i risg credyd ar ddiwedd y cyfnod adrodd yw swm cario pob dosbarth o ased ariannol a grybwyllir uchod.

Mae'r dileadau polisi yn cynnwys symiau a ddilewyd gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr mewn perthynas â dileu'n rhannol, oedran, marwolaeth, methdaliad ac ati.

## 6.1 Benthyciadau i Fyfyrwyr

Mae benthyciadau i fyfyrwyr mewn addysg uwch ac addysg bellach yn tarddu o Lywodraeth Cymru ac yn cael eu cydnabod ganddi.

### Benthyciadau i fyfyrwyr

O dan IFRS 9, mae benthyciadau i fyfyrwyr yn cael eu categoreiddio ar sail gwerth teg trwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SOCNE). Wrth bennu gwerth teg benthyciadau myfyrwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio model llif arian disgownt (gweler isod) sy'n cynnwys yr holl lifau arian parod disgwyliedig, gan gynnwys y llog y disgwylir iddo ddod i law. O ganlyniad, cydnabyddir un symudiad gwerth teg bellach yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr.

Wrth ystyried dibynadwyedd y mewnbynnau a ddefnyddir wrth benderfynu ar Werth Teg mae Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi'u categoreiddio fel mewnbynnau lefel 3 o dan y safonau cyfrifyddu, a ddiffinnir fel hyn: **If one or more of the significant inputs is not based on observable market data, the instrument is included as level 3**. Mae gwerth teg benthyciadau i fyfyrwyr, felly, yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio model ariannu y Llwybr Enillion Stochastic (StEP) a ddarperir gan Adran Addysg Llywodraeth y DU.

Cyfrifir gwerth teg benthyciadau newydd hefyd gan ddefnyddio model StEP sy'n defnyddio data am ddemograffeg myfyrwyr addysg uwch er mwyn darogan y tebygolrwydd y byddant yn ad-dalu benthyciadau. Mae sawl amrywiad o'r model, wedi'u haddasu ar gyfer benthycwyr sy'n cymryd gwahanol fathau o fenthyciadau: benthyciadau cyn 2012 ac ôl-2012 (benthyciadau Meistr a Doethuriaeth Israddedig, Rhan Amser ac Ôl-raddedig). Mae'r modelau'n dibynnu ar set gymhleth o ragdybiaethau, ac yn arbennig enillion benthycwyr. Modelau hirdymor yw'r rhain, ond maent yn defnyddio rhagolygon hirdymor a byrdymor diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer RPI, cyfraddau sylfaenol a thwf enillion. Wrth eu natur, mae gwerth y llyfrau benthyciadau i fyfyrwyr yn ansicr gan eu bod yn dibynnu i raddau helaeth ar amgylchiadau macroeconomaidd ac enillion graddedigion dros y 30 mlynedd nesaf, yn ogystal â nifer o ragdybiaethau cymhleth eraill. Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y modelau ad-dalu'n cael eu had-dalu'n ffurfiol bob blwyddyn ac mae'r symiau a ddarperir ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r amcangyfrif fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021.

### Newidynnau allweddol

Disgrifir isod y **newidynnau** a'r rhagdybiaethau allweddol a ddefnyddir yn y model. Yn ogystal, mae sensitifrwydd gwerth llyfr net benthyciadau i fyfyrwyr, ar 31 Mawrth 2021, i bob newidyn wedi'i fesur:

**Cyfradd disgownt:** Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr egwyddorion o dan IAS 9 ac wedi defnyddio'r gyfradd fel y'i nodir ym mhapur diweddaraf PES, sef RPI plws 0.7%. Hon yw cyfradd disgownt hirdymor Trysorlys Ei Mawrhydi sef cost benthyca hirdymor y Llywodraeth. Anaml y mae hyn yn newid, ac mae unrhyw gynnydd yn y gyfradd disgownt yn gostwng gwerth cario benthyciadau i fyfyrwyr. Ar gyfer pob 0.1 pwynt canran y mae cyfradd disgownt Trysorlys EM yn cynyddu, bydd gwerth llyfr net y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr yn gostwng £40.5m; bydd gostyngiad o 0.1 pwynt canran yn arwain at gynnydd o £41.3m.

**Chwyddiant RPI:** Mae'r model yn defnyddio cyfraddau RPI yn unol â rhagolygon tymor byr OBR (Tachwedd 2020) tan 2025-26 a phenderfynyddion economaidd hirdymor OBR o 2026-27 ymlaen. Mae'r rhagolwg RPI hirdymor yn sefydlogi ar gyfradd o 2.90% o 2040-41. Bydd RPI uwch yn cynyddu'r llog ar gyfer y mwyafrif o fenthyciadau, a fydd yn arwain at ostyngiad yn y swm cario. Ar gyfer pob 1% o'r cynnydd a ragwelir yn yr RPI, bydd gwerth llyfr net y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr yn gostwng £21m; bydd gostyngiad o 1% yn arwain at gynnydd £21.8m yn y gwerth llyfr net.

**Enillion graddedigion:** Mae'r model yn rhagdybio y bydd twf enillion enwol cyfartalog byrdymor yn cydymffurfio â rhagolygon byrdymor OBR (Tachwedd 2020) tan 2025-26, ac â phenderfynyddion economaidd hirdymor OBR o 2026-27 ymlaen. Tybir bod twf enillion hirdymor ar gyfradd o 3.71% rhwng 2026-27 a 2035-36, a 3.83% o 2036-37. Bydd cynnydd mewn Enillion Graddedigion yn cynyddu gwerth cario benthyciadau i fyfyrwyr. Ar gyfer pob cynnydd o 1% mewn enillion graddedigion, bydd gwerth llyfr net y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr yn cynyddu £28.8m; fodd bynnag, bydd gostyngiad o 1% yn arwain at ostyngiad o £29m yng ngwerth llyfr net benthyciadau i fyfyrwyr.

**Trothwy enillion graddedigion:** Ar 18 Hydref 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r trothwy ad-dalu ar gyfer pob benthyciad ar ôl 2012 yn cael ei gynyddu o £21,000pa i £25,000pa gydag effaith o 1 Ebrill 2018 ac y byddai'n cynyddu bob blwyddyn wedyn yn unol â thwf enillion. Ar gyfer 2020-21 y trothwy oedd £26,575pa. Ar gyfer benthyciadau cyn 2012, trothwy enillion 2020-21 oedd £19,390pa. Fel penderfyniad polisi, nid yw hyn wedi bod yn destun dadansoddiad sensitifrwydd.

**Dosbarthiad incwm graddedigion:** Mae'r model yn rhagdybio y bydd dosbarthiadau incwm graddedigion yn y dyfodol yn debyg i rai graddedigion yn y gorffennol ac fe'u seilir ar yr Arolwg o'r Llafurlu, Panel Aelwydydd Prydain a data gweinyddol a ddelir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Nid yw hyn yn destun dadansoddiad sensitifrwydd.

**Dileu'n rhannol:** Mae dileu'n rhannol yn bolisi gan Lywodraeth Cymru sy'n gymwys i fenthyciadau cynnal a chadw, lle y gellir cymhwyso dilead o hyd at £1,500 wrth gael yr ad-daliad cyntaf yn erbyn y benthyciad os nad oes gan y myfyriwr unrhyw daliadau, costau, treuliau neu gosbau heb eu talu mewn perthynas â'r benthyciad neu os ydynt yn torri cytundeb y benthyciad. Fel penderfyniad polisi, nid yw hyn yn destun dadansoddiad sensitifrwydd.

**Cyfraddau sylfaen:** Mae'r model yn rhagdybio y bydd cyfraddau sylfaenol Banc Lloegr yn cyd-fynd â rhagolygon OBR (Tachwedd 2020) ar gyfer y gorwel a ragwelir i gyd. Cymhwysir cap cyfradd sylfaenol i gyfraddau llog Cynllun 1 pan fo'r gyfradd sylfaenol yn isel ac mae'r gyfradd RPI yn gymharol uchel; bydd cynnydd yn y rhagolwg cyfradd sylfaenol yn cynyddu'r gwerth cario yn yr achos hwn. Ar gyfer pob 0.1 pwynt canran y mae'r gyfradd sylfaen yn cynyddu, bydd gwerth llyfr net y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr yn cynyddu £16.1m, bydd gostyngiad o 0.1 pwynt canran yn arwain at ostyngiad o £16.4m.

Dengys data hanesyddol dros y deng mlynedd diwethaf sut mae newidiadau diweddar i dwf enillion, cyfraddau RPI a chyfraddau sylfaenol yn cymharu â'r lefelau presennol a rhagolygon hirdymor:

- Y dybiaeth OBR hirdymor ar gyfer twf enillion yw 3.83% ar hyn o bryd. Rhagolwg OBR ar gyfer cyfartaledd **twf enillion** y flwyddyn ariannol yn 2020-21 oedd 0.89% ar adeg modelu; yn y deng mlynedd ariannol flaenorol, roedd ffigurau alldro'r ONS yn amrywio rhwng 1.32% a 3.13%.

- Y dybiaeth OBR hirdymor ar gyfer **RPI** ar hyn o bryd yw 2.90%. Roedd rhagolwg OBR ar gyfer RPI mis Mawrth yn 2020-21 yn 1.16% ar adeg modelu; yn y deng mlynedd ariannol flaenorol, roedd ffigurau alldro'r ONS yn amrywio rhwng 0.90% a 5.30%.
- Y dybiaeth OBR hirdymor ar hyn o bryd ar gyfer **y gyfradd sylfaen** yw y bydd yn codi i 4.17%. Ar adeg modelu, roedd rhagolwg OBR ar gyfer y gyfradd sylfaen yn 0.07% ar gyfartaledd yn ystod 2020-21; yn y deng mlynedd ariannol blaenorol, roedd yr alldro'n amrywio rhwng 0.10% a 0.75%.

Defnyddir nifer o ragdybiaethau eraill yn y model, ond nid yw newid y rhain i ganlyniadau rhesymol eraill yn cael effaith sylweddol ar werth y llyfrau benthyciadau. Mae llawer o'r rhagdybiaethau yn annibynnol ar ei gilydd, er y gallent newid ar yr un pryd.

Mae data ar y newidynnau allweddol uchod, gan gynnwys data hanesyddol, i'w gweld wefannau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (www.ons.gov.uk); Swyddfa Cyfrifoldeb y Gyllideb (www.obr.uk); a Banc Lloegr (www.bankofengland.co.uk).

Mae gwybodaeth ystadegol am fenthyciadau myfyrwyr ar gael ar wefan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (y datganiad ystadegol diweddaraf: www.gov.uk/government/statistics/student-loans-in-wales-2020-to-2021).

## 6.2 Cyfalaf Difidend Cyhoeddus Ymddiriedolaethau'r GIG

Cynrychiolir buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Ymddiriedolaethau'r GIG gan Gyfalaf Difidend Cyhoeddus (PDC). Delir PDC yn unol â dehongliad FReM o IFRS 9 ar gost hanesyddol llai amhariadau, yn gyson â blynyddoedd blaenorol. Adeg cyfuno Ymddiriedolaethau'r GIG caiff y buddsoddiad PDC ei ddileu.

## 6.3 Asedau Ariannol Eraill

Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi offerynnau ariannol, yn enwedig benthyciadau, i gyrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru a chyllid a benthyciadau i fusnesau i gefnogi datblygu economaidd. Mae'r benthyg hwn yn digwydd fel rhan o'i gweithgareddau arferol ac nid yw Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch masnachu yn yr offerynnau ariannol hyn.

Fel offerynnau dyled syml delir y mwyafrif o asedau ariannol craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer casglu llif arian parod contractiol, ac felly maent yn cael eu dal yn ôl cost wedi'i hamorteiddio o dan IFRS 9. Mae asedau ariannol Cymorth i Brynu, Cymru bellach yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg trwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Ni ddelir unrhyw asedau ariannol perthnasol yn ôl gwerth teg trwy Wariant Net Cynhwysfawr Cyfunol Arall yn y cyfrif Craidd.

Cyfrifir gwerth teg llyfr benthyciadau ecwiti a rennir Cymorth i Brynu Cymru drwy nodi llifau arian parod disgwyliedig yn y dyfodol a disgowntio'r rhain ar gyfradd briodol. Mae'r cyfrifiad hwn yn defnyddio nifer o dybiaethau, yn enwedig rhagolwg ar gyfer Mynegai Prisiau Tai (HPI) yn y dyfodol, cyfradd ddisgownt yn seiliedig ar ystod o fondiau tai tebyg a phroffil adbryniadau benthyciadau. Nid oes data arsylwadwy ar gyfer yr HPI am gyfnod o 25 mlynedd y model. Mae'r model yn defnyddio HPI Cymru fel y'i cyhoeddwyd gan Gofrestrfa Tir EM fel mewnbwn allweddol, ac mae data HPI a ddarparwyd drwy ddadansoddi'r farchnad

yn annibynnol wedi'i ddefnyddio i sefydlu'r gyfradd HPI hirdymor yng Nghymru. Mae rhagolygon yr HPI yn cynnwys effaith ddisgwyliedig COVID-19 ar brisiau tai. Ceir rhagor o fanylion am fodel gwerth teg Cymorth i Brynu, Cymru yng nghyfrifon Banc Datblygu Cymru PLC.

Yn gynwysedig yn 'Asedau Ariannol Eraill' ar 1 Ebrill 2020 roedd buddsoddiad o £61.3m ym Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig (CIAL) drwy WGC Holdco Limited a benthyciad o £54.6m gan Lywodraeth Cymru i CIAL. O ganlyniad i effaith pandemig COVID-19 ar y diwydiant hedfan a gweithrediadau CIAL, penderfynodd Llywodraeth Cymru ddileu £42.6 miliwn o ddyled y maes awyr (gan gynnwys llog cronedig) er mwyn sicrhau'r tebygolrwydd mwyaf posibl o adennill y benthyciad, gan adael balans benthyciad ar 31 Mawrth 2021 o £26.3m. Mae cau'r maes awyr oherwydd COVID-19 am ran helaeth o 2020-21 i draffig teithwyr a'r disgwyliadau o ran adfer y gweithrediadau arferol wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio hefyd wedi effeithio ar brisiad WGC Holdco a thrwy hynny ar fuddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y maes awyr, gan arwain at amhariad o £43.5m a phrisiad buddsoddi o £17.8m ar 31 Mawrth 2021. Cyhoeddwyd pecyn achub ac ailstrwythuro i roi cymorth i CIAL yn y tymor canolig ar 3 Mawrth 2021.

Mae asedau ariannol eraill grŵp ac eithrio'r rhai gyda CIAL a nodir uchod yn cynnwys: buddiannau ariannol Llywodraeth Cymru mewn cyd-fentrau, benthyciadau a buddsoddiadau eraill, benthyciadau Buddsoddi i Arbed gyda'r Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill; ac asedau a ddelir gan Fanc Buddsoddi Cymru.

## 7. Stocrestrau

| | Ar 31 Mawrth 2021 | | Ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Asedau Datblygu | 171 | 171 | 166 | 166 |
| Cyffuriau[1] | 27 | 57 | 22 | 51 |
| Deunydd telathrebu dros ben | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Halen ffyrdd | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Defnyddiau traul eraill | 1 | 146 | 1 | 56 |
| | **201** | **376** | **191** | **275** |

[1] Yn gynwysedig o fewn y stocrestrau cyffuriau Craidd ar 31 Mawrth 2021 mae £8.1m mewn perthynas â defnyddiau traul COVID-19 gan gynnwys pecynnau prawf llif unffordd a meddyginiaethau a drosglwyddwyd i Lywodraeth Cymru o Adrannau eraill Llywodraeth y DU i'w hystyried yn unig, fel rhan o'r ymateb ehangach i'r pandemig COVID-19 a dosbarthu cyflenwadau penodol a gaffaelwyd gan Lywodraeth y DU.

## 8. Symiau derbyniadwy trwy fasnach, asedau ariannol ac asedau eraill

| | Ar 31 Mawrth 2021 | | Ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau derbyniadwy trwy fasnach | 151 | 240 | 229 | 337 |
| Treth arall | 15 | 45 | 13 | 13 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 55 | 105 | 102 | 155 |
| | **221** | **390** | **344** | **505** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau derbyniadwy trwy fasnach | 7 | 215 | 11 | 118 |
| Rhagdaliadau | 11 | 12 | 11 | 17 |
| | **18** | **227** | **22** | **135** |
| **Cyfanswm y symiau derbyniadwy trwy fasnach ac asedau cyfredol eraill** | **239** | **617** | **366** | **640** |

## 9. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | Ar 31 Mawrth 2021 | | Ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **107** | **839** | **107** | **698** |
| Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno[1] | - | - | - | 6 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 533 | 989 | - | 135 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **640** | **1,828** | **107** | **839** |
| **Roedd y balansau canlynol yn cael eu dal yn:** | | | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 629 | 749 | 90 | 171 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 11 | 1,079 | 17 | 668 |
| | **640** | **1,828** | **107** | **839** |

[1] Mae Cyrff sydd newydd gael eu Cyfuno'n adlewyrchu'r balansau a gynhwysir ar 1 Ebrill 2019 ar gyfer AaGIC.

## 10. Symiau masnachol a symiau taladwy eraill

| | Ar 31 Mawrth 2021 | | Ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn:** | | | | |
| Trethi a nawdd cymdeithasol | 2 | 76 | 3 | 58 |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 1,101 | 2,136 | 771 | 1,518 |
| Incwm gohiriedig yr Undeb Ewropeaidd | 198 | 198 | 66 | 66 |
| Croniadau eraill ac incwm gohiriedig | 409 | 506 | 391 | 437 |
| Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 420 | 420 | 36 | 36 |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesau cyllid a chontractau PFI | 10 | 16 | 10 | 16 |
| | **2,140** | **3,352** | **1,277** | **2,131** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | - | 4 | - | 2 |
| Rhwymedigaethau o dan PFI | 76 | 124 | 85 | 137 |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesau cyllid | - | 18 | 1 | 6 |
| | **76** | **146** | **86** | **145** |
| **Cyfanswm symiau taladwy ar gyfer masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill** | **2,216** | **3,498** | **1,363** | **2,276** |

# 11. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Ar 31 Mawrth 2021 | | Ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **1,250** | **1,339** | **1,180** | **1,278** |
| Darperir yn y flwyddyn | 294 | 347 | 376 | 413 |
| Darpariaethau nad oes mo'u hangen ac a adferwyd | (101) | (105) | (175) | (205) |
| Trosglwyddo | (18) | (19) | (25) | (10) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (119) | (152) | (106) | (137) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,306** | **1,410** | **1,250** | **1,339** |
| **Dadansoddi amseriad disgwyliedig llifoedd wedi'u disgowntio:** | | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 329 | 378 | 277 | 318 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 391 | 414 | 408 | 432 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 586 | 618 | 565 | 589 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,306** | **1,410** | **1,250** | **1,339** |

## Grŵp Llywodraeth Cymru yn unig

| | Arall £m | Cronfa Risg Cymru[1] £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| **Dadansoddi amseriad disgwyliedig llifoedd wedi'u disgowntio:** | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 62 | 316 | 378 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 77 | 337 | 414 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 138 | 480 | 618 |
| | **277** | **1,133** | **1,410** |

[1] Cynhelir Cronfa Risg Cymru fel rhan o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre y mae ei chyfrifon i'w gweld yn www.velindre-tr.wales.nhs.uk/key publications.

## 11.1 Darpariaethau Craidd Llywodraeth Cymru

Mae Darpariaethau Craidd Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

**Darpariaethau Iechyd**

Mae gan Lywodraeth Cymru ddarpariaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd, ar gyfer Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru ac ad-daliadau Cronfa Risg Cymru a ddisgwylir yn y dyfodol).

Mae Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru yn darparu un cynllun symlach o daliadau cymorth ex gratia i unigolion a'u teuluoedd y mae hepatitis C a HIV wedi effeithio arnynt wedi iddynt gael eu trin â gwaed halogedig yng Nghymru. Ar 25 Mawrth 2021 cyhoeddwyd trefniadau cymorth ariannol ychwanegol wedi'u hôl-ddyddio hyd at fis Ebrill 2019 ar gyfer buddiolwyr presennol. Y balans ar y ddarpariaeth ar gyfer Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru, ar 31 Mawrth 2021, yw £136.9m (2019 20: £84.2m).

Mae Cronfa Risg Cymru (WRP) yn helpu cyrff GIG Cymru gyda rheoli risg a setlo hawliadau y mae anghydfod yn eu cylch ar gyfer honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster fel cyflogwr. Balans WRP ar 31 Mawrth 2021 yw £1,133m (2019-20: £1,134m).

Mae sefydliadau GIG Cymru yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu ddeongliadol ar gyfer esgeulustod clinigol, anafiadau personol a chostau amddiffyn y mae eu hamseru neu eu swm yn ansicr ar ddyddiad y fantolen ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth. Ariennir hawliadau drwy Wasanaethau Cronfa Risg Cymru (WRPS) sy'n derbyn dyraniad brigdor blynyddol gan Lywodraeth Cymru i dalu am gost ceisiadau am ad-daliad a gyflwynir i'r Pwyllgor WRPS bob deufis.

Gwneir amcangyfrifon sylweddol mewn perthynas ag esgeulustod clinigol parhaus a hawliadau am anafiadau personol. Darperir rhagdybiaethau o ran y canlyniad tebygol, y rhwymedigaethau posibl ac amseriad yr hawliadau ymgyfreitha hyn gan gynghorwyr cyfreithiol annibynnol.

Gwneir darpariaeth ar gyfer achosion tebygol ac achosion sicr yn unol ag IAS 37. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer achosion tebygol ac achosion sicr yn seiliedig ar amcangyfrifon achos o hawliadau unigol a gofnodwyd gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg o fewn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'r cyfreithwyr yn amcangyfrif gwerth yr achos gan gynnwys ffioedd amddiffyn, gan ddefnyddio barn broffesiynol ac o gael cyngor gan gwnselwyr. Yna caiff prisiadau eu disgowntio ar gyfer yr elfennau colli yn y dyfodol gan ddefnyddio disgwyliad oes unigol a thablau actiwaraidd Adran Actiwari'r Llywodraeth (tablau Ogden) a Chyfradd Disgownt Anafiadau Personol o minws 0.75%. Cynhelir rhwymedigaethau yn y dyfodol ar gyfer achosion penodol a thebygol gyda thebygolrwydd o 95%-100% a 50%-94% yn y drefn honno fel darpariaeth ar y fantolen. Fel arfer, mae achosion yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w setlo, yn enwedig ar gyfer achosion gwerth uchel lle mae angen cyfnod datblygu i sefydlu hyd a lled yr anaf a achoswyd.

Mae'r rhan fwyaf o hawliadau gwerth uchel (>£1M) yn cael eu setlo gyda Gorchymyn Talu Cyfnodol (PPO) lle telir rhan neu'r cyfan o werth terfynol y setliad dros oes yr hawliwr. Pan fydd achosion yn cael eu setlo gyda threfniant PPO, crëir darpariaeth unigol drwy luosi gwerth talu blynyddol cysylltiedig mynegai'r hawlwyr â

nifer y blynyddoedd o ddisgwyliad oes. Mae nifer y blynyddoedd o ddisgwyliad oes yn cael ei ddisgowntio yn ôl lluosyddion tabl Ogden gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt enwol Trysorlys EM ar gyfer darpariaethau cyffredinol a gyhoeddir yn flynyddol ym mhapur y System Gwariant Cyhoeddus (PES) a ffactor chwyddiant.

Mae Cronfa Risg Cymru yn rhan o Gydwasanaethau GIG Cymru, a gynhelir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac mae rhagor o fanylion am gyfrifo darpariaethau a'r gorchmynion talu cyfnodol wedi'u cynnwys yng nghyfrifon Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn www.velindre-tr.wales.nhs.uk/home.

### Darpariaethau eraill

Mae hyn yn cynnwys amrywiol rwymedigaethau posibl o ran pensiynau a chyflogaeth mewn perthynas â gweithgarwch cyflenwi Llywodraeth Cymru.

## 11.2 Darpariaethau Grŵp Llywodraeth Cymru

Mae Darpariaethau Grŵp Llywodraeth Cymru yn cynnwys y darpariaethau Craidd a nodir uchod, a darpariaethau a ddelir gan endidau cyfunol. Yn bennaf, darpariaethau eraill y GIG yw'r rhain gan gynnwys pensiynau a darpariaethau ar gyfer y £25,000 cyntaf o hawliadau esgeuluster clinigol nad yw'n cael ei ad-dalu gan Gronfa Risg Cymru.

## 12. Rhwymedigaethau digwyddiadol

| | Ar 31 Mawrth 2021 | | Ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Hawliadau Cyfreithiol – honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster fel cyflogwr | 1,348 | 1,366 | 1,099 | 1,121 |
| Rhwymedigaethau contractiol posibl o dan Ddeddf WDA 1975 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| Hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill | 114 | 120 | 94 | 103 |
| **Cyfanswm** | **1,472** | **1,496** | **1,203** | **1,234** |

**(i) Hawliadau Cyfreithiol – honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster fel cyflogwr**
Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhaid i Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Cymru 2006 dalu rhwymedigaethau Cronfa Risg Cymru os bydd cyrff y GIG yn peidio â bodoli.

**(ii) Hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill**
Mae hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill yn cynnwys hawliadau cyfreithiol a chontractiol sydd ar y gweill a rhwymedigaethau digwyddiadol sy'n gysylltiedig ag indemniadau a gwarantau contractiol.

**(iii) Trefniadau'r Cynllun sy'n Talu GIG**
Yn unol â Chyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gefnogi amgylchiadau lle mae rheolau treth pensiynau yn effeithio ar staff clinigol sydd am weithio oriau ychwanegol, ac wedi penderfynu y caiff staff clinigol sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG ac sydd, o ganlyniad i waith a wnaed ym mlwyddyn dreth 2019-20, yn wynebu tâl treth ar dwf eu buddion pensiwn GIG, ddewis i'r tâl hwn gael ei dalu gan Gynllun Pensiwn y GIG, gyda'u pensiwn yn gostwng pan fyddant yn ymddeol. Caiff y cynllun hwn ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru heb unrhyw gost net i Gyflogwyr y GIG. Roedd gan staff clinigol tan 31 Mawrth 2022 i ddewis y cynllun hwn a'r gallu i wneud newidiadau hyd at 31 Gorffennaf 2026. Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol o £21.5m wedi'i chynnwys yn yr hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill yn y tabl uchod.

## 12.1 Rhwymedigaethau digwyddiadol nad ydynt wedi'u meintioli

**Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465**

Ar 28 Hydref 2020, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gontract gyda chonsortiwm Cymoedd y Dyfodol i ddylunio adeiladau, ariannu a gweithredu cynllun i ddeuoli'r A465 rhwng Dowlais a Hirwaun (rhannau 5 a 6). Er bod risgiau sylweddol wedi'u trosglwyddo i Gymoedd y Dyfodol, fel rhan o'r contract, mae rhai ohonynt yn dal i fod yn nwylo Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys costau ychwanegol cyfyngedig sy'n gysylltiedig â phandemig, tariffau masnach a godir ar nwyddau penodol sy'n deillio o Ymadael â'r UE, a diffygion cudd posibl sy'n ymwneud â strwythurau penodol sy'n bodoli eisoes pe bai unrhyw rai'n cael eu darganfod.

Ar ddyddiad y fantolen ar 31 Mawrth 2021, ni ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy i alluogi creu darpariaeth a datgelir atebolrwydd amodol heb ei fesur.

## 12.2 Rhwymedigaethau Digwyddiadol Annhebygol

Cyflwynir rhwymedigaethau digwyddiadol yma lle bernir bod y tebygolrwydd o drosglwyddo budd economaidd mewn setliad yn annhebygol. Oherwydd hyn, nid ydynt yn bodloni meini prawf IAS 37 i'w datgelu yn y datganiadau ariannol, ond fe'u cyflwynir yma at ddibenion tryloywder. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â sefyllfaoedd lle mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i warantau neu indemniadau, ond lle nad oes arwyddion ar hyn o bryd y bydd y rhain yn cael eu defnyddio. Er bod yr holl gamau lliniaru wedi'u cymryd ac y byddant yn cael eu cymryd i leihau'r risg a'r amlygiad, ni ellir dileu'r risg yn gyfan gwbl. Os ystyrir bod hynny'n briodol, mae rhwymedigaethau digwyddiadol yr ystyrir bod y tebygolrwydd y byddant yn digwydd yn fwy nag annhebygol yn cael eu datgelu yn nodyn 12 uchod.

Yn 2019 cytunodd Llywodraeth Cymru i sicrwydd, gwarantiadau, indemniadau a cholledion posibl y gellir eu meintioli (wedi'u datgelu) a cholledion posibl o dan y 'Cytundeb Grant' â'i ddarparwr (Rheilfyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf) a'r cytundeb indemniad ('held harmless agreement') â'r Adran Drafnidiaeth.

**Rhwymedigaethau digwyddiadol annhebygol y gellir eu meintioli:**

£dim.

**Rhwymedigaethau digwyddiadol annhebygol na ellir eu meintioli:**

### Gwasanaethau Rheilffyrdd

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi indemniad i'r Adran Drafnidiaeth a Network Rail os bydd unrhyw anfanteision o ran costau neu unrhyw risgiau ariannol newydd yn dod i'r amlwg o ganlyniad i ddatganoli pwerau masnachfreinio'r rheilffyrdd a'r bwriad i drosglwyddo asedau Llinellau Craidd y Cymoedd o Network Rail i Trafnidiaeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi  indemniad i'r darparwr gwasanaethau trên am amser cyfyngedig yn unig yn erbyn unrhyw dariffau ychwanegol o ganlyniad i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu indemniad i'r darparwr gwasanaethau trên yn erbyn newidiadau sydd wedi deillio o'r Adran Drafnidiaeth i daliadau cynlluniedig ar gyfer mynediad i draciau. Yn yr un modd mae Llywodraeth Cymru wedi'i hindemnio gan yr Adran Drafnidiaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwarant mewn perthynas â gweithwyr Network Rail sy'n ymuno â Thrafnidiaeth Cymru ac sy'n aros yn y Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd os bydd unrhyw ddiffygion yn cael eu creu ar gyfer adran newydd y cynllun.

**Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465**

Yn 2020, cytunodd Llywodraeth Cymru i sicrwyddau, indemniadau a cholledion posibl na ellir eu meintioli mewn perthynas â'r tri phwynt canlynol o dan y contract gyda chonsortiwm Cymoedd y Dyfodol (FV) i ddylunio adeiladu, ariannu a gweithredu cynllun i ddeuoli'r A465 rhwng Dowlais a Hirwaun (rhannau 5 a 6). Ar ddiwedd y contract, mae Llywodraeth Cymru wedi indemnio FV yn erbyn tâl dileu swydd os nad yw rheoliadau TUPE yn gymwys ac nad oes cynigion cyflogaeth yn cael eu gwneud i Staff Cyd-ddarparwyr Prosiectau/Darparwyr Gwasanaethau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi indemnio FV yn erbyn newidiadau perthnasol yn y gyfraith, ar achosion o newidiadau diffiniedig penodol yn y gyfraith, mae'r partïon yn cytuno i addasu'r Tâl Gwasanaeth Blynyddol yn unol â hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi indemnio FV yn erbyn risg na ellir ei hyswirio; os na ellir yswirio rhai risgiau, mae'r partïon yn cyfarfod i adolygu sut y bydd y risg yn cael ei rhannu. Os na cheir cytundeb, gellir terfynu'r cytundeb mewn ffordd sy'n debyg i Force Majeure, neu mae Llywodraeth Cymru yn cymryd risg yswiriant. Nid oes unrhyw dystiolaeth y bydd y tri maes hyn yn cael eu cynnwys, ac felly datgelir rhwymedigaeth ddigwyddiadol annhebygol heb ei meintioli.

**Gwarantau:**

O dan amgylchiadau arbennig mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu fel gwarantwr ar gyfer y cyrff a noddir ganddi. Nid oes yr un o'r gwarantau hyn yn sylweddol.

**Indemniadau:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i indemnio cyrff Trosglwyddo Stoc Tai rhag canlyniadau ariannol tynnu'r Cynllun Lliniaru Treth ar Werth yn ôl neu ei ddiwygio yn y dyfodol.

Mae'r rhwymedigaethau'n rhoi sicrwydd am £419 miliwn i ddeg sefydliad ac mae'r cyfnod rhwymedigaeth yn amrywio. Nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch parhad y cynllun, a bernir bod y potensial i'r rhwymedigaeth aeddfedu'n rhy annhebygol i gael ei gynnwys fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol.

Mae Cynllun Indemniad y Llywodraeth yn darparu indemniadau i alluogi Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, a sefydliadau cymwys eraill i gael benthyg gwrthrychau a gweithiau celf. Bernir bod y tebygolrwydd y gweithredir ar y gwarantau hyn yn rhy annhebygol i gael ei gynnwys fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol.

Gwerth y gwarantau hyn ar 31 Mawrth 2021 oedd £24 miliwn.

**Llythyrau cysur:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyroddi llythyr sicrwydd Busnes Gweithredol i Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio i gwmpasu rhwymedigaethau'r dyfodol o £2.346 miliwn. O gofio lefel sylweddol y cronfeydd wrth gefn yng Nghronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio Bernir bod ei bod yn dra annhebygol y bydd y rhwymedigaeth hon yn codi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyroddi llythyr sicrwydd Busnes Gweithredol i Trafnidiaeth Cymru ymdrin â rhwymedigaethau presennol ac yn y dyfodol sy'n codi yn unol â'r Cytundeb Rheoli (rhwng Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru) a'r llythyrau Cylch Gwaith cyfnodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu dyroddi i Trafnidiaeth Cymru.

## 13. Rhwymedigaethau eraill

| | Ar 31 Mawrth 2021 | | Ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Diffygion cronfeydd pensiwn | 36 | 84 | 54 | 98 |
| Cronfa'r Benthyciadau Gwladol (yn ddyledus ar ôl pum mlynedd)[1] | 11 | 11 | 11 | 11 |
| Arall | - | 3 | - | - |
| **Cyfanswm** | **47** | **98** | **65** | **109** |

[1] Balansau'r Gronfa'r Benthyciadau Gwladol yw Cronfeydd Benthyciadau Gwladol a gafodd eu benthyg ymlaen i gan sgrifennydd Gwladol Cymru yn wreiddiol i Gorfforaeth Datblygu'r Canolbarth. Cafodd y rhain eu trosglwyddo wedyn i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig yn yr 1980au; ac i Awdurdod Datblygu Cymru (ADC) pan ddiddymwyd y Bwrdd yn 1998. Ers i ADC gael ei ddiddymu yn 2006, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ad-dalu prifswm a llog.

## 14. Symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod

| | Ar 31 Mawrth 2021 | | Ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn stocrestrau (ac eithrio asedau datblygu) | (6) | (99) | (2) | (13) |
| **(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau derbyniadwy** | | | | |
| cyfredol | 123 | 115 | (88) | (96) |
| anghyfredol | 4 | (92) | 5 | (18) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau taladwy:** | | | | |
| cyfredol | 863 | 1,221 | 297 | 344 |
| anghyfredol | (10) | 1 | (10) | (9) |
| Symud mewn asedau datblygu | - | - | - | - |
| Elfen gyfalaf prydlesau cyllid/PFI | 10 | - | 10 | 7 |
| Addasiad arall | - | 2 | - | - |
| Llai symudiad mewn symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru a balansau costau anweithredol eraill | (383) | (383) | (19) | (19) |
| | **601** | **765** | **193** | **196** |

# 15. Ymrwymiadau cyfalaf ac ymrwymiadau eraill

## 15.1 Ymrwymiadau cyfalaf

Ymrwymiadau cyfalaf wedi'u contractio sydd heb eu cynnwys fel arall yn y datganiadau ariannol hyn.

| | Ar 31 Mawrth 2021 | | Ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 137 | 618 | 113 | 373 |
| Buddsoddiadau a benthyciadau | 84 | 91 | 37 | 40 |
| | **221** | **709** | **150** | **413** |

## 15.2 Ymrwymiadau o dan brydlesau

### 15.2.1 Ymrwymiadau o dan brydlesau gweithredol

Rhoddir cyfanswmyr isafswm taliadau o dan brydlesau gweithredol yn y dyfodol yn y tabl isod.

| | Ar 31 Mawrth 2021 | | Ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Adeiladau | | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 6 | 37 | 6 | 35 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 20 | 83 | 21 | 81 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 39 | 106 | 43 | 117 |
| | **65** | **226** | **70** | **233** |
| Arall | | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | - | 1 | - | 1 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | - | - | - | - |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - | - | - |
| | - | **1** | - | **1** |
| Cyfanswm | **65** | **227** | **70** | **234** |

### 15.2.2 Ymrwymiadau o dan brydlesau cyllid

Rhoddir cyfanswm yr isafswm taliadau o dan brydlesau cyllid yn y dyfodol yn y tabl isod.

| | Ar 31 Mawrth 2021 | | Ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Arall** | | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 1 | 3 | 1 | 4 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | - | 1 | 1 | 4 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - | - | - |
| | **1** | **4** | **2** | **8** |
| Llai'r elfen llog | - | - | - | - |
| | **1** | **4** | **2** | **8** |

### 15.3 Ymrwymiadau o dan gontractau PFI

Mae gan y Byrddau Iechyd Lleol naw contract PFI, y mae wyth ohonynt at y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Nid oes unrhyw gontractau â chyfanswm ymrwymiad unigol o fwy na £500m.
Cynhwysir manylion y cynlluniau unigol yng nghyfrifon statudol y Byrddau Iechyd Lleol.

### 15.3.1 Ddim ar y fantolen

#### Contract PFI Bute Avenue

Ers 2000 mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dalu £5.1m bob blwyddyn, yn gysylltiedig â'r mynegai, i'r contractwr preifat sy'n gysylltiedig â phrosiect Bute Avenue (PFI), tan fis Tachwedd 2025. Mae partner y sector preifat yn cynnal rhwydwaith ffyrdd Bute Avenue am 25 o flynyddoedd(o 2000-01). Ar ôl y cyfnod hwn caiff y ffordd ei throsglwyddo i Gyngor Sir Caerdydd. Nid yw'r ffordd yn ased i Lywodraeth Cymru.
Y cyfanswm a godwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn perthynas â thrafodiadau PFI nad ydynt ar y fantolen oedd £9,434,792 (2019-20: £9,273,758); a dyma'r taliadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt:

| | Ar 31 Mawrth 2021 £m | Ar 31 Mawrth 2020 £m |
|---|---|---|
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 10 | 9 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 41 | 40 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | 11 |
| | **51** | **60** |

### 15.3.2 Ar y fantolen

#### Contract PFI yr A55

Cynhelir rhwydwaith ffyrdd yr A55 gan gontractwyr am gyfnod o 30 o flynyddoedd (o 1998), ac ar ôl hynny bydd perchnogaeth yr A55 yn mynd yn ôl i Lywodraeth Cymru. Mae'r ffordd yn cael ei thrin fel un o asedau Llywodraeth Cymru ac mae taliadau unedol yn cynnwys dwy elfen – taliadau prydlesau cyllid wedi'u priodoli a thaliadau gwasanaeth.

Y cyfanswm a godwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn perthynas ag elfen gwasanaeth PFI ar y fantolen neu drafodiadau consesiwn gwasanaeth eraill oedd £8,969,253 (2019-20 £9,952,132). Rhoddir cyfanswm y rhwymedigaethau yn y dyfodol o dan PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill yn y tabl isod am bob un o'r cyfnodau hyn.

| | Ar 31 Mawrth 2021 £m | Ar 31 Mawrth 2020 £m |
|---|---|---|
| **Isafswm Taliadau Prydlesau** | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 12 | 12 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 48 | 48 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 36 | 48 |
| | **96** | **108** |
| Llai'r elfen llog | (11) | (14) |
| | **85** | **94** |

| | Ar 31 Mawrth 2021 £m | Ar 31 Mawrth 2020 £m |
|---|---|---|
| **Elfennau gwasanaeth sy'n ddyledus yn y dyfodol** | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 8 | 6 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 24 | 33 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | (1) |
| | **32** | **38** |

### 15.4 Ymrwymiadau Ariannol Eraill

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud contractau na ellir eu dileu (nad ydynt yn brydlesau nac yn gontractau PFI ) ar gyfer gwasanaethau. Dyma'r taliadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y mae'r ymrwymiad yn dod i ben ynddo:

| | Ar 31 Mawrth 2021 | | Ar 31 Mawrth 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m | Craidd LIC £m | Grŵp LIC £m |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 503 | 503 | 615 | 615 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 514 | 514 | 1,162 | 1,162 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 1,925 | 1,925 | 2,512 | 2,512 |
| | **2,942** | **2,942** | **4,289** | **4,289** |

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant ar gyfer nifer o endidau yn flynyddol. Mae'r grantiau wedi'u hymrwymo yn rhan olaf y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 er mwyn rhoi sicrwydd i'r corff sy'n eu cael. Gan eu bod yn ymwneud â'r flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2022 ac yn cael eu hariannu gan ddyraniad cyllideb Llywodraeth Cymru am y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2022 nid ydynt wedi'u datgelu o fewn yr ymrwymiadau uchod.

Wrth ymateb yn ystod camau cychwynnol y pandemig, dilynodd Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru yr un broses i raddau helaeth ag Adran Drafnidiaeth y DU a Llywodraeth yr Alban, yn y defnydd o 'Reolaeth Argyfwng'. Roedd hyn yn darparu cyfnod pontio i'r model contractiol newydd yr ydym bellach wedi'i weithredu. Adlewyrchwyd hyn am y tro cyntaf yn y Cytundeb Mesurau Dros Dro Brys (EIA) ar gyfer mis Mawrth ac Ebrill 2020 ac yna'r Cytundeb Mesurau Brys (LCA) o fis Mai 2020 tan ddechrau mis Chwefror 2021.

Fodd bynnag, roedd y 'cytundeb grant' ar gyfer gwasanaeth rheilffyrdd Cymru a'r Gororau y cytunwyd arno yn 2018 yn wahanol iawn i gontractau masnachfraint rheilffyrdd traddodiadol gan ei fod yn cynnwys gweithredu trenau, rheoli seilwaith a thrawsnewid rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd ac felly roedd angen dull ychydig yn wahanol. O ganlyniad, drwy fecanwaith 'Gweithredwr y Dewis Olaf, sefydlodd Trafnidiaeth Cymru gwmi Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru/ Transport for Wales Rail Ltd (TfWRL) a chynhaliwyd y broses o drosglwyddo gwasanaethau ar 7 Chwefror 2021, pan ddechreuodd Cytundeb Grant Newydd Gweithredwr y Dewis Olaf rhwng TFWRL a Gweinidogion Cymru.

Mae TFWRL yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Trafnidiaeth Cymru, sydd bellach yn gyfrifol yn weithredol am ddarparu gwasanaethau rheilffordd yn ddiogel ac yn ddibynadwy i bobl a chymunedau Cymru a'r Gororau. Er bod TFWRL yn eiddo i Trafnidiaeth Cymru ac yn cael ei reoli'n llwyr ganddo, mae'n gweithredu o dan ei drwydded a'i gymeradwyaeth ei hun, a reoleiddir gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd annibynnol yn ei rôl fel rheoleiddiwr diwydiant rheilffyrdd y DU.

Mae Cytundeb Grant Gweithredwr y Dewis Olaf yn nodi cyfnod o bum mlynedd o 7 Chwefror 2021 ac mae Gweinidogion Cymru yn ymwybodol o'r risgiau ariannu refeniw (farebox) posibl a'u dyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau i deithwyr o dan adran 30 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993 dros y cyfnod hwn. O ystyried yr ansefydlogrwydd yn niferoedd y teithwyr yn dilyn pandemig COVID-19, mae'n amhosibl amcangyfrif yn ddibynadwy werth y cymhorthdal hwn ar gyfer y blynyddoedd i ddod ar hyn o bryd.

## 16. Trafodiadau Partïon Cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru'n cael y rhan fwyaf o'i chyllid o Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu'r awdurdodau lleol, cyrff y GIG yng Nghymru, is-gyrff a Chyrff a Noddir. Ystyrir y cyrff hyn yn bartïon cysylltiedig y mae Llywodraeth Cymru wedi cael amryw o drafodiadau perthnasol â hwy yn ystod y cyfnod. Yn ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru wedi cael nifer o drafodiadau gyda chyrff eraill y Llywodraeth a chyrff y Llywodraeth Ganolog, yn bennaf Swyddfa Cymru, yr Asiantaeth Taliadau Gwledig a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Nid oes unrhyw rai o Weinidogion Cymru, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltieig eraill wedi cynnal unrhyw drafodiadau partïon cysylltiedig â Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn, ac eithrio fel y nodir isod:

Mae Lesley Griffiths (Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig) a Ken Skates (Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth) yn Is-lywyddion Eisteddfod Ryngwladol Llangollen a gafodd £285,000 o gyllid grant yn 2020-21.

Mae Dafydd Elis-Thomas (Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth) yn aelod anrhydeddus o Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a dderbyniodd £155,953; ac mae hefyd yn stiward ac yn Ganon Lleyg yn Eglwys Gadeiriol Llandaf a dderbyniodd £2,000 yn 2020-21 am wasanaethau a gaffaelwyd.

Mae gwraig Vaughan Gething (y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) yn aelod o gwmni Cyfreithwyr Thompsons y talwyd £1,200 iddynt yn 2020-21 am wasanaethau cyfreithiol a gaffaelwyd. Ni fyddai'r Gweinidog wedi cymryd rhan yn y broses gaffael nac yn y penderfyniad i benodi'r cwmni cyfreithiol. Mae'r Gweinidog hefyd yn aelod o Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro, a dderbyniodd £101,495 o gyllid grant yn 2020-21.

Mae Jeremy Miles (Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd) a Rebecca Evans yn aelodau o Undeb Credyd Celtic, a gafodd gyllid grant a benthyca o £494,962 yn 2020-21.

Roedd gwraig Lee Waters (Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth) yn Gyfarwyddwr Anweithredol Llamau Ltd a dderbyniodd £937,221 o gyllid grant yn 2020-21.

Mae gŵr Kirsty Williams (y Gweinidog Addysg) yn bartner mewn busnes ffermio a gafodd £102,433, gan gynnwys cyllid o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE, yn 2020-21.

Mae partner Tracey Burke yn un o lywodraethwyr coleg Caerdydd a'r Fro a dderbyniodd gyllid grant o £63,054,077 yn 2020-21. Nid oedd hi'n ymwneud â'r grant a ddyfarnwyd i'r coleg.

Mae Reg Kilpatrick yn gyfarwyddwr anweithredol i Gymdeithas Tai Trefynwy a dderbyniodd £6,360,434 o gyllid grant yn 2020-21. Nid oedd ef yn ymwneud â phenderfynu, talu na monitro'r dyfarniad cyllid grant i'r gymdeithas dai.

Mae Ellen Donovan (cyfarwyddwr anweithredol) wedi parhau â'i rôl fel cyfarwyddwr anweithredol i Cymwysterau Cymru, rôl y bu ynddi ers mis Rhagfyr 2015, cyn ymuno â Bwrdd Llywodraeth Cymru. Derbyniodd Cymwysterau Cymru gyllid grant o £7,994,000 gan Lywodraeth Cymru yn 2020-21.

Mae Gareth Lynn (cyfarwyddwr anweithredol) yn Gadeirydd Annibynnol Ymddiriedolwyr Cynllun Buddion Ymddeol (pensiwn) Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau. Gwneir y penodiad gan Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau a thelir tâl cydnabyddiaeth amdano. Cafodd Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau £59,081 yn 2020-21. Mae hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol i Spindogs Limited a dderbyniodd £8,280 yn 2020-21 am wasanaethau a gaffaelwyd i Lywodraeth Cymru.

Mae Meena Upadhyaya (cyfarwyddwr anweithredol) yn un un o ymddiredolwyr Race Equality First a dderbyniodd £197,121 o gyllid grant yn 2020-21. Mae Meena hefyd yn un o ymddiriedolwyr Cyngor Hil Cymru a dderbyniodd £86,963 gan gynnwys cyllid grant yn 2020-21.

Datgelir trafodiadau partïon cysylltiedig Byrddau Iechyd Lleol Cymru ac is-gyrff eraill yn eu cyfrifon cyhoeddedig eu hunain.

## 16.1 Canlyniadau cwmnïau cyfunol o dan berchnogaeth lwyr

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 (Wedi'i ailddatgan) | |
|---|---|---|---|---|
| | Elw /(Colled) £m | Cyfalaf Cyfrannau a Chronfeydd Wrth Gefn £m | Elw /(Colled) £m | Cyfalaf Cyfrannau a Chronfeydd Wrth Gefn £m |
| Banc Datblygu Cymru CCC[1, 3] | 25 | 347 | (21) | 237 |
| Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (LLP)[2] | 4 | 47 | 4 | 43 |
| WGC Holdco Limited[2] | - | 18 | (43) | 18 |
| Dewis Gyrfa Career Choices Cyfyngedig | (5) | (42) | (3) | (32) |
| Trafnidiaeth Cymru[4] | - | 2,079 | - | 1 |

[1] Buddsoddiad o 49,999 o gyfranddaliadau £1 cyffredin, 25c wedi'i ran-dalu.

[2] Cyfrif 2019-20 wedi'i gwblhau ar ôl llofnodi cyfrif Cyfunol Llywodraeth Cymru, datgeliad wedi'i ddiweddaru ar gyfer cyfrifon terfynol atodol, heb ei ailddatgan yn y Cyfrifon Cyfunol gan ei fod islaw'r terfyn perthnasedd.

[3] Cyfrif 2019-20 wedi'i ailddatgan, datgeliad wedi'i ddiweddaru ar gyfer ailddatgan, heb ei ailddatgan yn y Cyfrifon Cyfunol gan ei fod islaw'r terfyn perthnasedd.

[4] Sefydlodd Trafnidiaeth Cymru ddau is-endid newydd yn 2020-21, Transport for Wales Rail Limited a Transport for Wales Innovation Services Limited (cyd-fenter TFW sy'n eiddo i'r mwyafrif). Fel y nodir ar dudalen 51 nid yw'r endidau hyn yn cael eu cydgrynhoi ar gyfer 2020-21, mae'r canlyniadau ar gyfer Trafnidiaeth Cymru a nodir uchod ar gyfer rhiant-endid Trafnidiaeth Cymru yn unig.

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u cydgrynhoi gan ddefnyddio ffigurau drafft lle nad oes cyfrifon terfynol ar gael, gan nad ydynt yn wahanol iawn i'r rhai a ddatgelwyd.

## 16.2 Mân is-gyrff a buddiannau eraill

Cynhwysir y Cyd-fentrau canlynol gan Lywodraeth Cymru yn y cyfrifon cyfunol:

- Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru Cyfyngedig – Mae Llywodraeth Cymru yn berchen ar 50% o'r cyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd ar gyfer Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru Cyfyngedig, gyda'r 50% arall yn cael ei ddal gan The Celtic Manor Resort Limited.
- Airbus Group Endeavr Wales (gynt EADS Foundation Wales) – cyd-fuddiant mewn cwmni cyfyngedig drwy warant. Delir perchnogaeth ar y cyd gydag Airbus Defence and Space Ltd (gynt Cassidian Holdings Limited) a Phrifysgol Caerdydd.

Ni chynhwysir y buddiannau canlynol gan Lywodraeth Cymru yn y cyfrifon cyfunol:

Llywodraeth Cymru – Adrannau Anweinidogol – maent yn destun gorchymyn dynodi ond yn amherthnasol at ddibenion cyfuno:

- Awdurdod Cyllid Cymru

Is-gwmnïau Llywodraeth Cymru - yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ac yn amherthnasol i'w cyfuno:

- Design Commission for Wales Limited (Design Commission for Wales/Comisiwn Dylunio Cymru)
- Meat Promotion Wales Limited/Hybu Cig Cymru Cyf
- Sector Development Wales Partnership Limited
- Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyfyngedig
- Centre for Digital Public Services Limited (Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol) – Innovation Point Limited gynt
- Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol
- International Business Wales Limited (Busnes Rhyngwladol Cymru)

Is-gwmnïau Llywodraeth Cymru nad ydynt yn destun gorchymyn dynodi ac sy'n amherthnasol at ddibenion cyfuno:

- Welsh Development Management Limited

### Student Loans Company Limited (Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr)

Mae Llywodraeth Cymru'n dal un gyfran gyda gwerth enwol o £1. Delir perchnogaeth ar y cyd ag Adran Addysg Lloegr, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Gogledd Iwerddon. Mae'r gyfran yn rhoi daliad o 5% i Lywodraeth Cymru yn y cwmni.

### Elusennau'r GIG

Mae elusennau'r GIG yng Nghymru'n is-gwmnïau i'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Nid ydynt yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ac yn amherthnasol i'w cydgrynhoi.

Gellir dod o hyd i Gyfrifon Statudol yr endidau a nodir yn 16.1 a 16.2 naill ai ar eu gwefannau eu hunain neu yn Nhŷ'r Cwmnïau www.gov.uk/government/organisations/companies-house.

## 17. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Peidiodd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS), a oedd yn cael ei gynnal gan Ymddiriedolaeth Prifysgol Felindre ers 1 Ebrill 2010, â chael ei gynnal gan yr Ymddiriedolaeth ar 1 Ebrill 2021, a daeth yn Awdurdod Iechyd Arbennig newydd, Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Bydd asedau a rhwymedigaethau a ddelir ar 31 Mawrth 2021 ac yr adroddir arnynt yn y cyfrifon hyn yn cael eu hadolygu a'u rhannu yn unol â hynny rhwng y ddau sefydliad ar ôl i gyfrifon archwiliedig gael eu cwblhau. Yn unol â pholisi cydgrynhoi Llywodraeth Cymru, disgwylir i Iechyd a Gofal Digidol Cymru gael eu cydgrynhoi yng Nghyfrifon Cydgrynhoi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, yn amodol ar Orchymyn Dynodi.

Sefydlwyd Cwmni Egino fel is-gwmni 100% o eiddo Llywodraeth Cymru ar 24 Mehefin 2021. Mae'r cwmni wedi cael ei sefydlu i ddatblygu ynni a thechnoleg niwclear ar safle Trawsfynydd. Bydd unrhyw newid yn y dyfodol i ffin gydgrynhoi Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r is-gwmni newydd hwn yn dibynnu ar ddosbarthiad Cyfrifon Gwladol ac unrhyw Orchymyn Dynodi sy'n ofynnol. Rhagwelir y bydd trafodiadau Cwmni Egino yn is na ffin berthnasedd Llywodraeth Cymru.

Ar 6 Awst 2021, caffaelodd Trafnidiaeth Cymru Pullman Fleet Services Limited, sef cwmni cynnal a chadw a gwasanaethu fflyd. Yn unol â pholisi cydgrynhoi Llywodraeth Cymru, ac fel is-gwmni i Trafnidiaeth Cymru, bydd y cwmni'n destun dosbarthiad Cyfrifon Gwladol yn ystod 2021-22. Bydd unrhyw newid yn y dyfodol i ffin gydgrynhoi Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r caffaeliad hwn yn dibynnu ar ddosbarthiad ac unrhyw Orchymyn Dynodi sy'n ofynnol. Mae trafodiadau Pullman Fleet Services Limited yn is na ffin berthnasedd Llywodraeth Cymru.

Ar 31 Awst, dosbarthodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol Grŵp Banc Datblygu Cymru i'r sector Llywodraeth Ganolog, ac eithrio FW Capital Limited sydd wedi'i ddosbarthu fel Corfforaeth Gyhoeddus. Yn unol â pholisi cydgrynhoi Llywodraeth Cymru, ni wneir unrhyw newid i'r ffin gydgrynhoi hyd nes y gwneir Gorchymyn Dynodi. Ni ddisgwylir i effaith dosbarthu i sector y Llywodraeth Ganolog gael effaith sylweddol ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol gan fod Grŵp DBW wedi'i gydgrynhoi'n llawn ar hyn o bryd.

Sefydlwyd GCRE Limited fel is-gwmni 100% o dan eiddo Llywodraeth Cymru ar 24 Awst 2021. Sefydlwyd y cwmni i ddatblygu canolfan brofi rheilffyrdd o'r radd flaenaf a chyfleusterau ymchwil a datblygu cysylltiedig ym mhwll wyneb Nant Helen a golchfa lo Onllwyn ym mhen Cymoedd Dulais a Tawe. Bydd unrhyw newid yn y dyfodol i ffin gydgrynhoi Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r is-gwmni newydd hwn yn dibynnu ar ddosbarthiad Cyfrifon Gwladol ac unrhyw Orchymyn Dynodi sy'n ofynnol. Rhagwelir y bydd trafodiadau GCRE Limited yn is na ffin berthnasedd Llywodraeth Cymru yn y camau datblygu cychwynnol.

## 18. Awdurdodwyd i'w Cyhoeddi

Awdurdododd y Prif Swyddog Cyfrifyddu y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 4 Awst 2022.

# Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu

## A.1 Eiddo, offer a chyfarpar

### Tir ac adeiladau (gan gynnwys anheddau)

Mae Llywodraeth Cymru a'i chyrff cysylltiedig yn cyfalafu eiddo rhydd-ddaliadol lle mae'n cael ei gadw i'w ddefnyddio gan y corff ei hun. Mae eiddo ar brydles, lle'r oedd y brydles wreiddiol am lai na chan mlynedd, yn cael ei drin fel cost refeniw. Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol a thir ac adeiladau lesddaliadol (lle'r oedd y brydles wreiddiol am fwy na chan mlynedd) yn cael eu dal ar werth y farchnad agored at eu defnydd presennol; ac eithrio eiddo o natur arbenigol, sy'n cael eu dal ar gost amnewid ddibrisiedig. Prisir tir ac adeiladau gan ddefnyddio prisiadau proffesiynol naill ai bob pum mlynedd, neu bob blwyddyn, gyda mynegeion priodol yn y blynyddoedd rhyngddynt ar gyfer prisiadau nad ydynt yn rhai blynyddol. Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio Mynegai Misol y Banc Data Eiddo Buddsoddi (IPD) ar gyfer mynegeion Canolbarth Lloegr a Chymru.

### Asedau Rhwydwaith

**Rhwydwaith ffyrdd**

Mae'r rhwydwaith ffyrdd wedi'i brisio yn ôl ei gost amnewid ddibrisiedig yn unol â'r canllawiau yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) ar gyfer asedau arbenigol nad oes prisiadau'r farchnad ar gael ar eu cyfer. Er mwyn cynhyrchu'r prisiad hwn mae angen defnyddio rhagdybiaethau, amcangyfrifon a chrebwyll proffesiynol. Y model a ddefnyddir i gynhyrchu'r prisiad yw Systemau Prisio Asedau Awdurdodau Ffyrdd (RAAVS), a redir gan ymgynghorwyr allanol W.S. Atkins. Mae syrfewyr proffesiynol allanol yn cynnal prisiad llawn o'r rhwydwaith ar adegau heb fod yn fwy na phum mlynedd. Cynhaliwyd y prisiad hwn ddiwethaf yn 2019-20. Mae prisiadau interim yn defnyddio cyfres o gostau safonol i brisio cydrannau unigol asedau'r rhwydwaith a mynegeion i ailbrisio'r rhain yn flynyddol.

Cydnabyddir bod y rhwydwaith cefnffyrdd yn ased seilwaith unigol yn unol â'r canllawiau cymwys a amlinellir yn FReM. Er hynny, mae'n cynnwys pedair elfen neilltuol y cyfrifir amdanynt yn wahanol: tir; palmant ffordd; strwythurau (megis pontydd a chwlfertau); a chyfathrebu (megis arwyddion negeseuon electronig).

Mae'r elfen palmant ffordd yn cael ei phrisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunwyd arnynt i nodi cost adnewyddu gros mathau cymwys o ffyrdd ar sail adeiladu newydd ar safle maes gwyrdd. Mae'r cyfraddau hyn yn cael eu hailbrisio'n flynyddol gan ddefnyddio mynegeion i adlewyrchu prisiau cyfredol.

Caiff strwythurau eu prisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunir arnynt i nodi cost adnewyddu mathau cymwys o strwythur ar safle maes gwyrdd lle mae'r rhain ar gael; ond mae strwythurau arbennig, sy'n tueddu i fod yn unigryw eu natur, yn cael eu prisio gan ddefnyddio costau penodol sy'n cael eu diweddaru i'r prisiau cyfredol.

Mae cyfathrebu'n cael ei brisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunir arnynt i nodi cost adnewyddu mathau cymwys o gyfathrebu.

Caiff yr holl waith cynnal a chadw sy'n cadw potensial gwasanaeth y rhwydwaith ffyrdd ei gyfalafu. Mae gwariant olynol sy'n ychwanegu at wasanaeth neu oes y rhwydwaith ffyrdd yn cael ei gyfalafu.

Mae ffyrdd newydd yn cael eu hailgategoreiddio o Asedau o dan Adeiladwaith pan fydd y manylion strwythurol wedi'u darparu gan yr Awdurdod Asiant i'w mewnbynnu i'r model, a allai fod beth amser ar ôl i'r ffordd agor.

Cyfeirir ar drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gynnal a chadw darnau o'r ffordd fel rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd i rwydwaith yr awdurdod lleol neu oddi yno fel 'creu statws cefnffordd' neu 'dynnu statws cefnffordd' yn eu trefn. Mae 'creu statws cefnffordd' neu 'dynnu statws cefnffordd' oddi wrth yr awdurdodau lleol neu iddynt yn cael ei drin fel trosglwyddiad oddi wrth adrannau eraill o'r Llywodraeth neu iddynt. Ymdrinnir â ffyrdd a strwythurau y tynnwyd eu statws fel gwarediadau o safbwynt cyfrifyddu heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt. Mae'r elw neu'r golled gysylltiedig yn cael ei phrosesu trwy'r gronfa gyffredinol.

Y ffactorau mynegeio a gymhwysir yma yw:

- Palmant Ffordd a Strwythurau – Mynegai Baxter
- Cyfathrebu – Mynegai Baxter
- Tir – Cynhyrchir mynegeion tir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio

Cymerir symudiadau ar i fyny o ran gwerth i'r gronfa ailbrisiadau. Mae symudiadau ar i lawr o ran gwerth yn cael eu gosod yn erbyn unrhyw falans credyd a ddelir yn y gronfa ailbrisiadau nes i'r credyd ddod i ben a chânt eu gosod fel traul wedyn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

**Y Rhwydwaith Rheilffyrdd**

Mae'r ased CVL yn cynnwys seilwaith rheilffyrdd, gorsafoedd, pontydd ac asedau eraill sydd gyda'i gilydd yn ffurfio Ased Rhwydweithiol yn unol â FReM Trysorlys Ei Mawrhydi.

O dan yr FReM, mae Asedau Rhwydweithio yn cael eu prisio ar Gost Amnewid Ddibrisiedig (DRC), oherwydd eu bod yn asedau arbenigol a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd. Mae'r dull prisio hwn yn seiliedig ar addasiad FReM o IAS 16 (Eiddo, Cyfarpar ac Offer). Er mwyn cynhyrchu'r prisiad hwn mae angen defnyddio rhagdybiaethau, amcangyfrifon a chrebwyll proffesiynol.

Cyfrifir y DRC drwy bennu cost amnewid gros ar gyfer y Rhwydwaith CVL yn gyntaf. Yna caiff y gost amnewid gros ei haddasu (neu ei "dibrisio") i adlewyrchu amcangyfrif gorau'r rheolwyr o gyflwr a chapasiti'r Rhwydwaith CVL; y gost amnewid gros hon wedi'i haddasu yw'r gost amnewid ddibrisiedig.

Pennir y gost amnewid gros yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae'r canllawiau'n gofyn am ragdybiaethau penodol gan gynnwys:

- ased cyfatebol modern sy'n cael ei drin fel Rhwydwaith sy'n union yr un fath o ran swyddogaeth, graddfa a chysylltedd, ond a adeiladwyd gan ddefnyddio manylebau a dulliau modern; a
- adeiladu ar unwaith ar safle maes gwyrdd.

Er mwyn cyrraedd prisiad terfynol y DRC, addasir y gwerth amnewid gros i adlewyrchu amcangyfrif gorau'r rheolwyr o fywydau defnyddiol yr asedau sy'n weddill, gan ystyried cyflwr a chapasiti'r Rhwydwaith. Rhaid i brisiad llawn ddigwydd o leiaf bob pum mlynedd, gyda mynegeion mewnbwn yn cael eu cymhwyso i restr brisiau safonol o gydrannau'r Rhwydwaith mewn cyfnodau interim. Mae angen defnyddio crebwyll i bennu natur ased cyfatebol modern a chyflwr presennol yr asedau.

Mae prisiad Asedau Cyfwerth Modern yn defnyddio 'cydrannau' amlroddadwy sydd wedi'u hagregu i ffurfio'r rhwydwaith. Y cydrannau dan sylw yw:

- Gwrthgloddiau
- Strwythurau
- Trydaneiddio, cyfarpar a signalau
- Eiddo gweithredol
- Traciau
- Telegyfathrebu

Caiff yr holl waith cynnal a chadw sy'n cadw potensial gwasanaeth y rhwydwaith ffyrdd ei gyfalafu. Mae gwariant olynol sy'n ychwanegu at wasanaeth neu oes y rhwydwaith ffyrdd yn cael ei gyfalafu.

Cynhwysir gwelliannau ac adnewyddu'r ased CVL fel un swm ar gost fel asedau sy'n cael eu hadeiladu, hyd nes y cânt eu defnyddio, pryd y caiff yr ased ei drosglwyddo i gategori'r Rhwydwaith Rheilffyrdd a'i brisio yn ôl DRC.

Cymerir symudiadau ar i fyny o ran gwerth i'r gronfa ailbrisiadau. Mae symudiadau ar i lawr o ran gwerth yn cael eu gosod yn erbyn unrhyw falans credyd a ddelir yn y gronfa ailbrisiadau nes i'r credyd ddod i ben a chânt eu gosod fel traul wedyn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## Technoleg Gwybodaeth a Gosodiadau a Ffitiadau

Mae technoleg gwybodaeth a gosodiadau a ffitiadau (sy'n cynnwys cerbydau, offer a chyfarpar), ar gost hanesyddol. Gan mai oes ddefnyddiol fer sydd i'r dosbarthiadau hyn o asedau, dim ond am gost ormodol y gellid cael ailbrisiadau dibynadwy o'r asedau hyn. Ni ddefnyddir unrhyw dechnegau amcangyfrif arwyddocaol wrth brisio'r dosbarthiadau hyn o asedau.

Y lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau unigol ac asedau wedi'u grwpio yw £5,000.

### Asedau Treftadaeth

Mae Llywodraeth Cymru'n dal nifer o asedau treftadaeth anweithredol lle mae'r gwerth diwylliannol, addysgol a hanesyddol yn annhebygol o gael ei adlewyrchu'n llawn mewn gwerth ariannol sy'n deillio o fecanwaith neu bris y farchnad. Mae'r asedau hyn yn arbenigol eu natur a naill ai ni ellir sicrhau prisiadau dibynadwy neu ni ellid eu sicrhau ond am gost ormodol. Nid yw Llywodraeth Cymru, felly, yn cyfalafu'r asedau hyn yn y cyfrifon.

## A.2 Dibrisiant

### Y Rhwydwaith Ffyrdd

Mae'r gost dibrisiant ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd yn cynnwys tair elfen:

i. tâl cynnal a chadw blynyddol;

ii. amcangyfrif o ddirywiad parhaol yng nghyflwr y rhwydwaith yn y flwyddyn (a gyfrifwyd gan y model cyfrifiadur ar sail y data diweddaraf am gyflwr y rhwydwaith y cyfeirir ato yn y nodyn asedau nad ydynt yn gyfredol uchod;

iii. dibrisiant wedi'i gyfrifo o'r strwythurau a chyfathrebu.

Cyfrifir am ddibrisiant mewn perthynas â'r palmant ffordd trwy gyfeirio at y potensial gwasanaeth a asesir gan arolygon cyflwr a gyflawnir dros y rhwydwaith cyfan fel rhan o raglen dreigl sy'n cwmpasu pob darn o'r ffordd bob pum mlynedd. Y gost dibrisiant flynyddol ar gyfer arwynebedd y ffordd yw gwerth y potensial gwasanaeth a ddisodlwyd trwy'r rhaglen cynnal a chadw, plws neu lai unrhyw addasiad sy'n deillio o'r arolwg cyflwr blynyddol. Mae'r elfennau Strwythurau a Chyfathrebu'n cael eu dibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth sy'n cael ei gymhwyso i'r costau adnewyddu wedi'u hailbrisio, a hefyd yn cael eu harchwilio bob pum mlynedd i nodi unrhyw newidiadau eraill. Nid yw tir yn cael ei ddibrisio.

Dangosir oes yn cydrannau ffyrdd yr amrediadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Arwynebedd y rhwydwaith | hyd at 50 o flynyddoedd |
| Strwythurau'r rhwydwaith | 20 i 120 o flynyddoedd |
| Cyfathrebu'r rhwydwaithn | 2 i 15 o flynyddoedd |
| Tir | Nid yw tir yn cael ei ddibrisio |

## Y Rhwydwaith Rheilffyrdd

Mae cydrannau'r rhwydwaith rheilffyrdd yn cael eu dibrisio dros eu bywydau economaidd defnyddiol sy'n weddill; mae'r rhain fel arfer yn gyfartaleddau wedi'u pwysoli ar gyfer ystod o gydrannau, o ystyried cymhlethdod y strwythurau hyn. Crynhoir y cyfartaleddau wedi'u pwysoli isod.

| | |
|---|---|
| Gwrthgloddiau | 98 o flynyddoedd |
| Strwythurau | 60 o flynyddoedd |
| Signalau a Phŵer | 27 o flynyddoedd |
| Eiddo Gweithredol | 32 o flynyddoedd |
| Traciau | 18 o flynyddoedd |
| Telegyfathrebu | 9 o flynyddoedd |

Mae hon yn farn feirniadol sy'n seiliedig ar y data sydd ar gael, mae angen barn ofalus mewn rhai achosion, yn enwedig ar gyfer cydrannau nad ydynt yn cael eu hadnewyddu'n aml, megis strwythurau a gwrthgloddiau. Mae rhai cydrannau'n gallu cael oes hir iawn; fodd bynnag ar gyfer y prisiad hwn, mae'r oes yn cael ei chapio ar 100 mlynedd oherwydd ansicrwydd cynhenid y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw.

Adolygir dulliau dibrisiant, oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol ar ddyddiad pob datganiad o sefyllfa ariannol.

## Asedau Eraill

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifir i ddileu gwerth asedau nad ydynt yn ddiriaethol ac eiddo arall, asedau eiddo, offer a chyfarpar trwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol a amcangyfrifir.

| | |
|---|---|
| Tir ac adeiladau lesddaliadol: | Gweddill oes |
| Anheddau: | Gweddill oes |
| Adeiladau rhydd-ddaliad: | hyd at 85 o flynyddoedd |
| Technoleg Gwybodaeth: | 3 i 10 o flynyddoedd |
| Asedau meddalwedd anniriaethol: | 2 i 10 o flynyddoedd |
| Gosodiadau a ffitiadau: | 3 i 20 o flynyddoedd |

Nid yw tir rhydd-ddaliadol ac asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio.

Mae amhariadau asedau sefydlog diriaethol yn cael eu cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn codi.

## A.3 Ymchwil a Datblygu

Mae gwariant ymchwil a datblygu yn cael ei gynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y mae'n codi, ac eithrio pan fo'n perthyn i brosiect pendant a lle gellir barnu'n rhesymol bod y buddion yn sicr. Mae'r gwariant sy'n cael ei ohirio'n cael ei gyfyngu i werth buddion a ddisgwylir yn y dyfodol ac mae'n cael ei amorteiddio trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail systematig dros y cyfnod y disgwylir elwa ar y prosiect.

## A.4 Asedau ariannol

### Benthyciadau a Chyllid ad-daladwy

Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi benthyciadau a chyllid ad-daladwy i gwmnïau grŵp (e.e. Banc Datblygu Cymru), cyrff eraill y sector cyhoeddus a chwmnïau'r sector preifat at ddibenion datblygu economaidd neu amcanion gweithredu polisi. Delir yr asedau ariannol hyn at ddibenion casglu taliadau contractiol y prifswm ac unrhyw log sydd i'w godi, ac fe'u delir yn ôl cost wedi'i hamorteiddio yn unol ag IFRS 9.

Mae benthyciadau Cymorth i Brynu – Cymru yn fenthyciadau ecwiti a rennir ac fe'u delir yn ôl gwerth teg trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn unol ag IFRS 9.

### Cyfalaf Difidend Cyhoeddus

Delir Cyfalaf Difidend Cyhoeddus ar gost hanesyddol llai amhariadau yn unol â dehongliad FReM o IFRS 9.

### Buddsoddiadau

Delir buddsoddiadau yn endidau grŵp is-gwmnïau ar gost yng Nghyfrif Llywodraeth Cymru yn unol ag IAS 27. Delir buddsoddiadau mewn cyd-fentrau ar werth teg.

Cyfrifir am fenthyciadau a buddsoddiadau ecwiti a wneir gan Fanc Datblygu Cymru yn unol ag IRS 9 lle mae offerynnau dyled a ddelir i gasglu taliadau contractiol y prifswm a'r llog yn cael eu dal yn ôl cost wedi'i hamorteiddio a delir buddsoddiadau ecwiti yn ôl gwerth teg trwy Elw a Cholled. Nodir manylion llawn polisïau cyfrifyddu Banc Datblygu Cymru ar gyfer asedau ariannol gan gynnwys colledion credyd disgwyliedig yn eu Hadroddiad Blynyddol a'u Cyfrifon.

### Benthyciadau i Fyfyrwyr

Polisi cyfrifyddu Llywodraeth Cymru yw cydnabod ychwanegiad at y llyfr benthyciadau myfyrwyr pan fydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) wedi rhoi'r benthyciad i'r myfyriwr. Cesglir ad-daliadau benthyciadau gan SLC a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM). Yn achos ad-daliadau a wneir trwy SLC, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y taliad pan fydd SLC wedi cael yr arian parod a diweddaru cofnod y benthyciwr. Yn achos ad-daliadau a gesglir trwy'r system drethi, cydnabyddir hyn pan ddaw'r symiau sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru am y flwyddyn ariannol yn ôl amcangyfrif CThEM i law. Dangosir gwerthoedd benthyciadau i fyfyrwyr yn net o ddiddymiadau a amcangyfrifir yn y dyfodol ac maent yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Yn unol â'r ffordd y mae FReM yn cymhwyso IFRS 9, mae benthyciadau i fyfyrwyr yn cael eu categoreiddio fel benthyciadau a symiau derbyniadwy ac yn cael eu cario yn ôl gwerth teg trwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Nodir esboniad manwl o'r dull gweithredu ar gyfer prisio yn Nodyn 6. Nodir datgeliadau sy'n ymwneud â risg, sy'n ofynnol o dan IFRS 7, ym Mholisi Cyfrifyddu A.15.

### Asedau anghyfredol

Dynodir asedau nad ydynt yn gyfredol fel rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu os caiff eu swm cario ei adfer trwy ei werthu yn hytrach na defnydd parhaus. Bernir bod yr amod hwn yn cael ei fodloni yn unig pan fydd y gwerthiant yn debygol iawn a bod yr ased ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol. Rhaid i'r rheolwyr ymrwymo i'r gwerthiant a dylid disgwyl cwblhau hyn cyn pen un flwyddyn i ddyddiad y dosbarthiad.

Mae asedau nad ydynt yn gyfredol sy'n cael eu dal i'w gwerthu'n cael eu mesur ar lefel isaf swm cario a gwerth teg, llai costau i werthu.

## A.5 Stocrestri

Mae asedau datblygu, gan gynnwys tir a ddelir i'w ddatblygu yn y dyfodol ac eiddo adeiledig nad oes mo'i angen at eu defnydd eu hunain, a ddelir gyda'r bwriad o'u hailwerthu yn y pen draw, yn cael eu dangos ar lefel isaf cost hanesyddol a phrisio asedau proffesiynol, gan ddileu unrhyw amhariad adeg ailbrisio i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae gwrthdroi perthnasol yn achos amhariadau blynyddoedd blaenorol yn cael ei ddileu i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr os oes tystiolaeth bresennol o gynnydd mewn gwerth yn deillio o wariant blynyddoedd blaenorol.

Mae stocrestrau eraill yn cael eu prisio ar lefel isaf cost adnewyddu a gwerth gwireddadwy net. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod gwahaniaeth o sylwedd rhwng y gost adnewyddu a chost hanesyddol stociau. Mae stociau sydd ag oes economaidd ddefnyddiol gyfyngedig yn cael eu dileu ar ddiwedd eu hoes.

## A.6 Incwm Gweithredol

Mae Incwm gweithredol yn cyfeirio'n uniongyrchol at weithgareddau gweithredol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cysylltiedig. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru IFRS 15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid o 1 Ebrill 2018. Mae IFRS 15 yn cyflwyno model pum cam newydd ar gyfer cydnabod refeniw o gontractau â chwsmeriaid. Cyfrifwyd am holl refeniw Llywodraeth Cymru sy'n dod o fewn cwmpas y safon hon, yn unol ag ef.

Mae refeniw o'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â rhaglenni, cronfeydd a mentrau Ewropeaidd yn cael ei ddwyn i gyfrif yn unol â grantiau sy'n daladwy ac fe'i dangosir yn Nodyn 2. Mae'r cronfeydd yn cael eu talu i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae'r cronfeydd hyn wedyn yn cael eu trosglwyddo i'r adran berthnasol yn Llywodraeth Cymru ac fe gyfrifir amdanynt yn Nodyn 3.

## A.7 Treth ar Werth (TAW)

Mae Llywodraeth Cymru'n adennill rhai elfennau ar TAW ar gyfer gwasanaethau busnes a gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan. Yn achos gwariant arall ar nwyddau a gwasanaethau cofnodir y rhain yn gynhwysol o TAW.

## A.8 Pensiynau

Caiff y mwyafrif o gyflogeion presennol a blaenorol Llywodraeth Cymru eu cynnwys yn narpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PSPCS) a ddisgrifir yn yr Adroddiad Atebolrwydd. Nid yw elfennau buddion diffiniedig y cynllun yn cael eu hariannu. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod y mae'n elwa ar wasanaethau cyflogeion trwy dalu i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) symiau a gyfrifir ar sail gronnus. Mae rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn gost i PCSPS. O ran y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn. Cydnabyddir yr holl enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau profiadau a newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraidd trwy gronfeydd yn y cyfnod y maent yn codi.

Mae rhai o gyn-staff Awdurdod Datblygu Cymru, staff presennol Banc Datblygu Cymru a staff Dewis Gyrfa yn cymryd rhan mewn nifer o Gynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru sy'n gynlluniau a ariennir gan aml-gyflogwr.

Mae rhai o staff Llywodraeth Cymru'n cyfrannu at: Department of Health and the Nurses Welfare Trust.

Mae cyflogeion Byrddau Iechyd Lleol yn cymryd rhan yng nghynllun pensiwn y GIG. Mae gwybodaeth am y cynllun hwn i'w gweld yng Nghyfrifon Cryno'r GIG.

## A.9 Costau ymadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru dalu cost ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion PCSPS arferol mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu yn llawn am y gost hon pan fo'r rhaglen ymddeoliad cynnar wedi'i gyhoeddi ac mae'n rhwymo. Caiff Llywodraeth Cymru, o dan rai amgylchiadau, setlo rhywfaint neu'r cyfan o'i rhwymedigaeth ymlaen llaw trwy wneud taliad i Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth ym Manc Lloegr i gredydu Pleidlais Blwydd-daliadau Sifil. Mae trefniadau tebyg yn bodoli ar gyfer cyflogeion Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG sy'n ymddeol yn gynnar.

Ar gyfer cyflogeion cyn uno a chyn-weithwyr yr hen Awdurdod Datblygu Cymru yng Nghynllun Pensiwn Rhondda Cynon Taf, mae Llywodraeth Cymru'n talu cost ychwanegol buddion y cynllun mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar.

## A.10 Prydlesau gweithredol

Codir gwariant ar brydlesau gweithredol heb eu cyfalafu, gan gynnwys tir ac adeiladau, yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y mae'n ymwneud ag ef.

## A.11 Grantiau

Cofnodir grantiau sy'n daladwy fel gwariant yn y cyfnod y mae'r digwyddiad neu'r gweithgaredd sy'n rhoi hawl i'r grant yn digwydd.

## A.12 Y Fenter Cyllid Preifat/Trafodiadau'r Sector Cyhoeddus neu Breifat

Mae Trysorlys Ei Mawrhydi wedi penderfynu y bydd rhaid i gyrff y Llywodraeth gyfrif am gynlluniau PFI seilwaith lle mae corff y Llywodraeth yn rheoli'r defnydd o'r seilwaith a'r buddiant gweddilliol yn y seilwaith ar ddiwedd y trefniant fel trefniadau consesiwn gwasanaeth, gan ddilyn egwyddorion gofynion IFRIC 12. Mae ased PFI yn cael ei gydnabod fel eitem o eiddo, offer a chyfarpar ynghyd â rhwymedigaeth i dalu amdano. Mae'r gwasanaethau a dderbynnir o dan y contract yn cael eu cofnodi fel treuliau gweithredol.

Mae'r taliad unedol blynyddol yn cael ei rannu i'r cydrannau canlynol, gan ddefnyddio technegau amcangyfrif priodol lle bo angen:

a) Taliad am werth teg y gwasanaethau a dderbynnir;

b) Taliad am yr ased PFI, gan gynnwys costau cyllid;

c) Talu am amnewid cydrannau'r ased yn ystod 'amnewid cylch bywyd' y contract.

Cofnodir gwerth teg gwasanaethau a dderbynnir yn y flwyddyn o dan y penawdau gwariant perthnasol o fewn costau rhaglenni'.

Cydnabyddir yr asedau PFI fel eiddo, offer a chyfarpar, pan ddechreuir eu defnyddio. Mae'r asedau'n cael eu mesur i ddechrau yn ôl gwerth teg yn unol ag egwyddorion IAS 17. Wedyn, mae'r asedau'n cael eu mesur yn ôl gwerth teg, sy'n cael ei ddiweddaru yn unol ag egwyddorion IAS 16.

Cydnabyddir y rhwymedigaeth PFI ar yr un pryd â'r ased PFI. Mae hyn yn cael ei fesur ar yr un swm â gwerth teg yr asedau PFI ac yn cael ei fesur o ganlyniad fel prydles gyllid yn unol ag IAS 17. Cyfrifir cost ariannu flynyddol trwy gymhwyso'r gyfradd llog ymhlyg yn y brydles i rwymedigaeth y brydles weithredol am y cyfnod ac mae'n cael ei chodi ar incwm. Mae'r elfen o'r taliad unedol blynyddol sy'n cael ei dyrannu fel rhentiad prydles cyllid yn cael ei chymhwyso i dalu'r gost ariannu flynyddol ac i ad-dalu rhwymedigaeth y brydles dros dymor y contract.

## A.13 Enillion a Cholledion y Gyfradd Gyfnewid

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn gofyn am gyllid rhaglenni oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd ar lefel yr Ewro sy'n cyfateb i'r sterling y mae ei angen ac yn talu cronfeydd allan wedyn mewn sterling. Mae elw neu golled ar y trafodiadau hyn yn cael ei chyfrifo yn unol ag IAS 21.

Mae trafodiadau eraill mewn arian cyfredol tramor yn cael eu trosi'n sterling yn ôl y gyfradd sydd mewn grym ar y dyddiad hwnnw. Cymerir gwahaniaethau cyfnewid i ystyriaeth yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## A.14 Darpariaethau

Yn unol ag IAS 37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol, ac Asedau Digwyddiadol, gwneir darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau ar ddiwedd y flwyddyn lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol bresennol yn bodoli (hy rhwymedigaeth bresennol neu'n deillio o ddigwyddiadau blaenorol), mae all-lif adnoddau y bydd eu hangen i setlo'r rhwymedigaeth yn debygol ac mae modd gwneud amcangyfrif rhesymol o'r rhwymedigaeth.

Lle mae gwerth arian o ran amser yn berthnasol, mae darpariaethau'n cael eu disgowntio i'r gwerth presennol gan ddefnyddio amser darpariaethau disgownt Trysorlys Ei Mawrhydi.

## A.15 Offerynnau Ariannol

Mae IFRS 7 yn ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth sy'n caniatáu i'r defnyddiwr werthuso arwyddocâd offerynnau ariannol ar berfformiad ariannol, a natur a graddau ei gysylltiad â risgiau allweddol sy'n deillio o offerynnau ariannol.

Gan fod y mwyafrif o adnoddau Llywodraeth Cymru yn cael eu talu gan Gronfa Gyfunol Cymru, mae i offerynnau ariannol rôl fwy cyfyngedig wrth greu risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg nad yw'n gorff y sector cyhoeddus.

### Risg Credyd

Amcan Llywodraeth Cymru yw adfer dyled yn llawn, ac rydym yn mynd ar drywydd hynny yn weithgar. Y polisi yw defnyddio gweithdrefnau rheoli credyd arferol ar gyfer rheoli'r risg o ddiffygdaliad gan ddyledwyr masnach trwy swyddogaeth Cyfrifon Derbyniadwy. Oherwydd natur a gwerth dyledwyr bernir mai bach iawn yw'r risg credyd cysylltiedig. Cyflwynodd IFRS 9 fodel blaengar o'r credyd y disgwylir ei golli, a dull gweithredu tri cham o ran darparu ar gyfer dyledion. Oherwydd y risg credyd isel, mae'r colledion credyd a ddisgwylir o dan gamau 1 a 2 i Lywodraeth Cymru'n amherthnasol. Gwneir darpariaethau cam 3 ar gyfer dyledion amheus pan fydd dyledion dros 6 mis oed.

Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i roi benthyciadau i fyfyrwyr, ac ni chaniateir iddi ddal benthyciadau yn ôl ar sail statws credyd gwael. Mae dod i gysylltiad â'r risg o beidio ag ad-dalu benthyciadau'n cael ei fonitro a chyfrifir am yr effaith trwy adolygiad lleihadau blynyddol.

## Risg i'r Farchnad

Y prif risgiau yw i'r portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr yn sgil symudiad ar i lawr yn yr economi a allai arwain at gynnydd yn niweithdra benthycwyr, gan effeithio ar eu gallu i ad-dalu benthyciadau myfyrwyr. Effeithir ar fenthyciadau i fyfyrwyr hefyd oherwydd yr effaith negyddol bosibl wedyn ar dwf enillion graddedigion, sy'n ymestyn y cyfnod amser cyn i fenthyciadau gael eu had-dalu ac yn ymestyn y cyfnod ad-dalu. Gallai hyn effeithio ar y gwerth cario yn y cyfrifon. Gallai arwain hefyd ar gynnydd mewn diddymiadau gan ei fod yn cynyddu'r debygoliaeth na fydd rhai graddedigion o bosibl yn ad-dalu eu benthyciadau'n llawn erbyn diwedd cyfnod y benthyciad.

## Risg Arian Cyfred Tramor

Mae Llywodraeth Cymru'n agored i risg arian cyfred bach iawn ar ei thrafodiadau ym maes arian cyfred tramor, ac eithrio cyllid a ddaw i law oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Nid yw dewisiadau lliniaru'r sector preifat ar gael. Er hynny, mae cyfanswm y cyllid a ddaw i law oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd yn cael ei reoli er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddyrannu'n hyblyg i brosiectau, gan alluogi lefelau gwariant wedi'u targedu i gael eu bodloni. Mae hawliadau cyllid oddi wrth y Comisiwn hefyd yn brydlon i gyfyngu ar oedi rhwng tynnu gwariant a'i ad-dalu.

## Risg Cyfradd Llog

Asedau ariannol cyfradd amrywiadwy Llywodraeth Cymru yn bennaf yw ei benthyciadau i fyfyrwyr sydd â chap cyfradd llog a bennir yn RPI neu gyfradd sylfaenol Banc Lloegr plws 1%. Y gyfradd llog ar fenthyciadau cyn 2012 yw'r isaf o RPI a chyfradd sylfaenol Banc Lloegr plws 1%. Mae faint o log sydd i'w ad-dalu felly'n destun yn dibynnu ar yr amrywiadau yn y gyfradd sylfaenol ac RPI. Mae'r tebygolrwydd y bydd Llywodraeth Cymru'n adennill gwerth enwol benthyciadau a roddir yn cael ei gynyddu pan fydd cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn isel a'r gyfradd chwyddiant yn gymharol uchel, am fod y gyfradd sylfaenol yn dod i rym ar gyfer y benthyciadau hyn. Mae effaith risg y gyfradd llog ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr a roddir o dan gynllun cyn 2012 yn cael ei ffactora i mewn i'r gwerth cario gan fod y model ad-dalu benthyciad i fyfyrwyr yn cyfrifo effaith cyfradd llog ar lifoedd arian parod a ddisgwylir. Mae risg ynghlwm wrth ragamcanu faint o log sy'n daladwy ac os ceir cyfraddau sylfaenol sy'n is nag RPI, amherir ymhellach ar lifoedd arian parod y dyfodol.

## Risg Hylifedd

Nid yw Llywodraeth Cymru yn benthyca ond oddi wrth y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol, ac mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid a ddaw i law oddi wrth y Senedd trwy Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer ei gofynion arian parod. Nid oes rheswm dros gredu na fydd cyllid ar gael yn y dyfodol, felly ar y sail hon nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd nid oes ganddi adneuon sylweddol, ac mae'r holl asedau a rhwymedigaethau sylweddol wedi'u henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg cyfradd arian cyfred heblaw'r risgiau sy'n deillio o dderbyn cronfeydd oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd mewn Ewros.

## A.16 Safonau cyfrifyddu newydd eu cyhoeddi nad ydynt mewn grym eto

Mae nifer o safonau a dehongliadau diwygiedig a newydd wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt mewn grym eto ac nid ydynt wedi cael eu mabwysiadu eto yn y cyfrifon hyn, gan eu bod yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gan y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB) i'w cynnwys mewn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) yn y dyfodol.

Dyma'r safonau a allai effeithio ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol os cânt eu mabwysiadu:

**IFRS 16 Prydlesau** – daeth i rym ar 1 Ionawr 2019.

Mae IFRS 16 Prydlesau yn disodli IAS 17 Prydlesau ac yn darparu un model cyfrifyddu prydlesai sy'n ei gwneud yn ofynnol i brydlesai gydnabod asedau a rhwymedigaethau 'hawl i ddefnyddio' ar gyfer prydlesau sydd â thymor mwy na 12 mis, oni bai bod y gwerth asedau sylfaenol o werth isel.

Oherwydd effaith COVID-19, cytunodd Trysorlys EM â'r FRAB i ohirio gweithredu IFRS 16 mewn llywodraeth ganolog tan 1 Ebrill 2022. Mae hyn yn ohiriad o ddwy flynedd o'r dyddiad cychwynnol pan ddaeth i rym, sef 1 Ebrill 2020.

**IFRS 17 Contractau Yswirant** – daw i rym ar 1 Ebrill 2023

Mae'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) wedi cyhoeddi IFRS 17 (Contractau Yswiriant) sy'n disodli IFRS 4 (Contractau Yswiriant). Mae'r safon newydd yn gosod disgwyliadau cliriach ar gydnabod, dosbarthu a mesur asedau a rhwymedigaethau mewn perthynas â chontractau yswiriant. Disgwylir iddo fod yn effeithiol ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2023, yn dilyn penderfyniadau IASB i ohirio'r dyddiad dod i rym.

Nid oes canllawiau wedi'u cyhoeddi eto i adrannau'r llywodraeth ar ddehongli'r safon hon.